

Pecyn Cyhoeddus



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

Dydd Iau, 2 Rhagfyr 2021

SYLWCH: Fe fydd y cyfarfod hwn gael ei ddarlledu'n fyw ar safle Facebook y Cyngor. Hefyd gallai'r lluniau a'r sain a recordir gael eu defnyddio at ddibenion hyfforddi yn y Cyngor.

Ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a fydd y cyfan neu ran o'r cyfarfod yn cael ei ddarlledu ai peidio.

Annwyl Syr / Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Cyngor o bell trwy fideo-gynghedledda, ar Dydd Iau, 9 Rhagfyr 2021 am 10.00 am, i drafod y materion canlynol:

1. Ymddiheuriadau
2. Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu
3. Materion Personol
4. Diweddariad ar lafar gan Arweinydd y Cyngor parthed COVID-19
5. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2021 (Tudalennau 3 - 8)
6. Rhybydd o Gynnig (Tudalennau 9 - 10)
7. Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu (a Swyddog Monitro) ar apwyntio 3 unigolyn/aelod annibynnol/lleyg i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (Tudalennau 11 - 14)
8. Ystyried Adroddiad y Prif Weithredwr a'r Swyddog Canlyniadau ar Ffioedd ar gyfer Etholiadau'r Cyngor Sir a'r Cynghorau Tref . Cymuned i'w cynnal 5ed Mai 2022 (Tudalennau 15 - 18)
9. Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Economi ac Adfywio ar Adroddiadau Adolygu Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol 2019-2020 and 2020-2021 (Tudalennau 19 - 350)
10. Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhedd ar Adroddiad Blynyddol Canmoliaeth, Cwynion a Cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth 2020/2021 (Tudalennau 351 - 382)

**11. Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol
Gwasanaethau Democrataidd ar Adroddiad Blynyddol Trosolwg a
Chraffu 2020/2021 (Tudalennau 383 - 418)**

Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.

Yn gywir



Miss Lowri Edwards

Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

**At: Gadeirydd ac Aelodau Cyngor
Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

**Cofnodion Cyfarfod CYNGOR SIR CEREDIGION
a gynhaliwyd o bell drwy fideo-gynadledda
ddydd Iau, 25ain Tachwedd, 2021**

YN BRESENNOL: Cynghorydd Paul Hinge (Cadeirydd), Y Cynghorwyr John Adams-Lewis, Ellen ap Gwynn, Ceredig Davies, Clive Davies, Euros Davies, Gareth Davies, Gethin Davies, Ifan Davies, Marc Davies, Meirion Davies, Odwyn Davies, Peter Davies, Steve Davies, Dafydd Edwards, Endaf Edwards, Lloyd Edwards, Elizabeth Evans, Keith Evans, Rhodri Evans, Catherine Hughes, Gwyn James, Alun Lloyd Jones, Matthew Woolfall Jones, Gareth Lloyd, Lyndon Lloyd MBE, Dai Mason, Catrin Miles, Dan Potter, Ray Quant MBE, John Roberts, Lynford Thomas, Wyn Thomas ac Ivor Williams.

(2.00 - 3.10pm)

Gweithdrefn

Croesawodd Cadeirdd y Cyngor, y Cynghorydd Paul Hinge, bawb i'r cyfarfod a chadarnhaodd fod y cyfarfod yn cael ei weddarlledu.

1 Ymddiheuriadau

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Bryan Davies, Rhodri Davies, Elaine Evans, Hag Harris, Maldwyn Lewis, Rowland Rees-Evans a Mark Strong am nad oedd modd iddynt fod yn bresennol yn y cyfarfod.

Ymddiheurodd y Cynghorydd Alun Williams am nad oedd modd iddo fod yn bresennol am ei fod yn cyflawni dyletswyddau eraill ar ran y Cyngor.

Ymddiheurodd y Cynghorydd Rhodri Evans oherwydd byddai'n ymuno â'r cyfarfod yn hwyrach.

2 Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol na buddiant sy'n rhagfarnu.

3 Materion Personol

a) Talodd y Cynghorydd Ray Quant deyrnged i bawb a fu'n rhan o'r ymgyrch i newid y penderfyniad i israddio'r bad achub yng Ngheinewydd, gan nodi y bydd bad achub bob tywydd ar gael bellach yng Ngheinewydd yn dilyn adolygiad. Nododd y Cynghorydd Dan Potter, sydd hefyd yn llywiwr ar fad achub Ceinewydd, bwysigrwydd yr orsaf hon. Diolchodd i griw'r bad achub a'r gorsafoedd cyfagos a gefnogodd yr ymgyrch hon a thraddodiad mwyaf yr RNLI, sef achub bywydau ar y môr. Hefyd dywedodd y Cynghorydd Elizabeth Evans fod rhoi Cynnig gerbron y Cyngor, a chefnogaeth unfrydol yr Aelodau iddo, wedi arwain at weld yr RNLI yn 'newid gêr' yn bendant gan ddangos pa mor effeithiol yw dod â chynigion o'r fath gerbron y Cyngor;

b) Estynnodd y Cynghorydd Euros Davies ei longyfarchiadau i Glybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion ar Eisteddfod lwyddiannus ym Mhafiliwn Bont ac i bawb a enillodd yn y gwahanol gategoriâu gan gynnwys Llanwenog a enillodd y wobr gyntaf, Pontsiân a ddaeth yn ail a chlwb Troedyr aur a ddaeth yn drydydd. Twm Ebbsworth enillodd Coron yr Eisteddfod ac Ianto Jones enillodd y Gadair. Aeth Ianto Jones ymlaen i ennill y Gadair dros Gymru gyfan a daeth Twm Ebbsworth yn ail yn y Goron dros Gymru gyfan;

c) Estynnodd y Cynghorydd Euros Davies ei longyfarchiadau i Eluned Jones ar ennill y Goron ac Martha Evans ar ennill y Gadair yn Eisteddfod

Tudalen 4

Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gâr.

- d) Estynnodd y Cynghorydd Euros Davies ei longyfarchiadau i'r Clybiau Ffermwyr Ifanc ar gael Diwrnod Maes llwyddiannus, a enillwyd gan Glwb Ffermwyr Ifanc Llangwryfon. Dymunodd yn dda i bawb a fydd yn mynd ymlaen i'r rownd nesaf yn y Ffair Aeaf.
- e) Estynnodd y Cynghorydd Euros Davies ei longyfarchiadau i Dai Thomas o Lanwnnen ar ennill y bustach gorau yn y Ffair Aeaf yn Lloegr, ac i bawb arall a oedd yn llwyddiannus;
- f) Estynnodd y Cynghorydd Meirion Davies ei longyfarchiadau i Glwb Ffermwyr Ifanc Llangwryfon ar ennill yn y Diwrnod Maes am y seithfed flwyddyn yn olynol, a hynny ar fferm Trawsgoed yn ei Ward;
- g) Estynnodd y Cynghorydd Lyndon Lloyd MBE ei longyfarchiadau i Eluned Jones ar ddatlu ei phen-blwydd yn 102;
- h) Nododd y Cynghorydd John Adams-Lewis fod y gwaith ar y ffordd yn Ystâd Brynhafod bellach wedi'i gwblhau yn sgil cynllun gan Lywodraeth Cymru, a diolchodd i'r Swyddogion am eu cefnogaeth;
- i) Dymunodd y Prif Weithredwr Eifion Evans yn dda i Caroline Lewis, Cyfarwyddwr Corfforaethol, ar ei hymddeoliad a diolchodd iddi am ei gwaith dros y pymtheg mlynedd diwethaf, yn enwedig ei chyfraniad dros y deuddeg mis diwethaf wrth hyrwyddo'r Strategaeth Gydol Oes a Llesiant. Ategwyd y diolch gan y Cynghorydd Ellen ap Gwynn;
- j) Dymunodd y Cynghorydd Elizabeth Evans yn dda i Amanda Roberts, Rheolwr Corfforaethol Archwilio Mewnol ar ei hymddeoliad a diolchodd iddi am ei gwaith dros y 36 mlynedd diwethaf yn cefnogi ac yn rhoi hyder i'r Pwyllgor Archwilio. Ategwyd y diolch gan y Cynghorydd Ellen ap Gwynn;
- k) Estynnodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn ei llongyfarchiadau i Elgan Evans o Dalybont ar ennill gyda'r gwartheg duon a'r bridiau cynhenid yn y Ffair Aeaf yn Lloegr.

4 Diweddariad ar lafar gan Arweinydd y Cyngor parthed COVID-19

Rhoddodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn ddiweddariad ar lafar ynghylch COVID-19 yng Ngheredigion. Nododd fod cyfanswm o 6,330 o achosion wedi'u cofnodi yng Ngheredigion. Mae mwy o achosion yn awr nag ar ddechrau'r pandemig, ond maen nhw'n dechrau gostwng.

Mae'r gyfradd heintio wythnosol bresennol ar gyfer Ceredigion yn 266.9 am bob can mil gyda chyfradd positif o 12.6%, o'i gymharu â Chymru gyfan, sef 499.9 a chyfradd positif o 19%. Ar lefel leol, yn ystod y cyfnod rhwng 14 ac 20 Tachwedd roedd y gyfradd heintio yn 450.6 am bob can mil yn Aberteifi ac Aberporth, gyda 40 o achosion; 270.6 achos am bob can mil yn Beulah, Troed-yr-aur a Llandysul gydag 20 o achosion; 502.1 o achosion am bob can mil yng Ngheinewydd a Phenbryn gyda 33 o achosion; 157.7 achos am bob can mil yn Llanbedr Pont Steffan a Llanfihangel Ystrad gyda 13 achos; 338.2 achos am bob can mil yn Aberaeron a Llanrhystud gyda 24 o achosion; 147.2 achos am bob can mil yn Rheidol, Ystwyth a Charon gydag 17 o achosion; 328.7 achos am bob can mil yn Ne Aberystwyth gyda 22 achos; 113.2 achos am bob can mil yng Ngogledd Aberystwyth gyda 10 achos; a 210.6 achos am bob can mil yn y Borth a Bont-goch gyda 15 achos. Atgoffwyd pawb fod angen bod yn ofalus o hyd.

Tudalen 5

Nodwyd bod dau achos o COVID-19 yn Ysbyty Bronglais, 29 yn Ysbyty Glangwili, 5 yn Ysbyty'r Tywysog Philip a 12 yn Ysbyty Llwynhelyg a bod y niferoedd hefyd yn disgyn yn ôl pob golwg ym mhob un o ysbytai ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae tri o gartrefi gofal y Cyngor wedi'u rhoi yn y categori coch oherwydd yr achosion o COVID-19 ymhlith y staff, ac mae tri wedi'u rhoi yn y categori melyn, oherwydd bod un aelod o staff wedi profi'n positif.

Gwelwyd cynnydd mewn achosion yn yr ysgolion yn dilyn hanner tymor, ond mae'r rhain gryn dipyn yn is yn awr a'r gobaith yw y byddant yn parhau i ostwng rhwng nawr a gwyliau'r Nadolig.

Mae'r canolfannau gwastraff bellach yn gweithio yn ôl yr arfer ac mae trefniadau clicio a chasglu ar waith o hyd yn ein llyfrgelloedd. Bydd hyn yn cael ei adolygu yn y Flwyddyn Newydd.

Mae gwaith yn mynd rhagddo yng Nghanolfan Hamdden Plascrug, Canolfan Hamdden Aberteifi a Phwll Nofio Llanbedr Pont Steffan. Mae'r gwaith wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl, ac rydym yn ymddiheuro am unrhyw anghyfleustra a achosir.

Mae'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff o dan oruchwyliaeth feddygol, a fu'n cwrdd ar-lein, yn mynd i ddechrau cwrdd wyneb yn wyneb a chynghorir y cyhoedd i fwrw golwg ar Gynllun Ffordd Ymlaen Ceredigion i gael y diweddaraf am y newidiadau o ran gwasanaethau.

5 Cofnodion Cyfarfodydd y Cyngor a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2021
PENDERFYNWYD cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2021 yn gywir.

6 Cofnodion Cyfarfod Arbennig y Cyngor a gynhaliwyd 21 Hydref 2021
PENDERFYNWYD cadarnhau bod cofnodion Cyfarfod Arbennig y Cyngor a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2021 yn gywir.

7 Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2020/21 - Diweddariad
Bu i'r Cynghorydd Ray Quant MBE, Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Pobl a Threfniadaeth a Gwasanaethau Democraidaidd, gyflwyno Datganiad Llywodraethu Blynyddol diweddaredig 2020/21 i'r Cyngor, gan nodi fod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor ar 18 Mawrth 2021 ac wedi'i adolygu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gynharach heddiw.

Nododd fod dau fân newid wedi'u gwneud i Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol 2020/21 gan gyfeirio at 'Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021'. Nid yw Archwilio Cymru wedi argymhell newidiadau ond gwnaethpwyd newidiadau i adlewyrchu'r camau sydd wedi'u cymryd a'u cwblhau erbyn hyn.

Tudalen 6

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD** yn unfrydol, yn unol ag argymhelliad Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor, gymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol diwygiedig 2020/21.

- a) **Adroddiad ISA260 Archwilio Cymru ar Ddatganiad Cyfrifon 2020/21**
Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i Eleanor Ansell o Archwilio Cymru.

Cyflwynodd Eleanor Ansell Adroddiad ISA260 ynghylch y Datganiad o Gyfrifon y Cyngor ar gyfer 2020/21, gan nodi bod y terfynau amser statudol wedi'u llacio gan Lywodraeth Cymru ac y byddai Cyngor Sir Ceredigion yn bodloni'r terfynau amser newydd hyn.

Nododd nad oes dim materion o bwys yn codi o'r archwiliad. Hefyd maen nhw wedi adolygu datganiad ariannol yr awdurdod harbwr ac nid oes dim materion o bwys yn codi o hwn ychwaith. Diolchodd i'r staff am gydweithio'n dda gyda nhw a daeth i'r casgliad mai bwriad Archwilio Cymru oedd cyhoeddi barn ddiamod ar ôl archwilio cyfrifon eleni.

- b) **Sylwadau Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar yr adroddiad**
Dywedodd y Cynghorydd Elizabeth Evans, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, fod y Pwyllgor Archwilio wedi ystyried Datganiad Cyfrifon 2020/21 yn fanwl yn gynharach y diwrnod hwnnw, a diolchodd i'r tîm gan nodi nad oedd modd cael gwell canlyniad na hyn. Diolchodd i Archwilio Cymru am weithio gyda'r swyddogion mewn ffordd adeiladol, gan nodi na fu'n rhaid mynd i'r afael â materion ynglŷn ag Ystadau eleni, a diolchodd i'r Gwasanaeth am fynd i'r afael â'r materion blaenorol.

Estynnodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn ei llongyfarchiadau i bawb ar adroddiad rhagorol, yn enwedig mewn amgylchiadau mor anodd.

- c) **Datganiad Cyfrifon 2020/21**
Mynegodd y Cynghorydd Gareth Lloyd, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyllid a Chaffael a Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd, ei ganmoliaeth o'r Datganiad Cyfrifon ac adroddiad ISA260 gan nodi fod yn rhaid i'r Cyngor gymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon erbyn 30 Tachwedd 2021, yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Nododd fod yr alldro yn dangos fod y gyllideb wedi'i mantoli, na fu newid yn y Gronfa Gyffredinol o £6.1m nac yn lefel y Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd, ac mai bwriad yr Archwilydd Cyffredinol yw cyhoeddi adroddiad archwilio diamod parthed y Cyfrifon. Diolchodd i'r staff i gyd a'r Archwilwyr am eu gwaith caled yn cyflwyno'r Datganiad Cyfrifon glân hwn tra oeddent yn ymdrin â chyfrifoldebau ychwanegol hefyd.

Nododd y Cynghorydd Elizabeth Evans ddiolchgarwch y busnesau bach am fod y Cyngor wedi prosesu grantiau gwerth £49 miliwn yn ddiymdroi. Hebddynt, byddai sawl busnes wedi methu.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo Datganiad Cyfrifon Cyngor Sir Ceredigion a Datganiad Cyfrifon Awdurdod Harbwr Ceredigion ar gyfer 2020/21.

Tudalen 7

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 9
Rhagfyr 2021**

CADEIRYDD: _____

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Rhybudd Gynnig


Mae yna bryder mawr gan drigolion Ceredigion ynglyn a bwriad Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwllans Cymru i newid darpariaeth ambiwlansys a cherbydau achosion brys yn y Sir.

Mae bwriad gan y Gwasanaeth Ambiwllans Cymru (ac sydd wedi ei gyflwyno i'r gweithwyr) i gwtogi ar nifer o ambiwlansys o 4 i 2 yn ystod y dydd yng ngorsafedd Aberteifi ag Aberystwyth, ac i gyfyngu ar y defnydd o Gerbyd Ymateb Cyflym (Rapid Response Vehicle). Mi fydd yr un ambiwlans yng ngorsaf Cei Newydd a un yng ngorsaf Llanbedr Pont Steffan yn parhau.

Mae ambiwlansys yng Ngheredigion yn aml yn gorfod trosglwyddo cleifion allan o'r sir i ysbytau gyda'g arbennigedd mor bell a'r Amwythig a Chaerdydd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu gwasanaeth gogyfer a damweiniau ac achosion brys angenrheidiol ledled y Sir ac sydd ar gael pedair awr ar hugain, saith diwrnod yr wythnos.

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn galw ar:

- Ymddiriedolaeth GIG Ambiwllans Cymru i barhau i gynnal y nifer presennol o ambiwlansys yng Ngheredigion a hefyd Cerbydau Ymateb Cyflym (RRV) ac ychwanegu at y nifer yma i sicrhau dapariaeth digonol i drigolion Ceredigion.
- Ysgrifennu at Eluned Morgan AS, Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru gan ofyn iddi ymyrryd gyda Ymddiriedolaeth Gwasanaeth GIG Ambiwllans Cymru i sicrhau nad yw'r newidiadau yma yn cael eu gweithredu.



Cyng Gareth Davies
Cynigydd



Cyng Matthew Woolfall Jones
Eilydd

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Cyngor Sir CEREDIGION

ADRODDIAD I'R:	Cyngor
DYDDIAD Y CYFARFOD:	9 Rhagfyr 2021
LLEOLIAD:	O bell drwy fideogynadledda
TEITL:	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: - Penodi 3 unigolyn/aelod annibynnol/lleyg
DIBEN YR ADRODDIAD:	Er mwyn ei gymeradwyo
ER:	Penderfyniad
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	Y Cynghorydd Ray Quant MBE, Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Pobl a Threfniadaeth a'r Gwasanaethau Democraataidd

Cefndir

Ar 18 Mawrth 2021, penderfynodd y Cyngor gymeradwyo'r canlynol:

- Cychwyn y broses o recriwtio aelodau lleyg annibynnol i'r Pwyllgor Archwilio;
- Y cynigion ar gyfer y Panel Dethol sy'n llunio'r Rhestr Fer;
- Y Disgrifiad Rôl a Manyleb y Person.

Cyflwynwyd adroddiad ar faint y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'r Cyngor ar 17 Mehefin 2021 a phenderfynodd y Cyngor (bydd y penderfyniad yn dod i rym ar 5 Mai 2022) y bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys y canlynol:

- 6 x Aelod o'r Cyngor Sir
- 3 x Aelod lleyg annibynnol

Cyfanswm: 9.

Mae aelod lleyg presennol Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor, sef yr Athro Ian Roffe, yn ei swydd oddi ar 25 Medi 2012. Ar 20 Mehefin 2019 cafodd cyfnod swydd yr Athro Roffe ei ymestyn hyd at yr etholiadau Llywodraeth Leol yn 2022.

Y Sefyllfa Bresennol

Cynhaliwyd proses i recriwtio tri aelod lleyg annibynnol. Ar 11 Mai 2021, cynhaliwyd cyfarfod o'r Panel Dethol sy'n llunio'r Rhestr Fer a chynhaliwyd y cyfweliadau ar 27 Mai 2021. Roedd angen ymgyrch recriwtio arall ac chynhaliwyd cyfarfod arall o'r Panel Dethol i lunio Rhestr Fer ar 14 Medi 2021, gyda chyfweliadau ar 29 Hydref 2021.

Yr ymgeiswyr llwyddiannus oedd:

- Liam Hull;
- Caroline Whitby; ac
- Alan Davies.

Tudalen 12

Cynigir na fydd y tri ymgeisydd llwyddiannus yn cael eu penodi am fwy na dau gyfnod gweinyddol olynol (h.y. 10 mlynedd – mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn datgan yn Adran 14 y cynhelir etholiadau cyffredin ar gyfer y prif gynghorau newydd yn 2022 a phob pum mlynedd wedi hynny).

Pe bai'r Cyngor yn dewis penodi'r ymgeiswyr llwyddiannus am ddau gyfnod bwrdeistrefol, y dyddiadau perthnasol ar gyfer cyfnod penodiad y tri ohonynt fyddai o 5 Mai 2022 hyd at 4 Mai 2032.

A gwblhawyd Aseiad Effaith Integredig? Naddo Os naddo, nodwch pam

Nid yw'r adroddiad hwn yn ymwneud â newid mewn polisi neu strategaeth.

**LLESANT
CENEDLAETHAU'R
DYFODOL:**

Crynodeb:

Hirdymor: Ddim yn berthnasol

Integreiddio: Ddim yn berthnasol

Cydweithio: Ddim yn berthnasol

Cynnwys: Ddim yn berthnasol

Atal: Ddim yn berthnasol

Argymhelliad: Argymhellir bod y Cyngor yn penderfynu fel a ganlyn:

1. Cymeradwyo penodi'r unigolion canlynol yn aelodau annibynnol/lleyg y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

- Liam Hull;
- Caroline Whitby; ac
- Alan Davies

gyda'r penodiadau'n dod i rym o 5 Mai 2022 am gyfnod hyd at uchafswm o ddau dymor gweinyddiaeth wedi hynny.

**Rhesymau
dros y
penderfyniad:**

Mae'r argymhellion yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y penodiadau priodol wedi eu gwneud, yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a'r Cyfansoddiad.

Trosolwg a Chraffu: Ddim yn berthnasol

Fframwaith Polisi: Mae Cyngor Sir Ceredigion yn sefydliad sy'n addas at y diben o ddarparu gwell gwasanaethau i fodloni anghenion ein dinasyddion.

Tudalen 13

Blaenoriaethau Corfforaethol:	<p>Mae Llywodraethu Corfforaethol effeithiol yn sicrhau y gall y Cyngor fodloni pob un o'r Blaenoriaethau Corfforaethol:</p> <ol style="list-style-type: none">1. Hybu'r Economi2. Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl3. Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd, a4. Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol.
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Cydymffurfio â deddfwriaeth/rheoliadau.
Goblygiadau Cyfreithiol:	Cydymffurfio â deddfwriaeth/rheoliadau.
Goblygiadau Staffio:	Dim
Goblygiadau o ran eiddo ac asedau:	Dim
Risg(iau):	Dim
Pwerau Statudol:	<p>Deddf Llywodraeth Leol Local 1972 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 https://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/4/contents/enacted/welsh Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 https://www.legislation.gov.uk/cy/asc/2021/1/contents/enacted/welsh Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Arbed) 2021 https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2021/297/contents/made/welsh Canllawiau Statudol a wnaed o dan fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/canllawiau-statudol-a-wnaed-o-dan-fesur-llywodraeth-leol-2011.pdf Canllawiau Ymarferol CIPFA ar gyfer Pwyllgorau Archwilio Awdurdodau Lleol: https://www.cipfa.org/policy-and-guidance/publications/a/audit-committees-practical-guidance-for-local-authorities-and-police-2018-edition-online</p>
Papurau Cefndir:	<p>Adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio 2 Hydref 2019: http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/H%20size%20of%20audit%20committee.pdf</p>

Tudalen 14

Cofnodion y Pwyllgor Archwilio 2 Hydref 2019:

http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/G%20Cofnodion%20combined%20171219.pdf

Adroddiad i'r Cyngor 20 June 2019:

http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/F_Aelod%20Lleyg%20y%20Pwyllgor%20Archwilio.pdf

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 20 Mehefin 2019:

http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/A_Cofnodion%2020.06.19.pdf

Diweddariad llafar y Swyddog Monitro i'r Pwyllgor

Archwilio 12 Tachwedd 2020 - Cofnodion y Cyfarfod:

[http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/audit%20121120%20final%20\(c\).pdf](http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/audit%20121120%20final%20(c).pdf)

Adroddiad i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd 27 Ionawr 2020:

http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/Size%20of%20audit%20committee.pdf

Adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio 24 Chwefror 2021

[http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/B%20LG%20and%20Elections%20combined%20\(c\).pdf](http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/B%20LG%20and%20Elections%20combined%20(c).pdf)

Adroddiad i'r Cyngor 18 Mawrth 2021:

[http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/I%20-%20Newidiadau%20i'r%20Pwyllgor%20Archwilio%20yn%20unol%20a%20Deddf%20Llywodraeth%20Leol%20ac%20Etholiadau%20\(Cymru\)%202021.pdf](http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/I%20-%20Newidiadau%20i'r%20Pwyllgor%20Archwilio%20yn%20unol%20a%20Deddf%20Llywodraeth%20Leol%20ac%20Etholiadau%20(Cymru)%202021.pdf)

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 18 Mawrth 2021:

<https://www.ceredigion.gov.uk/media/8976/cofnodion-ddrafft-18032021-c.pdf>

Adroddiad i'r Cyngor 17 Mehefin 2021:

<https://cyngor.ceredigion.gov.uk/documents/s1675/Adroddiad%20ar%20faint%20y%20Pwyllgor%20Llywodraethu%20ac%20Archwilio.pdf?LLL=1>

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 17 Mehefin 2021:

<https://cyngor.ceredigion.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=149&MId=159&Ver=4&LLL=0>

Atodiadau:

Dim

**Enw Cyswllt:
Swydd:**

Elin Prysor
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau
Cyfreithiol a Llywodraethu (a Swyddog Monitro)

**Dyddiad yr
Adroddiad:**

11/11/2021

CYNGOR SIR CEREDIGION**Adroddiad i'r: Cyngor****Dyddiad y cyfarfod: 9^{fed} Rhagfyr 2021****Teitl: Ffioedd ar gyfer Etholiadau'r Cyngor Sir a'r Cynghorau Tref / Cymuned i'w cynnal 5^{ed} Mai 2022****Pwrpas yr adroddiad: I'r Cyngor gymeradwyo'r ffioedd sy'n daladwy ar gyfer yr etholiadau lleol cyfun i'w cynnal ar 5^{ed} Mai 2022****Er: Penderfyniad****Portffolio'r Cabinet ac Aelod y Cabinet: Amherthnasol – Cyfrifoldeb y Swyddog Canlyniadau****Etholiadau'r Cyngor Sir a'r Cynghorau Tref / Cymuned**

Mae'r ffioedd sy'n daladwy i'r Swyddog Canlyniadau mewn perthynas â'r Etholiadau hyn a'r holl gostau cysylltiedig sy'n ymwneud â hwy yn cael eu pennu'n lleol ac yn cael eu hariannu gan y Cyngor Sir a'r Cynghorau Tref / Cymuned. Mae hyn yn cynnwys taliadau i bobl a gyflogir gan y Swyddog Canlyniadau i gyflawni'r tasgau canlynol:

- (i) Paratoi, adolygu ac anfon cardiau pleidleisio swyddogol;
- (ii) Anfon a chael papurau pleidleisio drwy'r post;
- (iii) Gwirio cyfriflen y papurau pleidleisio;
- (iv) Y cyfrif; ac
- (v) Unrhyw gymorth clerigol neu gymorth arall at ddibenion yr etholiad.

Mae gan y Cyngor Sir gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi i dalu costau cynnal yr etholiadau lleol ar 5^{ed} Mai 2022 a bydd costau yn cael eu hadennill yn llawn ar gyfer unrhyw Gynghorau Tref / Cymuned yn unol â Pholisi'r Cyngor o ran Rheoli Incwm ac Adennill Cost Gwasanaethau.

Trefn ar gyfer cyfrifo ffioedd y Swyddog Canlyniadau a'r rheini sy'n ymgymryd â rôl Dirprwy Swyddogion Canlyniadau ar gyfer Etholiadau'r Cyngor Sir a'r Cynghorau Tref / Cymuned ar 5^{ed} Mai 2022

Mae'r canlynol yn drefn arfaethedig ar gyfer cyfrifo'r ffi sy'n daladwy i'r Swyddog Canlyniadau a'r rheini sy'n ymgymryd â rôl Dirprwy Swyddogion Canlyniadau ar gyfer yr Etholiadau Lleol ym mis Mai 2022 ac mae'n adlewyrchu cynnydd chwyddiant 2.5% o 2017:

Etholiadau'r Cyngor Sir:	£174.00 fesul Ward a ymleddir £67.00 fesul Ward un ymgeisydd
Etholiadau'r Cynghorau Tref / Cymuned:	£174.00 fesul Cyngor Tref / Cymuned a ymleddir

Tudalen 16

	£67.00 fesul Cyngor Tref / Cymuned un ymgeisydd
--	---

	Oes	Asesiad	Effaith	Nac oes – ddim yn integredig wedi ei gwblhau? newid i wasanaeth.
	Os nad oes, dywedwch pam			
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	Crynodeb:			
	Hirdymor:	Ddim yn berthnasol		
	Integreiddio:	Ddim yn berthnasol		
	Cydweithio:	Ddim yn berthnasol		
	Cynnwys:	Ddim yn berthnasol		
	Atal:	Ddim yn berthnasol		

Argymhellion:

I'r Cyngor gymeradwyo'r canlynol:

(i) **Bod y ffioedd sy'n daladwy i'r Swyddog Canlyniadau a'r rheini sy'n cyflawni rôl Dirprwy Swyddogion Canlyniadau ar gyfer y Cyngor Sir a'r Cynghorau Tref / Cymuned fel a ganlyn:**

- £174.00 fesul etholiad a ymleddir;
- £67.00 fesul etholiad un ymgeisydd;
-

(ii) **Awdurdodi'r Prif Weithredwr fel Swyddog Canlyniadau'r Cyngor i:**

- a) **Gwneud trefniadau ar gyfer cyflogi pobl i gynorthwyo gyda'r Etholiadau Lleol sydd i'w cynnal 5^{ed} Mai 2022;**
- b) **Pennu lefel y ffioedd a'r taliadau i'r rhai a gyflogir ar ddyletswyddau Etholiad, yn amodol ar fod y cyfanswm sy'n daladwy o fewn yr adnoddau sydd ar gael a glustnodwyd i dalu cost yr etholiadau hyn;**

(iii) **Bydd costau'n cael eu hadennill yn llawn ar gyfer unrhyw gostau yr eir iddynt ar gyfer etholiadau'r Cynghorau Tref / Cymuned.**

Rheswm dros y penderfyniad: **y Pennu ffioedd penodol sy'n daladwy ar gyfer yr etholiadau lleol cyfun ar 5^{ed} Mai 2022.**

Trosolwg a Chraffu: Ddim yn berthnasol
Fframwaith Polisi: Cyfansoddiad y Cyngor
 Polisi Rheoli Incwm ac Adennill Cost Gwasanaethau

Blaenoriaethau Corfforaethol: Ddim yn berthnasol

Goblygiadau Cyllid a Chaffael: O fewn y gyllideb bresennol a neilltuwyd mewn cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi ar gyfer costau cynnal yr etholiadau lleol yn 2022.

Tudalen 17

Goblygiadau Cyfreithiol:	Gweler y Pwerau Statudol isod.
Goblygiadau staffio:	Bydd methu â recriwtio digon o staff ar gyfer yr etholiadau yn arwain at ein hanallu i fodloni gofyniad deddfwriaethol etholiadau llywodraeth leol.
Goblygiadau eiddo / asedau:	Dim.
Risg(iau):	Methiant i fodloni gofynion statudol gofyniad deddfwriaethol etholiadau llywodraeth leol.
Pwerau Statudol:	<ul style="list-style-type: none">• Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983;• Deddf Cynrychiolaeth y Bobl, Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl, Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru a Lloegr) 2006;• Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.
Papurau Cefndir:	Polisi Rheoli Incwm ac Adennill Cost Gwasanaethau
Atodiadau:	Dim
Swyddog Adrodd:	Eifion Evans Prif Weithredwr (a'r Swyddog Canlyniadau)
Dyddiad:	22 ^{ain} Tachwedd 2021

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Cyngor Sir Ceredigion

Adroddiad i'r:	Cyngor
Dyddiad y cyfarfod:	9 Rhagfyr 2021
Lleoliad	O bell trwy fideo-gynhadledda
Teitl:	Adroddiad Monitro Blynyddol 2019-2020 a 2020-2021 ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion
Diben yr adroddiad:	Rhoi gwybod i'r Cyngor am gyflwyno'r 7fed a'r 8fed Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ar 29 Hydref 2021.
Er:	Gwybodaeth yn unig
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	Yr Economi ac Adfywio Y Cynghorydd Rhodri Evans

Cefndir:

Mae Adran 76 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol fonitro gweithredu'r Cynlluniau Datblygu Lleol a fabwysiadwyd trwy baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Hydref bob blwyddyn. Mae paratoi Adroddiad Monitro Blynyddol a'i gyflwyno erbyn 31 Hydref yn ofynion statudol.

Gan gydnabod yr anawsterau y mae awdurdodau lleol a chymunedau wedi'u hwynebu yn ystod y pandemig Covid-19 presennol, ysgrifennodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ar 7 Gorffennaf 2020: "... Ni fyddaf yn ei gwneud yn ofynnol i Adroddiadau Monitro Blynyddol gael eu cyflwyno ym mis Hydref eleni. Rwy'n annog Awdurdodau Cynllunio Lleol yn gryf i barhau i gasglu data, gan y bydd hyn yn helpu i lunio a llywio'r gwaith o ddatblygu polisiau a chynlluniau. Os yw Awdurdodau Cynllunio Lleol yn dymuno cyhoeddi Adroddiad Monitro Blynyddol, gallant wneud hynny wrth gwrs. Byddaf yn disgwyl i Adroddiadau Monitro Blynyddol gael eu cyflwyno'n ffurfiol nesaf ym mis Hydref 2021."

Felly dyma'r 7fed a'r 8fed Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion ar gyfer y cyfnodau rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020 ac 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021 yn y drefn honno.

Mabwysiadodd Cyngor Sir Ceredigion y Cynllun Datblygu Lleol yn ffurfiol ar 25 Ebrill 2013. Mae'r cynllun yn rhedeg o 2007 hyd at 2022.

Yn sgil canfyddiadau'r trydydd Adroddiad Monitro Blynyddol yn 2016, cychwynwyd adolygiad o'r cynllun. Cymeradwywyd y Cytundeb Cyflawni ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol newydd gan Lywodraeth Cymru ar 22 Mehefin 2018.

O ran bwrw ymlaen â'r Cynllun Datblygu Lleol newydd, cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad ynghylch y Strategaeth a Ffeirir gan wneud galwad pellach am Safleoedd Ymgeisiol rhwng mis Mehefin a mis Medi 2019, a chafodd Cytundeb

Tudalen 20

Cyflawni diwygiedig ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2020. Cynghorodd y Prif Swyddog Cynllunio mewn llythyr ar 18 Mawrth 2020:

"Bydd angen i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ystyried a all gyflawni rhwymedigaethau'r ymgynghoriad yn y Cytundeb Cyflawni a'r Cynllun Cynnwys Cymunedau. Mae'n annhebygol bod modd cyflawni hyn o dan yr amgylchiadau presennol." Yna, cafodd y gwaith ar gamau ymgynghori y CDLI newydd ei oedi o ganlyniad i'r cyngor hwn, gan gydnabod y byddai angen Cytundeb Cyflawni newydd.

Dywedodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol hefyd yn ei llythyr dyddiedig 7 Gorffennaf 2020, ynghyd â chyflwyno Cytundeb Cyflawni newydd i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo, byddai angen asesiad o'r sylfaen dystiolaeth i ystyried effaith Pandemig COVID-19.

Yn ychwanegol at hyn, ar ôl gwerthuso effaith datganiad cynllunio Cyfoeth Naturiol Cymru a dderbyniwyd ym mis Ionawr 2021 ac a ddiweddarwyd ym mis Mai 2021 ynghylch Lefelau Ffosffad yn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Afon Teifi ar y CDLI newydd, mae perygl mawr na fydd y cynllun yn cael ei ystyried yn 'gadarn' drwy'r broses archwilio cyhoeddus a'i fod yn anaddas i'r diben, oherwydd nad yw'r mater ynglŷn â ffosffadau yn cael sylw. Felly, cytunodd y Cyngor ar 21 Hydref 2021 fod angen dod i benderfyniad pragmatig a chytunodd i oedi'r CDLI newydd am gyfnod amhenodol er mwyn casglu tystiolaeth a data hanfodol a llunio opsiynau lliniaru.

Y Sefyllfa Bresennol:

Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn ystyried Polisiâu'r Cynllun Datblygu Lleol yn erbyn fframwaith monitro ffurfiol y Cynllun Datblygu Lleol, er mwyn canfod a yw'r polisiâu'n effeithiol ac er mwyn nodi unrhyw bolisiau nad ydynt yn cael eu gweithredu. Mae'r fframwaith i'w gweld ym Mhennod 9 ac Atodiad 3 y Cynllun Datblygu Lleol (Cyfrol 1) a bu'n rhan o fabwysiadu'r cynllun yn ffurfiol.

Nid yw'r Adroddiadau Monitro Blynyddol hyn yn nodi unrhyw ganlyniadau gwahanol iawn i'r Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol.

Mae'r meysydd sy'n achosi pryder yn cynnwys:

- Cyflawni'r Strategaeth Anheddu o fewn cyfnod y cynllun;
- Cyflenwad Tir ar gyfer Tai;
- Cyflenwi Safleoedd Tai wedi'u Neilltuo; a
- Datblygu Tai mewn Lleoliadau Priodol

Er ei bod yn amlwg nad yw rhai agweddau o'r Cynllun yn perfformio'n dda, mae nifer o feysydd lle mae'r Cynllun yn cwrdd â'i dargedau neu'n rhagori arnynt. Mae'r mesurau llwyddiannus yn cynnwys y canlynol:

- Mae tai ar dir a ddatblygwyd o'r blaen yn darged a gyflawnwyd a hynny yn bennaf oherwydd addasiadau canol trefi;
- Tai fforddiadwy (ddim yn cyflawni'r niferoedd, ond yn rhagori ar y targed o ran canran y tai fforddiadwy);
- Datblygu economaidd mewn lleoliadau addas – mae llawer o'n datblygiad cyflogaeth / economaidd wedi digwydd yn y Canolfannau Gwasanaethau Trefol a'r Canolfannau Gwasanaethau Gwledig; ac ar dir a ddatblygwyd o'r blaen;
- Agregau sydd ar gael – rydym yn cwrdd â'r targedau ar gyfer agregau.

Tudalen 21

Mae'r Canfyddiadau Allweddol ynghyd ag adrannau'r Adroddiad Monitro Blynyddol sy'n cynnwys y casgliadau a'r argymhellion yn darparu trosolwg defnyddiol o'r prif ganfyddiadau.

A gwblhawyd Aseiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam Naddo. Nid oes angen Aseiad Effaith Integredig oherwydd dogfen fonitro yw hon ac nid dogfen sy'n nodi polisiau a chynigion newydd. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol newydd yn destun Aseiad Effaith Integredig ac mae ar gael ar gais gan y tîm polisi.

Crynodeb:

Hirdymor: Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn mesur pa mor effeithiol y mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei weithredu.

Cydweithio: Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn mesur effeithiolrwydd y Cynllun gan ddefnyddio mesurau ar gyfer yr arfarniad integredig ffurfiol o'r cynllun, sy'n cynnwys yr Arfarniad Amgylcheddol Strategol.

Cynnwys: Bob blwyddyn mae Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a'i gyhoeddi ar y wefan. Mae wedi darparu gwybodaeth ar gyfer y cynllun newydd sydd ar y gweill, sy'n cynnwys astudiaethau ar y cyd gydag awdurdodau cyfagos, ac mae opsiynau ar gyfer cydweithio wrth fwrw ymlaen â'r cynllun newydd, e.e. paratoi sylfaen dystiolaeth.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

Atal: Paratowyd y Cynllun mabwysiedig yn unol â chytundeb ffurfiol (y Cytundeb Cyflawni) rhwng yr Awdurdod Cynllunio Lleol a Llywodraeth Cymru, sy'n nodi pwy ddylai fod yn rhan ohono. Mae amserlen ar gyfer paratoi'r cynllun newydd wedi'i chreu, sy'n nodi bod rhwymedigaeth barhaus i baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol.

Integreiddio: Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn profi egwyddorion allweddol y Cynllun: cyfeirio'r raddfa a'r math o ddatblygiad cywir i'r lleoliadau mwyaf priodol yng

Tudalen 22

Nggheredigion, bod yn gyson ag egwyddorion cynaladwyedd ac amcanion cynaladwyedd penodol ac, wrth wneud hynny, darparu sicrwydd a hyder er mwyn osgoi datblygu anaddas a hwyluso darparu seilwaith.

Argymhellion:	Amherthnasol
Y rhesymau dros y penderfyniad:	Amherthnasol
Trosolwg a Chraffu:	Amherthnasol
Fframwaith Polisi:	Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion a fabwysiadwyd ym mis Ebrill 2013
Blaenoriaethau Corfforaethol:	<p>Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cefnogi amcanion strategol canlynol y Strategaeth Gorfforaethol:</p> <ol style="list-style-type: none">1. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn sefydliad sy'n addas at y diben o ddarparu gwasanaethau gwell i fodloni anghenion ein dinasyddion.2. Mae amodau a chyfleoedd yng Ngheredigion i alluogi'r economi a'r busnesau lleol ddatblygu a ffynnu.3. Bydd Aberystwyth yn cael ei datblygu'n ganolfan ranbarthol a chenedlaethol gydnabyddedig.5. Bydd Ceredigion yn darparu gwasanaethau a fydd yn cyfrannu at amgylchedd iach a bywydau iachach ac yn diogelu'r rhai hynny sy'n agored i niwed yn y sir.
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Mae'r costau argraffu a chyfieithu eisoes wedi'u cynnwys yng nghyllideb y Cynllun Datblygu Lleol.
Goblygiadau Cyfreithiol:	Rhaid cyflwyno'r adroddiad i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2021 – mae hyn wedi'i wneud.
Goblygiadau staffio:	Dim
Goblygiadau o ran eiddo/asedau:	Dim
Risgiau:	Dim
Pwerau Statudol:	Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004; Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

Tudalen 23

Papurau Cefndir:	Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion, Ebrill 2013
Atodiadau:	Adroddiad Monitro Blynyddol 2019 – 2020 a 2020 – 2021 ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Russell Hughes - Pickering
Swyddog Adrodd:	Dr Sarah Groves - Phillips
Dyddiad:	18.11.2021



**Adroddiad Monitro
Blynyddol
2020
ar gyfer
Cynllun Datblygu Lleol
Ceredigion
2007 – 2022**

Cynnwys

Cynnwys	iii
1. Crynodeb Gweithredol.....	1
2. Newidiadau Cyd-destunol Pwysig	17
3. Analysis of Core & Local Indicators	Error! Bookmark not defined.
4. Canlyniadau Dangosyddion AAS/AG	143
5. Casgliadau ac Argymhellion.....	218
Atodiad 1: Crynodeb o Ddangosyddion y CDLI.....	224
Atodiad 2: Crynodeb o'r Dangosyddion Cynaliadwyedd.....	240
Atodiad 3: Statws Safleoedd a Neilltuwyd 2017 – 2018	255
Atodiad 4: Rhestr o'r Canllawiau Cynllunio Atodol.....	288
Atodiad 5 AMRH03: Strategaeth Anheddu, Grwpiau Aneddiadau	289
Atodiad 6: AMRH04 Strategaeth Anheddu – Datblygu mewn 'Aneddiadau Cyswllt'.....	306
Atodiad 7: AMRH15 Rhychwant o Dai – Perfformiad	319
Atodiad 8: AMRE06 Bywiogrwydd y Canolfannau Gwasanaethau Gwledig 2018/2019	321

1. Crynodeb Gweithredol

- 1.1 Cafodd Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007-2022 ei fabwysiadu'n ffurfiol gan Gyngor Sir Ceredigion ar 25 Ebrill 2013. Dyma'r seithfed Adroddiad Monitro Blynyddol sy'n cwmpasu'r cyfnod 1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020 gan gyfeirio at rannau cynharach o gyfnod y cynllun lle mae'r dangosyddion yn mynnu bod angen gwneud hyn. Yr Adroddiad Monitro Blynyddol yw'r brif ffordd o adolygu pa mor berthnasol a llwyddiannus yw'r CDLI, a nodi unrhyw newidiadau y mae angen eu gwneud yn sgil y tueddiadau sefydledig a nodwyd. Mae'n ceisio asesu i ba raddau y mae strategaethau, polisiau a safleoedd allweddol y CDLI yn cael eu cyflawni.
- 1.2 Mae'r fframwaith monitro ar gyfer yr Adroddiad Monitro Blynyddol hwn yn ffurfio rhan o'r CDLI mabwysiedig. Rhoddwyd ystyriaeth i Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (2005) (Rheoliad 37) a'r dangosyddion craidd a nodwyd yn y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol, 2il Argraffiad (Awst 2015). Mae newidiadau dilynol i fframwaith monitro'r CDLI i'w gweld yn Atodiad 1.
- 1.3 Mae monitro'r CDLI hefyd yn unol â'r gofynion i fonitro perfformiad y cynllun o ran cynaliadwyedd trwy fframwaith monitro'r Asesiad Amgylcheddol Strategol/Arfarniad o Gynaliadwyedd (AAS/AG). Mae Adran 5 o'r adroddiad hwn yn cynnwys monitro'r AAS/AG ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020. Ystyrir y caiff unrhyw faterion o bryder sydd wedi codi yn ystod y cyfnod monitro sy'n newid yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn sylweddol eu hystyried yn Arfarniad o Gynaliadwyedd y CDLI newydd sydd wrthi'n cael ei baratoi.
- 1.4 Cynhaliwyd Adolygiad o'r CDLI mabwysiedig ac mae'r adroddiad yn argymhell y dylid paratoi cynllun newydd llawn. Cafodd y Cytundeb Cyflenwi ar gyfer y CDLI newydd ei gadarnhau ym Mehefin 2018.
- 1.5 Mae'r Adroddiad Adolygu a'r Cytundeb Cyflenwi ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor.
Adroddiad Adolygu:
<http://www.ceredigion.gov.uk/media/7106/2018-ceredigion-ldp-adroddiad-adolygu.pdf>

Cytundeb Cyflenwi:

<http://www.ceredigion.gov.uk/media/6412/2018-06-22-cc-cytunwyd-gan-lc-cymraeg.pdf>

- 1.6 O ran datblygiad y CDLI newydd, ymgynghorodd y Cyngor ar ei Strategaeth a Ffefrir a chynnal Galwad pellach am safleoedd ymgeisiol rhwng Mehefin-Medi 2019. O ganlyniad i ymatebion yr ymgynghoriad i'r Strategaeth a Ffefrir gwnaed newidiadau i'r Cytundeb Cyflenwi a lofnodwyd gan y Gweinidog Tai Julie James ar 19^{eg} Mawrth 2020. Fodd bynnag, oherwydd Pandemig bydeang COVID-19 o dan gyngor y Prif Gynlluniwr ar 18^{fed} Mawrth 2020 na ddylem gynnal dim ymgynghoriadau cyhoeddus ffurfiol o dan yr amgylchiadau presennol a dylem ganolbwyntio dros dro ar waith sylfaen dystiolaeth dechnegol a chefnidiol. Felly ar hyn o bryd mae ein hamserlen a nodir yn y Cytundeb Cyflenwi wedi'i hatal dros dro, bydd angen i ni gyflwyno amserlen ddiwygiedig wrth i ni symud ymlaen.

Deddfwriaeth, Polisi Cenedlaethol ac Ystyriaethau Allanol

- 1.7 Mae deddfwriaeth, polisi cenedlaethol, cyfarwyddyd ac ymchwil perthnasol a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod monitro yn cynnwys y canlynol:
- Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Rhifyn 3) (Mawrth 2020)
 - Dirymu Nodyn Cyngor Technegol 1 (Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai (Ionawr 2015) a diwygiadau cysylltiedig i Bolisi Cynllunio Cymru (Mawrth 2020). Mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol, roedd yn ofynnol manylu ar y Cyflenwad o Dir sydd ar gael ar gyfer Tai a gymerwyd o'r Cyd-Astudiaeth gyfredol o ran Argaeledd Tir ar gyfer Tai / Nodyn Cyngor Technegol 1 - dangosydd AMRH06. Mae'r gofyniad i gynhyrchu Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai wedi'i ddirymu gyda'r addasiad dilynol o Ddangosydd AMR06 ac AMR07 ac 08 a ddefnyddiodd ddata o'r Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai. Yn achos Ceredigion, gan fod ganddo Gynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd eisoes, mae'r monitro o ran cyflenwi tai wedi'i ddisodli gan y cydrannau ychwanegol a ganlyn (a nodir isod).

Tabl 1 Gofynion Model Hyfywedd Datblygu - Newidiadau i'r dangosydd Craidd AMR06 Esboniad (ar gyfer Awdurdodau sydd â Chynlluniau mabwysiedig presennol)

Cyfeirnod Monitro:	AMRH06 (Dangosydd Statudol)	
Agwedd a Fonitryd:	Tai a Gwblhawyd yn Flynyddol yn erbyn y Gyfradd Adeiladu Flynyddol a Ragwelir	
Polisiâu a Fonitryd:	S01 - S04 ac LU05	
Lefel:	Craidd	
Amllder:	Yn flynyddol	
Ffynhonnell:	Cyngor Sir Ceredigion (trwy'r Cyd-Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai)	
Targed	Dangosydd	Sbardun a Champau Gweithredu
Y lefel flynyddol o tai a gwblhawyd sy'n cael ei monitro yn erbyn y Gyfradd Adeiladu Flynyddol a Ragwelir. Bydd y nifer cronol a gwblhawyd yn cael ei mesur yn erbyn y gofyniad tai blynyddol cronol cyfartalog a nodir yn y cynllun.	Bydd y nifer a gwblhawyd yn cael ei mesur yn erbyn y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog a nodir yn y cynllun. Prif Ddangosydd Cyflenwi Tai: Gofyniad Tai Blynyddol Cyfartalog (Gofyniad Tai / 15 = Gofyniad Blynyddol Cyfartalog) Rhaid cyflwyno hyn yn glir yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol o ran nifer ac o ran	Cyfanswm cronol y tai a gwblhawyd sy'n cael ei fonitro yn erbyn y gyfradd gwblhau gronol a ragwelir. Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn datgan... 'Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, dylai'r ACLlau hynny a fabwysiodd eu CDLI cyn i'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) gael ei gyhoeddi, ddefnyddio dull y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog fel y prif ddangosydd i fesur faint o dai a gyflenwyd, a chynnwys y dull taflwybr mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol.'

	canran (plws/minws x %).	
--	--------------------------	--

- Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio)(Cymru) Ebrill 2019
- Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Cymru) 2002 (Y Gorchymyn Diwygio) Mawrth 2020
- Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n effro i'r hinsawdd (Tach 2019)

1.8 Mae deddfwriaeth, polisi cenedlaethol ac ystyriaethau allanol yn cael sylw manwl yn Adran 3.

Ystyriaethau Polisi Rhanbarthol a Lleol

1.9 Mae ystyriaethau rhanbarthol a lleol yn ystod y cyfnod monitro yn cynnwys y canlynol:

1.10 Mae'r amcanestyniadau diweddaraf o ran poblogaeth ac aelwydydd yn seiliedig ar 2018 yn awgrymu y bydd poblogaeth Ceredigion yn gostwng oddeutu 4,250 o bobl rhwng 2018 a 2043, o 72,992 i 68,745 gyda gostyngiad cyfatebol yn nifer yr aelwydydd oddeutu 4,500. Mae'r amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2018 yn adlewyrchu gwrthdroad yn y duedd ddemograffig o'i gymharu â'r set yn seiliedig ar 2014, a awgrymodd dwf oddeutu 5,400 o bobl a 2,800 o aelwydydd rhwng 2017 a 2037, o 76,000 i 81,500. Yn nodedig, gwnaed newid i fethodoleg yr amcanestyniadau yn seiliedig ar 2018, mae ymfudo mewnol (DU) bellach wedi'i seilio ar gyfraddau ymfudo yn hytrach na niferoedd sefydlog, a allai fod wedi cyfrannu at ostyngiad bach yn y boblogaeth a ddangosir yn amcanestyniadau'r boblogaeth. Mae'r amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2018 yn adlewyrchu'r duedd ar i lawr yn ddiweddar yn y gyfres Amcangyfrifon Canol-Blwyddyn sy'n awgrymu, bod poblogaeth y sir wedi gostwng i 72,695 yn 2019 o'i hanterth o 76,000 yn 2012. Mae hyn i raddau helaeth o ganlyniad i ostyngiad yn nifer y myfyrwyr mewn addysg uwch yn y sir. Mae newid poblogaeth leol

yn sensitif iawn i ffactorau lleol a bydd y rhain yn cael eu hystyried yn fanylach fel rhan o baratoi cynllun newydd.

- 1.11 O ran amodau rhanbarthol, mae pob Awdurdod Cynllunio Lleol cyfagos yn gwneud cynnydd da o ran paratoi eu Cynlluniau Datblygu Lleol, ac mae Ceredigion yn parhau i gael hyd i gyfleoedd i weithio'n rhanbarthol (megis trwy bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru), gyda'r cyfleoedd cyffredin wedi'u nodi er mwyn casglu gwybodaeth ar gyfer y sylfaen dystiolaeth yn y flwyddyn i ddod, gan gynnwys Asesiad o'r Farchnad Dai Leol rhanbarthol, Astudiaeth Hyfywedd Tai Fforddiadwy Strategol Rhanbarthol Canolbarth a De-orllewin Cymru a'r astudiaeth mwy na chyflogaeth leol.
- 1.12 Mae ystyriaethau polisi rhanbarthol a lleol yn cael sylw manwl yn Adran 3. Nid ydynt wedi arwain at unrhyw newidiadau mawr uniongyrchol i gyd-destun y cynllun.

Monitro Polisiâu'r CDLI

- 1.13 Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn ystyried polisiâu'r CDLI yn erbyn fframwaith monitro mabwysiedig y CDLI er mwyn penderfynu a yw'r polisiâu yn effeithiol a nodi unrhyw bolisiâu sydd heb gael eu gweithredu. Mae'r dadansoddiad manwl a'r canlyniadau i'w gweld yn Adran 4.
- 1.14 Noder bod pandemig COVID-19 wedi effeithio'n ddifrifol ar y data a gasglwyd ar gyfer yr Adroddiad Monitro Blynyddol, gan nad oedd yn bosibl cynnal yr arolwg safle tai preswyl a gwblhawyd a chaniatadau sydd heb eu gweithredu, felly nid yw'r dangosyddion yn rhoi adlewyrchiad cywir o'r sefyllfa. Casglwyd ffigurau o drafodaethau gyda Swyddogion Rheoli Datblygu ac adolygu data cwblhau o gofnodion Rheoliadau Adeiladu'r Cyngor. Nid oedd cyfarfodydd y Grŵp Rhanddeiliaid ar gyfer y taflwybr tai yn gallu cael eu cynnal chwaith.

Y Strategaeth Anheddu

- 1.15 Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o berfformiad Dangosyddion Strategaeth yr Adroddiad Monitro Blynyddol.

Dangosydd	Perfformiad								
	2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022
AMRH01 – Newid yn y Boblogaeth	Amh	Amh	Amh	Amh	?	Amh	Amh		
AMRH02 – Y Strategaeth Anheddu ledled y Sir	0	0	-	+	-	--	-		
AMRH03 – Grwpiau Aneddiadau'r Strategaeth Anheddu	0	0	-	-	-	--	-		
AMRH04 – Strategaeth Anheddu – Datblygu mewn 'Aneddiadau Cyswllt'	0	0	-	-	-	--	-		
AMRH05 – Strategaeth Anheddu – Natur y Datblygu yn y 'Lleoliadau Eraill'	?	0	-	-	-	--	-		

1.16 Mae dangosydd Adroddiad Monitro Blynyddol H01 yn ymwneud â Newid yn y Boblogaeth, fel y nodwyd y cafwyd amcanestyniadau'r boblogaeth ac aelwydydd yn seiliedig ar 2018 yn ystod y cyfnod monitro ac mae'n awgrymu y bydd poblogaeth Ceredigion yn dirywio rhwng 2018 a 2043, o 72,992 i 68,745 gyda gostyngiad cyfatebol yn y nifer o aelwydydd oddeutu 4,500. Mae'r amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2018 yn adlewyrchu gwrthdroad yn y duedd ddemograffig Mae'r gyfres Amcangyfrifon Canol-Blwyddyn yn

awgrymu, bod poblogaeth y sir wedi gostwng i 72,695 yn 2019 o'i hanterth o 76,000 yn 2012. Mae hyn i raddau helaeth o ganlyniad i ostyngiad yn nifer y myfyrwyr mewn addysg uwch yn y sir. Gwelwyd adlewyrchiad yr amcanestyniadau mewn blynyddoedd blaenorol o ran tai a gwblhawyd a chaniatadau. Mae'r newid lleol yn y boblogaeth yn sensitif iawn i ffactorau lleol a bydd y rhain yn cael eu hystyried yn fanylach fel rhan o baratoi cynllun newydd.

- 1.17 Mae'r Dangosydd AMRH02 yn ymwneud â'r Strategaeth Anheddu ledled y Sir ac mae'n mesur bod rhaniad canrannol yr unedau a gwblhawyd a'r ymrwymadau ledled y sir rhwng mabwysiadu'r cynllun a diwedd cyfnod y cynllun yn 51% (Canolfannau Gwasanaethau Trefol):24% (Canolfannau Gwasanaethau Gwledig):25% (Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill). Ers mabwysiadu'r cynllun, cymhareb yr ymrwymadau a'r unedau a gwblhawyd yw 41%:24%:35 a 41%:16%:43%. Mae symudiadau cadarnhaol a negyddol cynyddrannol yn digwydd flwyddyn ar ôl blwyddyn tuag at y targedau a nodwyd ers mabwysiadu'r cynllun. Yn y flwyddyn adrodd hon, o ran yr ymrwymadau mae'r gymhareb yn anghyson â'r targed a nodwyd (49%:22%:28%). Nid yw'r targed wedi cael ei gyflawni ar gyfer yr unedau a gwblhawyd sydd, o'i fesur ers mabwysiadu'r cynllun, yn 40:16:43. Mae'r adolygiad o'r CDLI yn ystyried y Strategaeth Anheddu yn gyffredinol ac yn parhau i nodi ffyrdd o gyflenwi tai mewn lleoliadau cynaliadwy.¹
- 1.18 Mae'r Dangosydd AMRH03 yn ystyried y Strategaeth Anheddu ar lefel grŵp aneddiadau ac yn ceisio symud tuag at y rhaniad canrannol a nodwyd ar gyfer pob un o'r 22 o grwpiau aneddiadau yn Atodiad 2 y CDLI. Mae'r canlyniadau yn rhoi darlun amrywiol gyda rhai grwpiau aneddiadau unigol yn symud tuag at y cydbwysedd gofynnol ac eraill yn symud i ffwrdd o'r cydbwysedd gofynnol. Mae'r adolygiad o'r CDLI yn ystyried penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn ôl lleoliad er mwyn deall yn well y rhesymau dros beidio â chyflawni'r cydbwysedd gofynnol.

¹ Wedi'i fonitro yn unol â'r dangosydd (ers mabwysiadu'r cynllun) ac nid ers dechrau'r cynllun.

Crynodeb Gweithredol

- 1.19 Mae'r Dangosydd AMRH04 yn ystyried datblygiadau mewn 'Aneddiadau Cyswllt' ac yn ei gwneud hi'n ofynnol i ymrwymadau beidio ag arwain at unrhyw un anheddiad cyswllt sy'n tyfu gan fwy na 12% o'i faint fel yr oedd yn Ebrill 2007. O gyfanswm o 90 o Aneddiadau Cyswllt ar draws y 22 o grwpiau aneddiadau, mae 41 (46%) wedi cyrraedd neu'n uwch na'u terfyn twf o 12%. Mae'r ffigur hwn yn cymharu â 36 (40%) adeg mabwysiadu'r cynllun. Mae'r adolygiad o'r CDLI yn ystyried y rhesymau dros y newid negyddol hwn i ffwrdd o'r terfynau capasiti sefydledig ledled y sir.
- 1.20 Mae'r Dangosydd AMRH05 yn ystyried datblygiadau mewn 'lleoliadau eraill'. Yn y cyfnod monitro hwn roedd rhaniad 56.44 rhwng datblygiadau preswyl mewn 'lleoliadau eraill' a gymeradwywyd yn ystod y cyfnod monitro a oedd yn cydymffurfio â'r CDLI a'r Polisi Cenedlaethol (25 uned) a'r datblygiadau oedd heb gydymffurfio. Cymeradwywyd 11 uned y tu allan i'r hyn a ganiateir gan strategaeth y CDLI, Polisi Cynllunio Cymru 9.2.22 a TAN 6.

Cyflenwi Tai

- 1.21 Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o berfformiad Dangosyddion Cyflenwi Tai yr Adroddiad Monitro Blynyddol.

Dangosydd	Perfformiad									
	2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	
AMRH06 – Tai a Gwblhawyd yn Flynyddol yn erbyn Cyfradd Adeiladu Flynyddol a Ragwelir	+	0	-	-	-	-	-			
AMRH07 – Cyflenwi Safleoedd Tai a Neilltuwyd	0	0	-	-	-	-	-			

Tudalen 36

Crynodeb Gweithredol

AMRH08 – Datblygu Tai mewn Lleoliadau Priodol	0	0	-	-	-	-	-		
AMRH09 – Datblygu Tai ar Dir a Ddatblygwyd o'r Blaen	+	+	+	+	+	+	+		
AMRH13 – Dwysedd Tai	0	0	+	+	0	0	0		
AMRH14 – Cyflenwi Tai	0	0	0	-	-	-	-		
AMRH15 – Rychwant y Tai	0	0	0	0	0	0	0		

- 1.22 Mae Dangosydd AMR H06 wedi'i ddiwygio i gynnwys y dangosydd Gofyniad Blynyddol Cyfartalog. Mae'r gofyniad blynyddol cyfartalog cyfredol yn seiliedig ar y 6000 o unedau sydd eu hangen ar gyfer CDLI1, wrth symud ymlaen, bydd gwaith yn digwydd i seilio'r taflwybr hwn ar y gwir dai a gwblhawyd hyd yma a nodi'r broses o amseru safleoedd/cyflenwad a'u cyflwyno'n raddol. Ar gyfer 2019 -20 y Gymhariaeth Flynyddol o ran Tai a Gwblhawyd yn erbyn y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog yw -316 (-79%) (fodd bynnag, fel y nodwyd yn flaenorol, nid yw gwybodaeth y tai a gwblhawyd yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol hwn yn adlewyrchu'r gwir sefyllfa). Yn gronnol ers dechrau cyfnod y cynllun, y Gymhariaeth Gronnol o ran Tai a Gwblhawyd yn erbyn y gofyniad cyfartalog blynyddol cronnol yw -2776 (-54%). Mae'r adolygiad o'r CDLI yn ystyried priodoldeb strategaeth, polisïau a dyraniadau tai y CDLI, ac mae dau alwad am safleoedd ymgeisiol wedi cael eu gwneud.
- 1.23 Mae'r Dangosydd AMRH07 yn ei gwneud hi'n ofynnol i 100% o'r tai gael eu cyflenwi ar safleoedd a neilltuwyd erbyn 2022. Nid yw'r targedau a nodwyd ar gyfer 2019 (84% o ymrwymïadau a 64% o unedau wedi'u cwblhau) wedi cael eu cyflawni. Mae canran yr unedau a ragwelwyd (caniatadau) ac

unedau a gwblhawyd ar safleoedd a neilltuwyd wedi newid ers y cyfnod monitro blaenorol i 16% a 4%. Mae'r Dangosydd AMRH08 yn ei gwneud hi'n ofynnol i 90-100% o'r gofyniad ar gyfer datblygiadau preswyl mewn Canolfannau Gwasanaethau Trefol a Chanolfan Gwasanaethau Gwledig gael ei fodloni ar safleoedd a neilltuwyd ar ôl mabwysiadu'r cynllun. Y canlyniadau yw 65% (unedau a ganiatawyd mewn canolfannau gwasanaethau) ac 22% (unedau a gwblhawyd mewn canolfannau gwasanaethau). Er nad yw targedau'r dangosydd wedi cael eu cyflawni, mae symudiad cadarnhaol yn y blynyddoedd blaenorol i'w weld ers mabwysiadu'r cynllun. Mae'r CDLI yn ystyried yn fwy manwl gyflenwi safleoedd a neilltuwyd wrth i ni symud ymlaen trwy'r adolygiad.

- 1.24 Mae'r Dangosyddion AMRH07, AMRH08 ac AMRH09 yn dangos bod lefel cyflenwi tai yn parhau i fod yn is na'r hyn sy'n ofynnol i fodloni strategaeth y CDLI. Bydd priodoldeb strategaeth, polisïau a dyraniadau tai y CDLI yn cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad pedwar blynyddol statudol o'r CDLI. Bydd yr adolygiad hwn yn cynnig modd ystyried hyn yn briodol yn sgil unrhyw ymchwil newydd sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd ar y cyflenwad tai a'r galw am dai yng Ngheredigion ac ar draws Cymru. Mae'r adolygiad o'r CDLI yn ailasesu'r gallu i gyflenwi'r holl safleoedd a neilltuwyd ar hyn o bryd ac, fel sy'n ofynnol, yn nodi dyraniadau safle ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol 2 os oes hyder y gellir eu cyflenwi yn ystod cyfnod y cynllun.
- 1.25 Mae'r Dangosydd AMRH14 yn anelu at gael gostyngiad flwyddyn ar ôl blwyddyn yn y gymhareb rhwng cydsyniadau preswyl sy'n sefyll ag unedau a gwblhawyd. Ni chyflawnwyd y gymhareb ddechreuol o 6.5 erioed, ac mae ffigur eleni o 20.5 o gydsyniadau, yn parhau i ddangos amrywiadau amrywiol iawn o flwyddyn i flwyddyn sy'n awgrymu nad yw'r dangosydd monitro hwn yn ddangosydd cynnydd gwerthfawr gan ei fod mor ddi-ddal i fân newidiadau blynyddol, hefyd fel y soniwyd yn flaenorol, nid yw ffigur y tai a gwblhawyd yn cael ei ystyried yn gywir eleni, oherwydd nad yw'r arolwg wedi'i gwblhau yn y ffordd arferol. Mae ffigur y tai a gwblhawyd o 84 uned ar gyfer 2020 bron i draean yn llai na ffigur 2019 pan oedd y gymhareb yn 9.1). Mae nifer y cydsyniadau sy'n sefyll yn parhau'n weddol ddigyfnewid ar oddeutu 1,400 ar

draws y sir, fodd bynnag, Mae'r gymhareb caniatadau i dai a gwblhawyd yn amrywio ar draws grwpiau'r aneddiadau.

- 1.26 Mae'r Dangosyddion AMRH09, AMRH13 ac AMRH14 yn dangos bod y targedau a nodwyd yn cael eu cyflawni, neu os nad ydynt yn cael eu cyflawni, bod dim pryderon ynghylch gweithredu'r polisi o ran datblygu tai ar dir a ddatblygwyd o'r blaen, dwysedd tai a'r rhychwant tai.

Tai Fforddiadwy

- 1.27 Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o berfformiad Dangosyddion Tai Fforddiadwy yr Adroddiad Monitro Blynnyddol.

Dangosydd	Perfformiad								
	2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022
AMRH10 – Tai Fforddiadwy	0	0	0	0	0	0	0		
AMRH11 – Tai Fforddiadwy	+	+	+	+	0	0	0		
AMRH12 – Mathau o Dai Fforddiadwy	?	0	0	0	0	0	0		

- 1.28 Mae'r Dangosydd AMRH10 yn ei gwneud hi'n ofynnol i 1,100 o dai fforddiadwy gael eu cwblhau erbyn 2022. Mae cynnydd tuag at y targed a nodwyd yn amlwg gyda thua 50% o'r targed wedi'i gyflenwi eisoes. Fodd bynnag, mae cyfradd y cynnydd tuag at y targed a nodwyd ar gyfer 2022 hyd yma yn awgrymu nad yw'r targed yn debygol o gael ei gyflawni erbyn diwedd cyfnod y cynllun. Cafodd 16 o dai fforddiadwy eu cyflenwi y flwyddyn hon sydd yn is na'r cyfartaledd blynnyddol, fodd bynnag mae pandemig Covid-19 wedi effeithio ar gasglu data fel y nodwyd yn flaenorol.
- 1.29 Mae'r Dangosydd AMRH11 yn ei gwneud hi'n ofynnol i o leiaf 20% o'r holl aneddiadau a ganiatawyd fod yn fforddiadwy. Mae'r targed hwn wedi cael ei

rhagori gyda 39% o'r holl ddatblygiadau preswyl a ganiatawyd ers mabwysiadu'r cynllun yn dai fforddiadwy. Mae nifer yr heriau hyfywedd i'r polisi tai fforddiadwy (Polisi S05) yn parhau i fod yn uchel gyda 19 o heriau hyfywedd wedi'u cyflwyno yn ystod y cyfnod monitro, 95% ohonynt yn llwyddiannus yn gyfan gwbl neu'n rhannol. Cyfiawnhawyd gofynion tai Polisi S05 gan astudiaeth 2010 ynghylch hyfywedd economaidd darparu tai fforddiadwy. Mae'r Cyngor wedi comisiynu ar y cyd asesiad hyfywedd wedi'i ddiweddarau ar gyfer y rhanbarth sy'n cael ei ddefnyddio i lywio'r adolygiad o'r CDLI.

1.30 Mae'r Dangosydd AMRH12 yn ystyried y mathau o dai fforddiadwy ac yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddarparu rhaniad canrannol yn unol â'r dystiolaeth o'r angen am dai. Mae'r targed a nodwyd yn flaenorol yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r gymhareb o fathau o dai fforddiadwy fod yn 9% (Ar Werth Ar Ostyngiad 70%):32% (Ar Werth Ar Ostyngiad 50%): 59% (Rhent Cymdeithasol). Er nad yw'r targedau hyn yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd, ystyrir bod y dosbarthiad cyffredinol o dai fforddiadwy yn foddhaol ac nid oes unrhyw bryderon ar hyn o bryd. Y rheswm am hyn yw oherwydd bod tystiolaeth, gan gynnwys yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA) (2016) a'r Asesiad Hyfywedd Strategol (2017 ac yn cael ei baratoi ar hyn o bryd) yn dangos er nad yw'r rhaniad tenantiaeth gofynnol yn cael ei fodloni, nid yw'n bryder mawr oherwydd bod nifer yr unedau gwirioneddol a gyflenwyd yn cyfateb yn agos â'r dystiolaeth wedi'i diweddarau. Disgwylir i dystiolaeth bellach ar yr angen am dai a hyfywedd gael ei chyflwyno ar ddiwedd 2020, ac yn dilyn hyn ystyrir newid polisi yn y cynllun newydd.

1.31 I grynhoi, cafwyd symudiadau cadarnhaol tuag at gyflawni'r targedau a nodwyd yn y strategaeth. Fodd bynnag, nid yw graddfa / cyfradd y cynnydd mor gyflym ag y rhagwelwyd. Mae canlyniadau eleni (ac eithrio'r rheini ar gyfer tai a gwblhawyd) yn debyg i'r rhai a nodwyd yn Adroddiad Monitro Blynyddol 2019. Nid yw targedau'r dangosydd ar gyfer cyflenwad tai a chyflenwi tai yn cael eu cyflawni. Er y nodir nad yw hyn yn broblem unigryw i'r ardal leol bydd yr adolygiad o'r CDLI yn ystyried sut i gefnogi cyflenwad a chyflenwi mwy effeithiol o dai yn y sir. Mae mwy nag 20% o'r holl dai a ganiatawyd ac a gwblhawyd yn fforddiadwy, sy'n gadarnhaol. Fodd bynnag,

nid yw cyfradd y cynnydd blynyddol cyfartalog mor gyflym ag y disgwyliwyd, ac nid yw'r targedau a nodwyd yn debygol o gael eu cyflawni erbyn diwedd cyfnod y cynllun. Mae'r rhesymau dros hyn yn amlochrog ac yn awgrymu'n gryf darparu gormod o dai yn seiliedig ar amcanestyniadau diffygiol o ran y boblogaeth o ddechrau cyfnod y cynllun.

Economi a Manwerthu

1.32 Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o berfformiad Dangosyddion Economi a Manwerthu'r Adroddiad Monitro Blynyddol:

Dangosydd	Perfformiad									
	2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	
AMRE01 – Cyflenwad Tir Cyflogaeth	+	+	+	+	+	+	+			
AMRE02 – Cyflenwi'r Safleoedd Economaidd sydd wedi eu Neilltuo	+	+	+	0	0	0	0			
AMRE03 – Datblygu Economaidd mewn Lleoliadau Addas	+	+	+	+	+	+	+			
AMRE04 – Datblygu Economaidd ar Dir a Ddatblygwyd o'r Blaen	0	0	+	+	+	+	+			
AMRE05 – Canol Trefi	+	?	?	+	+	0	0			

Crynodeb Gweithredol

AMRE06 – Bywiogrwydd y Canolfannau Gwasanaethau Gwledig	?	+	+	+	+	+	+		
AMRE07 – Ffryntiadau Manwerthu	0	0	+	+	+	+	+		

1.33 Mae targedau'r Economi a Manwerthu yn cael eu cyflawni'n bennaf ac nid oes unrhyw bryder mawr ynghylch gweithredu'r polisïau economaidd a manwerthu. Mae'r Dangosydd AMRE02 yn ei gwneud hi'n ofynnol i 100% o safleoedd a neilltuwyd gael eu caniatáu a'u cwblhau erbyn 2022, a dim ond 81% a 61% o ddatblygu sydd wedi cael ei ganiatáu a'i gwblhau hyd yma. Er nad yw'r targed hwn wedi cael ei gyflawni nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithredu'r polisïau. Mae'r Cyngor yn y broses o ddiweddarau ei sylfaen tystiolaeth economaidd a fydd yn cynnwys adolygiad mwy na thir cyflogaeth lleol ac asesiad o anghenion wedi'i gomisiynu ar y cyd â Chyngor Powys i ystyried cyflenwi safleoedd cyflogaeth sy'n bodoli ac anghenion cyflenwi tir economaidd yn y dyfodol.

Ansawdd Bywyd

1.34 Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o berfformiad Dangosyddion Ansawdd Bywyd yr Adroddiad Monitro Blynyddol.

Dangosydd yr Adroddiad Monitro Blynyddol	Perfformiad									
	2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	
AMRQ01 – Colli Mannau Agored a Chyfleusterau	0	+	+	+	+	+	+			

Tudalen 42

Crynodeb Gweithredol

AMRQ02 – Colli Safleoedd Tir Glas	0	0	0	0	0	0	0		
AMRQ03 – Ennill Mannau Agored	0	0	0	0	0	-	-		
AMRQ04 – Yr Amgylchedd a Bioamrywiaeth Leol	+	0	-	0	0	0	0		
AMRQ05 – Gwelliannau Amgylcheddol	-	-	0	+	0	0	0		
AMRQ06 – Seilwaith	?	?	+	+	+	+	+		
AMRQ07 – Lleihau Perygl Llifogydd	-	0	+	+	+	0	0		
AMRQ08 – Capasiti MW gosodedig yn Ardal Chwilio Strategol (SSA) D	0	?	0	0	0	?	?		
AMRQ09 – Gwastraff	?	?	?	?	?	?	?		
AMRQ10 – Agregau	0	0	0	+	+	+	+		

1.35 Mae Dangosyddion AMRQ01, AMRQ06, AMRQ07 ac AMRQ10 yn dangos bod y targedau a nodwyd yn cael eu cyflawni. Mae targedau Dangosyddion AMRQ02, AMRQ03, AMRQ04 ac AMRQ05 yn cael eu cyflawni i ryw raddau, ac os nad yw'r targedau yn cael eu cyflawni nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithredu'r polisiau perthnasol. O ran y Dangosyddion AMRQ08 ac AMRQ09 ni ellir dod i unrhyw gasgliadau ar hyn o bryd.

Monitro Asesiadau Amgylcheddol Strategol (AAS)/Arfarniadau o Gynaliadwyedd (AG)

- 1.36 Mae'r Gyfarwydddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor fonitro cyflwr yr amgylchedd trwy fonitro'r amcanion cynaliadwyedd a nodir yn yr Adroddiad AAS/AG. Mae hyn yn rhan annatod o'r Adroddiad Monitro Blynyddol ac i'w weld yn Adran 5. Mae crynodeb o berfformiad amcanion a dangosyddion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd i'w weld yn Atodiad 2. Mae unrhyw newidiadau i'r fframwaith i'w gweld yn Atodiad 3. **I grynhoi mae gwaith monitro AAS/AG yn dangos newid cadarnhaol yn yr amgylchedd hyd yma yng nghyfnod y cynllun.**

Casgliad ac Argymhellion

- 1.37 O ran Dangosyddion Tai y CDLI, mae Adroddiad Monitro Blynyddol eleni yn parhau i ddangos peth symudiad cadarnhaol tuag at y targedau a nodwyd ar gyfer rhai dangosyddion. Fodd bynnag, nid yw cyfradd y cynnydd mor gyflym ag y disgwyliwyd, ac erys pryder na fydd targedau cyfnod y cynllun yn cael eu cyflawni erbyn 2022. Mae dangosyddion tai eraill yn tynnu sylw at yr angen am ymchwiliad pellach a thystiolaeth newydd sy'n dod i'r amlwg ac sy'n llywio'r adolygiad o'r CDLI. O ran Dangosyddion Economi a Manwerthu ac Ansawdd Bywyd y CDLI, mae targedau naill ai'n cael eu cyflawni neu, os nad ydynt yn cael eu cyflawni, nid ydynt yn codi unrhyw bryderon o ran gweithredu'r polisi ar hyn o bryd.

2. Newidiadau Cyd-destunol Pwysig

- 2.1 Mae'r adran ganlynol yn ystyried y newidiadau cyd-destunol sydd wedi cael, neu a allai gael, ddylanwad ar weithredu'r CDLI, gan gynnwys polisi ac amodau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Deddfwriaeth, Polisi a Chyfarwyddyd Cenedlaethol

Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Rhifyn 3) (Mawrth 2020)

- 2.2 Diweddarwyd y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu i ystyried newidiadau sylweddol i ddeddfwriaeth gynllunio a pholisi cenedlaethol ers cyhoeddi Llawlyfr y CDLI (Rhifyn 2) yn 2015, gan gynnwys Deddf Cynllunio Cymru (DEDDF) 2015, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, Polisi Cynllunio Cymru 10 (Rhifyn 10), cyhoeddi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn y dyfodol, Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol Cryno cysylltiedig. Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu wedi'i ddiweddarau yn cynnwys canllawiau ar baratoi, monitro ac adolygu cynlluniau datblygu gyda'r nod o sicrhau eu bod yn effeithiol ac yn gyflawnadwy ac yn cyfrannu at greu lleoedd. Yn nodedig ar gyfer proses yr Adroddiad Monitro Blynyddol, mae Llywodraeth Cymru wedi diwygio'r rhestr o ddangosyddion gofynnol ac allweddol ac wedi gwneud newidiadau sylweddol i fonitro cyflenwi tai, tra'n nodi'r gofynion ar gyfer ymgynghori â rhanddeiliaid ar fonitro tai.
- 2.3 Mae'r Llawlyfr yn galluogi ymarferwyr i adeiladu ar sgiliau a gwybodaeth i baratoi cynlluniau mwy effeithiol a chyflawnadwy, ac mae'n ymgorffori arferion gorau wrth ddatrys materion a sut i ddad-risgio cynlluniau trwy baratoi sylfaen dystiolaeth gadarn â ffocws. Mae'r Llawlyfr yn egluro disgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran y broses o greu cynlluniau. Dilyniir y canllawiau a roddir gan y Llawlyfr wrth baratoi CDLI2 i sicrhau cynllun cadarn y gellir ei gyflawni.

- 2.4 O ran gweithdrefnau monitro, adolygu a diwygio'r CDLI, mae'r Llawlyfr yn nodi'r gweithdrefnau i'w cymryd mewn perthynas â'r gofynion newydd ar gyfer monitro cyflenwi tai ar gyfer CDLlau presennol a CDLlau newydd.

Dirymu Nodyn Cyngor Technegol 1 (Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai (Ionawr 2015) a diwygiadau cysylltiedig i Bolisi Cynllunio Cymru (Mawrth 2020)

- 2.5 Cynhaliodd Llywodraeth Cymru 'Adolygiad o Gyflenwi Tai trwy'r System Gynllunio', a nododd fod llawer o CDLlau mabwysiedig yn methu â darparu nifer y cartrefi newydd sydd eu hangen, gyda safleoedd a ddyrannwyd ddim yn cael eu dwyn ymlaen i'w datblygu neu'n cael eu datblygu ar gyfradd arafach na'r disgwyl. Daethpwyd i'r casgliad bod hyn oherwydd nad oedd y fframwaith polisi ar gyfer sicrhau bod cyflenwi tai a'r mecanwaith monitro cysylltiedig yn cyd-fynd yn ddigonol â phroses y CDLI.
- 2.6 O ganlyniad, mae'r polisi pum mlynedd o ran y cyflenwad o dir sydd ar gael ar gyfer tai wedi'i ganslo a bydd angen monitro'r cyflenwad tai yn fwy manwl fel rhan o'r Adroddiadau Monitro Blynyddol
- 2.7 Gwnaed diwygiadau yn unol â hynny i Bolisi Cynllunio Cymru a Llawlyfr y Cynllun Datblygu (gweler isod) er mwyn sicrhau bod monitro cyflenwi tai, gan gynnwys yr ymateb i dan-gyflenwi, yn rhan annatod o'r broses o baratoi, monitro ac adolygu'r CDLI..

Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) Ebrill 2019

- 2.8 Ar 1 Ebrill 2019 daeth diwygiad i'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir i rym sy'n ymwneud yn benodol â datblygiadau ynni, telathrebu a gwasanaeth. Y diwygiad mwyaf arwyddocaol yw diwygiad i Atodlen 2, rhan 2 'Mân Weithrediadau' sy'n cyflwyno Dosbarthiadau D ac E ac yn sefydlu hawliau datblygu ar gyfer offer a seilwaith ar gyfer "ail-wefru cerbydau trydan" cyn belled â bod y cynigion yn cydymffurfio â'r meini prawf penodedig.

Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Cymru) 2002 (Y Gorchymyn Diwygio) Mawrth 2020

- 2.9 Mewn ymateb i'r heriau aruthrol a wynebwyd oherwydd COVID-19, gwnaed diwygiad i'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir), a ddaeth i rym ar 30 Mawrth 2020. Mae'r Gorchymyn Diwygio yn mewnosod Rhan 12A newydd (Datblygu Brys gan Awdurdodau Lleol) fel atodlen i'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir, sy'n caniatáu i awdurdodau lleol gyflawni rhai datblygiadau, fel y'u diffinnir gan adran 55 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, ar dir sy'n eiddo, ar brydles neu sy'n cael ei gynnal a'i gadw gan yr awdurdod lleol, at y dibenion canlynol:
- a) Atal argyfwng;
 - b) Lleihau, rheoli neu liniaru effeithiau argyfwng;
 - c) Cymryd camau eraill mewn cysylltiad ag argyfwng.
- 2.10 At y dibenion hyn, mae argyfwng yn ddigwyddiad neu'n sefyllfa sy'n bygwth difrod difrifol i les dynol mewn lle yn y Deyrnas Unedig, sy'n cynnwys pandemig COVID-19.
- 2.11 Mae'r datblygiad newydd yn ddarostyngedig i amodau sydd hefyd wedi'u nodi yn Rhan 12A newydd. Mae un o'r amodau yn cynnwys cyfyngu'r dyddiad cadw datblygiad o dan y rhan newydd hon i 12 mis, gan ddechrau ar y dyddiad y dechreuodd y datblygiad.

Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n effro i'r hinsawdd (Tach 2019)

- 2.12 Y ddogfen hon yw'r ail gynllun addasu ar gyfer newid yn yr hinsawdd yng Nghymru. Mae'n nodi gofynion cyfreithiol, y risgiau o'r newid yn yr hinsawdd, blaenoriaethau ymchwil ac yn nodi'r camau sy'n cael eu cymryd.
- 2.13 Mewn perthynas â chamau cynllunio sy'n ymwneud â'r canlynol, maent o bwys arbennig:
- Diogelu pobl ac adeiladau rhag llifogydd;
 - Diogelu cyflenwadau dŵr cyhoeddus;
 - Peryglon i ecosystemau a busnesau amaeth;

- Polisi Cynllunio Cymru a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol; ac
 - Yr Amgylchedd Hanesyddol.
- 2.14 Yn ystod y flwyddyn adrodd roedd ymgynghoriadau cyhoeddedig gyda'r potensial i gael effaith ar y CDLI yn cynnwys: Cynyddu Cyflenwad Cartrefi Fforddiadwy Trwy Gynllunio (Gorffennaf 2019)
- Nodyn Cyngor Technegol 15: Ymgynghoriad Drafft ar ddatblygu, llifogydd ac erydu arfordirol (Hyd 2019. LIC)
 - Allwedd Band Eang y Genhedlaeth Nesaf: adolygiad o'r farchnad agored 2019 (Tach 2019. LIC)
 - Cyflenwi tai trwy'r system gynllunio. (Tach 2019, LIC)
 - Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd a a Rheoli Risgiau Arfordirol (Chwe 2020. LIC)
 - Ansawdd Aer a seinwedd: adolygiad o Nodyn Cyngor Technegol 11. (Chwe, 2020. LIC)
 - Deddf Cydraddoldeb 2010: Cychwyn y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol. (Mawrth 2020, LIC)
- 2.15 Cyhoeddwyd yr ymchwil, y polisi a'r canllawiau canlynol hefyd yn ystod y cyfnod monitro:
- Tuag at Ddyfodol Diwastraff: ein strategaeth wastraff. (Mai 2019, LIC)
Llawlyfr ar gyfer strydoedd (strydoedd preswyl) (Mai 2019, LIC)
 - Aseiad o'r effaith amgylcheddol: canllawiau (Mai 2019, LIC)
 - Llawlyfr ar gyfer strydoedd 2 (strydoedd trefol a gwledig) (Mai 2019, LIC)
 - Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy: canllaw (Mehefin 2019, LIC)
 - Ynni Cymru: cynllun cyflawni carbon isel. (Gorffennaf 2019, LIC)
 - Cymru a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy. (Mehefin 2019, LIC)
 - Canllawiau datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol: ymgynghori a chyhoedduswydd. (Gorffennaf 2019, LIC)

- Aseiad o botensial ynni gwynt ar y tir ac ynni'r haul yng Nghymru. (Awst 2019, LIC)
- Strategaeth Tystiolaeth Forol Cymru. (Medi 2019, LIC)
- Cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru: piblinell y prosiect 2019. (Tach 2019, LIC)
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1- Adran 6-Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chadernid Ecosystemau: canllawiau adrodd ar gyfer awdurdodau cyhoeddus. (Tach 2019, LIC)
- Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru: dogfen (Tach 2019, LIC)
- Datblygiad un blaned; canllawiau arferion (Ion 2020, LIC)
- Trawsnewid Trefi: ffeithlun (Mawrth 2020, LIC)
- Coronafeirws (COVID-19): Paratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLI). (Mawrth 2020, LIC)
- Newidiadau i bolisi cynllunio a chanllawiau ar gyflenwi tai. (Mawrth 2020, LIC)
- Coronafeirws: canllawiau i awdurdodau cynllunio. (Mawrth 2020, LIC)
- Hawliau datblygu a ganiateir mewn argyfwng ar gyfer coronafeirws. (Mawrth 2020, LIC)
- Cymraeg 2050: Cynllun gweithredu strategaeth y Gymraeg 2020 i 2021. (Mawrth 2020, LIC)
- Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2020.(Mawrth 2020, LIC)

Casgliad

2.16 Mae polisi a chyfarwyddyd cenedlaethol a gyflwynwyd y flwyddyn hon (1af o Ebrill – 31ain o Fawrth 2020) wedi'i ganolbwyntio i raddau helaeth ar ganllawiau technegol nad oeddent yn sefydlu persbectif polisi diwygiedig ar gyfer cyd-destun y cynllun. Fodd bynnag, wrth i'r flwyddyn symud ymlaen a

gwawrio Covid 19 ddechrau effeithio ar fywydau beunyddiol, symudodd y focws at reoli'r argyfwng oedd yn dod i'r amlwg a chafwyd llw o newidiadau i gefnogi'r ymateb i Covid. Er bod llawer o hyn wedi'i gyhoeddi yn y flwyddyn fonitro, er ei fod ar y diwedd, bydd yn cael ei drafod a'i ystyried o ran effeithiau yn llawer mwy manwl yn Adroddiad Monitro Blynyddol 2020-2021 y gwnaeth ymateb Covid newid arferion gwaith ac effeithio ar adolygiad y CDLI. Lle y bo'n briodol, mae'r canllawiau a'r polisi a gyflwynwyd yn 2019-2020 wedi'u hymgorffori ac yn cael eu datblygu ar gyfer adolygiad y CDLI.

Amodau Cenedlaethol

Tai

- 2.17 Mae data StatsCymru yn dangos bod nifer yr anheddau newydd a ddechreuodd yn genedlaethol yn ystod y cyfnod 2018-19 wedi gostwng gan 2% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol i 5,974 o anheddau ar draws Cymru. Gostyngodd nifer yr anheddau newydd a gwblhawyd gan 13% yn ystod 2018-19. Nid yw Stats Cymru wedi rhoi dim data blynyddol ar gyfer 2019-20 ar dai a gwblhawyd a deiliadaeth tai (Adeiladu tai newydd (llyw.cymru)) Yng Ngheredigion nid yw ffigurau'r tai a gwblhawyd ar gyfer 2019 - 2020 yn adlewyrchu'r gwir sefyllfa gan nad yw'r arolygon safle tai a gwblhawyd a chaniatadau sydd heb eu gweithredu oherwydd Pandemig COVID-19.
- 2.18 Roedd Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn gyfrifol am y rhan fwyaf o unedau a gwblhawyd yn y sector cymdeithasol a chafodd 57 o anheddau newydd eu cwblhau gan yr Awdurdodau Lleol yn 2018-19. Roedd 78% o'r holl anheddau newydd a gwblhawyd yng Nghymru yn ystod 2018-19 yn eiddo 3 ystafell wely. Mae'r lefel leol yng Ngheredigion (84%) ychydig yn uwch na'r darlun cenedlaethol. Nid yw Stats Cymru wedi rhoi dim data blynyddol ar gyfer 2019-20 ar dai a gwblhawyd a deiliadaeth tai (Adeiladu tai newydd (llyw.cymru)).

Economi

2.19 Nododd Arolwg o'r Llafurlu a gyhoeddwyd ym Mai 2019 mai'r gyfradd cyflogaeth amcangyfrifol yng Nghymru ym Mawrth 2020 oedd 74.3% o bobl 16-64 oed (1.5 miliwn o bobl) – i lawr 1.1 pwynt canran o'r flwyddyn faenorol ym Mawrth. Mae nifer y bobl oedd yn economaidd anweithgar wedi codi o 399,000 yn 2019 i 443,000 y flwyddyn hon.

<https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2020-05/key-economic-statistics-may-2020-347.pdf>

2.20 Mae'r sector cyhoeddus yn gyflogwr pwysig yng Nghymru gyda 28.5% o bobl mewn cyflogaeth yn gweithio yn y sector cyhoeddus (2019), o'i gymharu â 27.4% (2018), 25.9% (2017), 26.7% (2016) a 27.9% (2015). Er bod ychydig o gynnydd o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol, yn gyffredinol bu'r patrwm yn un o leihad ac ni chafwyd unrhyw newidiadau mawr yn swyddi'r gweithlu yn ôl diwydiant ers mabwysiadu'r cynllun yn 2013.

2.21 Yn ôl gwaith monitro Consortiwm Manwerthu Cymru, Monitro Nifer y Siopwyr a Siopau Gwag Springboard, mae cyfraddau siopwyr a siopau gwag, mae nifer y siopwyr a siopau gwag ledled Cymru wedi amrywio'n fawr dros y blynyddoedd diwethaf, gyda gostyngiad sylweddol yn nifer y siopwyr yn 2011 sy'n cyd-fynd â lefelau siopau gwag cyffredinol o fwy nag 13%. Ers hynny, cafwyd cynnydd dilynol sy'n fwy na'r hyn a welwyd trwy'r DU gyfan a gwelliant sylweddol yn nifer y siopwyr ar draws Cymru ers Gorffennaf 2013. Fodd bynnag, roedd gostyngiad ar ddechrau 2018 yn nifer y siopwyr yng nghanol trefi, ac ym mis Chwefror gwelwyd gostyngiad o 2.3% o'i gymharu â ffigurau'r llynedd, ac mae'n bosib bod yr eira a gafwyd dros fisoedd y gaeaf wedi cyfrannu at hyn. Mae arwyddion o ansicrwydd parhaus defnyddwyr ynghylch y rhagolygon economaidd wedi'i adlewyrchu yn y dirywiad pellach o 4.8% o Fehefin 2018 i Fehefin 2019. [WRC \(brc.org.uk\)](http://wrc.brc.org.uk)

- 2.22 O ran yr economi, mae'r darlun yn parhau'n debyg i Adroddiadau Monitro Blynyddol 2016-19, ond mae gwaith Tyfu Canolbarth Cymru, yn enwedig y sylfaen dystiolaeth, i nodi rhaglenni ymyrraeth, wedi nodi twf mewn cyflogaeth yn y sector swyddi o safon ac argaeledd tir cyflogaeth fel maes â blaenoriaeth, ochr yn ochr â chefnogi'r diwydiant uwch-dechnoleg a thechnoleg amaethyddol. Felly pan gaiff yr ymyraethau hyn eu gwireddu disgwylw'n weld mwy o ddefnydd o safleoedd cyflogaeth ac yn yr adolygiad byddwn yn ceisio cefnogi dyraniadau tir sy'n ategu'r rhaglen o ymyraethau., a Mae asesiad o anghenion cyflogaeth a mangreoedd mwy na lleol wedi'i gomisiynu ar y cyd gan Bowys, Ceredigion a Llywodraeth Cymru bydd canlyniadau hyn yn llywio'r gwaith o baratoi'r Cynllun Adnau CDLI2.

Newidiadau Cyd-destun Cenedlaethol Eraill

Brexit

- 2.23 Ym mis Mehefin 2016 pleidleisiodd etholwyr y DU o blaid gadael yr Undeb Ewropeaidd (UE) a gadawodd y DU yr UE yn ffurfiol ar ddiwedd 2019. Bellach mae cyfnod pontio tan ddiwedd 2020 tra bod y DU a'r UE yn negodi trefniadau ychwanegol. Mae'r rheolau cyfredol ar fasnach, teithio a busnes ar gyfer y DU a'r UE yn parhau i fod yn berthnasol yn ystod y cyfnod pontio.
- 2.24 Er bod Brexit yn debygol o gael effeithiau ar yr economi dros y blynyddoedd i ddod, bydd natur yr effeithiau hyn yn dibynnu ar y telerau y cytunwyd arnynt. Daw'r effeithiau hyn yn gliriach dros amser a bydd hyn yn parhau i gael ei ystyried mewn perthynas â'r CDLI ac unrhyw adolygiad dilynol.
- 2.25 Pandemig Covid-19
- 2.26 Mae pandemig byd-eang Covid 19 wedi effeithio ar chwarter olaf y cyfnod monitro. Ni fydd effaith y pandemig ar yr economi yn wirioneddol hysbys am gryn amser. Bydd yr effeithiau ar Geredigion a'i thrigolion a'i busnesau yn cael eu monitro'n agos hyd y gellir rhagweld.

Polisi ac Amodau Rhanbarthol

Awdurdodau Cyfagos a Gweithio ar y Cyd

- 2.27 Ar hyn o bryd mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn gweithio ar ei CDLI newydd a daeth yr ymgynghoriad ar Faterion sy'n Codi i ben ar 13/03/20, Mabwysiadodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro, Cyngor Sir Penfro a Chyngor Sir Caerfyrddin Gynlluniau Datblygu Lleol yn 2010, 2013 a 2014. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Penfro, Cyngor Sir Penfro a Chyngor Sir Caerfyrddin wedi dechrau diwygio'r Cynlluniau. Mae'r Cynlluniau Datblygu Lleol ar gyfer Powys ac ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn (Cynllun ar y Cyd) wedi cael eu mabwysiadu.
- 2.28 Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi cymryd rhan ym mhrosesau llunio cynllun pob awdurdod cyfagos, ac roedd yr awdurdodau hynny wedi cyfrannu at CDLI Ceredigion i sicrhau cyfatebiaeth drawsffiniol. Ni nodwyd unrhyw faterion o bwys a fyddai'n effeithio ar gyflenwi CDLI Ceredigion. Yn dilyn llythyr a dderbyniwyd gan yr Ysgrifennydd Cabinet yn gofyn i'r awdurdodau ystyried gweithio ar y cyd a'r cyfarfodydd dilynol a gynhaliwyd i drafod hyn, mae Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i nodi cyfleoedd i gydweithredu'n rhanbarthol ar draws ffiniau fel y bo'n briodol. Ar hyn o bryd mae Ceredigion yn gweithio ar y cyd â sawl awdurdod cyfagos ar gyd-gomisiynu Asesiad o Anghenion Mwy na Chyflogaeth Leol, Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, Asesiad Hyfywedd Strategol a sawl prosiect llai / darn o dystiolaeth arall lle y ceir cyfle i weithio ar draws ffiniau.
- 2.29 Mae partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru yn parhau i geisio darparu ffocws ac arweinyddion strategol ar gyfer datblygu economaidd yn ardaloedd Powys a Cheredigion ers ei sefydlu yn 2015. Mae Trafnidiaeth Canolbarth Cymru (TraCC) wedi ymuno â'r bartneriaeth a bydd yn parhau i weithredu fel Grŵp Seilwaith a Chysylltedd Canolbarth Cymru er mwyn cyfateb gweithgarwch cynllunio trafndiaeth strategol â gwaith partneriaeth i amrywio'r sylfaen economaidd, cefnogi a chryfhau'r sylfaen economaidd, creu swyddi a chyfleoedd newydd, datblygu sgiliau'r gweithle a gwella hygyrchedd a seilwaith cyfathrebu. Mae ymarfer casglu tystiolaeth yn parhau gydag AECOM yn

gweithredu fel ymgynghorwyr i nodi rhaglenni o ymyraethau yn seiliedig ar dystiolaeth.

2.30 Nid yw'r polisi a'r amodau rhanbarthol a gyflwynwyd eleni wedi arwain at unrhyw newidiadau pwysig yng nghyd-destun y cynllun. Caiff unrhyw oblygiadau ar gyfer y cynllun eu hystyried fel rhan o ddiwygio'r CDLI sydd ar y gweill.

Polisi ac Amodau Lleol

Data Poblogaeth ac Aelwydwydd.

2.31 Mae twf yn y boblogaeth yng Ngheredigion yn gyfan gwbl yn gynnyrch mewnfudo net ac mae'n sensitif iawn i ffactorau lleol, megis newidiadau yng nghofrestriad myfyrwyr addysg uwch a thueddiadau ymfudo eraill. Mae amcanestyniad is-genedlaethol y boblogaeth ar gyfer 2018 i 2043 a ryddhawyd ym mis Chwefror 2020 (Gweler AMRH01), yn awgrymu y bydd poblogaeth Ceredigion yn gostwng 3.3% i oddeutu 70,600 yn 2028.

Tai

2.32 Yn y cyd-destun ariannol a gwleidyddol ansicr sydd ohoni, mae'n amhosib gwahaniaethu rhwng effeithiau newidiadau mewn methodoleg a'r newidiadau yn y tueddiadau sylfaenol, megis mwy o symudiad tuag at y canolfannau trefol ac i ffwrdd o'r ardaloedd gwledig. Nid yw dirywiad bach yn y boblogaeth yn arwain at lai o aelwydwydd o reidrwydd, ond wrth i'r boblogaeth heneiddio mae'n debygol y bydd mwy o gam-gyfateb rhwng anghenion a'r mathau o anheddau sydd ar gael. Y prif faterion yn ymwneud â chyflenwi tai sy'n berthnasol i Geredigion ar wahân i'r tueddiadau yn y boblogaeth yw bod diffyg cyffredinol mewn cyflenwi ar draws Cymru, gan gynnwys Ceredigion, gyda'r broblem ychwanegol o ddiffyg adeiladwyr nifer fawr o dai yn yr ardal leol a hyfywedd gwael yn gyffredinol, yn enwedig yn yr ardaloedd mewndirol.

Addysg

- 2.33 Ni agorwyd unrhyw ysgolion newydd y flwyddyn hon. Mae'r polisi adolygu ysgolion 2014 yn weithredol o hyd a caewyd tair ysgol pellach, gan gynnwys Beulah, Trewen (Adpar) a Chilcennin. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar gynnig i greu ysgol bro newydd ar safle newydd yn Nyffryn Aeron i gymryd lle ysgolion cynradd Ciliau Parc, Dihewyd a Felinfachyn Mehefin 2019 a cafodd y cynnig ei gytuno yn Mis Rhagfyr 2019.
- 2.34 Mae ysgolion newydd ac ysgolion sy'n cau a'r goblygiadau ar gyfer strategaeth ddatblygu'r CDLI yn cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad o'r CDLI.
- 2.35 Nid yw'r polisi ac amodau lleol a gyflwynwyd y flwyddyn hon wedi arwain at unrhyw newidiadau pwysig yng nghyd-destun y cynllun. Caiff unrhyw newidiadau y mae angen eu gwneud i'r cynllun eu hystyried fel rhan o'r CDLI newydd y cafodd y Strategaeth a Ffefir ei hymgyngori arno tan 12 Medi 2019.

3. Dadansoddiad o ddangosyddion Craidd a Lleol

- 3.1 Mae dangosyddion, targedau a lefelau ysgogyddion wedi cael eu nodi er mwyn asesu perfformiad polisïau ac amcanion. Bydd yr ysgogyddion sydd wedi'u cynnwys yn y drefn monitro yn rhoi arwydd cynnar o berfformiad y cynllun ac o bosibl hyd a lled yr adolygiad o'r cynllun.
- 3.2 Fel cymorth gweledol wrth fonitro effeithiolrwydd polisïau ac er mwyn rhoi trosolwg o berfformiad, mae dangosyddion allweddol a chanlyniadau'n cael eu dangos fel a ganlyn.

Arwyddocâd perfformiad	Disgrifiad
+	Mae'r targedau'n cael eu cyflawni.
?	Nid oes modd dod i unrhyw gasgliad ar hyn o bryd.
0	Nid yw'r targedau wedi cael eu cyflawni ond nid oes pryderon ynghylch gweithredu'r polisi / polisïau.
-	Nid yw'r targedau'n cael eu cyflawni ac mae pryderon ynghylch gweithredu'r polisi / polisïau.
Amh	Amherthnasol mwyach.

3.3 Gweithredoedd Monitro

Parhau i fonitro
Mae polisïau'r cynllun datblygu'n cael eu gweithredu'n effeithiol.
Angen hyfforddiant
Nid yw polisïau'r cynllun datblygu'n cael eu gweithredu fel y bwriadwyd ac mae angen hyfforddiant I swyddogion neu Aelodau.
Angen Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA)
Nid yw polisïau'r cynllun datblygu'n cael eu gweithredu'n ôl y bwriad ac mae angen canllawiau pellach, a pharatoi CCA ychwanegol o bosib.
Angen ymchwilio/gwaith ymchwil pellach
Nid yw polisïau'r cynllun datblygu'n cael eu gweithredu fel y bwriadwyd ac mae angen gwaith ymchwil a/neu ymchwilio pellach.
Angen adolygiad polisi
Nid yw polisïau'r cynllun datblygu'n cael eu gweithredu ac nid ydynt yn llwyddo i gyflawni; efallai y bydd angen adolygu'r polisi penodol.
Adolygu'r Cynllun
Nid yw polisïau'r cynllun datblygu'n cael eu gweithredu ac nid yw strategaeth y cynllun yn cael ei chyflawni, gan sbarduno adolygiad ffurfiol cyn yr adolygiad pedair blynedd statudol.

3.4 Sbardunwyd adolygiad y cynllun yn 2016 ar ôl y 3^{ydd} Adroddiad Monitro Blynyddol, felly efallai na fydd y camau monitro uchod yn berthnasol.

Tai

Cyfeirnod Monitro:		AMRH01		
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:		Newid yn y Boblogaeth		
Y Polisiau a Gaiff eu Monitro:		S01		
Lefel:		Lleol		
Pryd:		Bob 5 mlynedd		
Ffynhonnell:		Cyngor Sir Ceredigion (CSC) o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a data arall		
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Bydd newid yn y boblogaeth yn y sir dros gyfnod y CDLI yn cyd-fynd yn fras â'r newid a oedd wedi ei ddarogan ar sail yr	Niferoedd cyffredinol y boblogaeth; Y rhai sydd mewn addysg uwch ac nad ydynt mewn addysg uwch; Ymfudo cyfartalog net.	Gwneir dadansoddiad llawn o'r newid yn y boblogaeth gan gynnwys amcanestyniadau newydd bob pum mlynedd o gyfnod y cynllun. Caiff y newid yn y boblogaeth ei	Mae mesurau amrywiol o dwf yn y boblogaeth yn dangos tuedd ar y lawr yn gyffredinol o ran twf yn y boblogaeth ar gyfer Ceredigion o'i gymharu â'r	Gostyngiad amcanol yn y boblogaeth gyffredinol a gostyngiad cyfatebol yn angen aelwydwydd.

<p>amcanestyniadau o'r boblogaeth.</p>		<p>asesu ynghyd â'r dystiolaeth sydd ar gael ynghylch y newid yn nifer yr aelwydydd, ac ystyrir yr wybodaeth ddemograffig hon yn ôl amcanion polisi'r CDLI i weld a oes angen cymryd camau neilltuol.</p>	<p>ffigurau a gafodd eu rhyddhau'n flaenorol.</p>	
<p>Dadansoddiad</p> <p>Mae'r prif amcanestyniad poblogaeth a tai diweddaraf yn seiliedig ar ddata 2018 yn awgrymu y bydd poblogaeth Ceredigion yn gostwng gan oddeutu 4,250 o bobl rhwng 2018 a 2037, o 72,992 i 68,745, gyda gostyngiad cyfatebol yn nifer yr aelwydydd o oddeutu 4,500. Mae'r amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2018 yn adlewyrchu gwrthdroad yn y duedd ddemograffig o'i gymharu â'r set yn seiliedig ar 2014, a awgrymodd dwf oddeutu 5,400 o bobl a 2,800 o aelwydydd rhwng 2017 a 2037, o 76,000 i 81,500. Yn nodedig, gwnaed newid i fethodoleg yr amcanestyniadau yn seiliedig ar 2018, mae ymfudo mewnol (DU) bellach wedi'i seilio ar gyfraddau ymfudo yn hytrach na niferoedd sefydlog, a allai fod wedi cyfrannu at ostyngiad bach yn y boblogaeth a ddangosir yn amcanestyniadau'r boblogaeth. Mae'r amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2018 yn adlewyrchu'r duedd ar i lawr yn ddiweddar yn y Fodd bynnag, mae'r gyfres ddiweddaraf o Amcangyfrifon Canol Blwyddyn yn awgrymu bod poblogaeth y sir wedi gostwng i 72,695</p>				

yn 2019 o'i uchafswm poblogaeth o 76,000 yn 2012. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i ostyngiad yn nifer y myfyrwyr mewn addysg uwch yn y sir.

Mae amcangyfrifon o aelwydydd Llywodraeth Cymru yn dangos dirywiad mwy graddol o'r uchafswm a welwyd yn 2012-13 o 31,700 yn 2018 sy'n adlewyrchu cynnydd graddol yn nifer yr aelwydydd person sengl a gostyngiad araf cyffredinol ym maint aelwydydd. Nid yw dirywiad bach yn y boblogaeth o reidrwydd yn arwain at lai o aelwydydd ond, wrth i'r boblogaeth heneiddio, mae'n debygol y bydd llai o gyd-fynd rhwng ei anghenion a'r mathau o anheddau sydd ar gael. Mae'r dehongliad o'r amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2018 yn awgrymu ei bod yn debygol y bydd angen is am dai, ac o ganlyniad galw is am anheddau newydd y byddai angen eu hystyried yn natblygiad y CDLI 2.

Gan ddefnyddio 2018 i 2033 fel y cyfnod sylfaen, dangosir effeithiau'r newid mewn niferoedd ar gyfer amcanestyniadau o'r boblogaeth yn y ffigur isod.

Cymharu'r prif amcanestyniadau ar gyfer blynyddoedd sylfaen gwahanol ar gyfer gweddill cyfnod y CDLI (2017-2022).

Blwyddyn sylfaen amcanestyniad o aelwydydd	Nifer yr aelwydydd yn 2018	Nifer yr aelwydydd yn 2033	Nifer yr aelwydydd ychwanegol
2011	32,422	33,898	1,476
2014	32,332	34,538	2,206
2018	31,190	30,719	471

Mae twf yn y boblogaeth yng Ngheredigion yn ganlyniad i fewnfudo net ac yn hynod o sensitif i ffactorau lleol, megis newidiadau yn nifer y myfyrwyr addysg uwch sy'n cofrestru a'r tueddiadau mudo. Yn y cyd-destun ariannol a gwleidyddol ansicr sydd ohoni, mae'n anodd iawn gwahaniaethu rhwng effeithiau newidiadau mewn methodoleg o ran cynhyrchu'r Amcangyfrifon Canol Blwyddyn a'r amcanestyniad poblogaeth or newidiadau yn y tueddiadau sylfaenol. Er enghraifft, mae'n debygol y bydd y pandemig covid-19 wedi effeithio ar batrymau lleol o ran poblogaeth a mudo oherwydd newidiadau mewn symudedd, arferion gweithio o bell a chynnydd yn y dymunoldeb i fyw mewn ardaloedd gwledig. Mae Llywodraeth Cymru yn tueddu i gyhoeddi eu hamcanestyniadau is-genedlaethol o ran y boblogaeth bob dwy flynedd, fodd bynnag, nid ydynt yn bwriadu cynhyrchu ar sail 2020 yn hydref 2021, gan fod disgwyl canlyniadau cyntaf Cyfrifiad 2021 yng ngwanwyn 2022. Bydd y rownd nesaf o amcanestyniadau is-genedlaethol y boblogaeth yn seiliedig ar 2021 a bydd yn defnyddio'r boblogaeth sylfaen wedi'i diweddarau o Gyfrifiad 2021. Mae'n bwysig nodi, er bod yr

amcanestyniadau'n seiliedig ar yr amcangyfrifon gorau o faint y boblogaeth a strwythur oedran ar yr adeg y cawsant eu gwneud, mae'r amcangyfrifon hyn yn tueddu i gronni gwallau po bellaf y cânt eu gwneud o'r Cyfrifiad blaenorol. Felly bydd canlyniadau'r Cyfrifiad yn 2022 yn rhoi darlun cliriach a yw'r dirywiad a ragwelir yn y boblogaeth yng Ngheredigion yn gywir ac yn unol â'r Amcangyfrifon Canol-Blwyddyn. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y cynhaliwyd cyfrifiad 2021 mewn cyfnod o argyfwng cenedlaethol pan oedd symudedd a gofynion newid tai yn effeithio ar nifer o ardaloedd yn enwedig ardaloedd arfordirol gwledig wrth i ni weld ffoi o ardaloedd trefol oherwydd arferion gwaith newidiol a gweithio o bell yn dod yn norm. Felly o safbwynt Ceredigion efallai y bydd cryn amser cyn y gallwn ddibynnu ar gywirdeb amcanestyniadau tai yn sylwi'n realistig ar arlliwiau ffactorau o'r fath.

Os yw'r patrwm hwn o leihad yn y boblogaeth yn batrwm real, efallai mai mentrau megis Tyfu Canolbarth Cymru fydd y dull gorau o wrthdroi'r patrwm hwnnw.

Casgliadau

Mae'n anodd iawn datbwytho sut y bydd y newidiadau methodolegol yn amcangyfrifon ac amcanestyniadau'r boblogaeth, Brexit a'r coronafeirws yn effeithio ar niferoedd y boblogaeth yng Ngheredigion. Fodd bynnag, bydd y dirywiad sylweddol a ragwelir yn y boblogaeth a thwf aelwydwydd a ddangosir yn amcangyfrifon ac amcanestyniadau diweddar y boblogaeth yn rhan annatod o ddatblygiad y CDLI 2 tra bo casglu tystiolaeth yn lleol ac yn rhanbarthol yn parhau i ddatbwytho'r ffactorau sy'n effeithio ar boblogaeth y sir.

Cyfeirnod Monitro:		AMRH02		
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:		Y Strategaeth Anheddu ledled y Sir		
Y Polisiau a Gaiff eu Monitro:		S01 – S04		
Lefel:		Lleol		
Pryd:		Yn flynyddol		
Ffynhonnell:		Cyngor Sir Ceredigion (CSC)		
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Unedau a gwblhawyd ac ymrwymadau ledled y sir erbyn diwedd cyfnod y cynllun:	O'r dyddiad mabwysiadu dylai cymhareb yr unedau a gwblhawyd a'r ymrwymadau ledled y sir gyfan fod yn dynesu at y rhaniad canrannol a geisir	O'r dyddiad mabwysiadu dylai cymhareb yr unedau a gwblhawyd a'r ymrwymadau ledled y sir gyfan fod yn dynesu at y rhaniad canrannol a geisir ledled y sir	O ddyddiad mabwysiadu'r cynllun (25 Ebrill 2013) cymhareb yr ymrwymadau ar draws y sir gyfan yw: <ul style="list-style-type: none"> • Canolfannau Gwasanaethau Trefol: 41% 	-

<p>O leiaf 51% yn y Canolfannau Gwasanaethau Trefol; 24% yn y Canolfannau Gwasanaethau Gwledig; ac Uchafswm o 25% yn yr 'Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill' a dim mwy na 1522 o unedau ar y mwyaf.</p>	<p>ledled y sir erbyn diwedd cyfnod y cynllun.</p>	<p>erbyn diwedd cyfnod y cynllun.</p> <p>Os na fydd y rhaniad canrannol blynyddol yn symud tuag at yr hyn a geisir ledled y sir mewn unrhyw flwyddyn yng nghyfnod y cynllun, cynhelir ymchwiliad i'r rhesymau dros hynny. Os nad oes cyfiawnhad dros y rhesymau yna ystyrir cymryd camau fel bo angen.</p> <p>Oherwydd y cesglir gwybodaeth ar lefel y Grwpiau Aneddiadau bydd yn bosibl nodi ai eithriadau daearyddol (er enghraifft, os yw pob un o'r Grwpiau Aneddiadau yn symud tuag at</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Canolfannau Gwasanaethau Gwledig: 24% • Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill: 35% 	
			<p>O'r dyddiad mabwysiadu (25 Ebrill 2013) cymhareb yr unedau a gwblhawyd ar draws y sir gyfan yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Canolfannau Gwasanaethau Trefol: 41% • Canolfannau Gwasanaethau Gwledig: 16%; • Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill: 43% 	

		y balans a geisir heblaw am un neu ddau o eithriadau) sy'n peri nad yw'r balans yn cael ei gyflawni ledled y sir.	Sylwch: efallai nad yw canrannau yn rhoi cyfanswm oherwydd talgrynnu.	
<p>Dadansoddiad</p> <p>Strategaeth y CDLI yw ailffocysu twf i Ganolfannau Gwasanaethu a phwrpas y dangosydd hwn yw mesur effeithiolrwydd cyflenwi datblygiad yn unol â strategaeth aneddiadau. Mae canlyniadau 2020 yn dangos nad yw rhaniad canrannol yr ymrwymadau yn 41:24:35 yn gyson â'r targed a nodwyd o 51:24:25. Rhwng 2016 a 2017 roedd cymhareb yr ymrwymadau wedi bod yn symud tuag at y rhaniad canrannol a geisiwyd ledled y sir erbyn diwedd cyfnod y cynllun, ond ers 2018 er bod cymhareb yr ymrwymadau mewn Canolfannau Gwasanaeth Gwledig wedi aros yn ei unfan, mae'r gymhareb mewn Canolfannau Gwasanaeth Gwledig wedi gostwng a'r gymhareb mewn Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill wedi cynyddu. O ran tai a gwblhawyd, mae'r gymhareb wedi aros yn weddol sefydlog. Mae niferoedd tai a gwblhawyd wedi lleihau ers dechrau cyfnod y cynllun sy'n adlewyrchu rhan o ddarlun cenedlaethol ehangach o lai o dai a gwblhawyd, sydd wedi'i waethygu ymhellach eleni gan gyfyngiadau COVID 19, gan na roddodd Grŵp Rheoli Aur Cyngor Sir Ceredigion ganiatâd i'r Tîm Ymchwil wneud hynny cynnal yr arolwg Tai a Gwblhawyd yn Flynyddol yn yr un fformat ag arfer.</p> <p>O'i fesur ers adeg mabwysiadu'r cynllun (a dechrau'r cynllun), mae rhaniad canrannol yr unedau a gwblhawyd (Trefol; Gwledig; Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill) wedi newid ychydig ond ni ddangosir unrhyw newid sylweddol yn y gymhareb.</p>				

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi perfformiad yn erbyn y dangosydd wedi'i fesur ers dechrau'r cynllun ac ers mabwysiadu'r cynllun ar gyfer ymrwymïadau ac unedau a gwblhawyd.

Ymrwymïadau		
Adroddiad Monitro Blynyddol	Perfformiad wedi'i fesur ers dechrau'r cynllun (01/04/2007)	Perfformiad wedi'i fesur ers mabwysiadu'r cynllun (25/04/2013)
2014	42:15:43	40:30:30
2015	42:16:42	42:23:35
2016	44:18:39	50:25:25
2017	45:17:38	52:21:26
2018	44:18:38	47:24:29
2019	43:17:40	44:25:31
2020	41:18:41	41:24:35
Cwblhawyd		

Adroddiad Monitro Blynyddol	Perfformiad wedi'i fesur ers dechrau'r cynllun (01/04/2007)	Perfformiad wedi'i fesur ers mabwysiadu'r cynllun (25/04/2013)
2014	43:13:43	43:13:44
2015	44:13:43	46:11:43
2016	43:15:43	41:18:41
2017	44:14:42	44:15:41
2018	43:14:43	42:16:42
2019	42:15:43	41:16:43
2020	42:15:43	41:16:43
* Dangosir cymarebau perfformiad fel Canolfannau Gwasanaethau Trefol: Canolfannau Gwasanaethau Gwledig: Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill. Efallai nad yw canrannau yn rhoi cyfanswm oherwydd talgrynnu.		
Casgliadau		

Nid yw'r targed wedi cael ei gyflawni ar gyfer unedau a gwblhawyd neu ymrwymiadau. Mae'r diwygiad o'r CDLI yn ystyried y Strategaeth Anheddu a bydd yn nodi ffyrdd o ddarparu tai mewn lleoliadau cynaliadwy.²

Gweithred

Ni chyrrhaeddwyd y targed ar gyfer cwblhau neu ymrwymo. Mae adolygiad y CDL yn ystyried y strategaeth aneddiadau a bydd yn nodi ffyrdd o ddarparu tai mewn lleoliadau cynaliadwy.

² Wedi'i fonitro yn unol â'r dangosydd (ers mabwysiadu'r cynllun) ac nid ers dechrau'r cynllun.

Cyfeirnod Monitro:	AMRH03			
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:	Grwpiau Aneddiadau'r Strategaeth Anheddu			
Y Polisiau a Gaiff eu Monitro:	S01 – S04			
Lefel:	Lleol			
Pryd:	Yn flynyddol			
Ffynhonnell:	Cyngor Sir Ceredigion (CSC)			
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Unedau a gwblhawyd ac ymrwymadau i adlewyrchu rhaniad canrannol pob un o'r Grwpiau Aneddiadau unigol fel y nodir yn Atodiad 2 o'r CDLI	O'r dyddiad mabwysiadu, yn y Grwpiau Aneddiadau unigol, dylai cymhareb yr unedau a gwblhawyd a'r ymrwymadau rhwng y Ganolfan Gwasanaethau a'r 'Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill' fod yn unol â'r gofynion a nodir	Os yw'r twf canrannol yn uwch na'r disgwyl yn yr 'Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill', gwrthodir rhagor o ddatblygu preswyl yn y Grŵp Aneddiadau hwnnw, ar gyfer yr 'Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill', nes bydd y caniatadau sy'n sefyll wedi darfod neu wedi cael eu diddymu a bydd yr ymrwymadau'n	Gweler Atodiad 5 (wedi'i gymryd o'r Ffigurau Monitro Misol)	-

erbyn diwedd cyfnod y cynllun.	yng nghyfrol 1 y CDLI, Atodiad 2 neu'n gweithio tuag atynt.	adlewyrchu neu'n gweithio tuag at y rhaniad canrannol a nodir yn Atodiad 2 o'r CDLI.		
--------------------------------	---	--	--	--

Dadansoddiad

Er bod y dangosydd yn ceisio mesur o adeg mabwysiadu'r cynllun, mae'r fframwaith monitro yn dibynnu ar ddata ers dechrau'r cynllun ac ni ellir ei fesur ers adeg mabwysiadu'r cynllun. Ar gyfer ymrwymïadau o'r 22 o ganolfannau gwasanaethau, nid oedd 13 wedi sicrhau gwelliannau yn y rhaniad canrannol, roedd 6 wedi gwella, ac roedd 3 heb weld unrhyw newid ers y cyfnod monitro blaenorol.

Roedd y rhai oedd heb wella yn cynnwys Aberaeron, Castell Newydd Emlyn (Adpar), Llandysul, Tregaron, Aberporth/Parcllyn, Bow Street, Felinfach/Ystrad Aeron, Llanilar, Llanrhystud, Penrhyncoch, Pontrhydfendigaid, Talybont & Borth. Fodd bynnag, o'r grwpiau hynny ar gyfer unedau a gwblhawyd roedd Castell Newydd Emlyn (Adpar), Llanilar & Penrhyncoch wedi gweld gwelliant yn y rhaniad canrannol ers y cyfnod monitro diwethaf, ac nid oedd unrhyw un ohonynt wedi gweld gostyngiad o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae'r canlyniadau'n dangos darlun amrywiol ar draws canolfannau gwasanethau ers y cyfnod monitro cyntaf yn 2014. Ers hynny mae cyfanswm o 16 o grwpiau aneddiadau wedi gweld gwelliannau yn rhaniad canrannol yr ymrwymïadau, ac mae 9 wedi gweld gwelliant yn rhaniad canrannol yr unedau a gwblhawyd. Ers mabwysiadu'r cynllun, o'r 22 o grwpiau aneddiadau unigol nid yw 1 (Llanybydder) wedi gweld naill ai welliant yn y rhaniad canrannol o ymrwymïadau neu unedau a gwblhawyd. O ran Llanybydder (anheddiad heb ei leoli yng Ngheredigion), ni ddylid monitro'r anheddiad hwn oherwydd mae'r anheddiad ei hun wedi'i leoli yn Sir

Gaerfyrddin, ac nid oes gennym yr awdurdod dros faterion cynllunio yn yr ardal honno, ond rydym wedi'i gynnwys gan ei fod yn gweithredu fel Canolfan Gwasanaethau Gwledig ar gyfer rhai aneddiadau cyswllt yng Ngheredigion lle mae'r galw yn wan.

Casgliadau

Mae'r canlyniadau yn dangos darlun amrywiol gyda rhai grwpiau aneddiadau unigol yn symud tuag at y cydbwysedd gofynnol ac eraill yn symud i ffwrdd o'r cydbwysedd gofynnol a nodwyd yn Atodiad 2 o'r CDLI. Ers 2014, mae'r newid yn rhaniad canrannol yr ymrwymadau yn amrywio o +13.8% (Tregaron) i -14.4% (Tal-y-bont), ac mae'r newid yn rhaniad canrannol yr unedau a gwblhawyd yn amrywio o +27.7% (Felinfach) i -11.2% (Llanon).

Argymhellir bod diwygio'r CDLI yn ystyried y Strategaeth Anheddu yn gyffredinol ac yn benodol penderfyniadau cais cynllunio wedi'u dirprwyo a heb eu dirprwyo yn ôl lleoliad (ac yn arbennig ar ôl mabwysiadu'r cynllun) a dosbarthiad gofodol yr angen am dwf a chyflenwi er mwyn deall yn well yr amrywiadau gofodol yn y cydbwysedd ar draws y sir. Bydd rhaid i'r adolygiad o'r Strategaeth Anheddu hefyd ystyried yn fwy manwl y patrymau twf sy'n unigryw i Geredigion a sut y maent wedi llunio patrymau naturiol datblygu, a sut y gall Cynllun Datblygu Lleol 2 gefnogi'r materion gwledig hyn yn y ffordd fwyaf cynaliadwy.

Gweithred

Ni chyrrhaeddwyd y targed ar gyfer cwblhau neu ymrwmo. Mae adolygiad y CDL llyn ystyried y strategaeth aneddiadau a bydd yn nodi ffyrdd o ddarparu tai mewn lleoliadau cynaliadwy.

Cyfeirnod Monitro:	AMRH04			
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:	Strategaeth Anheddu – Datblygu mewn 'Aneddiadau Cyswllt'			
Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro:	S01 – S04			
Lefel:	Lleol			
Pryd:	Yn flynyddol			
Ffynhonnell:	Cyngor Sir Ceredigion (CSC)			
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Ni fydd yr ymrwymïadau'n peri bod unrhyw un o'r Aneddiadau Cyswllt yn tyfu mwy na 12% o'i faint fel yr oedd ar 1 Ebrill 2007 (fel y'i nodir	O 1 Ebrill 2007, ar lefel Grwpiau Aneddiadau, twf yng nghyfanswm y stoc dai a ymrwymwyd yn yr Aneddiadau Cyswllt unigol.	Os cyrhaeddir y 12% ni chaniateir rhagor o ddatblygu onid oes cyfiawnhad dros hynny o dan Bolisi S04.	<ul style="list-style-type: none"> 41 o Aneddiadau Cyswllt lle mae'r twf wedi bod yn uwch na 12% o ran ymrwymïadau 10 Anheddiad Cyswllt sydd wedi cyrraedd y 	-

<p>yn Atodiad 5 i Gyfrol 1 o'r CDLI).</p>			<p>terfyn twf o 12% o ran ymrwymiadau</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd 1 Anheddiad Cyswllt wedi cwmpo yn ôl i'r terfyn twf 12% <p>Gweler Atodiad 6 i gael y manylion llawn.</p>	
<p>Dadansoddiad</p>				
<p>O gyfanswm o 90 o Aneddiadau Cyswllt ar draws 22 o Grwpiau Aneddiadau mae 41 (46%) wedi cyrraedd neu'n uwch na'u terfyn twf o 12%. Mae'r ffigur hwn yn cymharu â 36 (40%) adeg mabwysiadu'r cynllun yn 2013. Ers Adroddiad Monitro Blynyddol y flwyddyn ddiwethaf mae 1 Anheddiad Cyswllt (Prengwyn) wedi cwmpo'n ôl o fewn eu terfyn o 12%.</p>				
<p>Casgliadau</p> <p>Mae 46% o Aneddiadau Cyswllt wedi cyrraedd neu'n uwch na'u terfyn twf o 12%. Nodir ar adeg mabwysiadu'r cynllun yn 2013 bod 40% o Aneddiadau Cyswllt eisoes wedi cyrraedd neu'n uwch na'u terfyn twf o ganlyniad i ganiatadau cynllunio wedi'u hetifeddu a wnaed o dan drefn gynllunio flaenorol. Ar gyfer pob Anheddiad Cyswllt sydd wedi cyrraedd neu'n uwch na'i dwf o 12% ni ddylid caniatáu unrhyw ddatblygu pellach oni bai bod hyn wedi'i gyfiawnhau o dan Bolisi S04.</p>				
<p>Gweithred</p>				

Dadansoddiad o ddangosyddion Craidd a Lleol

Ar gyfer pob Anheddiad Cyswllt sydd wedi cyrraedd neu'n uwch na'i dwf o 12% ni ddylid caniatáu unrhyw ddatblygu pellach oni bai bod hyn wedi'i gyfiawnhau o dan Bolisi S04. Bydd diwygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol yn ystyried pam bod newid negyddol i ffwrdd o'r terfynau capasiti ar draws y sir, a'r dewisiadau eraill ar gyfer rheoli twf mewn aneddiadau gwledig sy'n galluogi'r anheddiad i fodloni ei anghenion gwledig penodol mewn modd cynaliadwy.

Cyfeirnod Monitro:	AMRH05			
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:	Strategaeth Anheddu – Natur y Datblygu yn y 'Lleoliadau Eraill'			
Y Polisiau a Gaiff eu Monitro:	S01 – S04			
Lefel:	Lleol			
Pryd:	Yn flynyddol			
Ffynhonnell:	Cyngor Sir Ceredigion (CSC)			
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Seilir ymrwymïadau ar angen clir am dai fforddiadwy mewn lleoliadau sy'n cydymffurfio â pharagraff 9.2.22 o Bolisi Cynllunio Cymru neu unedau o dan Nodyn Cyngor	O'r dyddiad mabwysiadu, y math o ddatblygu a ganiateir.	Lle bo datblygu'n digwydd nad yw'n fforddiadwy mewn lleoliadau sy'n cydymffurfio â pharagraff 9.2.22 o Bolisi Cynllunio Cymru neu unedau o dan Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 6, cynhelir ymchwiliad ynghylch y	Mae'r math o ddatblygu a ganiatawyd mewn lleoliadau eraill yn ystod y cyfnod monitro fel a ganlyn: • 5 uned sy'n cydymffurfio â TAN 6	-

<p>Technegol (TAN) 6 yn unig.</p>		<p>cyfiawnhad dros unedau o'r fath.</p> <p>Sicrhau y cyfyngir datblygu yn y dyfodol i'r hyn a ganiateir o dan bolisi S04 (Tai Fforddiadwy a TAN 6).</p>	<ul style="list-style-type: none"> • 9 uned sy'n cydymffurfio â pharagraff 9.2.22 (argraffiad 9) a 4.234 (argraffiad 10) o Bolisi Cynllunio Cymru • 11 uned cais nad ydynt yn cydymffurfio â Strategaeth y CDLI, TAN 6, neu Bolisi Cynllunio Cymru 9.2.22 	
<p>Dadansoddiad</p> <p>Cymeradwywyd 21 annedd mewn 'lleoliadau eraill' yn ystod y cyfnod monitro yn unol â'r CDLI. Roedd y rhain yn cynnwys ceisiadau sy'n cydymffurfio â TAN 6 (6), Polisi Cynllunio Cymru 9.2.22 (2). Nid oedd 11 uned a gafodd eu caniatáu yn cydymffurfio â'r darpariaethau a nodir yn y Polisi Cenedlaethol ar gyfer datblygiadau yng nghefn gwlad agored.</p> <p>Fodd bynnag, o'r 11 uned hyn:</p> <p>Roedd 4 yn newid annedd bresennol</p> <p>Roedd 1 yn annedd rheolwr</p>				

Roedd 1 yn rhan o ddatblygiad twristiaeth

Rhoddodd 1 swm cymudedig

2 oedd ailddefnyddio hen anheddau gwag

1 oedd newid cyn-ysgol

1 oedd newid ysgubor

Roedd 2 yn newid

Casgliadau

Cafodd 11 o unedau eu caniatáu oedd heb gydymffurfio â'r darpariaethau a nodir yn y Polisi Cenedlaethol ar gyfer datblygiad yng nghefn gwlad agored, mae hyn yn ostyngiad yn y nifer a gymeradwywyd yn y cyfnod monitro blaenorol, hefyd mae'r rhaniad caniatadau mewn Canolfannau Gwasanaethu, aneddiadau Cyswllt a'r rheini mewn lleoliadau eraill wedi gwella.

Gweithred

Mae adolygiad y CDLI yn ystyried y strategaeth aneddiadau a bydd yn nodi ffyrdd o ddarparu tai mewn lleoliadau cynaliadwy.


Dadansoddiad o ddangosyddion Craidd a Lleol

Cyfeirnod Monitro:	AMRH06 (Dangosydd Statudol)			
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:	Tai a Gwblhawyd yn Flynyddol yn erbyn Cyfradd Adeiladu Flynyddol a Ragwelir			
Y Polisiau a Gaiff eu Monitro:	S01 – S04 ac LU05			
Lefel:	Craidd			
Pryd:	Yn flynyddol			
Ffynhonnell:	Gwybodaeth am Dai a Gwblhawyd yn Flynyddol wedi'i chyfuno â chronfa ddata safleoedd mawr a gweithdy rhanddeiliaid.			
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Y lefel flynyddol o dai a gwblhawyd sy'n cael ei monitro yn erbyn y Gyfradd Adeiladu Flynyddol a Ragwelir. Bydd nifer cronol y tai a gwblhawyd yn cael ei mesur yn erbyn y	Bydd nifer y tai a gwblhawyd yn cael ei mesur yn erbyn y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog a nodir yn y cynllun. Prif Ddangosydd Cyflenwi Tai: Gofyniad Tai Blynyddol	Lle mae diffyg nifer cronol o dai a gwblhawyd yn erbyn y Gofyniad Cyfartalog Blynyddol am 2 flynedd yn olynol (tai a gwblhawyd yn flynyddol, nid nifer yr Adroddiadau Monitro Blynyddol a gyhoeddir) dylid	Cymhariaeth Flynyddol o ran Tai a Gwblhawyd yn erbyn Gofyniad Blynyddol Cyfartalog 400 (Gofyniad Blynyddol Cyfartalog) – 84(Tai a	-

<p>gofyniad tai blynyddol cronol cyfartalog a nodir yn y cynllun.</p> <p>Gofyniad Tai = 6000</p> <p>$6000/15 = 400$</p>	<p>Cyfartalog (Gofyniad Tai / 15 = Gofyniad Cyfartalog Blynyddol)</p> <p>Rhaid cyflwyno hyn yn glir yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol o ran nifer ac o ran canran (plws/minws x %).</p>	<p>ystyried maint unrhyw ddiffyg a'i nodi yn y camau cwblhau/monitro o ran goblygiadau ar gyfer cyflenwi'r cartrefi/strategaeth lefel gofyniad. Gallai methu â chyflawni yn erbyn y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog ysgogi adolygiad cynnar.</p>	<p>Gwblhawyd yn Flynyddol = -316 (-79%)</p> <p>%Tai a Gwblhawyd yn Flynyddol o'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog = 21%</p> <p>Cymhariaeth Gronnol o ran Tai a Gwblhawyd yn Flynyddol yn erbyn Gofyniad Cyfartalog Blynyddol Cronol</p> <p>5200 (Gofyniad Cyfartalog Blynyddol Cronol) – 2424 (Nifer Cronnol o Dai a Gwblhawyd yn Flynyddol) = -2776 (-54%)</p> <p>% Nifer Cronnol o Dai a Gwblhawyd yn Flynyddol</p>	
--	---	--	--	--

Dadansoddiad o ddangosyddion Craidd a Lleol

											o'r Gofyniad Cyfartalog Blynyddol Cronnol = 46%						
Dadansoddiad	Blwyddyn CDLI	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12	13	14	15	
		2007- 8	2008- 9	2009- 10	2010- 11	2011- 12	2012- 13	2013- 14	2014- 15	2015- 16	2016- 17	2017- 18	2018- 19	2019- 20	2020 -21	2021- 22	
Tai wedi'u cwblhau ar safle mawr mewn gwirionedd			79	90	68	109	41	44	75	67	128	68	51	59			
Tai wedi'u cwblhau ar safle bach mewn gwirionedd			121	151	95	129	230	85	87	58	88	112	53	25			
Safleoedd a neilltuwyd yn ystod y flwyddyn															88	62	
Nifer y tai y disgwylir iddynt cael eu cwblhau ar fanciau tir yn ystod y flwyddyn															5	1	
Nifer y tai y disgwylir iddynt cael eu cwblhau ar hapsafleoedd mawr yn ystod y flwyddyn															73	59	
Nifer y tai y disgwylir iddynt cael eu cwblhau ar hapsafleoedd mawr yn ystod y flwyddyn															79	79	
Cyfanswm y tai wedi'u cwblhau		311	200	241	163	238	271	129	162	125	216	180	104	84			



Nodir nad yw'r safleoedd a gafodd eu cynnwys fel dyraniadau yn waeth neu'n fwy cyfyngedig yn gyffredinol, ond bod rhwystrau ariannol i ddatblygu a gwerthu tai ar y farchnad yn parhau i atal datblygu safleoedd mwy. Ystyriaeth bellach o'r methiant i gyflawni dyraniadau'r CDLI yn amserol fu'r tynhau sylweddol a welwyd yn y marchnadoedd ariannol o ran cyllid datblygu a chyllid morgais. Mae'n amlwg hefyd bod safleoedd yng Ngheredigion sy'n cael eu cyflawni fel arfer yn sylweddol llai na'r safleoedd a ddyrannwyd yn y cynllun cyfredol ac felly lle gall arbedion maint ddarparu safleoedd tai mwy mewn mannau eraill, nid yw'r math hwn o ddatblygiad yn bodoli yng Ngheredigion.

Ffactor arall sy'n cael effaith ar y gallu i gyflenwi tai yw'r ochr galw, a ysgogir yn bennaf gan dwf yn y boblogaeth a'r lleihad ym maint aelwydydd. Mae'r amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2018 yn adlewyrchu gwrthdroad yn y duedd ddemograffig o'i gymharu â thafllwybrau a ragwelwyd yr oedd y CDLI yn dibynnu arnynt. Yn syml, nid yw'r twf disgwylid yn rhagolygon 2008 wedi cael ei wireddu ar y gyfradd a ragwelwyd a chafodd rhagolygon diweddarach (2011) eu hategu gan lythyr Llywodraeth Cymru at Benaethiaid Cynllunio yn rhybuddio y dylid trin y data is hwn â gofal.

Casgliadau

Gan fod gwaith wedi dechrau ar adolygu'r CDLI, mae newidiadau yn y boblogaeth a phriodoldeb dyraniadau yn faterion i'w hystyried orau fel rhan o'r adolygiad a'r diwygiad o'r cynllun ynghyd â strategaeth dai, polisïau a dyraniadau'r CDLI ar draws Ceredigion yn sgil unrhyw ymchwil sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd ar y cyfenwad tai a'r galw am dai ar draws Cymru.

Gweithred

Parhau i fonitro cynnydd yn flynyddol wrth gydnabod y diffygion yn y set ddata y seiliwyd y cynllun arni a gweithio yn yr adolygiad i sicrhau y defnyddir methodoleg fwy cadarn ar gyfer rhagweld y galw am dai..

Cyfeirnod Monitro:		AMRH07(Dangosydd Statudol)		
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:		Cyflenwi Safleoedd Tai a Neilltuwyd		
Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro:		S01 – S04		
Lefel:		Craidd		
Pryd:		Yn flynyddol		
Ffynhonnell:		Gwybodaeth a gasglwyd ar gyfer AMR06		
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2007 – 31 Mawrth 2020)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
40% o gyfanswm yr anheddau y rhagwelir eu cyflenwi ar safleoedd a neilltuwyd i'w cwblhau erbyn 31 Mawrth 2017.	1. Maint y datblygiadau tai sy'n cael caniatâd cynllunio ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o ddyraniadau'r CDLI (unedau) fel a ganlyn:	Os na fydd y safleoedd a neilltuwyd wedi cael eu cyflawni yn unol â'r hyn a ddisgwylwyd, caiff ymchwiliad i'r achosion ei ysgogi. Bydd hynny'n cynnwys dadansoddiad o'r	Wedi'i ganiatáu ar safleoedd a neilltuwyd: Unedau: 619(19%) Wedi'i gwblhau ar safleoedd a neilltuwyd: Unedau: 139 (4%)	-

<p>100% o gyfanswm yr anheddau y rhagwelir eu cyflenwi ar safleoedd a neilltuwyd i'w cwblhau erbyn 31 Mawrth 2022.</p>	<ul style="list-style-type: none"> i. Ar 31 Mawrth 2015, 40% ii. Ar 31 Mawrth 2017, 60% iii. Ar 31 Mawrth 2019, 84% iv. Ar 31 Mawrth 2021, 100% <p>2. Faint o ddatblygiadau tai a gwblhawyd ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o ddyraniadau'r CDLI (unedau) fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> i. Ar 31 Mawrth 2015, 20% 	<p>berthynas rhwng caniatadau cynllunio a'r unedau a gwblhawyd.</p>		
--	--	---	--	--

	ii. Ar 31 Mawrth 2017, 40% iii. Ar 31 Mawrth 2019, 64% iv. Ar 31 Mawrth 2021, 88%			
<p>Dadansoddiad</p> <p>Mae canran yr unedau a ragwelwyd ar safleoedd a neilltuwyd wedi codi y flwyddyn hon i 19%, ac er na chafodd y targedau eu cyflawni ar gyfer 2019 neu'n debygol o gael eu cyflawni ar gyfer 2022, mae'r cynnydd yn gam cadarnhaol i'r cyfeiriad cywir. Mae nifer isel y safleoedd a neilltuwyd a ddatblygwyd yn gyffredinol yn adlewyrchu cyflwr parhaus gweddol araf y farchnad dai, hyder isel yn y farchnad ynghyd â'r amser arweiniol gweddol hir ar gyfer safleoedd mwy a neilltuwyd, anawsterau parhaus gyda chyllid ar gyfer datblygu a'r ymrwymiad hirdymor dilynol i fuddsoddi cyn i'r datblygwr gael unrhyw enillion ariannol. Dim ond nifer cyfyngedig o adeiladwyr lleol sydd â'r gallu i fentro ymgymryd â datblygiad ar y raddfa a gynigir. Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn parhau i weithio gyda pherchnogion/datblygwyr safleoedd a neilltuwyd i'w hannog i baratoi'n gynnar ar gyfer datblygu safleoedd/paratoi'r tir ac ati lle bo angen, fodd bynnag, erys pryderon ynghylch maint y safleoedd a neilltuwyd.</p>				

Bydd rhaid i'r adolygiad o'r CDLI (a'r dystiolaeth gysylltiedig megis yr Asesiad Hyfywedd Strategol a'r Adolygiad o Safleoedd a Neilltuwyd sy'n cael eu dadansoddi ar hyn o bryd) ystyried y pryderon ynghylch y diwydiant adeiladu lleol a maint y safleoedd a neilltuwyd.

Casgliadau

Mae canran yr unedau a ragwelwyd (wedi'u caniatáu) wedi cynyddu ers y cyfnod monitro blaenorol i 19%. Mae hyn yn arwydd o gynnydd cadarnhaol er bod y canrannau a wireddwyd yn sylweddol is na'r gofyniad o 40%.

Gweithred

Bydd diwygiad o'r CDLI yn ystyried cyflenwi safleoedd a neilltuwyd yn fwy manwl, gan gynnwys dadansoddi'r berthynas rhwng caniatadau cynllunio ac unedau a gwblhawyd a maint y safleoedd a neilltuwyd.

Cyfeirnod Monitro:	AMRH08 (Dangosydd Statudol)			
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:	Datblygu Tai mewn Lleoliadau Priodol			
Y Polisiau a Gaiff eu Monitro:	S01 – S03			
Lefel:	Craidd			
Pryd:	Yn flynyddol			
Ffynhonnell:	Cyngor Sir Ceredigion (CSC) (trwy'r Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai)			
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (24 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2020)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Bodloni 90-100% o'r angen am ddatblygu preswyl mewn Canolfannau Gwasanaethau Trefol a Gwledig ar safleoedd a neilltuwyd, heblaw am Aberystwyth lle dylai	1. Maint y datblygiadau tai a ganiateir ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o gyfanswm y datblygu a ganiateir yn y Canolfannau Gwasanaethau (unedau ar ôl mabwysiadu'r CDLI).	Os bydd y canrannau'n disgyn yn is na'r targed am 2 flynedd yn olynol mewn unrhyw Grŵp Aneddiadau penodol, cynhelir dadansoddiad o'r ysgogyddion posibl er mwyn deall y sefyllfa a chymryd	<ul style="list-style-type: none"> Wedi'i ganiatáu ar safleoedd a neilltuwyd: 541 o unedau fel canran o gyfanswm y nifer a ganiatawyd mewn Canolfannau Gwasanaethau (65%) 	-

<p>80-90% fod ar safleoedd a neilltuwyd, ar ôl mabwysiadu'r CDLI.</p>	<p>2. Maint y datblygiadau tai a gwblhawyd ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o gyfanswm y datblygu a gwblhawyd yn y Canolfannau Gwasanaethau (unedau ar ôl mabwysiadu'r CDLI).</p>	<p>camau lle bo'n briodol i wyrdroi'r duedd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Unedau wedi'u cwblhau ar safleoedd a neilltuwyd: 126 o unedau fel canran o'r cyfanswm a gwblhawyd mewn Canolfannau Gwasanaethau (22%) 	
<p>Dadansoddiad</p> <p>Mae hyn yn adlewyrchu'r amser a gymerir i safleoedd a neilltuwyd droi'n ganiatadau ac i ganiatadau droi'n safleoedd wedi'u cwblhau a'r effaith sy'n deillio o hynny. Gyda mwy o amser i ddatblygiadau fynd rhagddynt gan ei fod yn arferol i safleoedd gymryd amser i'w cwblhau, rhagwelir mwy o dwf yn y Canolfannau Gwasanaethau Trefol a Gwledig wrth i'r farchnad wella. Fodd bynnag, nid yw'r targed yn cael ei gyflawni ac mae rhai esboniadau ar gyfer hyn yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> Y nifer isel o unedau a gwblhawyd ar draws y sir gan gynnwys o fewn y Canolfannau Gwasanaethau; Nifer y safleoedd a neilltuwyd gyda chaniatâd cynllunio a gymeradwywyd cyn mabwysiadu'r CDLI; ac Arafu cyffredinol yn y diwydiant datblygu yn genedlaethol ynghyd â datblygiadau annisgwyl a llanw bwlch bach sy'n cael eu targedu gan ddatblygwyr lleol graddfa fach y mae eu model busnes yn golygu na allant ddatblygu safleoedd ar raddfa fawr / hirdymor. 				

Casgliadau

Er nad yw'r targed wedi cael ei gyflawni, mae symudiad cadarnhaol i'r cyfeiriad iawn i'w weld ers mabwysiadu'r cynllun ac ers y cyfnod monitro blaenorol.

Gweithred

Mae'r adolygiad o'r CDLI yn ystyried priodoldeb safleoedd presennol a neilltuwyd i lywio'r diwygiad o'r cynllun, ac yn arbennig chwilio am safleoedd i'w neilltuo yn y dyfodol sy'n cyfateb â model busnes datblygwyr sy'n gweithredu yng Ngheredigion

Cyfeirnod Monitro:	AMRH09			
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:	Datblygu Tai ar Dir a Ddatblygwyd o'r Blaen			
Y Polisiau a Gaiff eu Monitro:	S01 – S03			
Lefel:	Lleol			
Pryd:	Yn flynyddol			
Ffynhonnell:	Cyngor Sir Ceredigion (CSC)			
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
5% o'r holl ddatblygu preswyl a ganiateir ac a gwblheir i'w leoli ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (tir llwyd).	1. Maint y datblygu newydd (hectarau) a ganiateir ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (ailddatblygu tir llwyd a chyfaddasiadau) fel canran o'r holl ddatblygu a ganiateir.	Oni fydd o leiaf 4% o'r holl ddatblygu preswyl a ganiateir ac a gwblheir wedi ei gyflawni ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (tir llwyd) cynhelir ymchwiliad i achosion y diffyg er mwyn gweld a all yr Awdurdod Lleol	Caniatawyd: 4.08ha (19%). Cwblhawyd: 1.08ha (21%).	+

	<p>2. Maint y datblygu newydd (hectarau) a gwblheir ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (ailddatblygu tir llwyd a chyfaddasiadau) fel canran o'r holl ddatblygu a gwblheir.</p>	<p>roi sylw i'r rhwystrau sy'n atal datblygu.</p>		
<p>Dadansoddiad</p> <p>Mae maint y datblygu a ganiateir ac a gwblheir ar dir llwyd yn uwch na'r targed o 5%.</p>				
<p>Casgliadau</p> <p>Mae'r targedau yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd ac nid oes unrhyw bryder ynghylch gweithredu'r polisïau.</p>				
<p>Gweithred</p>				
<p>Mae polisïau cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.</p>				

Cyfeirnod Monitro:	AMRH10 (Dangosydd Statudol)			
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:	Tai Fforddiadwy			
Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro:	S05			
Lefel:	Craidd			
Pryd:	Yn flynyddol			
Ffynhonnell:	Cyngor Sir Ceredigion (CSC)			
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2007 – 31 Mawrth 2020)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
1,100 o dai fforddiadwy wedi eu cwblhau (70 y flwyddyn) erbyn 2022.	<p>1. Nifer net yr anheddau fforddiadwy ychwanegol ac anheddau'r farchnad gyffredinol a ganiatawyd ers (1 Ebrill) 2007.</p> <p>2. Nifer net yr anheddau fforddiadwy ychwanegol</p>	Cynhelir ymchwiliadau pellach ar y dangosydd hwn os bydd nifer y caniatadau sy'n sefyll/unedau o dai fforddiadwy a gwblhawyd dros gyfnod o 2 flynedd yn	<p>Net ychwanegol a ganiatawyd:</p> <p>Cartrefi Fforddiadwy: 829</p> <p>Cartrefi Marchnad Cyffredinol 2112</p> <p>Cyfanswm Cartrefi: 2941</p>	0

	<p>ac anheddau'r farchnad gyffredinol a gwblhawyd ers (1 Ebrill) 2007.</p>	<p>disgyn o dan y lefel flynyddol sy'n ofynnol.</p> <p>Bydd dealltwriaeth o'r cyflenwad tai cyffredinol yn hanfodol i'r ymchwiliad hwn (gweler AMRH06 uchod).</p> <p>Efallai y bydd angen ymateb i'r targed hwn ar y cyd â'r Adran Dai a rhanddeiliaid eraill ym maes tai megis landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.</p>	<p>A gwblhawyd:</p> <p>Cartrefi Fforddiadwy: 521</p> <p>Cartrefi Marchnad Cyffredinol 1753</p> <p>Cyfanswm Cartrefi: 2274</p>	
<p>Dadansoddiad</p> <p>Y gofyniad polisi ar gyfer tai fforddiadwy yw i 20% o'r holl unedau fod yn fforddiadwy. Mae'r canlyniadau yn gadarnhaol gyda mwy nag 20% o'r holl gartrefi sydd wedi'u caniatáu (838 o gartrefi (39%) ac wedi'u cwblhau (521 o gartrefi (30%)) yn gartrefi fforddiadwy ers i'r cynllun ddechrau. Mae'r targed o 1,100 o dai fforddiadwy wedi'u caniatáu a'u cwblhau yn fwy nag 20% o'r holl gartrefi.</p> <p>Mae'r gyfradd araf hon o gyflenwi tai fforddiadwy yn adlewyrchu'r gyfradd isel o gyflenwi tai marchnad gyffredinol a safleoedd a neilltuwyd yn gyffredinol. At hynny, mae nifer yr unedau a gwblheir y tu allan i reolaeth yr Awdurdod Cynllunio Lleol i ryw raddau</p>				

oherwydd effaith ffactorau allanol gan gynnwys diffyg galw gan y farchnad, y math o adeiladwyr sy'n gweithredu yn y sir, y cyllid masnachol cyfyngedig sydd ar gael i adeiladwyr bach, ac agwedd bwylllog y cwmnïau morgeisiau at brynwyr tai.

Casgliadau

Mae canran y tai fforddiadwy a ganiatawyd ac a gwblhawyd yn fwy nag 20% o'r holl gartrefi, ac mae hynny'n gadarnhaol, ac mae cyfradd cwblhau flynyddol tai fforddiadwy ar gyfartaledd, er ei bod yn is na'r targed o 70 y flwyddyn, wedi parhau'n sefydlog neu wedi cynyddu ers mabwysiadu'r cynllun. Mae hyn yn awgrymu na fydd y targed a nodwyd o 1,100 o dai fforddiadwy wedi'u cwblhau erbyn 2022 yn debygol o gael ei gyflawni, ond disgwylir cyflawni'r targed o 20% o'r holl dai a gwblheir yn dai fforddiadwy.

Gweithred

Bydd diwygio'r CDLI (a thystiolaeth gysylltiedig gan gynnwys yr Aseiad Hyfywedd Strategol wedi'i ddiweddarau) yn ystyried cyflenwi tai (gan gynnwys cyflenwi tai fforddiadwy). Gallai hyn ynghyd â'r newidiadau yn y gofyniad tai cyffredinol olygu y caiff y targed ar gyfer tai fforddiadwy ei ddiwygio yn CDLI2.

Dadansoddiad o ddangosyddion Craidd a Lleol

Cyfeirnod Monitro:	AMRH11			
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:	Tai Fforddiadwy			
Y Polisiau a Gaiff eu Monitro:	S05			
Lefel:	Lleol			
Pryd:	Yn flynyddol			
Ffynhonnell:	Cyngor Sir Ceredigion (CSC)			
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Ers mabwysiadu'r CDLI, mae o leiaf 20% o'r holl anheddau a ganiateir yn unedau fforddiadwy.	<ol style="list-style-type: none"> Canran y ceisiadau preswyl lle cyflwynir her dichonoldeb. Nifer y safleoedd lle cyflwynir her a hynny'n llwyddiannus i leihau nifer y tai fforddiadwy fel cyfran o nifer yr heriau. 	Os bydd mwy nag 20% o'r safleoedd a ganiateir yn methu â darparu'r tai fforddiadwy sy'n ofynnol mewn unrhyw flwyddyn neilltuol o gyfnod y cynllun, cynhelir ymchwiliad i'r rhesymau dros hynny.	19 o heriau hyfywedd wedi'u cyflwyno eleni, 95% yn llwyddiannus yn rhannol neu'n llwyr.	0

		<p>Os bydd yr holl safleoedd yn darparu 20% neu fwy o dai fforddiadwy mewn unrhyw flwyddyn neilltuol o gyfnod y cynllun cynhelir asesiad i weld a yw'r gofyniad am 20% o dai fforddiadwy'n rhy fach ac a ddylid ei godi.</p> <p>Gwneir hynny trwy gynnal ymarfer hyfywedd. Bydd yr ymarfer yn argymhell nifer hyfyw o dai fforddiadwy fel canran. Bydd angen i'r Prisiwr Dosbarth fwrw cyfrif hefyd o'r</p>	<p>39% o'r holl anheddau a ganiatawyd yn unedau fforddiadwy³.</p>	
--	--	---	--	--

³ Wedi'i fonitro yn unol â'r dangosydd (ers mabwysiadu) ac nid ers dechrau'r Cynllun.

		Gwerth Datblygu Gros canrannol cyfatebol.		
<p>Dadansoddiad</p> <p>Mae'r targed a nodwyd wedi cael ei gyflawni. Ers 2007, mae 39% o'r holl anheddau a ganiatawyd yn unedau fforddiadwy. Er gwaetha'r uchod, mae nifer o geisiadau ar gyfer datblygiadau preswyl yn parhau lle mae her hyfywedd yn cael ei chyflwyno. Nifer y safleoedd lle roedd yr her yn llwyddiannus oedd 19 sy'n cyfateb i 95% o'r holl heriau llwyddiannus.</p> <p>O'r 19 o heriau hyfywedd i'r polisi tai fforddiadwy S05, roedd 13 yn ymwneud â cheisiadau cyfaddasu, newid defnydd neu ailddatblygu/adfer, ac roedd 6 yn ymwneud â cheisiadau am adeiladau newydd. Cydnabyddir bod cyfaddasiadau, newid defnydd ac ailddatblygiadau yn gostus i'w cwblhau, ac felly nid yw'n syndod bod hyfywedd y cynlluniau hyn wedi'i gyfaddawdu. O ran adeiladau newydd mae hyn wedi gostwng eleni, ond yn parhau i fod yn bryder a'r rhesymau am hyn mae'n debyg yw graddfa barhaus yr anheddau mawr a gynigir sydd o ansawdd da ac sy'n gostus i'w datblygu, yr arafu cyffredinol yn y farchnad, a hyfywedd gwael mewn rhai mannau yn y sir</p> <p>Cyfiawnhawyd gofynion tai fforddiadwy Polisi S05 gan astudiaeth 2010 ynghylch hyfywedd economaidd darparu tai fforddiadwy. Er mwyn llywio'r diwygiad o'r CDLI, mae'r Cyngor wedi comisiynu diweddariad o Asesiad Hyfywedd 2010 sydd wedi ystyried yn fanwl hyfywedd safleoedd bach, gan gynnwys cyfaddasiadau a newid defnydd, ac mae tystiolaeth bellach yn cael ei chasglu i lywio polisiâu tai fforddiadwy Cynllun Datblygu Lleol 2 sy'n ystyried natur wledig unigryw Ceredigion a'r tuedd tuag at adeiladwyr lleol bach a hunan-adeiladu sy'n dominyddu'r tai a adeiledir yn yr ardal hon.</p>				

Casgliadau

Nid yw'r targed yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd gan fod 95% o'r holl ddatblygiadau tai wedi cael heriau hyfywedd, fodd bynnag nid oes unrhyw bryder ynghylch gweithredu polisiau'r CDLI oherwydd natur y math o ddatblygiadau sy'n cael eu herio.

Gweithred

Mae'r Asesiad Hyfywedd strategol wedi'i ddiweddarau yn ystyried y materion hyn, gan gynnwys cost ceisiadau cyfaddasu, ailddatblygu ac adfer ac mae'n gwneud argymhellion penodol a fydd yn llywio'r adolygiad polisi, gan gynnwys cyfeiriad penodol at drothwy ac os yw ceisiadau yn uwch na'r trothwy hwnnw bydd cyfraniad cartrefi fforddiadwy yn gymwys.

Dadansoddiad o ddangosyddion Craidd a Lleol

Cyfeirnod Monitro:	AMRH12			
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:	Mathau o Dai Fforddiadwy			
Y Polisiau a Gaiff eu Monitro:	S05			
Lefel:	Lleol			
Pryd:	Yn flynyddol			
Ffynhonnell:	Cyngor Sir Ceredigion (CSC)			
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2007 – 31 Mawrth 2020)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Ers dechrau cyfnod y CDLI: 9% o'r unedau fforddiadwy ar werth ar ostyngiad am 70% o'r gwerth marchnadol	Unedau a Gwblhawyd ac Ymrwymadau yn ôl eu math.	Os yw canrannau'r unedau a gwblhawyd a'r ymrwymadau ar gyfer: Unedau fforddiadwy ar werth ar ostyngiad am 70% o'r gwerth marchnadol yn disgyn o dan 8-10% o'r tai fforddiadwy a ganiatawyd.	Ers dechrau cyfnod y CDLI, roedd yr unedau a gwblhawyd ac ymrwymadau tai fforddiadwy yn ôl eu math fel a ganlyn: Ar werth ar ostyngiad 70%	0

<p>32% o'r unedau fforddiadwy ar werth ar ostyngiad am 50% o'r gwerth marchnadol (i'w gwerthu'n uniongyrchol i'r preswylwyr ac i'w darparu i landlordiaid i'w gosod ar renti canolradd)</p> <p>59% o'r unedau tai fforddiadwy ar gyfer rhenti cymdeithasol a ddarperir gan y sector preifat a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.</p>		<p>Unedau fforddiadwy ar werth ar ostyngiad am 50% o'r gwerth marchnadol yn disgyn o dan 28-35%.</p> <p>Unedau fforddiadwy a drawsgludir am 35% o'r gwerth marchnadol i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ar rent cymdeithasol yn disgyn o dan 53-66%.</p> <p>Efallai y bydd angen cyfyngu/hybu rhai mathau o ddatblygiadau preswyl er mwyn sicrhau bod y canrannau'n agosach at yr anghenion a nodwyd. Bydd yn rhaid cymryd camau o'r fath ar y cyd â'r Adran Dai a</p>	<p>Unedau a gwblhawyd: 192 (37% o'r holl dai fforddiadwy)</p> <p>Ymrwymadau: 329 (43% o'r holl dai fforddiadwy)</p> <p>Ar werth ar ostyngiad Arall</p> <p>Unedau a gwblhawyd: 5 (1% o'r holl dai fforddiadwy)</p> <p>Ymrwymadau: 10 (2% o'r holl dai fforddiadwy)</p> <p>Ar werth ar ostyngiad 50% / Rhent Canolradd</p> <p>Unedau a gwblhawyd: 4 (1% o'r holl dai fforddiadwy)</p>	
---	--	---	---	--

		<p>rhanddeiliaid eraill ym maes tai, megis Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.</p>	<p>Ymrwymiadau: 7 (1% o'r holl dai fforddiadwy)</p> <p>Swm Cymudedig</p> <p>Unedau a gwblhawyd: 21 (4% o'r holl dai fforddiadwy)</p> <p>Ymrwymiadau: 82 (11% o'r holl dai fforddiadwy)</p> <p>Ar rent cymdeithasol (a drawsgludwyd i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig)</p> <p>Unedau a gwblhawyd: 20 (4% o'r holl dai fforddiadwy)</p>	
--	--	--	--	--

			<p>Ymrwymiadau: 24 (3% o'r holl dai fforddiadwy)</p> <p>Ar rent cymdeithasol (100% wedi'u comisiynu gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig):</p> <p>Unedau a gwblhawyd 318 (61% o'r holl dai fforddiadwy)</p> <p>Ymrwymiadau: 434 (56% o'r holl dai fforddiadwy)</p> <p>Arall (Cyfuniad o Gymysgedd Anhysbys):</p> <p>2 gais (tua 15 o unedau)</p> <p>Sylwch: Nid yw ffigurau 'eraill' wedi'u cynnwys yn y cyfrifiadau canrannol</p>	
--	--	--	--	--

			<p>oherwydd ni wyddys yr union nifer ar y cam amlinellol.</p> <p>Nid yw'r ffigurau yn cynnwys unrhyw ganiatadau sydd wedi dod i ben.</p>	
<p>Dadansoddiad</p> <p>Mae'r targed a nodwyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i gymhareb o'r mathau o dai fforddiadwy fod yn: 9% ar werth ar ostyngiad 70%:32% ar werth ar ostyngiad 50%:59% ar rent cymdeithasol ers dechrau cyfnod y cynllun. Perfformiad gwirioneddol yr ymrwymadau yw 43% ar werth ar ostyngiad 70%: 1% ar werth ar ostyngiad 50%, 2% ar werth ar ostyngiad Arall, 11% Swm Cymunedig: 56% Rhent Cymdeithasol ac unedau a gwblhawyd yw 37% ar werth ar ostyngiad 70%: 1% ar werth ar ostyngiad 50%, 1% ar werth ar ostyngiad Arall, 4% Swm Cymunedig, 61% Rhent Cymdeithasol.</p> <p>Ers mabwysiadu'r cynllun gwelwyd nifer o newidiadau sydd wedi golygu bod y rhaniad tenantiaeth a awgrymir wedi dyddio. Mae'r rhain yn cynnwys ffocws Llywodraeth Cymru ar Ddiwygio Lles a'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol wedi'i ddiweddarau (2016) (diweddariad yn ddyledus diwedd 2020) a gynigodd gymysgedd gwahanol o anghenion yn lleol. At hynny, mae'r mwyafrif o'r tai fforddiadwy a gwblhawyd ac ymrwymadau wedi cael eu comisiynu gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac felly'n debygol o fod wedi elwa ar gymorth Grant Tai Cymdeithasol. Felly er nad yw rhaniad tenantiaeth y polisi yn cael ei gyflawni, y rheswm am</p>				

hynny yw oherwydd bod y polisi wedi dyddio. Mae'r dyddiad yn dangos bod y tai fforddiadwy sy'n cael eu cyflenwi gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn bodloni'r anghenion a nodwyd. Er mwyn sicrhau bod cartrefi fforddiadwy a adeiledir yn breifat hefyd yn ateb anghenion y darpar feddianwyr, mae datganiad anghenion tai wedi cael ei gynhyrchu sy'n amlinellu'r mathau o dystiolaeth y mae angen i ymgeiswyr ei chyflwyno i gefnogi cais cynllunio. Disgwylir y bydd ystyried sylfaen anghenion ymgeiswyr unigol ar gyfer tai fforddiadwy yn yr asesiad o unrhyw gais am dai fforddiadwy yn arwain at lai o ganiatadau tai fforddiadwy sy'n sefyll.

Dylid nodi ei bod yn bosibl nad yw datblygu unedau rhent canolradd yn dibynnu'n llwyr ar roi caniatadau newydd. Ceir mecanwaith o fewn y cytundeb adran 106 enghreifftiol diwygiedig sy'n caniatáu i berchennog tai fforddiadwy wneud cais i'r Cyngor i newid natur y tai fforddiadwy o eiddo ar werth ar ostyngiad i rent canolradd. Felly mae'n bosibl y gallai rhywfaint o'r stoc tai fforddiadwy (ar werth ar ostyngiad) sy'n bodoli droi'n unedau tai fforddiadwy ar gyfer rhent canolradd yn y dyfodol.

Casgliadau

Mae'r dosbarthiad cyffredinol o dai fforddiadwy yn foddhaol. Felly nid yw perfformiad y polisi o bryder mawr ar hyn o bryd. Dylai cyflenwi tenantiaethau canolradd gael ei fonitro'n agos yn y dyfodol. Mae tystiolaeth gan gynnwys yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (2016) ac yn y broses o gael ei ddiweddarau a'r Asesiad Hyfywedd Strategol (sy'n cael ei ddadansoddi ar hyn o bryd) yn dangos er nad yw'r rhaniad tenantiaeth arfaethedig yn y polisi yn bryder mawr oherwydd bod cyflenwi unedau gwirioneddol yn cyfateb yn agos â'r dystiolaeth o angen wedi'i diweddarau, mae'n fater i'w ystyried yn y diwygiad o'r CDLI.

Gweithred

Dadansoddiad o ddangosyddion Craidd a Lleol

Caiff y ddeiliadaeth ei dadansoddi'n ymhellach yn dilyn cyhoeddi'r Aseiad o'r Farchnad Dai Leol ac Astudiaeth Hyfywedd Tai Fforddiadwy Strategol Rhanbarthol Canolbarth a De-orllewin Cymru.

Cyfeirnod Monitro:	AMRH13			
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:	Dwysedd Tai			
Y Polisiau a Gaiff eu Monitro:	LU06			
Lefel:	Lleol			
Pryd:	Yn flynyddol			
Ffynhonnell:	Cyngor Sir Ceredigion (CSC)			
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2007 – 31 Mawrth 2020)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Yn cydymffurfio â'r dwysedd neu'n uwch na'r dwysedd, yn unol â Rhestr y Safleoedd a Neilltuwyd neu Ddatganiad y Grŵp Aneddiadau.	Dwysedd cyfartalog datblygiadau tai a ganiateir ar safleoedd datblygu a neilltuwyd yn y cynllun.	Oni fydd safle'n cyflenwi dwysedd canllaw cynhelir ymchwiliad i weld a oes angen tir ychwanegol i gyflawni'r ddarpariaeth dai a ganiateir yn y Ganolfan Gwasanaethau dan sylw.	Dwysedd cyfartalog datblygiadau tai ar safleoedd a neilltuwyd: 19.59 uned fesul hectar.	0

<p>23 uned yr hectar yw dwysedd canllaw cyfartalog y CDLI ar safleoedd a neilltuwyd yn y CDLI.</p>		<p>s bydd safleoedd mewn Canolfan Gwasanaethau'n methu â chyflawni'r dwysedd canllaw'n rheolaidd, cynhelir ymchwiliad i weld a fydd angen newid dwysedd canllaw safleoedd y Ganolfan Gwasanaethau dan sylw.</p>		
<p>Dadansoddiad</p> <p>Mae'r caniatadau hyd yma yn dangos bod:</p> <p>6 caniatâd yn uwch na'r dwysedd a argymhellir yn y CDLI</p> <p>7 caniatâd heb gydymffurfio â dwysedd a argymhellir yn y CDLI.</p> <p>Mae'r mwyafrif o'r ceisiadau yn ymwneud â rhan o safle a neilltuwyd yn unig ac felly er bod rhai yn uwch neu'n is na'r dwysedd uned cyfartalog a nodwyd gan y CDLI, ar y cyfan y dwysedd cyfartalog yw tua 19.59 o unedau fesul hectar. Roedd y ceisiadau hyn yn cynrychioli rhan o safle cyfan a neilltuwyd yn unig ac wedi'u cyfiawnhau fel rhai priodol ym mhob achos.</p>				
<p>Casgliadau</p>				

Ystyrir bod dwysedd cyfartalog datblygiadau preswyl ar safleoedd tai a neilltuwyd (19.59 o anheddau fesul hectar) yn gyson yn fras â dwysedd canllaw cyfartalog y CDLI ar gyfer safleoedd a neilltuwyd (23.60 o anheddau fesul hectar). Nid oes unrhyw bryderon ar hyn o bryd ynghylch gweithredu'r polisi hwn.

Gweithred

Mae polisiâu cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

Dadansoddiad o ddangosyddion Craidd a Lleol

Cyfeirnod Monitro:	AMRH14			
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:	Cyflenwi Tai			
Y Polisiau a Gaiff eu Monitro:	LU05			
Lefel:	Lleol			
Pryd:	Yn flynyddol			
Ffynhonnell:	Cyngor Sir Ceredigion (CSC)			
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Gostyngiad o flwyddyn i flwyddyn yn y gymhareb rhwng caniatadau preswyl sy'n sefyll ac unedau a gwblhawyd, o gymhareb ddechreuol o 6.5 o ganiatadau	Y gymhareb rhwng caniatadau a roddir ac unedau a gwblhawyd ar gyfer datblygiadau preswyl "Y gymhareb rhwng caniatadau unedau preswyl sy'n sefyll ac unedau preswyl a gwblhawyd."	Oni fydd y gymhareb rhwng y caniatadau preswyl sy'n sefyll a'r unedau a gwblhawyd mewn Grŵp Aneddiadau yn gostwng o flwyddyn i flwyddyn, bydd angen cynyddu'r defnydd o ganiatadau byrrach, dyddiadau cwblhau gorfodol	Y gymhareb rhwng caniatadau preswyl sy'n sefyll ac unedau preswyl a gwblhawyd yn 2020: 20.5 o ganiatadau sy'n sefyll i bob 1 uned a gwblhawyd.	-

<p>sy'n sefyll i bob 1 uned a gwblhawyd.</p>		<p>a hysbysiadau cwblhau. Os yw amseroedd adeiladu hir yn arwydd o ddiffyg galw, efallai y bydd angen lleihau nifer y caniatadau a roddir, oherwydd dylai caniatadau fodoli i ddiwallu'r anghenion cyfredol.</p>		
<p>Dadansoddiad</p> <p>Y gymhareb gyfartalog ar draws y sir yw 20.5 o ganiatadau sy'n sefyll i bob 1 uned a gwblhawyd, fodd bynnag, nid yw'n ffigur cywir oherwydd Pandemig COVID nid oedd modd cynnal yr arolwg Preswyl Blynyddol o ganiatadau sydd heb eu gweithredu ac roedd y ffigur tai preswyl a gwblhawyd yn cynnwys gwybodaeth o wybodaeth y Swyddog Rheoli Adeiladu a Chynllunio. Mae'r unedau a gwblhawyd hefyd wedi'u cymhlethu gan ffactorau allanol y tu allan i reolaeth yr Awdurdod Cynllunio Lleol gan gynnwys gofynion cyllido, diffyg adeiladwyr ar raddfa fawr, y cyllid masnachol cyfyngedig sydd ar gael i adeiladwyr bach, ac agwedd bwylllog y cwmnïau morgeisiau at brynwyr tai, er enghraifft. Mae ffigur eleni o 20.5 o ganiatadau yn cymharu â 9.5 (2019), 14 (2018), 8.5 (2017), 7.1 (2016), 12.3 (2015) a 9.3 (2014). Mae'r gymhareb hon wedi symud yn ôl mewn cyfeiriad cadarnhaol y flwyddyn hon, ond nid yw'r targed wedi cael ei gyflawni.</p>				

Mae'r Cyngor wedi gwneud gwaith ymchwil ar ganiatadau sy'n sefyll ac wedi ystyried cyfleoedd ar gyfer cyhoeddi hysbysiadau cwblhau. Ers mabwysiadu'r cynllun mae'r awdurdod wedi bod yn cyhoeddi caniatadau byr mewn ymateb i'r mater hwn, fodd bynnag, mae'r Cyngor hefyd yn gweithredu polisi LU05 y CDLI yn llymach mewn perthynas â chaniatadau byr ac amodau dyddiad cwblhau a allai fod yn rheswm y tu ôl i'r gwelliant sylweddol yn y gymhareb y flwyddyn hon o'i gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf.

Casgliadau

Ni wireddwyd y gymhareb gychwynnol o 6.5 o ganiatadau sy'n sefyll i 1 uned a gwblhawyd erioed. Nid yw ffigur eleni o 20.5 o ganiatadau sy'n sefyll i 1 uned a gwblhawyd yn bodloni'r targed a nodwyd, fodd bynnag nid yw'n adlewyrchiad cywir o'r sefyllfa.

Gweithred

Dylid parhau i ystyried cymryd camau trwy reoli caniatadau ac ystyriaeth fwy manwl yn ystod y diwygiad o'r cynllun

Cyfeirnod Monitro:	AMRH15			
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:	Rhychwant y Tai			
Y Polisiau a Gaiff eu Monitro:	LU02			
Lefel:	Lleol			
Pryd:	Yn flynyddol			
Ffynhonnell:	Cyngor Sir Ceredigion (CSC)			
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (25 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2020)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Cymysgedd o fathau o dai ac ystafelloedd gwely yn unol ag adroddiad cyfredol Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yng Ngheredigion.	Nifer y caniatadau llawn neu ganiatâd i faterion a gadwyd yn ôl ar sail y mathau o dai a nifer yr ystafelloedd gwely ers mabwysiadu. Nifer yr unedau a gwblhawyd yn ôl y mathau o	Os yw'r ffigurau cyfunedig yn wahanol i'r canrannau a bennir yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol. Cymerir camau ar y cyd ag Adran Dai'r Cyngor, a gellid canolbwyntio ar gyflenwi mwy	Gweler Atodiad 7	0

	dai a nifer yr ystafelloedd gwely ers mabwysiadu.	o'r math o annedd y mae ei angen.		
<p>Dadansoddiad</p> <p>Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (2016) diweddaraf sydd newydd ei gyhoeddi yn diweddarau fersiwn 2008 a gafodd ei ystyried yn yr Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol. Nododd yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (2016) fod gorgyflenwad o anheddau 1, 2 a 4 ystafell wely a thangyflenwad o anheddau 3 ystafell wely ar gyfer unedau a ganiatawyd ac unedau a gwblhawyd. Mae'r Bartneriaeth Tai Strategol yn ystyried anghenion tai ac er y bu cynnydd yn y ddarpariaeth o anheddau 1 a 2 ystafell wely yn y blynyddoedd diwethaf yn unol â'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (2008), mae effaith diwygiadau lles heb ei gwireddu'n llawn eto, ond wrth i amser fynd yn ei flaen mae Swyddogion Cynllunio yn negodi mwy o gymysgedd a ddylai hyn weithio trwy'r system dros y blynyddoedd nesaf.</p> <p>Mae Swyddogion Cynllunio yn parhau i gydweithio â'r Swyddog Tai Fforddiadwy a'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i sicrhau bod y math o dai marchnadol a thai fforddiadwy ar safleoedd yn cyfateb ag anghenion y gymuned leol.</p> <p>Lansiwyd cofrestr tai gyffredin newydd yng Ngheredigion ar 1 Mehefin 2016. Mae dadansoddiad diweddar o'r gofrestr yn dangos bod angen sylweddol am eiddo 1 a 2 ystafell wely. Bydd diweddariad o'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol i ystyried amcanestyniadau aelwydydd seiliedig ar ddata 2014 hefyd yn ystyried y dystiolaeth newydd hon o'r gofrestr dai, a chaiff ei ddefnyddio i lywio'r adolygiad o'r CDLI.</p>				

Mae'r Cyngor yn rhan o Astudiaeth Hyfywedd Tai Fforddiadwy Strategol Rhanbarthol Canolbarth a De-orllewin Cymru a gaiff ei gyhoeddi yn niwedd 2020 a'i ddiweddarau yn dilyn cyhoeddi'r amcanestyniadau seiliedig ar ddata 2017. Felly adroddir ar y dystiolaeth hon yn Adroddiad Monitro Blynyddol 2021.

Casgliadau

Nid yw'r targed yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd, fodd bynnag, nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. O ran maint anheddau, mae Polisi LU02 yn parhau i gael ei ystyried yn addas i'r pwrpas.

Gweithred

Bydd angen am lety ar gyfer pobl oedrannus yn cael ei ystyried yn y diwygiad o'r CDLI a allai arwain at newid/ychwanegu at Bolisi LU02 neu LU04 er mwyn rhoi sylw i'r broblem o boblogaeth sy'n heneiddio a phwysleisio'r angen am lety addas fel rhan o'r cymysgedd o dai ar safleoedd tai.

Yr Economi

Cyfeirnod Monitro:		AMRE01		
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:		Cyflenwad Tir Cyflogaeth		
Y Polisiau a Gaiff eu Monitro:		S01 – S04 ac LU13		
Lefel:		Lleol		
Pryd:		Yn flynyddol		
Ffynhonnell:		Cyngor Sir Ceredigion (CSC)		
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Dim colledion net o ran tir cyflogaeth / arwynebedd llawr onid yw'n unol â Pholisi LU13.	Cyflenwad/datblygiad net y tir economaidd (hectarau/metrau sgwâr).	Os oes colled net o 1 safle neu ddarn o dir o fewn dosbarth defnydd B1, B2 neu B8 nad yw'n unol â Pholisi LU13 cynhelir ymchwiliad i'r achosion.	Newid yn yr arwynebedd llawr a ddefnyddir ar gyfer cyflogaeth (B1, B2 a B8), sef: +0.1 ha.	+

		<p>Gall nifer o ffactorau effeithio ar y tir cyflogaeth a neilltuir sy'n cael ei ddatblygu, ac oherwydd hynny cymerir camau sy'n ymwneud â'r dangosydd ar y cyd ag Adran Datblygu Economaidd y Cyngor ac Adran Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru.</p>		
<p>Dadansoddiad</p> <p>Cafodd +0.1 ha o ddatblygiadau dosbarth B1, B2 a B8 ei ganiatáu yn ystod y cyfnod monitro. Mae'r ffigur hwn yn cymharu â +0.2 (2019), +1.7 (2018), +0.57 (2017), +0.14 (2016), +1.94ha (2015) a +0.14ha (2014).</p> <p>Roedd y golled yn ymwneud ag un cais cynllunio am newid o swyddfa ar y llawr gwaelod i gyfuno â'r uned breswyl uchod.</p>				
<p>Casgliadau</p> <p>Mae'r targed yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd ac nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithredu'r polisiau.</p>				
<p>Gweithred</p>				

Dadansoddiad o ddangosyddion Craidd a Lleol

Mae polisiau cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

Cyfeirnod Monitro:	AMRE02 (Dangosydd Statudol)			
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:	Cyflenwi'r Safleoedd Economaidd a Neilltuwyd			
Y Polisiau a Gaiff eu Monitro:	S01 – S04 ac LU13			
Lefel:	Craidd			
Pryd:	Yn flynyddol			
Ffynhonnell:	Cyngor Sir Ceredigion (CSC)			
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2007 – 31 Mawrth 2020)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Dylai 66% o'r tir a neilltuwyd fod wedi cael caniatâd neu wedi cael ei gwblhau ar adeg mabwysiadu'r CDLI.	1. Maint y datblygu economaidd a ganiatawyd ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o ddyraniadau'r CDLI (hectarau).	Os na fydd y safleoedd a neilltuwyd wedi cael eu cyflawni yn unol â'r hyn a ddisgwyliwyd, caiff ymchwiliad i'r achosion ei ysgogi.	Caniatawyd: 81% (108.03ha) Cwblhawyd 58% (87.14ha).	0
Dylai 83% o'r safleoedd a neilltuwyd	2. Maint y datblygu economaidd a	Oherwydd bod nifer o ffactorau'n gallu effeithio ar y		

Dadansoddiad o ddangosyddion Craidd a Lleol

<p>fod wedi cael caniatâd neu wedi cael eu cwblhau erbyn 2017.</p> <p>Dylai 100% o'r safleoedd a neilltuwyd fod wedi cael caniatâd neu wedi cael eu cwblhau erbyn 2022.</p>	<p>gwblhawyd ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o ddyraniadau'r CDLI (hectarau).</p>	<p>tir cyflogaeth a neilltuir sy'n cael ei ddatblygu, cymerir camau sy'n ymwneud â'r dangosydd blynyddol ar y cyd ag Adran Datblygu Economaidd y Cyngor ac Adran Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru.</p>		
<p>Dadansoddiad</p> <p>Ni chyflawnwyd y targed o 83% o safleoedd a neilltuwyd i'w caniatáu neu eu cwblhau erbyn 2017. Mae'r cynllun yn symud tuag at ei gyfnod hwyrach bellach lle y dylai 100% o safleoedd a neilltuwyd gael eu caniatáu neu eu cwblhau erbyn 2022, fodd bynnag mae 81% wedi cael eu caniatáu a 61% eu cwblhau erbyn diwedd y cyfnod monitro. Nodir na chafodd un caniatâd ei roi yn 2019 ar gyfer Safle Cyflogaeth a Neilltuwyd er bod unedau wedi'u cwblhau ar Safleoedd Cyflogaeth a Neilltuwyd nad oeddent ar rannau o'r safle heb eu datblygu o'r blaen. Nodir y cafodd y rhan fwyaf o'r unedau a gwblhawyd a gofnodwyd eu cwblhau cyn mabwysiadu'r CDLI gan fod llawer o'r safleoedd cyflogaeth a neilltuwyd yn y CDLI wedi cael eu nodi ac er mwyn caniatáu ar gyfer aiddatblygu cydlynus a/neu symleiddio eu defnyddiau presennol.</p>				

Wrth i'r cynllun symud tuag at y targed a nodwyd ar gyfer 2022 nid oes unrhyw bryderon ynghylch lefel y datblygiadau cyflogaeth yn gyffredinol sydd wedi gweld arafu cyffredinol yn yr economi dros y blynyddoedd diwethaf, gan felly cefnogi lleihad tebygol yn y gofyniad cyffredinol am dir cyflogaeth. Mae'r Cyngor wedi cynnal adolygiad mewnol o dir cyflogaeth ac mae'n gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol ar Aseiad Mwy Nag Anghenion Cyflogaeth Lleol sy'n ymchwilio i'r rhesymau dros ddiffyg datblygu rhai safleoedd cyflogaeth a neilltuwyd, ac yn ystyried y galw am safleoedd a neilltuwyd yn y dyfodol yng Ngheredigion. Bydd y dystiolaeth newydd hon yn llywio'r CDLI newydd.

Casgliadau

Nid yw targed 2017 wedi cael ei gyflawni, ac mae'n rhy gynnar i gadarnhau a gaiff targed 2022 ei gyflawni neu beidio, fodd bynnag nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithredu'r polisïau. Bydd yr adolygiad o'r CDLI yn ystyried y sylfaen dystiolaeth economaidd wedi'i diweddarau sy'n cael ei pharatoi ac yn ystyried anghenion tir cyflogaeth yn y dyfodol, ac adolygu'r safleoedd cyflogaeth a neilltuwyd.

Gweithred

Mae polisïau cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

Dadansoddiad o ddangosyddion Craidd a Lleol

Cyfeirnod Monitro:	AMRE03			
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:	Datblygu Economaidd mewn Lleoliadau Addas			
Y Polisiau a Gaiff eu Monitro:	S01 – S04			
Lefel:	Lleol			
Pryd:	Yn flynyddol			
Ffynhonnell:	Cyngor Sir Ceredigion (CSC)			
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2007 – 31 Mawrth 2020)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Hyd at 40% o'r datblygu economaidd i'w leoli ar safleoedd a neilltuwyd.	1. Maint y datblygu economaidd a ganiatawyd ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o'r holl ddatblygu a ganiatawyd (hectarau ac unedau).	Os methir â lleoli 35% neu lai o'r holl ddatblygu economaidd a ganiatawyd neu a gwblhawyd ar safleoedd a neilltuwyd am 2 flynedd yn olynol cynhelir dadansoddiad o achosion y diffyg er mwyn gweld a allai'r Awdurdod Lleol	Dim caniatadau/unedau a gwblhawyd ar rannau heb eu datblygu o'r safleoedd neilltuwyd yn 2020. Caniatawyd: Unedau: 50% (50 o unedau).	+

	<p>2. Maint y datblygu economaidd a gwblhawyd ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o'r holl ddatblygu a gwblhawyd (hectarau ac unedau).</p>	<p>fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau.</p> <p>Oherwydd bod nifer o ffactorau'n gallu effeithio ar y tir cyflogaeth a neilltuir sy'n cael ei ddatblygu, cymerir camau sy'n ymwneud â'r dangosydd blynyddol ar y cyd ag Adran Datblygu Economaidd y Cyngor ac Adran Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru.</p>	<p>Hectarau: 43% (7.53ha). (nid yw'r ffigurau yn ystyried caniatadau sydd wedi dod i ben a gafodd eu caniatáu yn ystod y cyfnod).</p> <p>Cwblhawyd: Unedau: 50% (45 o unedau) Hectarau: 43% (7.00ha)</p>	
<p>Dadansoddiad</p> <p>Yn ôl Asesiad o Anghenion Economaidd Ceredigion (DTZ, 2010), nid yw oddeutu 63% o'r swyddi y rhagwelwyd y byddent yn cael eu creu dros gyfnod y CDLI yn gofyn am safle cyflogaeth a neilltuwyd er mwyn gweithredu. O ganlyniad, disgwylir y bydd cyfran fawr o ddatblygu economaidd yn digwydd ar leoliadau oddi ar safleoedd cyflogaeth. Mae'r targed o 40% o ddatblygu economaidd i'w leoli ar safleoedd a neilltuwyd yn parhau i gael ei gyflawni, gyda 49% o'r unedau wedi'u caniatáu a 52% wedi'u cwblhau ar</p>				

safleoedd a neilltuwyd, gan awgrymu felly bod safleoedd a neilltuwyd y CDLI yn gweithredu fel y dymunir ar hyn o bryd. Bydd diweddariad o'r asesiad o anghenion economaidd yn ystyried faint o dir cyflogaeth sy'n debygol o fod ei angen yn y dyfodol, mae disgwyl i hyn fod ar gael ar ddiwedd 2020.

Casgliadau

Mae maint y tir cyflogaeth a neilltuwyd yn ddigonol ar gyfer cyfnod y cynllun. Mae'r targedau'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd ac nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithredu'r polisïau.

Gweithred

Mae polisïau cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

Cyfeirnod Monitro:	AMRE04			
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:	Datblygu Economaidd ar Dir a Ddatblygwyd o'r Blaen			
Y Polisiau a Gaiff eu Monitro:	S01 – S04, LU11, LU12 ac LU13			
Lefel:	Lleol			
Pryd:	Yn flynyddol			
Ffynhonnell:	Cyngor Sir Ceredigion (CSC)			
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2007 – 31 Mawrth 2020)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
30% o'r holl ddatblygu economaidd a ganiatawyd ac a gwblhawyd i'w leoli ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (tir llwyd).	1. Maint y datblygu newydd (hectarau) a ganiatawyd ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (ailddatblygu tir llwyd a chyfaddasiadau) fel canran o'r holl ddatblygu a ganiateir.	Oni chaiff o leiaf 30% o'r holl ddatblygu economaidd a ganiatawyd ac a gwblhawyd ei leoli ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (tir llwyd) cynhelir dadansoddiad i achosion y diffyg er mwyn gweld a all yr	Caniatawyd: 58% (9.521ha) Cwblhawyd: 58% (9.42ha)	+

	<p>2. Maint y datblygu newydd (hectarau) a gwblhawyd ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (ailddatblygu tir llwyd a chyfaddasiadau) fel canran o'r holl ddatblygu a gwblhawyd.</p>	<p>Awdurdod Lleol fynd i'r afael â'r rhwystrau.</p>		
<p>Dadansoddiad</p> <p>Gan mai sir wledig yw Ceredigion ac nid oes llawer o dir llwyd ar gael i'w ddatblygu mae'n anochel y bydd tir glas yn cyfrannu at gyfran fawr o'r holl dir y gellir ei ddatblygu. Mae mwy na 30% o'r holl ddatblygu economaidd a ganiatawyd ac a gwblhawyd wedi bod ar dir llwyd ers dechrau'r broses CDLI, gyda 58% wedi'i ganiatáu (9.52ha) a 58% (9.42ha) wedi'i gwblhau. Felly mae'r targed wedi cael ei gyflawni ac nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithredu polisiau'r CDLI.</p>				
<p>Casgliadau</p> <p>Mae'r dangosydd yn cael ei gyflawni. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithredu polisiau'r CDLI.</p>				
<p>Gweithred</p>				
<p>Mae polisiau cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.</p>				

Cyfeirnod Monitro:	AMRE05 (Dangosydd Statudol)			
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:	Canol Trefi			
Y Polisiau a Gaiff eu Monitro:	S01 – S04, LU12, LU13, LU18, LU19, LU20, LU21 ac LU22			
Lefel:	Craidd			
Pryd:	Yn flynyddol			
Ffynhonnell:	Cyngor Sir Ceredigion (CSC)			
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2020)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Lleoli o leiaf 80% o'r holl ddatblygiadau swyddfeydd, manwerthu a hamdden mawr (datblygiadau dros 800 o fetrau sgwâr gros) yng nghanol trefi.	Maint y datblygiadau mawr (datblygiadau dros 800 m sg gros) swyddfeydd, manwerthu a hamdden a ganiatawyd o fewn a'r tu allan i ffiniau sefydledig canol trefi a dosbarth.	Os bydd llai na 70% o ddatblygiadau mawr (o ran swyddfeydd, manwerthu a hamdden) yn digwydd yng nghanol trefi am 2 flynedd yn olynol, cynhelir ymchwiliad i'r rhesymau ac a oes angen i'r Awdurdod Lleol fynd ati i ddileu'r rhwystrau, naill ai	O fewn canol trefi Unedau: 0% (0 uned) Arwynebedd: 0% (0 m sg) Y tu allan i ffiniau sefydledig canol trefi a dosbarth Unedau: 0% (0 o unedau)	0

Dadansoddiad o ddangosyddion Craidd a Lleol

		drwy'r CDLI neu ddulliau eraill, er mwyn i'r safle gael ei ddatblygu.	Arwynebedd: 0% (0 m sg)	
Dadansoddiad				
Cafodd 0 ceisiadau eu caniatáu o fewn neu tu allan ffiniau'r dref.				
Casgliadau				
Er nad yw'r targed wedi cael ei gyflawni, nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithredu'r polisïau.				
Gweithred				
Mae polisïau cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.				

Cyfeirnod Monitro:	AMRE06			
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:	Bywiogrwydd y Canolfannau Gwasanaethau Gwledig			
Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro:	S01 – S04, LU12, LU13, LU18, LU19, LU20, LU21 ac LU22			
Lefel:	Lleol			
Pryd:	Yn flynyddol			
Ffynhonnell:	Cyngor Sir Ceredigion (CSC)			
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2020)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Nifer sefydlog neu gynyddol o gyfleusterau mewn Canolfan Gwasanaethau.	Sawl un o'r 6 chyfleuster allweddol (siop fwyd, swyddfa bost, gorsaf betrol, tafarn, neuadd bentref, ysgol gynradd) sydd yn y Ganolfan	Os collir un o'r 6 chyfleuster allweddol mewn Canolfan Gwasanaethau cynhelir ymchwiliad i'r rhesymau dros hynny. Fodd bynnag, gan fod nifer o ffactorau'n gallu effeithio ar ddarparu'r cyfleusterau, byddai angen ystyried unrhyw golledion net yn y cyd-destun ehangach.	Gweler Atodiad 8 ar gyfer gwybodaeth 2019. Oherwydd Pandemig COVID-19 ni roddwyd awdurdodiad i'r arolwg amwynderau gael ei gynnal yn 2020.	+

	Gwasanaethau Wledig.			
Lefelau llygryddion aer allweddol (e.e. NO ₂ , PM ₁₀ , bensen, oson).	Paratowyd a chyflwynwyd Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer Cyngor Sir Ceredigion 2018 erbyn Medi 2019. Caiff yr Adroddiad Cynnydd nesaf ei gyflwyno erbyn 30 Medi 2020.	Yn flynyddol	<p>NO₂:</p> <p>Ni aethpwyd yn uwch na'r safon gymedrig flynyddol yn 2018 o 40µg/m³ mewn unrhyw un o'r lleoliadau monitro allweddol / achos gwaethaf ar ymyl y ffordd yng Ngheredigion.</p> <p>Mae crynadau o NO₂ yn parhau i gydymffurfio â'r Cyfarwydddeb Epil Ansawdd Aer Ewropeaidd Gyntaf.</p>	0

		<p>PM₁₀</p> <p>Ni wnaethpwyd unrhyw fonitro newydd o lygredd gronynnol yn 2018. Amcangyfrifwyd bod crynodiadau cefndir wedi'u modelu PM₁₀ yng Ngheredigion yn 2018 i fod yn llai nag 13µg/m³ fel cymedrig blynyddol. Felly hyd yn oed yn y lleoliadau achos gwaethaf, ar ymyl y ffordd a mannau poeth yng Ngheredigion rhagwelwyd eu bod yn llawer is na'r safon flynyddol PM₁₀ o 40 µg/m³</p>	
--	--	--	--

		<p>Bensen</p> <p>Lluniwyd safonau gorfodol (a dangosol hirdymor) ar gyfer bensen yng Ngheredigion yn 2018 yn yr holl leoliadau 'problemus' ac ymyl y ffordd sy'n berthnasol i gysylltiad cyhoeddus. Mae'r safon ddangosol fwy hirdymor o 3.25µg/m³ yn cael ei llunio hefyd gyda'r lleoliadau achosion gwaethaf ym mhrif drefi Ceredigion.</p> <p>Oson</p> <p>Mae'n debyg bod y safon 8 awr ddangosol ar gyfer oson wedi cael ei thorri</p>	
--	--	---	--

		<p>mewn nifer o leoliadau mewn pentrefi yng Ngheredigion yn 2018 (ac yn y blynyddoedd blaenorol, yn enwedig y rhai lle y cafwyd haf twym iawn).</p> <p>Gwelwyd cronriad eithriadol o uchel o oson yn Aberystwyth yn 2008. Hwn oedd yr achos mwyaf difrifol o oson a welwyd yng Ngheredigion hyd yma. Yn Nhachwedd 2015 roedd pluen oson yn effeithio ar y rhan fwyaf o Geredigion – gan gynnwys prif dref Aberystwyth lle roedd y crynodiad</p>	
--	--	---	--

		<p>cymedrig misol a fesurwyd yn fwy na'r safon 8 awr.</p> <p>Mae'r Llywodraeth yn derbyn bod safonau oson yn cael eu torri, ac y byddant yn parhau i gael eu torri, a bod yr achosion hyn yn digwydd yn amlach yn ne'r Deyrnas Unedig ac mewn ardaloedd gwledig yn hytrach na dinasoedd a threfi mawr.</p>	
<p>Dadansoddiad</p> <p>Roedd Adroddiad Monitro Blynyddol y flwyddyn ddiwethaf yn nodi lefelau tebyg o lygryddion aer â'r flwyddyn hon, gan gydymffurfio â phob safon ar wahân i oson (ond nid yw safonau oson wedi'u gynnwys yn y rheoliadau ar hyn o bryd). Ni aethpwyd yn uwch nag unrhyw lefelau cymedrig ar gyfer NO₂, PM₁₀ neu bensen.</p> <p>Oson yw'r unig lygrydd o'r rhai a gynhwysir yn y Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol a all fod yn fwy problemus mewn ardaloedd gwledig nag mewn ardaloedd trefol. Oherwydd bod goleuni'r haul yn ysgogi'r adweithiau sy'n cynhyrchu oson, deallir</p>			

pam y mae oson fel arfer yn fwy o broblem yn yr haf ac yn ne'r sir (yn hytrach nag yn y gogledd). Mae'r lefelau uchaf yn debygol o ddigwydd ar ddiwrnodau heulog, poeth ac mae'r lefelau'n codi yn ystod cyfnodau pan fydd llawer o fygdarth ceir yn cael ei gynhyrchu, a phan fydd yn gwasgaru'n araf. Hyn sy'n angenrheidiol er mwyn i'r adweithiau ffotocemegol rhagflaenol ddigwydd.

Casgliadau

Er bod ngorcyfraih yn canllaw y safonau ar gyfer lefelau oson wedi cael ei thorri, ni ystyrir bod hyn wedi cael ei achosi gan bolisïau'r CDLI. Mae'r Llywodraeth yn derbyn bod safonau oson yn cael eu torri, ac y byddant yn parhau i gael eu torri, a bod yr achosion hyn yn digwydd yn amlach yn ne'r Deyrnas Unedig ac mewn ardaloedd gwledig yn hytrach nag mewn dinasoedd a threfi mawr. Gallai cynhesu byd-eang waethygu'r broblem hon, gan gynyddu pryderon ynghylch llygredd oson o ran iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd.

Amcan Cynaliadwyedd:		2c	Lleihau effeithiau gweddilliol defnydd tir ar ansawdd a maint adnoddau dŵr mewndirol ac arfordirol.	
Dangosydd	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Ansawdd dŵr ymdrochi.	Cyfoeth Naturiol Cymru http://environment.data.gov.uk/waters/profiles/index.html	Yn flynyddol	Mae gan 14 o draethau a gafodd eu monitro yn 2019 safonau ansawdd fel a ganlyn: 1. Aber-porth: Da 2. Aberystwyth – Gogledd: Da 3. Aberystwyth – De: Da 4. Y Borth: Ardderchog 5. Cilborth: Ardderchog 6. Clarach – De: Da	+

			<p>7. Llangrannog: Ardderchog</p> <p>8. Llanrhystud: Ardderchog</p> <p>9. Mwnt: Ardderchog</p> <p>10. Harbwr Ceinewydd: Ardderchog</p> <p>11. Ceinewydd – Gogledd: Da</p> <p>12. Ceinewydd Traeth Gwyn: Da</p> <p>13. Penbryn: Ardderchog</p> <p>14. Tre-saith: Ardderchog</p>	
Dadansoddiad				

Mae ansawdd dŵr yn cael ei brofi 20 gwaith yn ystod y tymor ymdrochi o 15 Mai i 30 Medi bob blwyddyn. Caiff y samplau hyn eu dadansoddi yn ôl y safonau a bennir yn y Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi Ewropeaidd. O'r 14 o draethau a aseswyd yn 2019 cafodd 8 eu dosbarthu yn 'Ardderchog', 6 yn 'Dda' ac 1 yn 'Ddigonol'. Ni ddosbarthwyd unrhyw draeth yn draeth safonol neu 'Gwael'.

Casgliadau

Bennir bod 100% o'r traethau a aseswyd yng Ngheredigion yn cyrraedd safonau gofynnol 'Ardderchog' neu 'Dda' y Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi Ewropeaidd. Mae polisiâu'r CDLI yn helpu i gefnogi hyn trwy geisio sicrhau nad yw datblygiadau'n llygru cyrff dŵr.

Amcan Cynaliadwyedd:		3a Gwneud defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol.		
Dangosydd	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Cyfanswm tunelledd gwastraff trefol a pherfformiad yn ôl: Targedau Ailgylchu Awdurdodau Lleol (LART) h.y. y lefelau gofynnol i'w cyrraedd wrth baratoi ar gyfer aildddefnyddio neu ailgylchu/compostio (neu dreulio anaerobig) mewn perthynas â gwastraff trefol (fel canran). Targed wedi'i osod ar 58% ar gyfer 2018/2019 (yn codi i 64% erbyn 2019/2020).	Dangosyddion Perfformiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru WMT10 (CSC).	Yn flynyddol	Cyfanswm gwastraff trefol ar gyfer 2018/19 oedd 34,263.51t. Er cymhariaeth yn 2017/18 roedd yn 35995.37t 2016/17 roedd yn 38,115.07t 2015/16 roedd yn 35,202.76t Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19 cynhyrchodd yr awdurdod 60.34% o wastraff trefol	+

			wedi'i baratoi i'w aildddefnyddio, ei ailgylchu/gompostio (neu ei anfon ar gyfer treulio anaerobig), yn erbyn targed LART o 58%.	
<p>Perfformiad yn ôl targedau Lwfansau Tirlenwi h.y. terfynau Lwfansau ar gyfer y tunelledd Gwastraff Trefol Pydradwy a anfonir i safleoedd tirlenwi.</p> <p>Mae'r lwfans targed a osodwyd ar gyfer yr awdurdod yn fwy cyfyngol yn raddol dros amser. Gosodwyd ar y gyfradd ganlynol:</p> <p>9,656 tonnall ar gyfer 2016/17</p> <p>9,160 tonnall ar gyfer 2017/18</p>	<p>Llif Data Gwastraff</p> <p>i. Dangosyddion Perfformiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru WMT/0004a (CSC).</p>	Yn flynyddol	<p>Mae maint y Gwastraff Trefol Pydradwy a anfonwyd i safle tirlenwi yn ystod y flwyddyn ariannol 2016/17 yn cyfateb i 44.8% o'r lwfans sy'n cael ei ddefnyddio.</p>	+

Cyfanswm y gwastraff o gartrefi / gwastraff diwydiannol a masnachol a gaiff ei gynhyrchu / ailgylchu / anfon i safleoedd tirlenwi bob blwyddyn.	Holwr Data Manylion Trwyddedau Gwastraff Cyfoeth Naturiol Cymru (gynhyrchwyd 06/06/16).	Yn flynyddol	Y cyfanswm tunelli ar gyfer y flwyddyn galendr 2019 oedd 99,658.49t, ac o hynny anfonwyd 8203.59t i safle tirlenwi (y cyfan y tu allan i'r sir). Adenillwyd 29338.14t ohono, trosglwyddwyd 3673.029t, llosgwyd 14250.22t ac anfonwyd 44193.51t i'w drin.	+
<p>Dadansoddiad (Dros dro)</p> <p>Mae'r awdurdod yn parhau i gyrraedd ei Dargedau Ailgylchu Awdurdod Lleol (LART) a thargedau *gwyro oddi wrth safleoedd tirlenwi.</p> <p>Ar hyn o bryd mae Ceredigion yn anfon ei wastraff gweddilliol i gyfleuster ynni o wastraff o dan contract i Ailgylchu LAS yn Llanbedr Pont Steffan hyd at 2022 tra y ceisir ateb hirdymor.</p>				

Mae'r holl wastraff bwyd sy'n cael ei wahanu yn y tarddle a gesglir gan Partneriaeth Gwastraff Canol Gymru gan gynnwys Ceredigion yn cael ei anfon i gyfleuster treulio anaerobig y tu allan i'r sir, sy'n cyfrannu'n sylweddol at lwyddiant presennol yr awdurdod o ran cyflawni targedau LART a thargedau gwyro oddi wrth safleoedd tirlenwi.

Er bod y cyngor yn parhau i gwrdd a targedi ailgylchu/compostio mae'r awdurdod yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyflawni'r targedau fwy heriol yn y dyfodol, ac mae wedi ymrwymo i yrru rheoli gwastraff ymhellach i fyny'r hierarchaeth gwastraff yn unol â'r Strategaeth Genedlaethol a pholisïau Ewropeaidd. Er mwyn gwneud hyn, hyd yma mae'r awdurdod wedi dibynnu'n llwyddiannus ar (i) y safleoedd gwastraff sy'n bodoli o fewn Ceredigion, (ii) argaeledd dyraniad tir E0301 ar Ystad Ddiwydiannol Glanyrafon a (iii) cyfleusterau graddfa ranbarthol a leolir y tu allan i Geredigion a (iv) unrhyw safleoedd newydd a allai gael eu datblygu o dan y polisïau gwastraff esgeulus sydd wedi'u cynnwys o fewn y CDLI.

Cyflwynodd yr awdurdod wasanaeth casglu gwastraff newydd wrth ymyl y ffordd yn ystod 2019 Roedd hyn yn darparu gwasanaethau ychwanegol ar gyfer gwydr a chynhyrchion hylendid amsugol, ac yn cyflwyno newidiadau i amllder casglu gwastraff gweddilliol. Bydd y newidiadau hyn yn helpu'r Awdurdod i barhau i berfformio o ran ailgylchu a dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi.

Mae gan y tir a neilltuwyd o dan E0301 y capasiti i ddiwallu unrhyw angen a ragwelir yn y dyfodol am gyfleuster adennill adnoddau neu drin gwastraff i wasanaethu ardal Partneriaeth Canol Cymru, neu fel arall i fod yn rhan o ateb ehangach mwy hirdymor ar gyfer gwastraff gweddilliol ar gyfer ardal Canol a Gorllewin Cymru. P'un a fydd safle E0301 byth yn cael ei ddewis fel safle gwastraff rhanbarthol neu beidio, dylai defnyddio safle E0301, neu argaeledd parhaus safle E0301, o'i ystyried ar y cyd ag unrhyw dir arall a allai fod ar gael ar gyfer cyfleusterau adennill adnoddau a gwastraff o dan bolisïau gwastraff esgeulus y CDLI, alluogi Ceredigion i ddarparu ar gyfer yr ystod lawn o seilwaith adennill adnoddau a gwastraff a allai fod ei angen, boed ar gyfer y gwastraff trefol mae'r

awdurdod yn gyfrifol amdano neu wastraff masnachol a diwydiannol a reolir gan y sector preifat, sy'n ddigonol i gyflawni neu ragori ar yr holl dargedau gwastraff yn awr ac yn y dyfodol agos.

** Mae cyfanswm y gwastraff o gartrefi/diwydiannol a masnachol yn cynnwys gwastraff trefol.

Casgliadau

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw bryderon am effaith y CDLI ar allu Ceredigion i gadw o fewn y Targedau Lwfansau Tirlenwi, neu fod yn uwch na Thargedau Ailgylchu'r Awdurdod Lleol (LART).

Amcan Cynaliadwyedd: 3b Adeiladu a chynnal gwasanaethau a seilwaith amgylcheddol gyfeillgar o ansawdd uchel.				
Dangosydd	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Nifer y Canolfannau Gwasanaethau a gyfyngir gan faterion sy'n ymwneud â seilwaith (trin carthion a'r cyflenwad dŵr)	Cyngor Sir Ceredigion (Dangosydd AMRQ06)	Yn flynyddol	Mae 3 Chanolfan Gwasanaethau a gyfyngir gan faterion sy'n ymwneud â seilwaith (trin carthion a'r cyflenwad dŵr).	+
<p>Dadansoddiad</p> <p>Mae'r ymgysylltu â DCWW yn gadarnhaol ac yn parhau. Ers dechrau'r cyfnod y cynllun mae nifer y canolfannau gwasanaethau a gyfyngir yn rhannol wedi lleihau o 9 i 3. Cyfeiriwch at AMRQ06 uchod am ragor o fanylion.</p>				
<p>Casgliadau</p> <p>Mae'r ymgysylltu â DCWW yn gadarnhaol. Ers dechrau cyfnod y cynllun, mae nifer y canolfannau gwasanaethau a gyfyngir yn rhannol wedi lleihau o 9 i 3. Bydd yr adolygiad a'r diwygiad o'r CDLI, fel rhan o'r broses safleoedd ymgeisiol yn ystyried unrhyw</p>				

faterion seilwaith penodol i'r safle. Bydd hyn yn sicrhau bod modd cyflawni unrhyw ddyraniadau sydd i'w datblygu yn y CDLI newydd.

Amcan Cynaliadwyedd:		4a Gwerthfawrogi, gwarchod a gwella bioamrywiaeth.		
Dangosydd	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
<p>Canran y datblygiadau a ganiateir lle tybir y bydd effeithiau hirdymor gweddilliol sylweddol ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Warchodfeydd Natur Lleol, Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur a chynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth; • Cysylltedd ecolegol; • Coed, gwrychoedd a choetiroedd â gwerth gweledol, ecolegol, hanesyddol, diwylliannol neu amwynder; neu 	Cyngor Sir Ceredigion a Chyfoeth Naturiol Cymru.	Yn flynyddol	1.88% o ddatblygiadau a ganiateir lle y rhagwelir y bydd effeithiau hirdymor gweddilliol sylweddol ar yr amgylchedd a bioamrywiaeth leol	0

<ul style="list-style-type: none"> Wasanaethau ecosystemau a phrosesau naturiol. 				
<p>Canran y ceisiadau lle mae gwelliannau sy'n ymwneud â'r isod:</p> <ul style="list-style-type: none"> Bioamrywiaeth (gan gynnwys Gwarchodfeydd Natur Lleol, Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur a chynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth); Cysylltedd ecolegol; Coed, gwrychoedd a choetiroedd; neu Wasanaethau ecosystemau a phrosesau naturiol. 	Cyngor Sir Ceredigion a Chyfoeth Naturiol Cymru.	Yn flynyddol	Cafodd 82.89% o'r datblygu ei ganiatáu yn cynnwys gwelliannau amgylcheddol yn unol â gofynion Polisiâu DM14, DM15, DM20 a DM22.	?
Colli cynefin â blaenoriaeth (hectarau) oherwydd datblygu newydd.	Cyngor Sir Ceredigion.	Yn flynyddol	Mae 5% o geisiadau ar gyfer datblygu wedi arwain at golli cynefin â	0

			blaenoriaeth (oherwydd colli gwrychoedd).	
Colli safleoedd (hectarau) sy'n bodloni meini prawf Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur oherwydd datblygu newydd.	Cyngor Sir Ceredigion.	Yn flynyddol	Arweiniodd 5% o geisiadau at golli safleoedd sy'n bodloni meini prawf Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur (prysgoed).	0
<p>Dadansoddiad</p> <p>Cafodd 1.88% o ddatblygiadau eu caniatáu lle y rhagwelir y bydd effeithiau hirdymor gweddilliol sylweddol ar yr amgylchedd a bioamrywiaeth leol. Cafodd 82.89% o'r datblygiadau eu caniatáu yn cynnwys gwelliannau amgylcheddol yn unol â gofynion Polisiâu DM14, DM15, DM20 a DM22. Mae 38 o geisiadau ar gyfer datblygu wedi arwain at golli cynefin â blaenoriaeth (oherwydd colli gwrychoedd heb gynnwys amod sy'n ymwneud ag ailblannu neu drawsleoli'r gwrychoedd a gollwyd).</p> <p>Mae'r gwaith monitro yn dangos bod y dangosyddion yn cael eu bodloni i raddau helaeth, ac felly bod bioamrywiaeth yn cael ei gwerthfawrogi, ei gwarchod a'i gwella. Er hynny, nodwyd camau gweithredu i gefnogi gweithredu'r polisi ymhellach a gwella perfformiad ar gyfer y cyfnod monitro nesaf. I gael rhagor o wybodaeth cyfeiriwch at Ddangosyddion Q04 a Q05 y CDLI uchod.</p>				
<p>Casgliadau</p>				

Nid yw'r amcan wedi cael ei fodloni. Mae camau gweithredu wedi cael eu nodi er mwyn ceisio perfformiad gwell yn y dyfodol.

Amcan Cynaliadwyedd:		5a	Deall, gwerthfawrogi, gwarchod, gwella a dathlu tirwedd, amgylchedd hanesyddol, amrywiaeth a hynodedd lleol, a threftadaeth hanesyddol a diwylliannol Ceredigion.	
Dangosydd	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Maint y datblygu (hectarau, unedau a chanran) a ganiatwyd ac a gwblhawyd o fewn Ardaloedd Tirwedd Arbennig.	Cyngor Sir Ceredigion.	Yn flynyddol.	Datblygu Preswyl a Ganiatwyd: Hectarau: 4.28 (24%) Unedau: 53 (19%) Datblygu Preswyl a Gwblhawyd: Hectarau: 1.14 (22%) Unedau: 22 (28%) Datblygu Amhreswyl a Ganiatwyd: Hectarau: 0.36 (22%)	+

			Unedau: 5 (24%) Datblygu Amhreswyl a Gwblhawyd: Hectarau: 0.75 (77%) Unedau: 4 (44%)	
Maint y datblygu (hectarau, unedau a chanran) a ganiatawyd ac a gwblhawyd mewn Ardal Agwedd Weledol a Synhwyrdd LANDMAP gydag arfarniad cyffredinol o werth Eithriadol a Swm y datblygiad (ha, unedau a chyfran) a ganiateir ac a gwblhawyd o fewn Ardal Agwedd LANDMAP Gweledol a Synhwyrdd gyda gwerthusiad cyffredinol o'r Eithriadol.	Cyngor Sir Ceredigion.	Yn fflynyddol.	Ardal Agwedd LANDMAP gyda Gwerthusiad Cyffredinol yn Eithriadol Datblygu Preswyl a Ganiatawyd: Hectarau: 11.89 (67%) Unedau: 206 (74%) Datblygu Preswyl a Gwblhawyd: Hectarau: 3.62 (70%) Unedau: 62 (78%)	+

			<p>Datblygu Amhreswyl a Ganiatawyd:</p> <p>Hectarau: 0.14 (8%)</p> <p>Unedau: 2 (88.5%)</p> <p>Datblygu Amhreswyl a Gwblhawyd:</p> <p>Hectarau: 0.81 (82%)</p> <p>Unedau: 7 (78%)</p> <p>Ardal Agwedd LANDMAP Gweledol a Synhwyaidd gyda gwerthusiad cyffredinol o'r Eithriadol</p> <p>Datblygu Preswyl a Ganiatawyd:</p> <p>Hectarau: 0.69 (4%)</p> <p>Unedau: 8 (3%)</p>	
--	--	--	--	--

			<p>Datblygu Preswyl a Gwblhawyd:</p> <p>Hectarau: 0.08 (2%)</p> <p>Unedau: 1 (1%)</p> <p>Datblygu Amhreswyl a Ganiatawyd:</p> <p>Hectarau: 1.21 (74%)</p> <p>Unedau: 16 (76%)</p> <p>Datblygu Amhreswyl a Gwblhawyd:</p> <p>Hectarau: 0.81 (82%)</p> <p>Unedau: 7 (78%)</p>	
<p>Dadansoddiad</p> <p>Mae gan Geredigion dirwedd gyfoethog ac amrywiol a werthfawrogir yn fawr. O ganlyniad, barnwyd bod oddeutu 45% o'i harwynebedd tir o ansawdd digon uchel i gael ei ddynodi fel rhan o Ardaloedd Tirwedd Arbennig, ac y mae tair ar ddeg o'r rhain.</p>				

Hefyd dynodwyd bod oddeutu 15% o'i thir o werth Eithriadol yn ôl Pennod Fethodolegol Weledol a Synhwyraidd LANDMAP, sy'n golygu ei fod o bwysigrwydd cenedlaethol neu hyd yn oed rhyngwladol.

Dylid nodi nad yw'r dynodiadau Ardal Tirwedd Arbennig na'r arfarniadau eithriadol LANDMAP yn atal datblygu, o angenrheidrwydd, ac na fydd llawer o fathau o ddatblygu'n cael unrhyw effaith ar y dirwedd. Dylid hefyd nodi, lle ceir datblygu mewn Ardaloedd Tirwedd Arbennig a thirweddau eraill a werthfawrogir yn fawr, gellir defnyddio polisiau'r CDLI i fynnu ansawdd gwell o ran dylunio a thirweddu.

Mae dadansoddiad o'r ceisiadau cynllunio llawn a materion a gadwyd yn ôl perthnasol yn dangos yn nhermau hectarau bod 45% o'r caniatadau preswyl o fewn Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn Ardal 7: Dyffryn Teifi. Mae hyn i'w ddisgwyl gan fod y dyffryn hwn nid yn unig yn un o Ardaloedd Tirwedd Arbennig mwyaf Ceredigion, ond dyma'r ardal fwyaf poblog hefyd, gan ei bod yn cynnwys tair Canolfan Gwasanaethau (Llanbedr Pont Steffan, Adpar, Tregaron a Chenarth).

Casgliadau

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw bryderon am effeithiau'r CDLI ar dirweddau Ceredigion a werthfawrogir fwyaf.

Amcan Cynaliadwyedd:		6a Cynnal hunaniaeth ddiwylliannol benodol a sicrhau bod anghenion y ddemograffeg newidiol yn cael eu hadlewyrchu; a		
		6b Adeiladu cymunedau bywiog, diogel a chydlynol.		
Dangosydd	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Nifer y tai fforddiadwy (unedau a chanran) a ganiatawyd ac a gwblhawyd o dan bolisi cynllunio Cartrefi Fforddiadwy Cyngor Sir Ceredigion.	Cyngor Sir Ceredigion (AMRH10 ac AMRH11).	Yn flynyddol	Ers mabwysiadu'r CDLI, ymrwymwyd i'r tai fforddiadwy canlynol: Caniatawyd: 838(23%) Cwblhawyd: 521 (23%)	+
Nifer y 6 chyfleuster allweddol (siop fwyd, swyddfa bost, gorsaf betrol, tafarn, neuadd pentref, ysgol gynradd) mewn Canolfan Gwasanaethau.	Cyngor Sir Ceredigion (Dangosydd AMRE06).	Yn flynyddol	Gweler Atodiad 8 Gwybodaeth diweddaraf sydd ar gael AMB 2019	+

<p>Nifer yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) yn y 30% mwyaf amddifad.</p>	<p>Llywodraeth Cymru https://statswales.wales.gov.uk</p>	<p>Fel sydd ar gael</p>	<p>Yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) (2019), nodwyd bod 3 o'r 46 LSOAs (6.5%) o fewn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig 30%, sef Aberystwyth Penparcau 1 (W01000515), Aberteifi/Cardigan – Rhyd-y-Fuwch (W01000510) ac Aberteifi/Cardigan – Teifi (W01000511). 2 o'r 46 LSOAs (4.3%) o fewn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig 20%, sef Aberteifi/Cardigan – Rhyd-y-Fuwch (W01000510) ac</p>	<p style="text-align: center;">?</p>
--	---	-------------------------	--	--------------------------------------

			<p>Aberteifi/Cardigan – Teifi (W01000511).</p> <p>1 o'r 46 LSOAs (2.2%) o fewn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig 10%, sef Aberteifi/Cardigan – Teifi (W01000511).</p>	
Troseddau hysbysadwy a gofnodwyd gan yr heddlu yn ôl math.	<p>Y Swyddfa Ystadegau Gwladol</p> <p>https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/recordedcrime</p> <p>dataatcommunitysafetypartners</p> <p>hiplocalauthoritylevel</p> <p>https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/recordedcrime</p> <p>databycommunitysafetypartners</p> <p>hiparea</p>	Fel sydd ar gael	<p>Mae'r ystadegau ar gyfer troseddau hysbysadwy ar gyfer 12 mis cyn Mawrth 2019 fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Trais gydag anaf (Troseddau): 457 • Trais heb anaf (yn cynnwys Aflonyddu ac Ymosod) (Troseddau): 770 	?

		<ul style="list-style-type: none"> • Lladrad (Troseddau): 8 • Dwyn oddi ar y person (Troseddau): 8 • Difrod Troseddol a Llosgi Bwriadol (Troseddau): 479 • Byrgleriaeth o annedd (Troseddau): 138 • Byrgleriaeth heb fod o annedd (Troseddau): 48 • Troseddau Cerbyd (yn cynnwys Dwyn cerbydau a Dwyn o gerbydau) (Troseddau): 65 • Troseddau Cyffuriau (Troseddau): 318 	
--	--	---	--

			<ul style="list-style-type: none"> Troseddau Rhywiol (Troseddau): 150 	
<p>Dadansoddiad</p> <p>O ran tai fforddiadwy, mae'r ganran yn uwch na'r targed gofynnol o 20% ar gyfer ceisiadau a ganiatawyd ac a gwblhawyd. Gweler Dangosydd AMRH10 am ragor o fanylion.</p> <p>O ran gwasanaethau a chyfleusterau mewn Canolfannau Gwasanaethau, ni fu llawer o amrywiad yn nifer y gwasanaethau a chyfleusterau allweddol dros y blynyddoedd diwethaf, a gan mai ers mis Ebrill 2013 mae'r CDLI wedi bod yn sail ar gyfer gwneud penderfyniadau, mae'n rhy gynnar i ddweud a yw'r strategaeth hon yn cael effaith ar eu cadw neu eu gwella. Gweler Dangosydd AMRE06 am ragor o fanylion.</p> <p>O ran troseddau hysbysadwy a gofnodwyd gan yr heddlu yn ôl math, ni chafwyd unrhyw newidiadau sylweddol yn y nifer neu'r math o droseddau hysbysadwy ers mabwysiadu'r cynllun.</p>				
<p>Casgliadau</p> <p>Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn awgrymu bod canran y tai fforddiadwy a ganiatawyd ac a gwblhawyd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gynnal hunaniaeth ddiwylliannol benodol y sir mewn ffordd sy'n ymateb i amrywiaeth o anghenion trwy alluogi pobl leol y mae angen tai fforddiadwy arnynt i gael tai yn y sectorau tai preifat a chymdeithasol.</p> <p>Ni fu llawer o amrywiad ers mabwysiadu'r cynllun yn nifer y gwasanaethau a chyfleusterau allweddol yng Nghanolfannau Gwasanaethau Gwledig, yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is amddifad, a throseddau hysbysadwy.</p>				

Amcan Cynaliadwyedd:		7a Hyrwyddo a darparu cyfleoedd a gwasanaethau i gynnal cymunedau iach.		
Dangosydd	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Canran yr anheddau o fewn pellter cerdded/beicio cytunedig (400m) i wasanaethau iechyd allweddol.	Cyngor Sir Ceredigion.	Yn flynyddol	Canran yr anheddau o fewn pellter cerdded/beicio cytunedig (400m) i wasanaethau iechyd allweddol: 10.5% (data 2019)	?
Canran yr anheddau newydd sydd o fewn 300m i'r man gwyrdd naturiol agosaf.	Cyngor Sir Ceredigion.	Fel sydd ar gael	Nid oedd modd monitro'r dangosydd hwn eleni oherwydd nid oedd yr wybodaeth ar gael. Er hynny, nodwyd bod monitro blaenorol wedi nodi perthynas gadarnhaol.	Amh

Maint y cyfleusterau mannau agored newydd (hectarau) a ddarperir.	Cyngor Sir Ceredigion (Dangosydd AMRQ01 ac AMRQ03).	Yn flynyddol	Dim colled o fannau agored yn y sir.	+
<p>Dadansoddiad</p> <p>Mae llawer o'r ceisiadau a ddaeth i law yn ystod y cyfnod monitro hwn yn ymwneud â safleoedd y rhoddwyd caniatâd amlinellol iddynt eisoes o dan y Cynllun Datblygu Unedol, ac oherwydd hynny ni fu modd ei gwneud yn ofynnol i'r datblygiadau ddarparu mannau agored yn unol â Pholisi LU24.</p> <p>Cyfran yr anheddau sydd o fewn cyrraedd i brif wasanaethau iechyd yw 10.5%. Mae hyn oherwydd natur wledig y sir a dosbarthiad hanesyddol y boblogaeth. Gan nad yw'r dangosydd hwn wedi'i nodi o'r blaen bydd yn gweithredu fel gwaelodlin ar gyfer monitro yn y dyfodol. Gobeithir y bydd y canlyniadau'n gwella wrth i fwy o ganiatadau gael eu rhoi yn unol â strategaeth y CDLI i sicrhau patrwm cynaliadwy o ddatblygu.</p> <p>Oherwydd natur wledig Ceredigion, mae pob annedd o fewn 300 metr i fan gwyrdd naturiol yn ôl data Cyfoeth Naturiol Cymru ar 'fannau gwyrdd naturiol sydd o bosib yn hygyrch yn 2014'. Mae angen mireinio gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru am fannau gwyrdd naturiol er mwyn darparu ateb mwy manwl yng nghyfnodau'r cynllun yn y dyfodol.</p>				
<p>Casgliadau</p> <p>Mae'r CDLI yn parhau i hyrwyddo a darparu cyfleoedd a gwasanaethau i gynnal cymunedau iach.</p>				

Amcanion Cynaliadwyedd:		8a Hyrwyddo, datblygu a gwella cyfleoedd ar gyfer twristiaeth gynaliadwy ac amgylcheddol gyfeillgar, cyfleusterau hamdden a difyrrwch yng Ngheredigion.		
Dangosydd	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Diwrnodau twristiaeth a nifer y twristiaid yn ôl i. Llety â Gwasanaeth, ii. Llety Heb Wasanaeth, iii. Aros gyda ffrindiau neu berthnasoedd ac iv. Ymwelwyr Dydd	Cyngor Sir Ceredigion http://www.discoverceredigion.co.uk/English/footer/tradepartner/site/tourismreportstatistics/Pages/default.aspx	Fel sydd ar gael	Mae'r wybodaeth isod ar gyfer y flwyddyn galendr 2018 a hon yw'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael. Cyfanswm o 1,214,000 o ymwelwyr sy'n aros gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • 188,000 o bobl yn aros mewn llety â gwasanaeth 	0

		<ul style="list-style-type: none"> • 914,000 o bobl yn aros mewn llety heb wasanaeth • 113,000 o bobl yn aros gyda ffrindiau neu berthnasau • 1.52 miliwn o ymwelwyr dydd. 	
<p>Dadansoddiad</p> <p>Ni chafwyd unrhyw newidiadau mawr yng nghyfanswm nifer yr ymwelwyr neu'r mathau o ymwelwyr yn y blynyddoedd diwethaf, ac ychydig o gynnydd yn nifer y twristiaid a'r effaith economaidd. Mae nifer yr ymwelwyr sy'n aros a ddim yn aros wedi newid ychydig dros y 10 mlynedd ddiwethaf, ond mae'r ffigurau a nodir yma wedi bod yn gyson ar y cyfan. Fodd bynnag, mae lefelau'r budd economaidd a ddaw trwy ymweliadau gan dwristiaid yn parhau i godi'n raddol.</p>			
<p>Casgliadau</p> <p>Er y bu gostyngiad amlwg yn nifer yr ymwelwyr sy'n aros, nid yw hyn i'w weld yn unigryw i Geredigion. Ystyrir bod y gyfres o bolisiau twristiaeth yn y CDLI yn cefnogi'r amcan, ac mae'r CDLI yn parhau i hyrwyddo, datblygu a gwella cyfleoedd ar gyfer twristiaeth gynaliadwy ac amgylchedd gyfeillgar, cyfleusterau hamdden a difyrrwch yng Ngheredigion.</p>			

Amcanion Cynaliadwyedd: 9a Cynyddu cyfleoedd i adeiladu sylfaen addysg a sgiliau Ceredigion.				
Dangosydd	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Nifer a % y bobl 16-64 oed sydd â chymwysterau NVQ.	https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/1946157390/report.aspx?town=ceredigion%20-%20tabquals#tabquals	Yn flynyddol	<ul style="list-style-type: none"> NVQ4 ac uwch: 16,800 (35.4%) NVQ3 ac uwch: 29,700 (62.4%) NVQ2 ac uwch: 37,600 (78.9%) NVQ1 ac uwch: 42,000 (88.1%) Cymwysterau eraill: 2,100 (4.5%) Dim cymwysterau: 3,500 (7.4%) 	?

Canran y bobl 16-24 oed sydd o fewn trothwyau amser teithio 30, 60, 90 munud o 'Ddarparwyr Dysgu' drwy (i) cerdded (ii) trafndiaeth gyhoeddus a (iii) car.	Cyngor Sir Ceredigion.	2011-13 a 2021-23	Ni ddisgwylir iddo gael ei fonitro eleni.	Amh
<p>Dadansoddiad</p> <p>Mae strategaeth y CDLI yn parhau i hyrwyddo twf mewn lleoliadau cynaliadwy. Bydd newidiadau o ganlyniad i foderneiddio ysgolion yn cael eu hystyried yn yr Adolygiad o'r CDLI.</p> <p>Yng Ngheredigion mae'r nifer sy'n ennill cymwysterau NVQ wedi cynyddu. Mae cymwysterau eraill wedi gostwng ac mae dim cymwyster wedi cynyddu. Wrth gymharu Ceredigion â'r cyfartaleddau i Gymru, mae gan boblogaeth Ceredigion y lefelau uchaf o gymwysterau NVQ a lefelau is o gymwysterau eraill. Yn ogystal, dim ond 7.4% o boblogaeth Ceredigion sydd â dim cymwysterau o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 8.5%.</p>				
<p>Casgliadau</p> <p>Nid oes unrhyw bryderon ynghylch strategaeth a pholisi'r CDLI mewn perthynas â'r amcan hwn.</p>				

Amcanion Cynaliadwyedd: 10a Hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg.				
Dangosydd	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Nifer a chanran y bobl 3 oed a hŷn sy'n dweud y gallant siarad Cymraeg yn ôl blwyddyn Cyfrifiad.	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol http://www.ons.gov.uk/ons/index.html	2011-13 a 2021-23	31 Mawrth 2011: <ul style="list-style-type: none">• Pawb 3 oed a hŷn: 73,847• Pobl a all siarad Cymraeg: 34,964• Pobl na allant siarad Cymraeg: 38,883• Canran y bobl sy'n dweud y gallant siarad Cymraeg: 47%	Amh
Canran y bobl 3 oed a hŷn sy'n dweud y gallant siarad Cymraeg yn	Llywodraeth Cymru https://statswales.wales.gov.uk/Catalogue/Welsh-	Yn flynyddol	31 Mawrth 2019, pobl 3 oed a hŷn:	?

<p>ôl amcangyfrifon Arolwg Poblogaeth Blynyddol.</p>	<p>Language/annualpopulationsurveyestimatesofpersonsaged3andoverwhosaytheycanspeakwelsh-by-localauthority-measure https://statswales.gov.wales/Catalogue/Welsh-Language/Annual-Population-Survey-Welsh-Language/annualpopulationsurveyestimatesofpersonsaged3andoverwhosaytheycanspeakwelsh-by-localauthority-measure</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Pawb 3 oed a hŷn: 74,100 • Pobl a all siarad Cymraeg: 42,400 • Pobl na allant siarad Cymraeg: 31,600 • Canran y bobl sy'n dweud y gallant siarad Cymraeg: 57.3% 	
<p>Nifer a chanran disgyblion Ceredigion sy'n siarad Cymraeg gartref.</p>	<p>Cyngor Sir Ceredigion Cyfrifiad Ysgolion Neu https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-</p>	<p>Yn flynyddol</p>	<p>Mae'r data ar gyfer blwyddyn academaidd 2018-2019:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn siarad Cymraeg gartref: 2898 (35%) 	<p>?</p>

	Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Welsh-Language/speakingwelshhomepupils5andover-by-localauthorityregion-category		<ul style="list-style-type: none"> • Ddim yn siarad Cymraeg gartref: 3426 (41%) • Amherthnasol (ni all siarad Cymraeg): 2099 (25%) • Dim gwybodaeth wedi'i darparu. 0 	
Nifer a chanran y disgyblion sy'n cael Asesiad Athro drwy gyfrwng y Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3.	Llywodraeth Cymru https://statswales.gov.wales (Dangosyddion Strategol Cenedlaethol)	Yn flynyddol	Data ar gyfer y flwyddyn 2019/2020: Aseswyd 477 o ddisgyblion yn Gymraeg o gyfanswm o 686 o ddisgyblion (69.5%)	?
<p>Dadansoddiad</p> <p>Mae amcangyfrifon yr Arolwg Poblogaeth Blynnyddol a'r Cyfrifiad Ysgolion yn dangos bod nifer y siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion wedi gostwng ychydig. Yn Mawrth 2019 roedd 57.3% o bobl yng Ngheredigion yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn yn cymharu i 59.6 (2019), 58.6% (2017), 53% (2016), a 52.3% (2015 a 2014) a 54.3% (2013).</p>				

Mae data addysg o Gyfrifiad Ysgol Blynyddol Ceredigion a Dangosydd Strategol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn dangos na chafwyd unrhyw newid arwyddocaol yn nifer y plant sy'n siarad ac nad ydynt yn siarad Cymraeg yn y cartref neu sy'n cael asesiadau ysgol yn Gymraeg yn ystod y cyfnod monitro.

Mae polisi DM01 y CDLI yn ei gwneud hi'n ofynnol i effaith datblygu ar y Gymraeg a'r Gymuned gael ei hasesu mewn rhai achosion. Er mwyn cefnogi gweithredu'r polisi hwn mabwysiadwyd Canllawiau Cynllunio Atodol ar 23 Mehefin 2015. Yn dilyn mabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol mae'r Cyngor hefyd yn adrodd ar berfformiad gofynion Polisi DM01 ar gyfer Asesiad Effaith Ieithyddol yn Adroddiad Monitro'r Gymraeg blynyddol. Fodd bynnag, nid yw'r canllawiau hyn yn adlewyrchu'r TAN 20 diweddaraf o reidrwydd, a bydd rhaid eu newid yn unol â'r polisi newydd yn ystod y broses adolygu.

Casgliadau

Yn wyneb y cyfnod y bu'r CDLI yn weithredol, nid oes modd gwneud unrhyw gasgliadau ynghylch ei effaith ar y Gymraeg ar hyn o bryd, a chaiff ei effaith ar y Gymraeg ei ystyried orau yn dilyn y cyfrifiad nesaf. Mae cysylltu newid ieithyddol a chynllunio gofodol yn anodd iawn. Mae'r dystiolaeth uchod yn awgrymu na fu newid mawr yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion yn y blynyddoedd diwethaf.

Amcanion Cynaliadwyedd:		11a Lleihau'r angen i deithio a hyrwyddo dulliau cynaliadwy o deithio; a		
		11b Gwella hygyrchedd at wasanaethau i gymunedau, a chysylltedd er budd yr economi.		
Dangosydd	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Cyfran y cartrefi o fewn terfynau amser teithio 30, 60 a 90 munud o amwynderau, gan gynnwys archfarchnad, swyddfa bost a meddygfa a/neu ysbyty; trwy gerdded neu drwy ddefnyddio car neu drafnidiaeth gyhoeddus.	Cyngor Sir Ceredigion	Yn flynyddol	Archfarchnad <ul style="list-style-type: none"> • Car: <ul style="list-style-type: none"> • 30 munud: 99.94% • 60 munud: 0.05% • 90 munud: 0.01% • Mwy na 90 munud: 0% • Trafnidiaeth Gyhoeddus: <ul style="list-style-type: none"> • 30 munud: 67.51% – Data 2017 	?

		<ul style="list-style-type: none"> • 60 munud: 14.19% – Data 2017 • 90 munud: 1.64% – Data 2017 • Mwy na 90 munud: 17.08% – Data 2017 • Cerdded: <ul style="list-style-type: none"> • 30 munud: 36.73% • 60 munud: 8.62% • 90 munud: 11.99% • Mwy na 90 munud: 42.65% Swyddfa Bost <ul style="list-style-type: none"> • Car: <ul style="list-style-type: none"> • 30 munud: 99.97% 	
--	--	---	--

		<ul style="list-style-type: none"> • 60 munud: 0% • 90 munud: 0% • Mwy na 90 munud: 0.01% • Trafnidiaeth Gyhoeddus: <ul style="list-style-type: none"> • 30 munud: 77.67% – Data 2017 • 60 munud: 6.42% – Data 2017 • 90 munud: 0.43% – Data 2017 • Mwy na 90 munud: 15.49% – Data 2017 • Cerdded: <ul style="list-style-type: none"> • 30 munud: 56.60% 	
--	--	--	--

		<ul style="list-style-type: none"> • 60 munud: 18.35% • 90 munud: 14.05% • Mwy na 90 munud: 10.98% <p>Meddygfa a/neu ysbyty</p> <ul style="list-style-type: none"> • Car: <ul style="list-style-type: none"> • 30 munud: 99.97% • 60 munud: 0% • 90 munud: 0% • Mwy na 90 munud: 0.03% • Trafnidiaeth Gyhoeddus: <ul style="list-style-type: none"> • 30 munud: 73.16% – Data 2017 	
--	--	--	--

			<ul style="list-style-type: none"> • 60 munud: 9.79% – Data 2017 • 90 munud: 0.73% – Data 2017 • Mwy na 90 munud: 16.32% – Data 2017 • Cerdded: <ul style="list-style-type: none"> • 30 munud: 44.20% • 60 munud: 12.69% • 90 munud: 15.78% • Mwy na 90 munud: 27.31% 	
Maint y traffig ar y ffyrdd.	http://gov.wales/docs/statistics/2016/161130-road-traffic-2015-en.pdf	Yn flynyddol	Cofnodwyd maint y traffig ddiwethaf yn 2019 fel a ganlyn:	?

	https://statswales.gov.wales/Catalogue/Transport/Roads/Road-Traffic/volumeofroadtraffic-by-localauthority-year?_ga=2.216523606.1122744816.1568042032-246819962.1561535796		0.86 biliwn o gilometrau cerbydau.	
Prif ddull o deithio i'r gwaith.	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol http://www.ons.gov.uk/ons/index.html	2011-13 a 2021-23	31 Mawrth 2011: <ul style="list-style-type: none"> • Pob categori: Dull teithio i'r gwaith (amgen): 57,405 • Gweithio'n bennaf gartref neu o'r cartref: 6,780 (11.8%) • Trên tanddaearol, metro, tram, neu reilffordd ysgafn: 32 (0.1%) 	Amh

			<ul style="list-style-type: none"> • Trên: 125 (0.2%) • Bws, bws mini neu goets: 910 (1.6%) • Tacsî: 98 (0.2%) • Beic modur, moped neu sgwter: 148 (0.3%) • Gyrru car neu fan: 17,917 (31.2%) • Teithiwr mewn car neu fan: 1,652 (2.9%) • Beic: 361 (0.6%) • Cerdded: 4,266 (7.4%) • Dull arall o deithio i'r gwaith: 157 (0.3%) • Ddim mewn cyflogaeth: 24,959 (43.5%). 	
--	--	--	--	--

Nifer y ceir neu faniau i bob aelwyd.	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol http://www.ons.gov.uk/ons/index.html	2011-13 a 2021-23	31 Mawrth 2011: <ul style="list-style-type: none"> • Pob aelwyd: 31,562 • Aelwydydd heb unrhyw gar neu fan: 5,803 (18.4%) • Aelwydydd ag 1 car neu fan: 13,627 (43.2%) • Aelwydydd â 2 gar neu fan: 8,677 (27.5%) • Aelwydydd â 3 gar neu fan: 2,449 (7.8%) • Aelwydydd â 4 car neu fan neu fwy: 1,006 (3.2%) • Cyfanswm yr holl geir neu faniau: 42,905. 	Amh
---------------------------------------	--	----------------------	---	-----

Dadansoddiad

Nid oes modd canfod effaith datblygiadau preswyl newydd fel cyfran o'r stoc tai presennol ar draws y sir o flwyddyn i flwyddyn, ac yn achos peth o'r data nid yw'n hawdd dirnad y berthynas rhwng amserau teithio a datblygiadau preswyl. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd dadansoddi'r data dros gyfnod hwy yn cynnig rhyw arwydd ynghylch effeithiau'r CDLI.

O ran amserau teithio i gyfleusterau allweddol, mae'r canlyniadau'n parhau heb eu newid ryw lawer ers mabwysiadu'r cynllun. Mae'r ganran dros 90 munud o gyfleusterau allweddol ar drafnidiaeth gyhoeddus wedi cynyddu oherwydd newidiadau yn y rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus ac amllder gwasanaethau, fodd bynnag, mae'r mwyafrif yn parhau o fewn amser teithio 30 munud.

Casgliadau

Ni all yr Adroddiad Monitro Blynyddol ddod i unrhyw gasgliadau ynghylch effaith y CDLI ar hyn o bryd. Mae'n debygol y bydd y sefyllfa o 'ddim newid' o flwyddyn i flwyddyn yn parhau ac ni fydd modd nodi effeithiau sylweddol hyd nes y bydd mwy o ddatblygiad wedi digwydd. Dylai unrhyw newidiadau o bwys fod yn destun dadansoddiad o'r achosion posibl y tu hwnt i effaith y CDLI.

Amcanion Cynaliadwyedd:		12a Hybu economi fywiog ac amrywiol.		
Dangosydd	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Nifer a chanran y bobl economaidd weithgar mewn cyflogaeth.	NOMIS – Ystadegau Swyddogol y Farchnad Lafur https://www.nomisweb.co.uk/reports/imp/la/1946157390/printable.aspx	Yn flynyddol	Ebrill 2019 – Mawrth 2020: <ul style="list-style-type: none"> Economaidd Weithgar: 36,700 (7.5%) Mewn cyflogaeth: 35,800 (71.1%) Cyflogeion: 11,900 (48.5%) Hunangyflogedig: 6,100 (22.8%) Di-waith (ar sail model): 1,00 (2.6%). 	+
Tâl wythnosol gros cymedrig ar gyfer preswylwyr yng Ngheredigion.	NOMIS – Ystadegau Swyddogol y Farchnad Lafur	Yn flynyddol	2019:	?

	https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/1946157390/printable.aspx		<ul style="list-style-type: none"> • Gweithwyr amser llawn: £504.4 • Gweithwyr amser llawn gwryw: £513.0 • Gweithwyr amser llawn benyw: £456.9 	
Nifer y cyflogeion fesul sector economaidd bras.	<p>StatsCymru:</p> <p>https://statswales.wales.gov.uk/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Employment/Jobs/Whole-Workforce/WorkplaceEmployment-by-WelshLocalAreas-Industry</p>	Yn flynyddol	<p>Cyflogaeth yn y gweithle fesul diwydiant 2018 fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota: 4,300 • Cynhyrchu: 2,000 • Adeiladu: 2,500 • Cyfanwerthu, manwerthu, cludiant, gwestai a bwyd: 9,100 	+

		<ul style="list-style-type: none"> • Gwybodaeth a chyfathrebu: 500 • Gweithgareddau ariannol ac yswiriant: 300 • Gweithgareddau eiddo tiriog: 700 • Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol; gweithgareddau gweinyddol a gwasanaethau cymorth: 3,300 • Gweinyddiaeth gyhoeddus, amddiffyn, addysg ac iechyd: 11,300 	
--	--	--	--

Canlyniadau Dangosyddion AAS/AG

			<ul style="list-style-type: none"> Gweithgareddau gwasanaeth eraill: 1,900 Pob diwydiant: 35,900 	
Maint y datblygu economaidd a ganiateir ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o ddyraniadau'r CDLI (hectarau ac unedau).	Cyngor Sir Ceredigion (Dangosydd AMRE03).	Yn flynyddol	Gweler canlyniadau dangosydd AMRE03	+
Maint y datblygu economaidd a gwblheir ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o ddyraniadau'r CDLI (hectarau ac unedau).	Cyngor Sir Ceredigion (Dangosydd AMRE03).	Yn flynyddol	Gweler canlyniadau dangosydd AMRE03	+
Canran yr adeiladau sy'n wag yng nghanol trefi Aberaeron, Aberystwyth, Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul a Thregaron.	Cyngor Sir Ceredigion.	Yn flynyddol	Cynhaliwyd yr arolwg ym mis Chwefror 2019: <ul style="list-style-type: none"> Aberaeron: 5.3% Aberteifi: 8.3% Aberystwyth: 10.4% 	0

			<ul style="list-style-type: none"> • Llanbedr Pont Steffan: 10.5% • Llandysul: 16.7% • Tregaron: 10%. 	
Canran y defnyddiau manwerthu ar brif ffryntiadau manwerthu	Cyngor Sir Ceredigion (Dangosydd AMRE07).	Yn flynyddol	Gweler canlyniadau Dangosydd AMRE07	+
Canran y defnyddiau manwerthu ar ffryntiadau manwerthu eilaidd.	Cyngor Sir Ceredigion (Dangosydd AMRE07).	Yn flynyddol	Gweler canlyniadau Dangosydd AMRE07	+
Nifer yr ymwelwyr yn Aberystwyth.	Cyngor Sir Ceredigion.	Yn flynyddol	<p>Nifer yr ymwelwyr a gofnodwyd ar ddydd Gwener 22 Tachwedd 2019, rhwng 10am a 5pm:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y Stryd Fawr: 2316 • Sgwâr Owain Glyndwr: 2102 	?

		<ul style="list-style-type: none"> • Ffordd y Môr (Gogledd): 1691 • Ffordd y Môr (De): 1460 • Y Ffynnon Haearn: 1270 • Tŵr y Cloc – Stryd y Bont: 459 • Tŵr y Cloc – Y Stryd Fawr Uchaf: 489 • Promenâd (dau lleoliad): 806 • Y Porth Bach: 398 • Heol y Wig: 683 • Cyfanswm: 11674 	
<p>Dadansoddiad</p> <p>Er i'r dirwasgiad economaidd achosi i'r nifer mewn cyflogaeth ostwng o 69.6% yn 2010 i 61.3% yn 2011/2012, bu cynnydd graddol ers hynny yn nifer y bobl mewn cyflogaeth. Mae'r cyfnod monitro hwn yn dangos cynnydd yng nghanran y bobl sy'n economaidd</p>			

weithgar mewn cyflogaeth o 70.7% (2018) i 77.5% (2019). Efallai fod canran y bobl economaidd weithgar mewn cyflogaeth yn ymddangos yn isel gan ei bod yn is na chyfartaledd Cymru (76.9%) a'r Deyrnas Unedig (79.1%), ond mae gan Geredigion boblogaeth gymharol uchel o fyfyrwyr sy'n cyfrannu at ganran sylweddol o'r unigolion hynny nad ydynt mewn cyflogaeth.

Nid yw'r tâl wythnosol gros ar gyfer gweithwyr amser llawn wedi amrywio'n fawr ers i'r CDLI gael ei fabwysiadu. At hynny, gan fod ffigurau Ceredigion yn deillio o ddata arolwg ar gyfer ardal fach, gall y newid flwyddyn ar ôl blwyddyn fod yn fwy o ganlyniad i amrywiadau'r sampl yn hytrach na thystiolaeth o newid go iawn mewn incwm. Er gwaethaf hynny, mae cyflogau yng Ngheredigion yn parhau i fod yn is na'r cyfartaledd i Gymru a'r DU, ac mae twf tybiedig hefyd yn is na chyfradd flynyddol gyfartalog chwyddiant ar gyfer y cyfnod hwn.

O ran datblygu'r safleoedd cyflogaeth a neilltuwyd yn y CDLI, erbyn hyn mae 50% o'u harwynebedd wedi'i ymrwymo ar gyfer datblygu, ac mae 50% o'r unedau wedi cael eu cwblhau. Cafodd y rhan fwyaf o'r unedau y cofnodwyd eu bod wedi'u hadeiladu eu cwblhau cyn mabwysiadu'r CDLI gan fod llawer o'r safleoedd cyflogaeth a neilltuwyd yn y CDLI wedi cael eu nodi er mwyn caniatáu ar gyfer ailddatblygu a/neu resymoli eu defnyddiau presennol mewn modd cydgysylltiedig. Mae hon yn sefyllfa foddhaol ar yr adeg hon yng nghyfnod y cynllun.

Mae cyfraddau siopau gwag yn amrywio'n fawr rhwng canol trefi. 10.2% yw cyfradd gyfartalog siopau gwag yng nghanol trefi Ceredigion. Mae'r ffigur hwn yn cymharu i 9.7% (2019) yn 2019 roedd y cyfradd yn Nhregaron yn 3.3% (oherwydd y nifer fach o unedau fanwerthu yn Nhregaron mae unrhyw newid yn effeithio'n fawr ar y ganran). Mae hyn yn debyg i'r cyfartaledd siopau gwag y Deyrnas Unedig a oedd, yn ôl y Local Data Company, yn 12.2% yn Mawrth 2020 ac 15.9% ar gyfartaledd yng Nghymru. Felly, ac eithrio Llandysul (16.9%) mae canol trefi eraill Ceredigion yn perfformio'n well na'r cyfartaledd cenedlaethol Cymreig ac, yn

gyffredinol mae'r sefyllfa yn gadarnhaol, yn enwedig gan fod gan Aberystwyth, sef canolfan siopa fwyaf Ceredigion o bell ffordd, gyfradd siopau gwag o 10.4% yn unig.

Mae prif ffryntiadau manwerthu a ffynonellau manwerthu eilaidd Ceredigion, sy'n bodoli yn Aberystwyth ac Aberteifi yn unig, hefyd yn rhoi darlun amrywiol. Yn Aberystwyth mae canran defnyddiau manwerthu yn y prif ffryntiadau yn amrywio o 88.9% i 42.9%, ac o 76.9% i 26.7% yn y ffryntiadau eilaidd. Yn Aberteifi, mae canran defnyddiau manwerthu yn y prif ffryntiadau yn amrywio rhwng 72% a 76% yn ei dau ardal prif ffryntiadau manwerthu, ond mae ei ffryntiadau eilaidd yn amrywio rhwng 90.9% a 23.1%.

Dylid nodi hefyd bod y dangosydd yn monitro perfformiad defnyddiau A1 yn unig. Mae Polisi LU21 yn diffinio manwerthu fel dosbarth A ac nid A1 yn benodol, ac mae'r polisi yn cael ei gymhwyso felly. Os ydych yn ystyried defnyddiau dosbarth A (ac nid A1) byddai prif ffryntiadau a ffryntiadau eilradd yn Aberystwyth ac Aberteifi o fewn y gofyniad o 75% a 50%.

Wrth ystyried defnyddiau dosbarth A (gan gynnwys dosbarthiadau defnydd A1, A2 ac A3), mae'r prif ffryntiadau yn Aberystwyth yn amrywio o 87.5 – 100% (95.4% wedi'i gyfuno) ac yn Aberteifi 96 – 100% (98% wedi'i gyfuno), a'r ffryntiadau eilradd yn Aberystwyth yn amrywio o 84.6 – 100% (92% wedi'i gyfuno) ac yn Aberteifi yn amrywio o 71.4 – 100% (96% wedi'i gyfuno). Mae'r darlun hwn yn dangos bod lefel pob ffryntiad yn uwch na'r targedau polisi gofynnol.

Mae arolygon ymwelwyr wedi cael eu cynnal yn Aberystwyth bob blwyddyn ers 2012. Cyfanswm nifer y siopwyr a gofnodwyd yn 2019 oedd 11674 sydd yn uwch na 2018 (7681), er yn 2018 ni gafodd sawl lleoliad eu cyfri. Ond, mae'n gymharol â ffigurau 2017 (12351), 2016 (10144) a 2015 (9886).

Casgliadau

Mae yna arwyddion bod darlun cymysg o ran twf yn yr economi a'r farchnad swyddi yng Ngheredigion. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i ddweud ai tuedd hirdymor yw hon ac a oes cysylltiad achosol rhyngddo a gweithredu'r CDLI. Er gwaethaf yr ansicrwydd hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y CDLI yn cael effaith negyddol ar yr economi leol ac felly, yng nghyd-destun yr AAS/AG, nid yw effaith gyffredinol y CDLI yn creu unrhyw bryderon ar hyn o bryd.

5. Casgliadau ac Argymhellion.

5.1 Roedd casgliadau'r trydydd Adroddiad Monitro Blynyddol yn 2016 wedi ysgogi adolygiad o'r cynllun. Mae Adroddiad Adolygu'r CDLI wedi cael ei baratoi ac mae ymgynghorwyd arno. Mae'r Adroddiad Adolygu yn amlinellu hyd a lled y newidiadau sy'n ofynnol i'w gwneud i'r CDLI a nodwyd yn niweddariadau'r Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol i'r sylfaen dystiolaeth a'r arolygon parhaus. Mae Cytundeb Cyflenwi wedi cael ei baratoi, ei gyflwyno a'i gymeradwyo gan Weinidogion Cymru. Mae'r ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir a'r ddau alwad am safleoedd ymgeisiol wedi cael eu cwblhau hefyd.

5.2 O ran newidiadau i'r cyd-destun, mae deddfwriaeth, polisi ac amodau allanol newydd wedi cael eu cyflwyno yn ystod y cyfnod monitro hwn, maent yn ymwneud yn bennaf â chanllawiau technegol ynghylch Nodyn Cyngor Technegol 2 a dogfennau ategol ar ddatblygiadau Un Blaned. Defnyddiwyd y canllawiau hyn wrth gynllunio gwneud penderfyniadau ac wrth baratoi'r Adroddiad Monitro Blynyddol.

O ran Dangosyddion yr Adroddiad Monitro Blynyddol, mae canlyniadau eleni yn dangos bod y cynllun yn perfformio'n llwyddiannus ar draws amrywiaeth o feysydd. O'r 32 o Ddangosyddion yr Adroddiad Monitro Blynyddol, mae 23 (71%) yn cyflawni'r targedau a nodwyd, neu os nad yw targedau yn cael eu cyflawni nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithredu'r polisiau. Ni ddisgwylir i 9.5% pellach o ddangosyddion gael eu monitro eleni neu ni ellir dod i gasgliad yn eu cylch ar hyn o bryd. Dim ond 9 (28%) gafodd eu nodi fel rhai o bryder, ac mae perfformiad y dangosyddion tai wedi'i grynhoi yn y tabl canlynol.

Dangosydd	Polisiau	Perfformiad	Sylwadau
AMRH02 – Y Strategaeth Anheddu ledled y Sir	S01, S02, S03, S04.	-	Mae'r symudiad yn llai na cadarnhaol tuag at y targedau a nodwyd ers mabwysiadu'r cynllun o'i gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf, er bod y gymhareb yn fras cyfateb â'r targed a nodwyd.
		-	Nid yw'r targed wedi cael ei gyflawni ar gyfer yr unedau a gwblhawyd sydd, o'i fesur ers mabwysiadu'r cynllun, yn 45:25:31. Dylai'r diwygiad o'r CDLI ystyried y Strategaeth Anheddu a pharhau i nodi ffyrdd o ddarparu tai mewn lleoliadau cynaliadwy.
AMRH03 – Grwpiau Aneddiadau'r Strategaeth Anheddu	S01, S02, S03, S04.	-	Mae'r canlyniadau yn dangos darlun amrywiol gyda rhai grwpiau aneddiadau unigol yn symud tuag at y cydbwysedd gofynnol ac eraill yn symud i ffwrdd o'r cydbwysedd gofynnol a nodwyd yn Atodiad 2 o'r CDLI. Argymhellir y dylai'r diwygiad o'r CDLI ystyried y Strategaeth Anheddu yn gyffredinol a phenderfyniadau cais cynllunio wedi'u dirprwyo a heb eu dirprwyo yn ôl lleoliad (ac yn benodol ar ôl cyfnod mabwysiadu'r

Dangosydd	Polisiau	Perfformiad	Sylwadau
			cynllun), a dosbarthiad gofodol yr angen am dwf a chyflenwi er mwyn deall yn well yr amrywiadau gofodol yn y cydbwysedd ar draws y sir.
AMRH04 – Strategaeth Anheddu – Datblygu mewn 'Aneddiadau Cyswllt'	S01, S04		Mae 46% o Aneddiadau Cyswllt wedi cyrraedd neu'n uwch na'u terfyn twf o 12%. Nodir ar adeg mabwysiadu'r cynllun yn 2013 bod 40% o Aneddiadau Cyswllt eisoes wedi cyrraedd neu'n uwch na'u terfyn twf o ganlyniad i gymeradwyaethau cynllunio wedi'u hetifeddu a wnaed o dan drefn gynllunio flaenorol. Ar gyfer pob Anheddiad Cyswllt sydd wedi cyrraedd neu'n uwch na'i dwf o 12% ni ddylid caniatáu unrhyw ddatblygu pellach oni bai bod hyn wedi'i gyfiawnhau o dan Bolisi S04. Dylai'r diwygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol ystyried pam bod newid negyddol i ffwrdd o derfynau capasiti ar draws y sir.
AMRH05 – Strategaeth Anheddu – Natur y Datblygu yn y 'Lleoliadau Eraill'	S01, S04		Roedd y 21 o unedau mewn 'lleoliadau eraill' wedi eu cymeradwyo yn ystod y cyfnod monitro yn unol â'r CDLI a Pholisi Cenedlaethol. Cymeradwywyd 11 o unedau eraill y tu allan i'r hyn a ganiateir gan strategaeth y CDLI, TAN 6 a Pholisi Cynllunio Cymru 9.2.22. Fodd bynnag, roedd un yn annedd rheolwr a bydd un yn darparu swm

Dangosydd	Polisiau	Perfformiad	Sylwadau
			gohiriedig ar gyfer tai fforddiadwy a'r 9 oedd yn weddill yn addasiadau/adferiadau.
AMRH06 – Tai a gwblhawyd yn flynyddol yn erbyn cyfradd adeiladu flynyddol a ragwelir	S01, S02, S03, S04, LU05		Fodd bynnag, ni chyflawnwyd y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog, mae'r amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2018 yn adlewyrchu gwrthdroad yn y duedd ddemograffig o'i chymharu â thaflybrau a ragwelwyd yr oedd y CDLI yn dibynnu arnynt. Yn syml iawn, nid yw'r twf a ragwelwyd gan ragolygon 2008 wedi digwydd ar y gyfradd a ragwelwyd ac roedd rhagolwg diweddarach (2011) â llythyr LIC at Benaethiaid Cynllunio i drin y data is hwn yn ofalus.
1 Cyfanswm/Total	501	60	24	40	0	64	-4
2 Ferwig	56	7	4	14	0	18	-11

Anheddiad Cyswllt Linked Settlement	Stoc tai Ebrill 07 Housing stock April 07	12% o stoc tai 2007 12% of 2007 housing stock	Caniatadau sy'n sefyll ar 30/04/2020 Outstanding Consents as of 30/04/2020	Unedau a gwblhawyd fel yn Ebrill 2020 Completions as of April 2020	Colledion o Stoc Tai 2007 o fis Ebrill 2020 Losses from 2007 Housing Stock as of April 2020	Ymrwymadau Commitments	Unedau sydd ar ôl Remaining Units
2 Gwbert	74	9	5	8	-1	12	-3
2 Llangoedmor	48	6	2	2	0	4	2
2 Llechryd	296	36	16	33	-1	48	-12
2 Penparc	226	27	14	9	0	23	4
2 Cyfanswm/Total	700	84	41	66	-2	105	-21
3 Blaenplwyf	78	9	0	6	0	6	3
3 Capel Bangor	155	19	2	6	0	8	11
3 Capel Seion	60	7	1	6	0	7	0
3 Commins Coch	178	21	0	4	-1	3	18
3 Goginan	89	11	2	0	0	2	9

Anheddiad Cyswllt Linked Settlement	Stoc tai Ebrill 07 Housing stock April 07	12% o stoc tai 2007 12% of 2007 housing stock	Caniatadau sy'n sefyll ar 30/04/2020 Outstanding Consents as of 30/04/2020	Unedau a gwblhawyd fel yn Ebrill 2020 Completions as of April 2020	Colledion o Stoc Tai 2007 o fis Ebrill 2020 Losses from 2007 Housing Stock as of April 2020	Ymrwymadau Commitments	Unedau sydd ar ôl Remaining Units
3 Llanfarian	173	21	22	17	0	39	-18
3 Llangorwen	60	7	0	0	0	0	7
3 Rhydyfelin	126	15	1	14	-1	14	1
3 Cyfanswm/Total	919	110	28	53	-2	79	31
4 Betws Ifan	35	4	1	6	0	7	-3
4 Beulah	78	9	1	12	0	13	-4
4 Brongest	33	4	1	4	0	5	-1
4 Bryngwyn	77	9	0	6	0	6	3
4 Cwm Cou	48	6	3	5	0	8	-2
4 Llandyfriog	57	7	1	0	0	1	6

Anheddiad Cyswllt Linked Settlement	Stoc tai Ebrill 07 Housing stock April 07	12% o stoc tai 2007 12% of 2007 housing stock	Caniatadau sy'n sefyll ar 30/04/2020 Outstanding Consents as of 30/04/2020	Unedau a gwblhawyd fel yn Ebrill 2020 Completions as of April 2020	Colledion o Stoc Tai 2007 o fis Ebrill 2020 Losses from 2007 Housing Stock as of April 2020	Ymrwymadau Commitments	Unedau sydd ar ôl Remaining Units
4 Cyfanswm/Total	328	39	7	33	0	40	-1
5 Betws Bledws	31	4	0	0	0	0	4
5 Cellan/Fishers							
5 Arms	81	10	0	7	0	7	3
5 Cwrtnewydd	79	9	0	8	0	8	1
5 Drefach	53	6	6	3	0	9	-3
5 Gorsgoch	33	4	0	7	-1	6	-2
5 Llangybi	57	7	0	2	0	2	5
5 Llanwnnen	85	10	15	10	0	25	-15
5 Llwyn-y-groes	29	3	0	0	0	0	3

Anheddiad Cyswllt Linked Settlement	Stoc tai Ebrill 07 Housing stock April 07	12% o stoc tai 2007 12% of 2007 housing stock	Caniatadau sy'n sefyll ar 30/04/2020 Outstanding Consents as of 30/04/2020	Unedau a gwblhawyd fel yn Ebrill 2020 Completions as of April 2020	Colledion o Stoc Tai 2007 o fis Ebrill 2020 Losses from 2007 Housing Stock as of April 2020	Ymrwymadau Commitments	Unedau sydd ar ôl Remaining Units
5 Silian	34	4	0	1	0	1	3
5 Cyfanswm/Total	482	58	21	38	-1	58	0
6 Aberbanc	35	4	13	15	0	28	-24
6 Capel Dewi (SOUTH)	47	6	0	2	0	2	4
6 Coed y Bryn	36	4	1	5	0	6	-2
6 Croeslan	78	9	6	13	0	19	-10
6 Ffostrasol	74	9	2	12	0	14	-5
6 Henllan/Trebedw	95	11	16	2	0	18	-7
6 Horeb	27	3	4	3	0	7	-4

Anheddiad Cyswllt Linked Settlement	Stoc tai Ebrill 07 Housing stock April 07	12% o stoc tai 2007 12% of 2007 housing stock	Caniatadau sy'n sefyll ar 30/04/2020 Outstanding Consents as of 30/04/2020	Unedau a gwblhawyd fel yn Ebrill 2020 Completions as of April 2020	Colledion o Stoc Tai 2007 o fis Ebrill 2020 Losses from 2007 Housing Stock as of April 2020	Ymrwymadau Commitments	Unedau sydd ar ôl Remaining Units
6 Maesymeillion	29	3	2	4	0	6	-3
6 Penrhiwllan	109	13	3	10	0	13	0
6 Pentrellwyn	38	5	0	1	0	1	4
6 Prengwyn	31	4	0	5	-1	4	0
6 Rhydlewis / Hawen	69	8	4	5	0	9	-1
6 Rhydowen	52	6	0	6	0	6	0
6 Talgarreg	58	7	5	11	0	16	-9
6 Cyfanswm/Total	778	93	56	94	-1	149	-56
7 Bronnant	48	6	2	4	0	6	0

Anheddiad Cyswllt Linked Settlement	Stoc tai Ebrill 07 Housing stock April 07	12% o stoc tai 2007 12% of 2007 housing stock	Caniatadau sy'n sefyll ar 30/04/2020 Outstanding Consents as of 30/04/2020	Unedau a gwblhawyd fel yn Ebrill 2020 Completions as of April 2020	Colledion o Stoc Tai 2007 o fis Ebrill 2020 Losses from 2007 Housing Stock as of April 2020	Ymrwymadau Commitments	Unedau sydd ar ôl Remaining Units
7 Llanddewi Brefi	165	20	7	12	0	19	1
7 Llangeitho	64	8	5	0	0	5	3
7 Cyfanswm/Total	277	33	14	16	0	30	3
8 Blaenannerch	69	8	0	4	0	4	4
8 Blaenporth	97	12	8	1	0	9	3
8 Brynhoffnant	48	6	7	0	0	7	-1
8 Llangrannog	92	11	0	2	0	2	9
8 Pontgarreg	83	10	13	7	0	20	-10
8 Sarnau	56	7	8	12	0	20	-13
8 Tanygroes	76	9	2	9	0	11	-2

Anheddiad Cyswllt Linked Settlement	Stoc tai Ebrill 07 Housing stock April 07	12% o stoc tai 2007 12% of 2007 housing stock	Caniatadau sy'n sefyll ar 30/04/2020 Outstanding Consents as of 30/04/2020	Unedau a gwblhawyd fel yn Ebrill 2020 Completions as of April 2020	Colledion o Stoc Tai 2007 o fis Ebrill 2020 Losses from 2007 Housing Stock as of April 2020	Ymrwymadau Commitments	Unedau sydd ar ôl Remaining Units
8 Tresaith	93	11	4	9	0	13	-2
8 Cyfanswm/Total	614	74	42	44	0	86	-12
9 Llandre	184	22	7	18	0	25	-3
9 Cyfanswm/Total	184	22	7	18	0	25	-3
10 Caerwedros	61	7	1	7	0	8	-1
10 Cross Inn (Ceinewydd/New Quay)	112	13	6	34	0	40	-27
10 Maen-y-groes	59	7	0	3	0	3	4
10 Pentre'r Bryn	34	4	1	5	0	6	-2

Anheddiad Cyswllt Linked Settlement	Stoc tai Ebrill 07 Housing stock April 07	12% o stoc tai 2007 12% of 2007 housing stock	Caniatadau sy'n sefyll ar 30/04/2020 Outstanding Consents as of 30/04/2020	Unedau a gwblhawyd fel yn Ebrill 2020 Completions as of April 2020	Colledion o Stoc Tai 2007 o fis Ebrill 2020 Losses from 2007 Housing Stock as of April 2020	Ymrwymadau Commitments	Unedau sydd ar ôl Remaining Units
10 Plwmp	41	5	2	3	0	5	0
10 Cyfanswm/Total	307	37	10	52	0	62	-25
11 Llandygwydd	43	5	0	3	0	3	2
11 Cyfanswm/Total	43	5	0	3	0	3	2
12 Cilcennin	86	10	6	5	0	11	-1
12 Cribyn	104	12	0	17	0	17	-5
12 Dihewyd	56	7	0	7	0	7	0
12 Talsarn	43	5	6	0	0	6	-1
12 Cyfanswm/Total	289	35	12	29	0	41	-6

Anheddiad Cyswllt Linked Settlement	Stoc tai Ebrill 07 Housing stock April 07	12% o stoc tai 2007 12% of 2007 housing stock	Caniatadau sy'n sefyll ar 30/04/2020 Outstanding Consents as of 30/04/2020	Unedau a gwblhawyd fel yn Ebrill 2020 Completions as of April 2020	Colledion o Stoc Tai 2007 o fis Ebrill 2020 Losses from 2007 Housing Stock as of April 2020	Ymrwymadau Commitments	Unedau sydd ar ôl Remaining Units
Derwen							
13 Gam/Oakford	33	4	1	3	0	4	0
13 Gilfachreda	88	11	1	2	0	3	8
13 Mydroilyn	66	8	4	5	0	9	-1
13 Cyfanswm/Total	187	22	6	10	0	16	6
14 Cnwch Coch	31	4	0	1	0	1	3
14 Llanafan	82	10	2	7	0	9	1
Llanfihangel y							
14 Creuddyn	33	4	1	1	0	2	2
14 Lledrod	53	6	0	6	0	6	0

Anheddiad Cyswllt Linked Settlement	Stoc tai Ebrill 07 Housing stock April 07	12% o stoc tai 2007 12% of 2007 housing stock	Caniatadau sy'n sefyll ar 30/04/2020 Outstanding Consents as of 30/04/2020	Unedau a gwblhawyd fel yn Ebrill 2020 Completions as of April 2020	Colledion o Stoc Tai 2007 o fis Ebrill 2020 Losses from 2007 Housing Stock as of April 2020	Ymrwymadau Commitments	Unedau sydd ar ôl Remaining Units
14 Cyfanswm/Total	199	24	3	15	0	18	6
15 Bethania	39	5	0	3	0	3	2
15 Cross Inn (Llanon)	34	4	6	18	-1	23	-19
15 Nebo	37	4	10	5	0	15	-11
15 Cyfanswm/Total	110	13	16	26	-1	41	-28
16 Llangwyrfon	40	5	3	7	0	10	-5
16 Cyfanswm/Total	40	5	3	7	0	10	-5
17 Alltyblacca	60	7	1	6	0	7	0
17 Highmead	37	4	0	1	0	1	3

Anheddiad Cyswllt Linked Settlement	Stoc tai Ebrill 07 Housing stock April 07	12% o stoc tai 2007 12% of 2007 housing stock	Caniatadau sy'n sefyll ar 30/04/2020 Outstanding Consents as of 30/04/2020	Unedau a gwblhawyd fel yn Ebrill 2020 Completions as of April 2020	Colledion o Stoc Tai 2007 o fis Ebrill 2020 Losses from 2007 Housing Stock as of April 2020	Ymrwymadau Commitments	Unedau sydd ar ôl Remaining Units
17 Cyfanswm/Total	97	12	1	7	0	8	4
18 Cyfanswm/Total	0	0	0	0	0	0	0
19 Ponterwyd	82	10	14	21	0	35	-25
19 Cyfanswm/Total	82	10	14	21	0	35	-25
20 Pont-rhyd-y- groes	77	9	4	1	0	5	4
20 Ysbyty Ystwyth	58	7	3	6	0	9	-2
20 Ystrad Meurig	28	3	0	3	-1	2	1
20 Cyfanswm/Total	163	20	7	10	-1	16	4
21 Eglwysfach	37	4	0	2	0	2	2

Anheddiad Cyswllt Linked Settlement	Stoc tai Ebrill 07 Housing stock April 07	12% o stoc tai 2007 12% of 2007 housing stock	Caniatadau sy'n sefyll ar 30/04/2020 Outstanding Consents as of 30/04/2020	Unedau a gwblhawyd fel yn Ebrill 2020 Completions as of April 2020	Colledion o Stoc Tai 2007 o fis Ebrill 2020 Losses from 2007 Housing Stock as of April 2020	Ymrwymadau Commitments	Unedau sydd ar ôl Remaining Units
21 Tre Taliesin	110	13	2	6	0	8	5
21 Tre'r Ddol	68	8	9	0	0	9	-1
21 Cyfanswm/Total	215	26	11	8	0	19	7
22 Dol-y-bont	32	4	2	0	0	2	2
22 Ynyslas	54	6	0	3	0	3	3
22 Cyfanswm/Total	86	10	2	3	0	5	5
Cyfanswm/Total	6601	792	325	593	-8	910	-118

Atodiad 7: AMRH15 Rhychwant o Dai – Perfformiad

Nifer y caniatadau llawn neu ganiatadau materion a gadwyd yn ôl fesul math o dai a nifer yr ystafelloedd gwely ers mabwysiadu'r cynllun (Ebrill 2013 – Mawrth 2020).

Math o dai							
Nifer yr ystafelloedd gwely	Newid defnydd i Annedd	Newid defnydd i Fflat	Annedd	Fflat	Cyfanswm	%	Angen yn ôl % Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2016
Anhysbys	0	0	0	0	0	N/A	N/A
1	21	20	45	76	162	16%	2%
2	32	19	142	61	254	25%	15%
3	27	6	317	4	354	35%	74%
4 neu mwy	16	2	224	0	242	24%	10%
Cyfanswm	96	47	728	141	1012	100%	100%

Nifer yr unedau a gwblhawyd yn ôl math o dai a nifer ystafelloedd gwely ers mabwysiadu'r cynllun (Ebrill 2013 – Mawrth 2020).

Math o dai	
------------	--

Nifer yr ystafelloedd gwely	Newid defnydd i Annedd	Newid defnydd i Fflat	Annedd	Fflat	Cyfanswm	%	Angen yn ôl % Aseiad o'r Farchnad Dai Leol 2016
1	11	39	12	68	130	15%	2%
2	24	26	94	37	181	21%	15%
3	13	3	289	5	310	36%	74%
4 neu mwy	17	7	208	1	233	27%	10%
Cyfanswm	65	75	603	111	856	100%	100%

Atodiad 8: AMRE06 Bywiogrwydd y Canolfannau Gwasanaethau Gwledig 2018/2019

Nid oedd modd cynnal yr arolwg yn 2019/2020 o ganlyniad i cyfyngiadau Covid.

Rhif GA	Enw Anheddiad CGG	Siop Fwyd	Swyddfa Bost	Gorsaf Betrol	Tafarn/ Gwesty	Neuadd Bentref	Ysgol Gynradd
8	Aberporth / Parcllyn	2	2	0	3	3	1
9	Bow Street	2	1	1 (included but is just outside the monitoring boundary)	1	1	1
10	Ceinewydd	4	1	0	8	2	1
11	Cenarth	1	0	1	0	0	1
12	Felin-fach / Ystrad Aeron	2	1	1	2	1	1
13	Llanarth	1	0	1	1	2	1
14	Llanilar	1	0	0	1	1	1

15	Llan-non	2	1	1	2	1	1
16	Llanrhystud	2	1	1	1	2	1
18	Penrhyn-coch	2	1	1	1	3	1
19	Pontarfynach	0	0	0	0	0	1 (wedi ei gynnwys ond tu allan y ffin monitro)
20	Pontrhydfendigaid	1	1	0	2	2	1
21	Tal-y-bont	1	0	1	2	1	1
22	Y Borth	2	2	0	7	2	1



Adroddiad Monitro

Blynyddol

2021

ar gyfer

Cynllun Datblygu Lleol

Ceredigion

2007 – 2022

Cynnwys

Cynnwys	iii
1. Crynodeb Gweithredol	1
2. Newidiadau Cyd-destunol Pwysig	16
3. Analysis of Core & Local Indicators	Error! Bookmark not defined.
4. Canlyniadau Dangosyddion AAS/AG	151
5. Casgliadau ac Argymhellion	226
Atodiad 1: Crynodeb o Ddangosyddion y CDLI	234
Atodiad 2: Crynodeb o'r Dangosyddion Cynaliadwyedd	250
Atodiad 3: Statws Safleoedd a Neilltuwyd 2017 – 2018	265
Atodiad 4: Rhestr o'r Canllawiau Cynllunio Atodol	298
Atodiad 5 AMRH03: Strategaeth Anheddu, Grwpiau Aneddiadau	299
Atodiad 6: AMRH04 Strategaeth Anheddu – Datblygu mewn 'Aneddiadau Cyswllt'	316
Atodiad 7: AMRH15 Rhychwant o Dai – Perfformiad	329
Atodiad 8: AMRE06 Bywiogrwydd y Canolfannau Gwasanaethau Gwledig 2018/2019	333

1. Crynodeb Gweithredol

- 1.1 Cafodd Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007-2022 ei fabwysiadu'n ffurfiol gan Gyngor Sir Ceredigion ar 25 Ebrill 2013. Dyma'r 8^{fed} Adroddiad Monitro Blynyddol sy'n cwmpasu'r cyfnod 1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021 gan gyfeirio at rannau cynharach o gyfnod y cynllun lle mae'r dangosyddion yn mynnu bod angen gwneud hyn. Yr Adroddiad Monitro Blynyddol yw'r brif ffordd o adolygu pa mor berthnasol a llwyddiannus yw'r CDLI, a nodi unrhyw newidiadau y mae angen eu gwneud yn sgil y tueddiadau sefydledig a nodwyd. Mae'n ceisio asesu i ba raddau y mae strategaethau, polisiau a safleoedd allweddol y CDLI yn cael eu cyflawni.
- 1.2 Mae'r fframwaith monitro ar gyfer yr Adroddiad Monitro Blynyddol hwn yn ffurfio rhan o'r CDLI mabwysiedig. Rhoddwyd ystyriaeth i Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (2005) (Rheoliad 37) a'r dangosyddion craidd a nodwyd yn y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol, 2il Argraffiad (Awst 2015). Mae newidiadau dilynol i fframwaith monitro'r CDLI i'w gweld yn Atodiad 1.
- 1.3 Mae monitro'r CDLI hefyd yn unol â'r gofynion i fonitro perfformiad y cynllun o ran cynaliadwyedd trwy fframwaith monitro'r Asesiad Amgylcheddol Strategol/Arfarniad o Gynaliadwyedd (AAS/AG). Mae Adran 5 o'r adroddiad hwn yn cynnwys monitro'r AAS/AG ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021. Ystyrir y caiff unrhyw faterion o bryder sydd wedi codi yn ystod y cyfnod monitro sy'n newid yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn sylweddol eu hystyried yn Arfarniad o Gynaliadwyedd y CDLI newydd sydd wrthi'n cael ei baratoi.
- 1.4 Cynhaliwyd Adolygiad o'r CDLI mabwysiedig ac mae'r adroddiad yn argymhell y dylid paratoi cynllun newydd llawn. Cafodd y Cytundeb Cyflenwi ar gyfer y CDLI newydd ei gadarnhau ym Mehefin 2018.
- 1.5 Mae'r Adroddiad Adolygu a'r Cytundeb Cyflenwi ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor.

Adroddiad Adolygu:

<http://www.ceredigion.gov.uk/media/7106/2018-ceredigion-ldp-adroddiad-adolygu.pdf>

Cytundeb Cyflenwi:

<http://www.ceredigion.gov.uk/media/6412/2018-06-22-cc-cytunwyd-gan-lc-cymraeg.pdf>

- 1.6 O ran datblygiad y CDLI newydd, ymgynghorodd y Cyngor ar ei Strategaeth a Ffefrir a chynnal Galwad pellach am safleoedd ymgeisiol rhwng Mehefin-Medi 2019. O ganlyniad i ymatebion yr ymgynghoriad i'r Strategaeth a Ffefrir gwnaed newidiadau i'r Cytundeb Cyflenwi [a lofnodwyd gan y Gweinidog Tai Julie James ar 19^{eg} Mawrth 2020](#). Fodd bynnag, oherwydd Pandemig byd-eang COVID-19 o dan gyngor y Prif Gynlluniwr ar 18^{fed} Mawrth 2020 na ddylem gynnal dim ymgynghoriadau cyhoeddus ffurfiol o dan yr amgylchiadau presennol a dylem ganolbwyntio dros dro ar waith sylfaen dystiolaeth dechnegol a chefnidiol.
- 1.7 Yn ogystal ym mis Ionawr 2021 rhyddhaodd Cyfoeth Naturiol Cymru Ganllawiau Cynllunio Dros Dro ynghylch lefelau y ffosffadau mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol yng Nghymru sy'n effeithio ar Geredigion oherwydd bod Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Teifi yn cyfrif am 45% o arwynebedd tir y sir ac yn cwmpasu 3 o'r 6 prif anheddiad (Canolfannau Gwasanaeth Trefol), felly nid yw'r gwaith ar y CDLI wedi symud ymlen wrth i atebion a mesurau lliniaru i alluogi pennu cydsyniadau cynllunio yn y dalgylch barhau. Mae cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru i'w gael yma:
- <https://cyfoethnaturiolcymru.gov.uk/guidance-and-advice/business-sectors/planning-and-development/our-role-in-planning-and-development/advice-to-planning-authorities-for-planning-applications-affecting-phosphorus-sensitive-river-special-areas-of-conservation/?lang=cy>
- 1.8 Felly ar hyn o bryd mae ein hamserlen a nodir yn y Cytundeb Cyflenwi wedi'i hatal dros dro, bydd angen i ni gyflwyno amserlen ddiwygiedig wrth inni symud ymlaen.

Deddfwriaeth, Polisi Cenedlaethol ac Ystyriaethau Allanol

- 1.9 Mae deddfwriaeth, polisi cenedlaethol ac ystyriaethau allanol yn cael sylw manwl yn Adran 3.

Ystyriaethau Polisi Rhanbarthol a Lleol

1.10 Mae ystyriaethau rhanbarthol a lleol yn ystod y cyfnod monitro yn cynnwys y canlynol:

- Asesiad Marchnad Dai Lleol Rhanbarthol

Gweler gwybodaeth yn rhan 3

1.11 O ran amodau rhanbarthol, mae pob Awdurdod Cynllunio Lleol cyfagos wedi'u heffeithio gan broblem y Ffosffadau mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol yng Nghymru ar hyn o bryd ac mae gwaith ar y CDLI wedi'i oedi gan fwyaf yn rhanbarthol. Fodd bynnag, mae Ceredigion ochr yn ochr ag Awdurdodau Cynllunio Lleol cyfagos yn parhau i nodi cyfleoedd ar gyfer gweithio'n rhanbarthol (megis trwy bartneriaeth gynyddol Tyfu Canolbarth Cymru a'r gweithgor Ffosffadau Cenedlaethol), gyda'r cyfleoedd a rennir wedi'u nodi er mwyn casglu gwybodaeth ar gyfer casglu sylfaen dystiolaeth yn y blynyddoedd i ddod.

1.12 Mae ystyriaethau polisi rhanbarthol a lleol yn cael sylw manwl yn Adran 3. Maent wedi arwain at newidiadau mawr uniongyrchol i gyd-destun y cynllun sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r CDLI newydd ail-werthuso opsiynau'r Strategaeth a Ffeirir yn llwyr pan ellir dod o hyd i atebion a mesurau lliniaru i broblemau'r ffosffadau, mae hyn yn debyg i awdurdodau cyfagos sydd wedi gorfod dychwelyd i gamau cynharach o baratoi'r cynllun. Mae Covid 19 wedi effeithio ar newidiadau mewn perthynas â dosbarthiad y boblogaeth, adnewyddu'r stryd fawr a fforddiadwyedd prisiau tai, ac mae angen gwaith pellach yn lleol ac yn rhanbarthol i ddarganfod sut y dylai'r rhain fod yn sail i baratoi'r cynllun newydd hefyd.

Monitro Polisiâu'r CDLI

1.13 Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn ystyried polisiâu'r CDLI yn erbyn fframwaith monitro mabwysiedig y CDLI er mwyn penderfynu a yw'r polisiâu yn effeithiol a nodi unrhyw bolisiau sydd heb gael eu gweithredu. Mae'r dadansoddiad manwl a'r canlyniadau i'w gweld yn Adran 4.

1.14 Noder bod pandemig COVID-19 wedi effeithio'n ddifrifol ar y data a gasglwyd ar gyfer yr Adroddiad Monitro Blynyddol, gan nad oedd yn bosibl cynnal yr

Crynodeb Gweithredol

arolwg safle tai preswyl tan fis Gorffennaf 2021, ac roedd wedi'i gyfyngu i safleoedd lle nad oedd gwybodaeth ar gael gan Reoli Datblygu a Swyddogion Rheoli Adeiladu, felly nid yw'r dangosyddion yn rhoi adlewyrchiad cywir o'r sefyllfa. Ni chafwyd caniatâd gan y Grŵp Rheoli Aur i wneud gwaith archwilio ar Safleoedd Cyflogaeth, nifer yr ymwelwyr ac Amwynderau. Nid oedd cyfarfodydd y Grŵp Rhanddeiliaid ar gyfer y taflwybr tai yn gallu cael eu cynnal chwaith.

Y Strategaeth Anheddu

1.15 Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o berfformiad Dangosyddion Strategaeth yr Adroddiad Monitro Blynyddol.

Dangosydd	Perfformiad								
	2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022
AMRH01 – Newid yn y Boblogaeth	Amh	Amh	Amh	Amh	?	Amh	Amh	Amh	
AMRH02 – Y Strategaeth Anheddu ledled y Sir	0	0	-	+	-	--	-	-	
AMRH03 – Grwpiau Aneddiadau'r Strategaeth Anheddu	0	0	-	-	-	--	-	-	
AMRH04 – Strategaeth Anheddu – Datblygu mewn 'Aneddiadau Cyswllt'	0	0	-	-	-	--	-	-	
AMRH05 – Strategaeth Anheddu – Natur y Datblygu yn y 'Lleoliadau Eraill'	?	0	-	-	-	--	-	-	

- 1.16 Mae dangosydd Adroddiad Monitro Blynyddol H01 yn ymwneud â Newid yn y Boblogaeth, fel y nodwyd y cafwyd amcanestyniadau'r boblogaeth ac aelwydydd yn seiliedig ar 2018 yn ystod y cyfnod monitro ac mae'n awgrymu y bydd poblogaeth Ceredigion yn dirywio rhwng 2018 a 2043, o 72,992 i 68,745 gyda gostyngiad cyfatebol yn y nifer o aelwydydd oddeutu 4,500. Mae'r amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2018 yn adlewyrchu gwrthdroad yn y duedd ddemograffig Mae'r gyfres Amcangyfrifon Canol-Blwyddyn yn awgrymu, bod poblogaeth y sir wedi gostwng i 72,695 yn 2019 o'i hanterth o 76,000 yn 2012. Mae hyn i raddau helaeth o ganlyniad i ostyngiad yn nifer y myfyrwyr mewn addysg uwch yn y sir. Gwelwyd adlewyrchiad yr amcanestyniadau mewn blynyddoedd blaenorol o ran tai a gwblhawyd a chaniatadau. Mae'r newid lleol yn y boblogaeth yn sensitif iawn i ffactorau lleol a bydd y rhain yn cael eu hystyried yn fanylach fel rhan o baratoi cynllun newydd. Ers i'r Pandemig Bydeang ddechrau mae Ceredigion wedi gweld diddordeb mawr yn gyson mewn mewnfudo gyda phrisiau tai yn codi'n sylweddol a marchnad dai hynod o fywiog gan fod pobl yn gallu adleoli i ffwrdd o weithleoedd traddodiadol neu wedi ailwerthuso eu dewisiadau tai o ganlyniad i'r cyfnodau clo. Felly bydd angen gwneud gwaith pellach i werthuso'r newidiadau a'r effeithiau hyn ar dwf poblogaeth wrth i dystiolaeth ddod i'r amlwg.
- 1.17 Mae'r Dangosydd AMRH02 yn ymwneud â'r Strategaeth Anheddu ledled y Sir ac mae'n mesur bod rhaniad canrannol yr unedau a gwblhawyd a'r ymrwymadau ledled y sir rhwng mabwysiadu'r cynllun a diwedd cyfnod y cynllun yn 51% (Canolfannau Gwasanaethau Trefol):24% (Canolfannau Gwasanaethau Gwledig):25% (Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill). Ers mabwysiadu'r cynllun, cymhareb yr ymrwymadau a'r unedau a gwblhawyd yw 40%:26%:34 a 41%:16%:43%. Mae symudiadau cadarnhaol a negyddol cynyddrannol yn digwydd flwyddyn ar ôl blwyddyn tuag at y targedau a nodwyd ers mabwysiadu'r cynllun. Yn y flwyddyn adrodd hon, o ran yr ymrwymadau mae'r gymhareb yn anghyson â'r targed a nodwyd (49%:22%:28%). Nid yw'r targed wedi cael ei gyflawni ar gyfer yr unedau a gwblhawyd sydd, o'i fesur ers mabwysiadu'r cynllun, yn 40:16:43. Mae'r adolygiad o'r CDLI yn ystyried y

Strategaeth Anheddu yn gyffredinol ac yn parhau i nodi ffyrdd o gyflenwi tai mewn lleoliadau cynaliadwy.¹

- 1.18 Mae'r Dangosydd AMRH03 yn ystyried y Strategaeth Anheddu ar lefel grŵp aneddiadau ac yn ceisio symud tuag at y rhaniad canrannol a nodwyd ar gyfer pob un o'r 22 o grwpiau aneddiadau yn Atodiad 2 y CDLI. Mae'r canlyniadau yn rhoi darlun amrywiol gyda rhai grwpiau aneddiadau unigol yn symud tuag at y cydbwysedd gofynnol ac eraill yn symud i ffwrdd o'r cydbwysedd gofynnol. Mae'r adolygiad o'r CDLI yn ystyried penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn ôl lleoliad er mwyn deall yn well y rhesymau dros beidio â chyflawni'r cydbwysedd gofynnol.
- 1.19 Mae'r Dangosydd AMRH04 yn ystyried datblygiadau mewn 'Aneddiadau Cyswllt' ac yn ei gwneud hi'n ofynnol i ymrwmiadau beidio ag arwain at unrhyw un anheddiad cyswllt sy'n tyfu gan fwy na 12% o'i faint fel yr oedd yn Ebrill 2007. O gyfanswm o 90 o Aneddiadau Cyswllt ar draws y 22 o grwpiau aneddiadau, mae 46 (51%) wedi cyrraedd neu'n uwch na'u terfyn twf o 12%. Mae'r ffigur hwn yn cymharu â 36 (40%) adeg mabwysiadu'r cynllun. Mae'r adolygiad o'r CDLI yn ystyried y rhesymau dros y newid negyddol hwn i ffwrdd o'r terfynau capasiti sefydledig ledled y sir.
- 1.20 Mae'r Dangosydd AMRH05 yn ystyried datblygiadau mewn 'lleoliadau eraill'. Yn y cyfnod monitro hwn roedd rhaniad 83.17 rhwng datblygiadau preswyl mewn 'lleoliadau eraill' a gymeradwywyd yn ystod y cyfnod monitro a oedd yn cydymffurfio â'r CDLI a'r Polisi Cenedlaethol (10 uned) a'r datblygiadau oedd heb gydymffurfio. Cymeradwywyd 2 uned y tu allan i'r hyn a ganiateir gan strategaeth y CDLI, Polisi Cynllunio Cymru 9.2.22 a TAN 6. Mae hwn yn ostyngiad sylweddol ar y blynyddoedd blaenorol.

¹ Wedi'i fonitro yn unol â'r dangosydd (ers mabwysiadu'r cynllun) ac nid ers dechrau'r cynllun.

Cyflenwi Tai

1.21 Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o berfformiad Dangosyddion Cyflenwi Tai'r Adroddiad Monitro Blynyddol.

Dangosydd	Perfformiad									
	2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	
AMRH06 – Tai a Gwblhawyd yn Flynyddol yn erbyn Cyfradd Adeiladu Flynyddol a Ragwelir	+	0	-	-	-	-	-	-		
AMRH07 – Cyflenwi Safleoedd Tai a Neilltuwyd	0	0	-	-	-	-	-	-		
AMRH08 – Datblygu Tai mewn Lleoliadau Priodol	0	0	-	-	-	-	-	-		
AMRH09 – Datblygu Tai ar Dir a Ddatblygwyd o'r Blaen	+	+	+	+	+	+	+	+		
AMRH13 – Dwysedd Tai	0	0	+	+	0	0	0	0		
AMRH14 – Cyflenwi Tai	0	0	0	-	-	-	-	+		
AMRH15 – Rhychwant y Tai	0	0	0	0	0	0	0	0		

- 1.22 Mae Dangosydd AMR H06 wedi'i ddiwygio i gynnwys y dangosydd Gofyniad Blynyddol Cyfartalog. Mae'r gofyniad blynyddol cyfartalog cyfredol yn seiliedig ar y 6000 o unedau sydd eu hangen ar gyfer CDLI1, wrth symud ymlaen, bydd gwaith yn digwydd i seilio'r taflwybr hwn ar y gwir dai a gwblhawyd hyd yma a nodi'r broses o amseru safleoedd/cyflenwad a'u cyflwyno'n raddol. Ar gyfer 2019 -20 y Gymhariaeth Flynyddol o ran Tai a Gwblhawyd yn erbyn y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog yw -117 (-29%) (fodd bynnag, fel y nodwyd yn flaenorol, nid yw gwybodaeth y tai a gwblhawyd yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol hwn yn adlewyrchu'r gwir sefyllfa). Yn gronol ers dechrau cyfnod y cynllun, y Gymhariaeth Gronol o ran Tai a Gwblhawyd yn erbyn y gofyniad cyfartalog blynyddol cronol yw -2893 (-52%). Mae'r adolygiad o'r CDLI yn ystyried priodoldeb strategaeth, polisïau a dyraniadau tai'r CDLI, ac mae dau alwad am safleoedd ymgeisiol wedi cael eu gwneud.
- 1.23 Mae'r Dangosydd AMRH07 yn ei gwneud hi'n ofynnol i 100% o'r tai gael eu cyflenwi ar safleoedd a neilltuwyd erbyn 2022. Nid yw'r targedau a nodwyd ar gyfer 2019 (84% o ymrwymadau a 64% o unedau wedi'u cwblhau) wedi cael eu cyflawni. Mae canran yr unedau a ragwelwyd (caniatadau) ac unedau a gwblhawyd ar safleoedd a neilltuwyd wedi newid ers y cyfnod monitro blaenorol i 19% a 6.5%. Mae'r Dangosydd AMRH08 yn ei gwneud hi'n ofynnol i 90-100% o'r gofyniad ar gyfer datblygiadau preswyl mewn Canolfannau Gwasanaethau Trefol a Chanolfan Gwasanaethau Gwledig gael ei fodloni ar safleoedd a neilltuwyd ar ôl mabwysiadu'r cynllun. Y canlyniadau yw 65% (unedau a ganiatawyd mewn canolfannau gwasanaethau) ac 29% (unedau a gwblhawyd mewn canolfannau gwasanaethau). Er nad yw targedau'r dangosydd wedi cael eu cyflawni, mae symudiad cadarnhaol yn y blynyddoedd blaenorol i'w weld ers mabwysiadu'r cynllun. Mae'r CDLI yn ystyried yn fwy manwl gyflenwi safleoedd a neilltuwyd wrth i ni symud ymlaen trwy'r adolygiad.
- 1.24 Mae'r Dangosyddion AMRH07, AMRH08 ac AMRH09 yn dangos bod lefel cyflenwi tai yn parhau i fod yn is na'r hyn sy'n ofynnol i fodloni strategaeth y CDLI. Bydd priodoldeb strategaeth, polisïau a dyraniadau tai'r CDLI yn cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad pedwar blynyddol statudol o'r CDLI. Bydd yr adolygiad hwn yn cynnig modd ystyried hyn yn briodol yn sgil unrhyw ymchwil newydd sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd ar y cyflenwad tai a'r galw am dai yng

Ngheredigion ac ar draws Cymru. Mae'r adolygiad o'r CDLI yn ailasesu'r gallu i gyflenwi'r holl safleoedd a neilltuwyd ar hyn o bryd ac, fel sy'n ofynnol, yn nodi dyraniadau safle ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol 2 os oes hyder y gellir eu cyflenwi yn ystod cyfnod y cynllun.

- 1.25 Mae'r Dangosydd AMRH14 yn anelu at gael gostyngiad flwyddyn ar ôl blwyddyn yn y gymhareb rhwng cydsyniadau preswyl sy'n sefyll ag unedau a gwblhawyd. Ni chyflawnwyd y gymhareb ddechreuol o 6.5 erioed tan eleni gyda chymhareb o 6 (mae hyn wedi'i gynorthwyo oherwydd cwblhawyd 3 safle Landlord Cymdeithasol Cofrestredig. Fodd bynnag, mae'n parhau i ddangos amrywiadau amrywiol iawn o flwyddyn i flwyddyn sy'n awgrymu nad yw'r dangosydd monitro hwn yn ddangosydd cynnydd gwerthfawr gan ei fod mor ddi-ddal i fân newidiadau blynyddol. Mae nifer y cydsyniadau sy'n sefyll yn parhau'n weddol ddigyfnewid ar oddeutu 1,600 ar draws y sir, fodd bynnag, Mae'r gymhareb caniatadau i dai a gwblhawyd yn amrywio ar draws grwpiau'r aneddiadau.
- 1.26 Mae'r Dangosyddion AMRH09, AMRH13 ac AMRH15 yn dangos bod y targedau a nodwyd yn cael eu cyflawni, neu os nad ydynt yn cael eu cyflawni, bod dim pryderon ynghylch gweithredu'r polisi o ran datblygu tai ar dir a ddatblygwyd o'r blaen, dwysedd tai a'r rhychwant tai.

Tai Fforddiadwy

- 1.27 Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o berfformiad Dangosyddion Tai Fforddiadwy yr Adroddiad Monitro Blynyddol.

Dangosydd	Perfformiad								
	2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022
AMRH10 – Tai Fforddiadwy	0	0	0	0	0	0	0	0	
AMRH11 – Tai Fforddiadwy	+	+	+	+	0	0	0	0	

AMRH12 – Mathau o Dai Fforddiadwy	?	0	0	0	0	0	0	0	
---	---	---	---	---	---	---	---	---	--

- 1.28 Mae'r Dangosydd AMRH10 yn ei gwneud hi'n ofynnol i 1,100 o dai fforddiadwy gael eu cwblhau erbyn 2022. Mae cynnydd tuag at y targed a nodwyd yn amlwg gyda dros 50% o'r targed wedi'i gyflenwi eisoes. Fodd bynnag, mae cyfradd y cynnydd tuag at y targed a nodwyd ar gyfer 2022 hyd yma yn awgrymu nad yw'r targed yn debygol o gael ei gyflawni erbyn diwedd cyfnod y cynllun. Cafodd 111 o dai fforddiadwy eu cyflenwi'r flwyddyn hon sydd yn uwch na'r cyfartaledd blynyddol.
- 1.29 Mae'r Dangosydd AMRH11 yn ei gwneud hi'n ofynnol i o leiaf 20% o'r holl aneddiadau a ganiatawyd fod yn fforddiadwy. Mae'r targed hwn wedi cael ei rhagori gyda 39% o'r holl ddatblygiadau preswyl a ganiatawyd ers mabwysiadu'r cynllun yn dai fforddiadwy. Mae nifer yr heriau hyfywedd i'r polisi tai fforddiadwy (Polisi S05) yn parhau i fod yn uchel gyda 9 o heriau hyfywedd wedi'u cyflwyno yn ystod y cyfnod monitro, 100% ohonynt yn llwyddiannus yn gyfan gwbl neu'n rhannol. Cyfiawnhawyd gofynion tai Polisi S05 gan astudiaeth 2010 ynghylch hyfywedd economaidd darparu tai fforddiadwy. Mae'r Cyngor wedi comisiynu ar y cyd asesiad hyfywedd wedi'i ddiweddarau ar gyfer y rhanbarth sy'n cael ei ddefnyddio i lywio'r adolygiad o'r CDLI.
- 1.30 Mae'r Dangosydd AMRH12 yn ystyried y mathau o dai fforddiadwy ac yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddarparu rhaniad canrannol yn unol â'r dystiolaeth o'r angen am dai. Mae'r targed a nodwyd yn flaenorol yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r gymhareb o fathau o dai fforddiadwy fod yn 9% (Ar Werth Ar Ostyngiad 70%):32% (Ar Werth Ar Ostyngiad 50%): 59% (Rhent Cymdeithasol). Er nad yw'r targedau hyn yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd, ystyrir bod y dosbarthiad cyffredinol o dai fforddiadwy yn foddhaol ac nid oes unrhyw bryderon ar hyn o bryd. Y rheswm am hyn yw oherwydd bod tystiolaeth, gan gynnwys yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA) (2016) a'r Asesiad Hyfywedd Strategol (2017 ac un newydd sy'n cael ei baratoi ar hyn o bryd) yn dangos er nad yw'r rhaniad tenantiaeth gofynnol yn cael ei fodloni, nid yw'n bryder mawr oherwydd bod

nifer yr unedau gwirioneddol a gyflenwyd yn cyfateb yn agos â'r dystiolaeth wedi'i diweddarau. Disgwylir i dystiolaeth bellach ar yr angen am dai a hyfywedd gael ei chyflwyno ar ddiwedd 2021, ac yn dilyn hyn ystyrir newid polisi yn y cynllun newydd.

1.31 I grynhoi, cafwyd symudiadau cadarnhaol tuag at gyflawni'r targedau a nodwyd yn y strategaeth. Fodd bynnag, nid yw graddfa / cyfradd y cynnydd mor gyflym ag y rhagwelwyd. Mae canlyniadau eleni yn well na'r rhai a nodwyd yn Adroddiad Monitro Blynyddol 2020. Nid yw targedau'r dangosydd ar gyfer cyflenwad tai a chyflenwi tai yn cael eu cyflawni. Er y nodir nad yw hyn yn broblem unigryw i'r ardal leol bydd yr adolygiad o'r CDLI yn ystyried sut i gefnogi cyflenwad a chyflenwi mwy effeithiol o dai yn y sir. Mae mwy nag 20% o'r holl dai a ganiatawyd ac a gwblhawyd yn fforddiadwy, sy'n gadarnhaol. Fodd bynnag, nid yw cyfradd y cynnydd blynyddol cyfartalog mor gyflym ag y disgwyliwyd, ac nid yw'r targedau a nodwyd yn debygol o gael eu cyflawni erbyn diwedd cyfnod y cynllun. Mae'r rhesymau dros hyn yn amlochrog ac yn awgrymu'n gryf darparu gormod o dai yn seiliedig ar amcanestyniadau diffygiol o ran y boblogaeth o ddechrau cyfnod y cynllun.

Economi a Manwerthu

1.32 Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o berfformiad Dangosyddion Economi a Manwerthu'r Adroddiad Monitro Blynyddol:

Dangosydd	Perfformiad								
	2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022
AMRE01 – Cyflenwad Tir Cyflogaeth	+	+	+	+	+	+	+	+	
AMRE02 – Cyflenwi'r Safleoedd	+	+	+	0	0	0	0	0	

Crynodeb Gweithredol

Economaidd sydd wedi eu Neilltuo									
AMRE03 – Datblygu Economaidd mewn Lleoliadau Addas	+	+	+	+	+	+	+	+	
AMRE04 – Datblygu Economaidd ar Dir a Ddatblygwyd o'r Blaen	0	0	+	+	+	+	+	+	
AMRE05 – Canol Trefi	+	?	?	+	+	0	0	0	
AMRE06 – Bywiogrwydd y Canolfannau Gwasanaethau Gwledig	?	+	+	+	+	+	+	+	
AMRE07 – Ffryntiadau Manwerthu	0	0	+	+	+	+	+	+	

1.33 Mae targedau'r Economi a Manwerthu yn cael eu cyflawni'n bennaf ac nid oes unrhyw bryder mawr ynghylch gweithredu'r polisiau economaidd a manwerthu. Mae'r Dangosydd AMRE02 yn ei gwneud hi'n ofynnol i 100% o safleoedd a neilltuwyd gael eu caniatáu a'u cwblhau erbyn 2022, a dim ond 81% a 61% o ddatblygu sydd wedi cael ei ganiatáu a'i gwblhau hyd yma. Er nad yw'r targed hwn wedi cael ei gyflawni nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithredu'r polisiau. Mae'r Cyngor yn y broses o ddiweddarau ei sylfaen tystiolaeth economaidd a fydd yn cynnwys adolygiad mwy na thir cyflogaeth lleol ac asesiad o anghenion wedi'i gomisiynu ar y cyd â Chyngor Powys i ystyried

cyflenwi safleoedd cyflogaeth sy'n bodoli ac anghenion cyflenwi tir economaidd yn y dyfodol.

Ansawdd Bywyd

1.34 Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o berfformiad Dangosyddion Ansawdd Bywyd yr Adroddiad Monitro Blynyddol.

Dangosydd yr Adroddiad Monitro Blynyddol	Perfformiad								
	2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022
AMRQ01 – Colli Mannau Agored a Chyfleusterau	0	+	+	+	+	+	+	+	
AMRQ02 – Colli Safleoedd Tir Glas	0	0	0	0	0	0	0	0	
AMRQ03 – Ennill Mannau Agored	0	0	0	0	0	-	-	-	
AMRQ04 – Yr Amgylchedd a Bioamrywiaeth Leol	+	0	-	0	0	0	0	0	
AMRQ05 – Gwelliannau Amgylcheddol	-	-	0	+	0	0	0	0	
AMRQ06 – Seilwaith	?	?	+	+	+	+	+	+	
AMRQ07 – Lleihau Perygl Llifogydd	-	0	+	+	+	0	0	0	

Crynodeb Gweithredol

AMRQ08 – Capasiti MW gosodedig yn Ardal Chwilio Strategol (SSA) D Bydd y dangosydd monitro yn cael ei newid y flwyddyn fonitro nesaf i adlewyrchu darpariaethau Cymru'r Dyfodol	0	?	0	0	0	?	?	?	
AMRQ09 – Gwastraff	?	?	?	?	?	?	?	?	
AMRQ10 – Agregau	0	0	0	+	+	+	+	+	

1.35 Mae Dangosyddion AMRQ01, AMRQ06, AMRQ07 ac AMRQ10 yn dangos bod y targedau a nodwyd yn cael eu cyflawni. Mae targedau Dangosyddion AMRQ02, AMRQ03, AMRQ04 ac AMRQ05 yn cael eu cyflawni i ryw raddau, ac os nad yw'r targedau yn cael eu cyflawni nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithredu'r polisïau perthnasol. O ran y Dangosyddion AMRQ08 ac AMRQ09 ni ellir dod i unrhyw gasgliadau ar hyn o bryd.

Monitro Asesiadau Amgylcheddol Strategol (AAS)/Arfarniadau o Gynaliadwyedd (AG)

1.36 Mae'r Gyfarwydddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor fonitro cyflwr yr amgylchedd trwy fonitro'r amcanion cynaliadwyedd a nodir yn yr Adroddiad AAS/AG. Mae hyn yn rhan annatod o'r Adroddiad Monitro Blynyddol ac i'w weld yn Adran 5. Mae crynodeb o berfformiad amcanion a dangosyddion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd i'w weld yn Atodiad 2. Mae unrhyw newidiadau i'r fframwaith i'w gweld yn Atodiad 3. I grynhoi mae

gwaith monitro AAS/AG yn dangos newid cadarnhaol yn yr amgylchedd hyd yma yng nghyfnod y cynllun.

Casgliad ac Argymhellion

1.37 O ran Dangosyddion Tai'r CDLI, mae Adroddiad Monitro Blynyddol eleni yn parhau i ddangos peth symudiad cadarnhaol tuag at y targedau a nodwyd ar gyfer rhai dangosyddion, fodd bynnag, nid yw cyfradd y cynnydd mor gyflym ag y disgwyliwyd, ac erys pryder na fydd targedau cyfnod y cynllun yn cael eu cyflawni erbyn 2022. Fodd bynnag, fel y dywedwyd, mae hyn yn rhannol oherwydd amcanestyniadau diffygiol y boblogaeth y seiliwyd CDLI1 arnynt, ac felly mae'r hyn a gyflwynwyd yn debycach i'r gwir angen na'r hyn a gynlluniwyd ar ei gyfer, ac mewn newyddion cadarnhaol, rhagorwyd ar y targed Tai Fforddiadwy eto. Mae dangosyddion tai eraill yn tynnu sylw at yr angen am ymchwiliad pellach a thystiolaeth newydd sy'n dod i'r amlwg ac sy'n sail i'r adolygiad o'r CDLI ynghylch maint y safle a ddyrannwyd, newid yn y boblogaeth sy'n gysylltiedig â COVID-19, fforddiadwyedd tai a nawr cyfyngiadau Ffosffadau. O ran Dangosyddion Economi a Manwerthu ac Ansawdd Bywyd y CDLI, mae targedau naill ai'n cael eu cyflawni neu, os nad ydynt yn cael eu cyflawni, nid ydynt yn codi unrhyw bryderon o ran gweithredu'r polisi ar hyn o bryd, fodd bynnag, bu newidiadau strwythurol i'r stryd fawr yn amlwg cyn Covid ond o ganlyniad i'r pandemig gael eu cyflymu ac felly bydd gwaith yn parhau ar y ffordd orau i gefnogi'r stryd fawr ac addasrwydd ffryntiadau cynradd ac eilaidd ac effaith y newidiadau i lacio'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir a gyflwynwyd o ganlyniad i'r pandemig a sut y gellir adlewyrchu'r rhain orau yn y CDLI newydd. Ochr yn ochr â gwaith lleol ar effaith mesurau dros dro creu parth cerddwyr a gyflawnwyd i gefnogi pellter cymdeithasol a masnachu awyr agored.

2. Newidiadau Cyd-destunol Pwysig

- 2.1 Mae'r adran ganlynol yn ystyried y newidiadau cyd-destunol sydd wedi cael, neu a allai gael, ddylanwad ar weithredu'r CDLI, gan gynnwys polisi ac amodau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Deddfwriaeth, Polisi a Chyfarwyddyd Cenedlaethol

Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (Chwefror 2021)

- 2.2 Cyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021 mae Cymru'r Dyfodol, Cynllun Cenedlaethol 2040 wedi disodli Cynllun Gofodol Cymru fel yr haen uchaf o gynllunio datblygu yng Nghymru gan osod y fframwaith ar gyfer datblygu yng Nghymru hyd at 2040. Mae cynllun gofodol strategol Cymru'r Dyfodol yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol, gan gynnwys cynnal a datblygu economi fywiog, cyflawni datgarboneiddio a chydnerthedd yn yr hinsawdd, datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd a lles cymunedau. Mae'n ofynnol i Gynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau) gydymffurfio â Chymru'r Dyfodol.
- 2.3 Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi Sir Ceredigion fel rhan o ranbarth Canolbarth Cymru, ochr yn ochr â Phowys a mwyafrif Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Nodir yr ardal hon fel rhanbarth mwyaf gwledig Cymru gyda chrynoadau o aneddiadau lle'r Gymraeg yw'r iaith gyntaf i lawer o bobl. Mae'n bwysig bod CDLlau yn ystyried y berthynas rhwng tai strategol, trafndiaeth a thwf economaidd a'r Gymraeg, ac yn cynnwys hierarchaethau aneddiadau a pholisïau dosbarthu twf sy'n creu amodau i'r Gymraeg ffynnu a bod yn llewyrchus.
- 2.4 Mabwysiadwyd y cynllun cyfredol yng Ngheredigion yn 2013 ac fe'i gelwir yn CDLI1 (2007-2022) er bod y cynllun hwn wedi'i ddatblygu cyn Cymru'r Dyfodol, mae cynaliadwyedd wrth ei wraidd ac yn cyd-fynd â Chymru'r Dyfodol yn y ffyrdd a ganlyn. Mae CDLI1 yn ystyried effaith datblygu ar y Gymraeg o fewn Polisiau Strategol (S0) (Polisiau CDLI1 S01: Twf Cynaliadwy, S02: Datblygu mewn Canolfannau Gwasanaeth Trefol, S03: Datblygu mewn Canolfannau Gwasanaeth Gwledig, S04: Datblygu mewn 'Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau

Eraill,' ac S05: Tai Fforddiadwy.), Polisi Rheoli Datblygu 01: Rheoli Effeithiau Datblygu ar Gymunedau a'r Gymraeg, a DM08: Arwyddion Dwyieithog ac Enwau Lleodedd. Polisiâu Defnydd Tir (LU02-Gofynion Ynghylch Pob Datblygiad Preswyl, LU12- Cynlluniau cyflogaeth ar Safleoedd Heb eu Dyrannu ac LU22 Darpariaeth Gymunedol).

- 2.5 Nodir Aberystwyth a dyffryn Teifi gan gynnwys y trefi Llanbedr Pont Steffan, Llandysul ac Aberteifi yng Nghymru'r Dyfodol fel Ardaloedd Twf Rhanbarthol ar gyfer Ceredigion (Polisi 25 Ardaloedd Twf Rhanbarthol - Canolbarth Cymru). Mae hierarchaeth yr aneddiadau yn CDLI1 yn cydnabod rôl Aberystwyth fel anheddiad o bwysigrwydd Cenedlaethol a Rhanbarthol, ac mae'n nodi Canolfannau Gwasanaeth Trefol ymhellach gan gynnwys Llanbedr Pont Steffan, Llandysul ac Aberteifi fel ardaloedd lle dylid cynyddu tai a thwf economaidd i'r eithaf. Nod strategaeth yr aneddiadau yw canolbwyntio mwyafrif y twf mewn Canolfannau Gwasanaeth (Polisiâu S01, S02, S03 CDLI 1) Mae angen twf y tu allan i'r Canolfannau Gwasanaeth i gynnal cymunedau lleol bywiog a'r Gymraeg ac fe'i cefnogir trwy nodi 'Aneddiadau Cyswllt' a darpariaeth tai fforddiadwy a menter wledig leol. (Polisiâu S01, S04, S05 CDLI1).
- 2.6 Cefnogi'r economi wledig Ceredigion gan Bolisi 26 Cymru'r Dyfodol: Tyfu Economi Canolbarth Cymru a Pholisi 5: Cefnogi'r economi wledig. Mae'r rhain yn cyfeirio Cynlluniau Datblygu Lleol i ddatblygu polisiâu sy'n cefnogi mentrau gwledig traddodiadol amaethyddol ac ar y tir ac yn rhoi fframwaith i gefnogi arallgyfeirio a datblygu technolegau a sectorau arloesol a newydd sy'n dod i'r amlwg. Mae CDLI1 yn cefnogi economïau gwledig trwy ei bolisiâu Strategol (Polisiâu S01-S05 CDLI 1), a thrwy Bolisiâu Defnydd Tir ychwanegol (LU 1: Cynlluniau Cyflogaeth ar safleoedd a Ddyrannwyd LU21) sy'n cefnogi darparu economi wledig gynaliadwy ac amrywiol.
- 2.7 Rhoddir cefnogaeth i gymunedau gwledig Ceredigion gan gynnwys eu hiechyd a'u lles trwy Bolisi 4 Cymru'r Dyfodol Cefnogi Cymunedau Gwledig, sy'n nodi y dylai CDLIau nodi eu cymunedau gwledig, asesu eu hanghenion a nodi polisiâu i'w cefnogi. Mae angen i bolisiâu fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu cymunedau gwledig a dylent ystyried y rôl y mae marchnad newydd a thai fforddiadwy, cyfleoedd economaidd a gwasanaethau lleol yn ei darparu wrth

helpu i greu anheddiad mwy cynaliadwy. Mae CDLI 1 yn cefnogi cymunedau gwledig Ceredigion trwy bolisïau S01, S03, S04 ac S05 a pholisi Defnydd Tir, Cynlluniau Cyflogaeth LU12 ar Safleoedd Heb eu Dyrannu. Mae'r polisïau hyn yn gwella cynaliadwyedd ardaloedd gwledig trwy ddyrannu tai gan gynnwys tai fforddiadwy a chyfleoedd cyflogaeth o fewn Canolfannau Gwasanaeth Gwledig ac aneddiadau cyswllt. Mae polisïau Defnydd Tir yn LDP1 LU02 Gofynion Ynglŷn â Phob Datblygiad Preswyl, Darpariaeth Gymunedol LU22, a pholisi Rheoli Datblygu, DM01 yn cefnogi iechyd a lles a chynaliadwyedd cymunedau.

- 2.8 Mae Cymru'r Dyfodol yn tynnu sylw at yr angen i wella bioamrywiaeth, rhwydweithiau ecolegol cydnerth a darparu seilwaith gwyrdd fel rhan o ddatblygu cynaliadwy ym Mholisi 9: Rhwydweithiau Ecolegol Cydnerth a Seilwaith Gwyrdd, i fynd i'r afael ag argyfwng y Newid yn yr Hinsawdd a gweithio tuag at wyrddroi dirywiad bioamrywiaeth. Roedd CDLI 1 yn rhoi datblygu cynaliadwy wrth wraidd ei strategaeth, ac mae'n cael ei weithredu trwy bolisi S01. Mae polisïau penodol ar gyfer cydnerthedd ecolegol a bioamrywiaeth yn cael eu hystyried yn DM 14: Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol, DM 15: Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol, a DM20: Diogelu Coed, Gwrychoedd a Choetiroedd.
- 2.9 Ymdrinnir â datblygu ynni carbon isel ac ynni adnewyddadwy i fynd i'r afael ag anghenion ynni yn y dyfodol trwy Bolisïau Cymru'r Dyfodol 16: Rhwydweithiau Gwres, 17: Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel a Seilwaith Cysylltiedig a 18: Ardaloedd amlinellol Cymru'r Dyfodol yng Ngheredigion lle mae cyfleoedd ar gyfer ynni gwynt ac ardaloedd blaenoriaeth ar gyfer rhwydweithiau gwres ardal. Mae Aberystwyth wedi'i nodi yng Nghymru'r Dyfodol fel ardal flaenoriaeth rhwydwaith gwres ardal, ac mae sawl ardal yng Ngheredigion wedi'u rhag-asesu ar gyfer ynni gwynt. Mae CDLI 1 yn ystyried datblygiadau ynni adnewyddadwy trwy bolisïau Defnydd Tir, LU25: Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy, LU26: Ffermydd Gwynt Mawr a Chanolig eu Maint.
- 2.10 Er bod llawer o CDLI1 yn cyd-fynd yn dda â Chymru'r Dyfodol, mae yna feysydd lle mae gan CDLI1 a Chymru'r Dyfodol rai problemau o ran cydnawsedd ac mae'r rhain yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol;

- Er bod Cymru'r Dyfodol yn cydnabod pwysigrwydd Aberystwyth, Aberteifi, Llandysul a Llanbedr Pont Steffan nid yw'r 2 Ganolfan Gwasanaeth Trefol sy'n weddill yng Ngheredigion (Aberaeron a Thregaron) yn cael eu cydnabod yn ffurfiol fel ardaloedd ar gyfer twf. Felly bydd angen i CDLI2 ddangos pam fod yr aneddiadau hyn yn ardaloedd strategol a phwysig ar gyfer twf yng nghyd-destun Ceredigion.
- Mae 2 barth twf rhanbarthol wedi'u nodi yng Ngheredigion Aberystwyth a Chwm Teifi – fodd bynnag nid yw'r aneddiadau yn Nyffryn Teifi (ac eithrio ardaloedd llanw Aberteifi) yn rhai y gellir eu cyflawni ar hyn o bryd oherwydd y lefelau uchel o ffosffadau yn Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Teifi, ac mae hyn yn achosi pryder o ran sicrhau twf lleol wrth symud ymlaen. Ar hyn o bryd mae Cyngor Sir Ceredigion yn gweithio ochr yn ochr â'r Gweithgor Ffosffadau Cenedlaethol i ddod o hyd i atebion a mesurau lliniaru i ddatrys y broblem yn y cyfamser mae gwaith ffurfiol ar y cynllun newydd yn parhau i fod ar stop.
- Mae Cymru'r Dyfodol yn amlinellu gofyniad canllaw o ran tai ar gyfer rhanbarth Canolbarth Cymru yn 1800 o anheddau, mae'r ffigur hwn yn sylweddol is na'r hyn a gynlluniwyd ar gyfer y 3 awdurdod ac yn peri pryderon lleol sylweddol ynghylch ateb galw yn y dyfodol, yn enwedig o ystyried y twf rydym wedi'i weld mewn marchnadoedd gwledig mewn lleoliadau gwledig o ganlyniad i newidiadau strwythurol yn y gweithle.
- Mae Cymru'r Dyfodol yn cefnogi targed Tai Fforddiadwy o 61% ledled y rhanbarth, ond bydd angen mewnbwn a chymorth sylweddol o ran adnoddau gan Lywodraeth Cymru gan nad yw sawl Asesiad Hyfywedd Strategol wedi dangos dim gallu i ddarparu cartrefi fforddiadwy trwy enillion cynllunio y tu hwnt i 20% o unedau a hyd yn oed wedyn dim ond mewn ardaloedd hyfywedd uchel penodol yn y sir. Bellach mae hyn yn cael ei gymhlethu ymhellach gan Ffosffadau yn Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Teifi lle mae mesurau lliniaru ffosffadau yn gostus ac os mabwysiadir dull gweithredu 'datblygwr yn

talau' yna bydd hyfywedd bron yn ddim yn un o'r 2 barth twf rhanbarthol. Bydd angen pecyn cynhwysfawr o gymorth gan Lywodraeth Cymru i sicrhau'r cyflenwad o Dai Fforddiadwy i'r eithaf i'r lefel hon, oherwydd hyd yn oed ar ôl ystyried datblygiadau Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ledled y sir, nid yw'r nifer fwyaf o Dai Fforddiadwy a ddarparwyd wedi bod yn fwy na 30% o'r holl dai sy'n cael eu cyflenwi mewn unrhyw un flwyddyn.

- Dwysedd y datblygiadau – mae Cymru'r Dyfodol yn cefnogi dwysedd canllaw o 50 uned yr hectar mewn ardaloedd trefol. Fodd bynnag, mae hyn yn uwch na'r hyn sydd ei angen yn CDLI1 ac o ystyried natur wledig y sir gan gynnwys yr ardaloedd trefol 'lleol' mae'n annhebygol iawn y gellid cyflawni dwysedd o'r fath. Fodd bynnag, er mwyn mynd i'r afael â'r anghydawnsedd hwn, bydd dwyseddau yn cael eu hadolygu yn CDLI2 a'u diwygio yn unol â hynny, yn y cyfamser yn Aberystwyth lle bo hynny'n addas ac yn briodol, cefnogir dwyseddau uwch yng nghyfnod y cais cynllunio.
- Mae Cymru'r Dyfodol yn cefnogi gwelliannau bio-amrywiaeth sydd eu hangen ar bob datblygiad – ond yn ymarferol mae'n annhebygol y bydd hyn yn digwydd o ystyried y mathau amrywiol o geisiadau a geir. Felly mae angen arweiniad pellach yn amlinellu pa fathau penodol o geisiadau y mae hyn yn berthnasol iddynt, gan fod Awdurdodau Cynllunio Lleol yn dehongli'r canllaw yn wahanol.

2.11 Er y gallai fod rhai meysydd anghydawnsedd fel y nodwyd uchod, nid yw'r rhain yn anorchfygol o bell ffordd ac ar y cyfan mae CDLI1 yn parhau i ganolbwyntio ar ddatblygu Ceredigion yn gynaliadwy ac felly o'i ystyried yn gyfannol mae'n cydymffurfio â gofynion Cymru'r Dyfodol. Wrth baratoi CDLI2, gweithir trwy'r meysydd anghydawnsedd uchod, ac yn y cyfamser fel y mae gofynion polisi cenedlaethol, bydd Cymru'r Dyfodol yn cael blaenoriaeth dros bolisi lleol lle mae anghysondebau'n digwydd.

2.12 Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 (Chwefror 2021) Mae hwn yn ddiwygiad cyflawn o bolisi cynllunio cenedlaethol – yr ymateb cynllunio cenedlaethol i nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, gyda phwyslais ar greu

lleoedd, yn elfen allweddol i gyflawni dyheadau'r Ddeddf, gan gofleidio nodau statudol a ffyrdd o weithio ynghyd â rhoi cyfeiriad clir trwy'r diffiniad o egwyddorion cynllunio allweddol.

- 2.13 Mae Polisi Cynllunio Cymru a Chymru'r Dyfodol – y Cynllun Cenedlaethol 2040 gyda'i gilydd yn nodi sut y gall y system gynllunio ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol gyfrannu at ddarparu datblygu cynaliadwy a gwella lles cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol Cymru.
- 2.14 Y prif oblygiadau yw symud tuag at gymdeithas carbon isel, gydnerth, darparu swyddi diogel sy'n talu'n dda, ac adeiladu amgylcheddau sydd â chysylltiad da i bawb yng Nghymru sy'n gwella bywydau ac iechyd ac yn gwella lles. Mae'n darparu ar gyfer lleoedd cynhyrchiol a mentrus, lleoedd egniïol a chymdeithasol, a lleoedd naturiol a nodedig. Bydd ystyriaethau manwl ar gyfer dilyn yr agenda Llesiant a adlewyrchir ym Mholisi Cynllunio Cymru 11 diweddaraf yn cael eu hystyried wrth baratoi CDLI2.

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021

- 2.15 Cyflwynwyd rheoliadau ar gyfer cyflwyno Cyd-bwyllgorau Corfforedig a'u cylch gwaith sy'n cynnwys y rheoliadau a enwir uchod sy'n canolbwyntio ar Gynlluniau Datblygu Strategol. Er ei bod yn bwysig nodi iddynt gael eu cyflwyno nid ydynt i bob pwrpas yn dod i rym tan 2022, felly mae'r drafodaeth yn gyfyngedig yma, ac eithrio i ddweud bod gwaith yn parhau i fynd rhagddo gydag Phowys ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i osod y sylfaen ar gyfer cydweithio yn y dyfodol ar Gynllun Datblygu Strategol Canolbarth Cymru.

Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Cymru) 2002 (Y Gorchymyn Diwygio) Mawrth 2020

- 2.16 Mewn ymateb i'r heriau aruthrol a wynebwyd oherwydd COVID-19, gwnaed diwygiad i'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir), a ddaeth i rym ar 30 Mawrth 2020. Mae'r Gorchymyn Diwygio yn mewnosod Rhan 12A newydd (Datblygu Brys gan Awdurdodau Lleol) fel atodlen i'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir, sy'n caniatáu i awdurdodau lleol gyflawni rhai datblygiadau, fel y'u diffinnir gan adran 55 Deddf

Cynllunio Gwlad a Thref 1990, ar dir sy'n eiddo, ar brydles neu sy'n cael ei gynnal a'i gadw gan yr awdurdod lleol, at y dibenion canlynol:

- Atal argyfwng;
- Lleihau, rheoli neu liniaru effeithiau argyfwng;
- Cymryd camau eraill mewn cysylltiad ag argyfwng.

2.17 At y dibenion hyn, mae argyfwng yn ddigwyddiad neu'n sefyllfa sy'n bygwth difrod difrifol i les dynol mewn lle yn y Deyrnas Unedig, sy'n cynnwys pandemig COVID-19.

2.18 Mae'r datblygiad newydd yn ddarostyngedig i amodau sydd hefyd wedi'u nodi yn Rhan 12A newydd. Mae un o'r amodau yn cynnwys cyfyngu'r dyddiad cadw datblygiad o dan y rhan newydd hon i 12 mis, gan ddechrau ar y dyddiad y dechreuodd y datblygiad.

2.19 Yn ystod y flwyddyn adrodd roedd ymgynghoriadau cyhoeddedig gyda'r potensial i gael effaith ar y CDLI yn cynnwys:

- Llwybr Newydd: strategaeth drafnidiaeth newydd yng Nghymru. (Mawrth 2021, LIC)
- Diwygiadau i'r broses brynu orfodol. (Mawrth 2021, LIC)
- Sefydlu Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021. (Mawrth 2021, LIC)
- Datblygu'r sector ynni hydrogen yng Nghymru. (Mawrth 2021, LIC)

2.20 Cyhoeddwyd yr ymchwil, y polisi a'r canllawiau canlynol hefyd yn ystod y cyfnod monitor ac ar ddiwedd y cyfnod monitro ar gyfer 2019-2020:

- Coronafeirws (COVID-19): Paratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLI). (Mawrth 2020, LIC)
- Newidiadau i bolisi cynllunio a chanllawiau ar gyflenwi tai. (Mawrth 2020, LIC)
- Coronafeirws: canllawiau i awdurdodau cynllunio. (Mawrth 2020, LIC)
- Hawliau datblygu a ganiateir mewn argyfwng ar gyfer coronafeirws. (Mawrth 2020, LIC)

- Cymraeg 2050: Cynllun gweithredu strategaeth y Gymraeg 2020 i 2021. (Mawrth 2020, LIC)
- Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2020.(Mawrth 2020, LIC)
- Coronafeirws: hawliau datblygu a ganiateir newydd ar gyfer cyrff gwasanaeth iechyd (Ebrill 2020, LIC)
- Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2020. (Ebrill 2020, LIC)
- Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (cyfarfodydd) (Cymru) 2020. (Ebrill 2020, LIC)
- Coronafeirws (COVID-19); canllawiau wedi'u diweddarau i awdurdodau cynllunio. (Ebrill 2020, LIC)
- Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru: canllawiau gweithredu. (Mehafin 2020, LIC)
- Ffyniant i bawb: Cymru sy'n effro i'r hinsawdd: fframwaith monitro a gwerthuso. (Gorffennaf 2020, LIC)
- Polisi cynllunio: adferiad COVID-19. (Gorffennaf 2020, LIC)
- Cynllun Aer Glân i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach. (Awst 2020, LIC)
- Dyddiadau gorffen y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI): llythyr at awdurdodau lleol. (Medi 2020, LIC)
- Newidiadau i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (Rhag 2020, LIC)
- Newidiadau i Reoliadau Cynefinoedd 2017. (Ionawr 2021, LIC)
- Cynhyrchu ynni yng Nghymru: 2019 (Ionawr 2021, LIC)
- Mwy nag ailgylchu (Mawrth 2021, LIC)
- Ail gartrefi: datblygu polisiau newydd. (Mawrth 2021, LIC)
- Cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru: piblinell prosiect Mawrth 2021. (Mawrth 2021, LIC)

- Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru. (Mawrth 2021, LIC)
- Ymestyn hawliau datblygu a ganiateir mewn argyfwng ar gyfer coronafeirws. (Mawrth 2021, LIC)
- Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021. (Mawrth 2021, LIC)
- Cymraeg 2050: Cynllun gweithredu strategaeth y Gymraeg 2021 i 2022. (Mawrth 2021, LIC)
- Strategaeth gwefru cerbydau trydan yng Nghymru. (Mawrth 2021, LIC)
- Cynllun Cyflawni Carbon Isel 2: cynllun ymgysylltu (Mawrth 21, LIC)
- Rhandiroedd a thyfu bwyd yn y gymuned: canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol, cyngorau tref a chymuned. (Mawrth 2021, LIC)
- Cyngor Cynllunio Dros Dro Cyfoeth Naturiol Cymru i Awdurdodau Cynllunio Lleol ynghylch lefelau ffosffadau mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol yng Nghymru (Ionawr 2020)

Casgliad

2.21 Roedd Polisi a Chanllawiau Cenedlaethol a gyflwynwyd eleni (1^{af} Ebrill 2020 - 31ain Mawrth 2021) yn canolbwyntio i raddau helaeth ar bwerau a diwygiadau brys Covid 19 i ganiatáu i lywodraeth leol reoli'r argyfwng oedd yn dod i'r amlwg a chafwyd lluo o newidiadau i gefnogi'r ymateb i Covid. Wrth symud ymlaen bydd angen ail-werthuso rhai o'r offerynnau polisi newydd neu rai sydd wedi'u newid o ran eu heffeithiolrwydd hirdymor yn enwedig o ran newid defnydd a masnachu awyr agored ac a ddylent barhau am byth. Fel yr aeth y pandemig ymlaen ac wrth i ganllawiau a deddfwriaeth ddechrau mynd yn ôl i normal rhyddhawyd Cymru'r Dyfodol y Cynllun Cenedlaethol 2040 a Pholisi Cynllunio Cymru 11 wedi'i ddiweddarau. Mae'r rhain yn newid y dirwedd gynllunio yn sylweddol ac yn rhoi mwy o ffocws ar greu lleoedd. Byddant yn sylfaenol wrth lunio'r cynllun newydd a chynhaliwyd gwerthusiad trylwyr 'cyd-fynd â Dyfodol Cymru' a chyflwynwyd y canlyniadau uchod. Tua diwedd y flwyddyn fonitro

rhyddhaodd Cyfoeth Naturiol Cymru'r canllawiau cynllunio dros dro ar gyfer datblygiadau yn nalgylch Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol yng Nghymru. Mae hyn wedi cael effaith sylweddol yn lleol gyda 46% o arwynebedd tir Ceredigion wedi'i effeithio a thua 10,000 o aelwydydd. Mae gwaith yn parhau i ddarganfod sut y bydd hyn yn effeithio ar baratoi cynllun newydd ac fel llawer o awdurdodau yn rhanbarthol bydd angen i'r cynllun fynd yn ôl gamau i ystyried y cyngor newydd hwn.

Amodau Cenedlaethol

Tai

- 2.22 Mae data StatsCymru yn dangos bod nifer yr anheddau newydd a ddechreuodd yn genedlaethol yn ystod y cyfnod 2018-19 wedi gostwng gan 2% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol i 5,974 o anheddau ar draws Cymru. Gostyngodd nifer yr anheddau newydd a gwblhawyd gan 13% yn ystod 2018-19. Nid yw Stats Cymru wedi rhoi dim data blynyddol ar gyfer 2020-21 ar dai a gwblhawyd a deiliadaeth tai ([Adeiladu tai newydd \(llyw.cymru\)](#)) Yng Ngheredigion nid yw ffigurau'r tai a gwblhawyd ar gyfer 2020 – 2021 yn adlewyrchu'r gwir sefyllfa gan nad yw'r arolygon safle tai a gwblhawyd a chaniatadau sydd heb eu gweithredu wedi'u cwblhau fel arfer oherwydd Pandemig COVID-19.
- 2.23 Roedd Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn gyfrifol am y rhan fwyaf o unedau a gwblhawyd yn y sector cymdeithasol a chafodd 57 o anheddau newydd eu cwblhau gan yr Awdurdodau Lleol yn 2018-19. Roedd 78% o'r holl anheddau newydd a gwblhawyd yng Nghymru yn ystod 2018-19 yn eiddo 3 ystafell wely. Mae'r lefel leol yng Ngheredigion (84%) ychydig yn uwch na'r darlun cenedlaethol. Nid yw Stats Cymru wedi rhoi dim data blynyddol ar gyfer 2020-21 ar dai a gwblhawyd a deiliadaeth tai ([Adeiladu tai newydd \(llyw.cymru\)](#)).

Economi

2.24 Dangosodd Arolwg y Llafurlu a gyhoeddwyd ym mis Medi 2021 ar gyfer y cyfnod Ebrill 2020 – Mawrth 2021 yr amcangyfrifir ym mis Mawrth 2021 fod y gyfradd gyflogaeth yng Nghymru yn 72.2% o bobl 16-64 oed (1.5 miliwn o bobl) – i lawr 1.4 pwynt canran o'r y flwyddyn flaenorol ym mis Mawrth. Nifer y bobl a oedd yn economaidd anweithgar (16 -64 heb gynnwys myfyrwyr) yng Nghymru am y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020 oedd 351,700.

<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Labour-Market-Summary/annuallabourmarketsummary16to64-by-welshlocalareas-economicactivitystatus>

2.25 Mae'r sector cyhoeddus yn gyflogwr pwysig yng Nghymru gyda 30.7% (blwyddyn yn dod i ben Mawrth 2021) o bobl mewn cyflogaeth yn gweithio yn y sector cyhoeddus (2019), o'i gymharu â 28.5 (2019), 27.4% (2018), 25.9% (2017), 26.7% (2016) a 27.9% (2015). Er bod ychydig o gynnydd o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol, yn gyffredinol bu'r patrwm yn un o leihad ac ni chafwyd unrhyw newidiadau mawr yn swyddi'r gweithlu yn ôl diwydiant ers mabwysiadu'r cynllun yn 2013.

<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Employment/Persons-Employed/publicprivatesectoremployment-by-welshlocalauthority-status>

2.26 Yn ôl gwaith monitro Consortiwm Manwerthu Cymru, Monitro Nifer y Siopwyr a Siopau Gwag Springboard, mae cyfraddau siopwyr a siopau gwag, mae nifer y siopwyr a siopau gwag ledled Cymru wedi amrywio'n fawr dros y blynyddoedd diwethaf, gyda gostyngiad sylweddol yn nifer y siopwyr yn 2011 sy'n cyd-fynd â lefelau siopau gwag cyffredinol o fwy nag 13%. Ers hynny, cafwyd cynnydd dilynol sy'n fwy na'r hyn a welwyd trwy'r DU gyfan a gwelliant sylweddol yn nifer y siopwyr ar draws Cymru ers Gorffennaf 2013. Fodd bynnag, o ganlyniad i gyfnodau clo cenedlaethol ac effaith hyn ar y stryd fawr ni fyddai ystyried cyfraddau nifer yr ymwelwyr 2020-2021 yn gall o ystyried y pryderon cymhleth ac amrywiol ynghylch cadw pellter cymdeithasol, gwarchod a'r gofyniad i lawer o fusnesau aros ar gau yn ystod y cyfnod monitro hwn. Bydd yn hanfodol deall sut mae'r gofyniad i'r rhan fwyaf o siopa symud ar-lein yn ystod y pandemig yn

newid arferion manwerthu yn y blynyddoedd i ddod. Yn chwarter 1 yn 2021 roedd cyfraddau siopau gwag ledled Cymru yn 19% (WRC 2021) i bob pwrpas yn golygu bod 1 o bob 5 uned stryd fawr yn wag, er bod tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod masnachwyr annibynnol yn symud i'r stryd fawr ac rydym yn aros am fwy o ddata pendant ar gyfer y cyfnod monitro nesaf ac ar gyfer diwedd glo cynllun newydd.

2.27 O ran yr economi, mae'r darlun yn parhau'n debyg i Adroddiadau Monitro Blynyddol 2016-19, ond mae gwaith Tyfu Canolbarth Cymru, yn enwedig y sylfaen dystiolaeth, i nodi rhaglenni ymyrraeth, wedi nodi twf mewn cyflogaeth yn y sector swyddi o safon ac argaeledd tir cyflogaeth fel maes â blaenoriaeth, ochr yn ochr â chefnogi'r diwydiant uwch-dechnoleg a thechnoleg amaethyddol. Felly pan gaiff yr ymyraethau hyn eu gwireddu disgwylw'n weld mwy o ddefnydd o safleoedd cyflogaeth ac yn yr adolygiad byddwn yn ceisio cefnogi dyraniadau tir sy'n ategu'r rhaglen o ymyraethau. Mae asesiad o anghenion cyflogaeth a mangreoedd mwy na lleol wedi'i gomisiynu ar y cyd gan Bowys, Ceredigion a Llywodraeth Cymru wedi'i gyhoeddi, a bydd ei ganlyniadau yn llywio'r gwaith o baratoi'r Cynllun Adnau CDLI2.

Newidiadau Cyd-destun Cenedlaethol Eraill

Brexit

2.28 Daeth y cyfnod pontio ar gyfer Brexit i ben ar 31/12/2020

2.29 Er bod Brexit yn debygol o gael effeithiau ar yr economi dros y blynyddoedd i ddod, mae natur yr effeithiau hyn yn parhau i fod yn gyfnewidiol ac yn barhaus fel y gwelsom gyda phrinder y farchnad lafur, prinder bwyd, seilwaith cyflenwi wedi'i effeithio a phrisiau cynyddol. Daw'r effeithiau hyn yn gliriach dros amser a bydd hyn yn parhau i gael ei ystyried mewn perthynas â'r CDLI ac unrhyw adolygiad dilynol.

Pandemig Covid-19

2.30 Effeithiwyd ar y cyfnod monitro gan pandemig Covid 19 ledled y byd. Ni fydd effaith y pandemig ar yr economi yn wirioneddol hysbys am gryn amser. Bydd yr effeithiau ar Geredigion a'i thrigolion a'i busnesau yn cael eu monitro'n agos

hyd y gellir rhagweld. Gwyddom fod y pandemig wedi effeithio ar y farchnad dai yn lleol, gyda marchnad hynod fywiog a thystiolaeth anecdotaidd o fewnfudo sylweddol. Bu prinder llafur mewn rhai sectorau (eto nid yn benodol i Covid sy'n debygol o gael ei achosi gan brexit) ac rydym wedi gweld cadwyni rhyngwladol mwy yn tynnu allan o'n trefi gydag eiddo gwag yn difetha'r stryd fawr. Gan ein bod yn dal i fod yn y pandemig, mae'n anodd dweud ar hyn o bryd beth mae hyn yn ei olygu i'r monitro yn ogystal â'r cynllun newydd, ond mae tîm y CDLI yn parhau i gymryd rhan weithredol mewn ystyried sut i reoli'r newidiadau hyn ar gyfer y CDLI newydd.

Lefelau Ffosffad yn Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Teifi

- 2.31 Ni ellir tanddatgan effaith cyngor Cynllunio Dros Dro Ffosffadau Cyfoeth Naturiol Cymru a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021 ac a ddiweddarwyd ym mis Mai 2021 ar ddatblygiadau yng Ngheredigion. Er bod yr awdurdod yn ymwybodol o'u dyletswydd statudol fel yr awdurdod cymwys wrth wneud penderfyniadau yn hyn o beth, o gymharu ag awdurdodau eraill â phroblemau tebyg, rydym yn cael ein heffeithio'n anghymesur.
- 2.32 Maint dalgyloch yr Ardal Cadwraeth Arbennig ar draws Ceredigion sydd i bob pwrpas o dan embargo datblygu yw 806 km² sy'n cyfateb i 44.6% o gyfanswm arwynebedd tir y sir. Mae'n effeithio ar 3 o'n 6 prif anheddiad, gan gynrychioli'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy ar gyfer twf yn y dyfodol sef Tregaron, Llandysul a Llanbedr Pont Steffan, (mae Castellnewydd Emlyn wedi'i leoli yn Sir Gaerfyrddin) ac mae'n rhannol yn cyfyngu 4^{ydd} anheddiad Ceredigion; Aberteifi. Mae'r aneddiadau hyn yn cynnwys un o ddim ond 2 ardal dwf ranbarthol yn y sir fel y'i diffinnir yng Nghymru'r Dyfodol. Roedd Cynllun Cenedlaethol 2040 yn dwyn y teitl 'Parth Twf Cwm Teifi' ac ni ellir eu datblygu bellach.
- 2.33 O dan Gynllun Rheoli Asedau 7 (2020-2025) a Chynllun Rheoli Asedau (2026-2030) arfaethedig 8 gan Dwr Cymru Welsh Water ar eu Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff dim ond Tregaron sydd wedi'i threfnu i gyfleuster gael gwared â ffosffadau o bosibl gael ei osod yng Nghynllun Rheoli Asedau 8. Nid oes dim aneddiadau eraill yng Ngheredigion wedi'u nodi yn y cynlluniau ar hyn o bryd er bod cyfanswm o 47 anheddiad yn cael eu heffeithio ar hyn o bryd. Nid yw hyn yn rhoi dim sicrwydd y bydd atebion i'r embargo datblygu i'w cael yn y degawd i

ddod ar gyfer bron i 50% o Geredigion neu oddeutu 21,200 o drigolion a 9,600 o aelwydydd o ran y boblogaeth.

2.34 O ran y CDLI cyfredol, y twf a gynlluniwyd ar gyfer yr aneddiadau yr effeithiwyd arnynt oedd 572 o dai, a disgwyliid i 115 ohonynt fod yn Gartrefi Fforddiadwy wedi'u gwasgaru dros 14 o ddyraniadau (24% o'r holl ddyraniadau tai). Bellach mae 7 safle cyflogaeth a defnydd cymysg pellach yn cael eu heffeithio eto gan gynrychioli hyd at draean o ddatblygiadau o'r fath ledled y sir. Mae yna fwy na 50 o geisiadau cynllunio 'yn sownd yn y system' sy'n cynrychioli o leiaf 55 cartref newydd posib a sawl datblygiad masnachol. Er ei bod yn gyfleus gweld y rhain fel rhifau yn unig, maent mewn gwirionedd yn cynrychioli gobeithion a breuddwydion nifer o drigolion Ceredigion a oedd ymhlith eraill yn;

- Gyplau ifanc a oedd wedi bod yn cynilo ac yn gweithio tuag at adeiladu eu cartref eu hunain yn byw mewn tai cyfyng ac anaddas yn y cyfamser bellach yn ansicr o'u dyfodol yn lleol.
- Entrepreneuriaid yn adeiladu incwm a swyddi trwy fenter leol eu bywoliaeth bellach mewn perygl gan na allant ddechrau nac ehangu'r fenter yr oeddent wedi gweithio mor galed tuag ati, mae rhai bellach yn ystyried symud y tu allan i Gwm Teifi gan fynd â'r incwm mawr ei angen gyda nhw.
- Ffermwyr sydd wedi bod yn gweithio ar brosiectau arallgyfeirio fferm ers misoedd yn chwilio am ffyrdd newydd o gadw eu fferm genedliadol i fynd bellach ddim yn gallu gwireddu eu huchelgeisiau ac o bosibl achosi pryderon sylweddol i gyllid y fferm yn y dyfodol.

2.35 Er bod y CDLI yn mynegi'r weledigaeth strategol ar gyfer y sir yn ofodol, mae llawer o brosiectau'r cyngor ei hun yn y fantol, gan gynnwys Canolfan Gofal integredig Cylch Caron sy'n debygol o fod angen cais cynllunio newydd ac felly bydd yr embargo yn ei ddal. Ar ben hynny, efallai na fydd grant Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru ei hun yn cael ei wireddu'n llawn yng Ngheredigion gan nad yw nifer o brosiectau posibl a phrosiectau a ddyrannwyd yn gallu symud ymlaen. Gan gynnwys y rhai a weinyddir gan yr Awdurdod Lleol ar gyfer adfywio eiddo canol tref a'u haddasu i'w defnyddio ar gyfer pwrpas gwahanol; egwyddor ganolog o ddull gweithredu'r Cynllun Datblygu Cenedlaethol 'Canol

Trefi yn Gyntaf'. Yma yng Ngheredigion ni fyddwn yn gallu cyfleu daliadau canolog polisi cenedlaethol, gan y bydd yn rhaid cyfeirio twf allan o ganol trefi ac i ffwrdd o'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy ac o'r ardaloedd twf rhanbarthol a ddynodwyd yn genedlaethol.

- 2.36 Rhagwelir y bydd y CDLI newydd yn awr yn cael ei oedi'n sylweddol gan fod angen ailasesu'n llwyr y Strategaeth flaenorol a Ffebrir. Ar ben hynny, wrth baratoi cynllun newydd, rhaid iddo ddiwallu anghenion y sir gyfan ac nid yn unig 55.4% ohoni, fel arall ni fydd y cynllun yn cwrdd â'r profion cadernid wrth archwilio. Bydd hyn yn cael effaith ar fonitro, argaeledd tir a thwf economaidd wrth symud ymlaen, a gallai o bosibl ohirio datblygiad y Cynllun Datblygu Strategol ac ymgorffori gweledigaeth y bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru mewn cynllun gofodol.

Polisi ac Amodau Rhanbarthol

Awdurdodau Cyfagos a Gweithio ar y Cyd

- 2.37 Mabwysiadwyd CDLI newydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ar 30/09/2020, mabwysiadodd Cyngor Sir Penfro a Chyngor Sir Caerfyrddin CDLlau yn 2010, 2013 a 2014 yn y drefn honno. Mae Cyngor Sir Penfro, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Chyngor Sir Caerfyrddin i gyd wedi dechrau diwygio'r Cynlluniau. Fodd bynnag, mae eu CDLlau newydd bellach ar stop oherwydd y problemau Ffosffadau uchod mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol ac mae'n debygol y bydd angen iddynt ddisgyn yn ôl i gamau cynharach y cynllun i ystyried y newidiadau sydd eu hangen. Mae'r Cynlluniau Datblygu Lleol ar gyfer Powys ac ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn (Cynllun ar y Cyd) wedi cael eu mabwysiadu, mae Powys yn bwriadu dechrau paratoi cynllun newydd yn 2022.
- 2.38 Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi cymryd rhan ym mhrosesau llunio cynllun pob awdurdod cyfagos, ac roedd yr awdurdodau hynny wedi cyfrannu at CDLI Ceredigion i sicrhau cyfatebiaeth drawsffiniol. Yn dilyn llythyr a dderbyniwyd gan yr Ysgrifennydd Cabinet yn gofyn i'r awdurdodau ystyried gweithio ar y cyd a'r cyfarfodydd dilynol a gynhaliwyd i drafod hyn, mae Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i nodi cyfleoedd i gydweithredu'n rhanbarthol ar draws ffiniau fel y bo'n briodol. Ar hyn o bryd mae Ceredigion yn gweithio ar y cyd â sawl awdurdod

cyfagos ar gyd-gomisiynu, Asesiad Hyfywedd Strategol a sawl prosiect llai / darn o dystiolaeth arall lle y ceir cyfle i weithio ar draws ffiniau. Cyhoeddwyd dwy ddogfen a luniwyd trwy gydweithio'n rhanbarthol yn ystod y cyfnod monitro:

- Astudiaeth Cyflogaeth Fwy na Lleol: Rhanbarth Canolbarth Cymru Safleoedd Cyflogaeth Anghenion Safleoedd a Chynllun Gweithredu – Powys, Ceredigion a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (Ebrill 2020)

Mae'r adroddiad yn canfod bod economi Canolbarth Cymru ar ei hôl hi o gyfartaleddau Cymru a'r DU ac mae disgwyl i hyn barhau os na chymerir dim camau. Mae rhagolygon sylfaenol yn awgrymu y bydd economi Cymru ar fin tyfu o 24,000 o swyddi hyd at 2040, ond rhagwelir y bydd Canolbarth Cymru yn crebachu o tua 3,400 o swyddi. Felly mae'n hanfodol bod camau cryf yn cael eu symud ymlaen yn ddefnyddiol ar lefel fwy na lleol i gefnogi twf cyflogaeth yn y rhanbarth, trwy ymyriadau yn y farchnad eiddo sydd wedi'i chyfyngu ar hyn o bryd i yrru datblygiad sydd wedi'i gynllunio i ddiwallu anghenion cyfoes y farchnad ar safleoedd cyflogaeth mewn lleoliadau strategol a thrwy gefnogaeth ehangach i sectorau allweddol. Paratowyd Cynllun Gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr ymyriadau sy'n angenrheidiol, ac mae Achosion Busnes Amlinellol wedi'u paratoi i gefnogi a hyrwyddo'r agenda ar gyfer ymyriadau cadarnhaol.

Gorffennwyd yr adroddiadau cyn COVID a dylid eu gweld yng nghydestun dull gweithredu strategol cyffredinol a chynnydd cyffredinol y Weledigaeth ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru.

- Asesiad Marchnad Tai Lleol Rhanbarthol Casgliadau allweddol yr adroddiad ar gyfer Ceredigion yw rhwng 2018 – 2033:
 - Rhagwelir y bydd nifer yr Aelwydydd yng Ngheredigion yn cynyddu 2,216.
 - Angen 2,548 o anheddau

- Dylai 28% (725) o'r anheddau sydd eu hangen fod yn gartrefi fforddiadwy, dylai 72% (1,823) fod yn dai marchnad agored
- Dylai 64% o gartrefi fforddiadwy fod ar rent cymdeithasol. Mae galw am hyd at 36% i fod yn ddeiliadaethau Canolraddol
- O ran gofynion ystafell wely, yr angen mwyaf am dai marchnad yw eiddo 3 ystafell wely, ond yr angen mwyaf am dai fforddiadwy yw am eiddo 2 ystafell wely.
- Bydd galw am 1,050 o dai i bobl hŷn.
- Bydd angen tai wedi'u haddasu ar gyfer 2,072 (min) a 5,696 (max) o aelwydydd.
- Bydd angen tai wedi'u haddasu ar gyfer Cadair Olwyn ar 130 o aelwydydd.

2.39 Mae partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru yn parhau i geisio darparu ffocws ac arweinyddion strategol ar gyfer datblygu economaidd yn ardaloedd Powys a Cheredigion ers ei sefydlu yn 2015. Mae Trafnidiaeth Canolbarth Cymru (Trac) wedi ymuno â'r bartneriaeth a bydd yn parhau i weithredu fel Grŵp Seilwaith a Chysylltedd Canolbarth Cymru er mwyn cyfateb gweithgarwch cynllunio trafndiaeth strategol â gwaith partneriaeth i amrywio'r sylfaen economaidd, cefnogi a chryfhau'r sylfaen economaidd, creu swyddi a chyfleoedd newydd, datblygu sgiliau'r gweithle a gwella hygyrchedd a seilwaith cyfathrebu. Mae ymarfer casglu tystiolaeth yn parhau gydag AECOM yn gweithredu fel ymgynghorwyr i nodi rhaglenni o ymyraethau yn seiliedig ar dystiolaeth.

2.40 Mae Polisi Rhanbarthol ac amodau a gyflwynwyd eleni wedi newid cyd-destun y cynllun yn sylweddol yng Ngheredigion ac mewn awdurdodau cyfagos. Mae goblygiadau sy'n ymwneud â Brexit, Covid 19 a'r newidiadau strwythurol sydd wedi dilyn o ganlyniad a chanllawiau Ffosffadau gan Gyfoeth Naturiol Cymru wedi creu heriau sylweddol i CDLlau ac wedi arwain at oedi i'r mwyafrif o CDLlau yn rhanbarthol bydd angen gwaith helaeth pellach i ddeall cyd-destun llawn beth mae hyn yn ei olygu i waith diwygio'r CDLI sy'n mynd rhagddo.

Polisi ac Amodau Lleol

Data Poblogaeth ac Aelwydydd

2.41 Mae twf yn y boblogaeth yng Ngheredigion yn gyfan gwbl yn gynnyrch mewnfudo net ac mae'n sensitif iawn i ffactorau lleol, megis newidiadau yng nghofrestriad myfyrwyr addysg uwch a thueddiadau ymfudo eraill. Mae amcanestyniad is-genedlaethol y boblogaeth ar gyfer 2018 i 2043 a ryddhawyd ym mis Chwefror 2020 (Gweler AMRH01), yn awgrymu y bydd poblogaeth Ceredigion yn gostwng 3.3% i oddeutu 70,600 yn 2028. Fodd bynnag, nid yw effaith newidiadau strwythurol sy'n deillio o bandemig Covid 19 wedi cael ei chynnwys yn y fath ddiwygiadau, felly mae peth amwysedd yn bodoli o ran sut y gall newid yn y boblogaeth barhau yng Ngheredigion.

Tai

2.42 Yn y cyd-destun ariannol a gwleidyddol ansicr sydd ohoni, mae'n amhosib gwahaniaethu rhwng effeithiau newidiadau mewn methodoleg a'r newidiadau yn y tueddiadau sylfaenol, megis mwy o symudiad tuag at y canolfannau trefol ac i ffwrdd o'r ardaloedd gwledig neu i'r gwrthwyneb o ganlyniad i fwy o hyblygrwydd o ran gweithio gartref o ganlyniad i'r pandemig. Nid yw dirywiad bach yn y boblogaeth yn arwain at lai o aelwydydd o reidrwydd, ond wrth i'r boblogaeth heneiddio mae'n debygol y bydd mwy o gam-gyfateb rhwng anghenion a'r mathau o anheddau sydd ar gael. Y prif faterion yn ymwneud â chyflenwi tai sy'n berthnasol i Geredigion ar wahân i'r tueddiadau yn y boblogaeth yw bod diffyg cyffredinol mewn cyflenwi ar draws Cymru, gan gynnwys Ceredigion, gyda'r broblem ychwanegol o ddiffyg adeiladwyr nifer fawr o dai yn yr ardal leol a hyfywedd gwael yn gyffredinol, yn enwedig yn yr ardaloedd mewndirol a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar barth Twf rhanbarthol Teifi gan ei fod bellach wedi'i gyfyngu gan ffosffadau ac mae datblygwr sy'n talu am ateb i liniaru ffosffadau yn annhebygol o fod yn hyfyw.

Addysg

2.43 Nid oes unrhyw ysgolion newydd wedi agor eleni a dim ysgolion wedi cau.

Newidiadau Cyd-destunol Pwysig

2.44 Mae ysgolion newydd ac ysgolion sy'n cau a'r goblygiadau ar gyfer strategaeth ddatblygu'r CDLI yn cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad o'r CDLI.

2.45 Mae Polisi ac amodau lleol a gyflwynwyd eleni wedi arwain at newidiadau sylweddol yng nghyd-destun y cynllun ac mae angen gwaith pellach i ddeall yr effeithiau wrth symud ymlaen. Caiff unrhyw newidiadau y mae angen eu gwneud i'r cynllun eu hystyried fel rhan o'r CDLI newydd.

3. Dadansoddiad o ddangosyddion Craidd a Lleol

- 3.1 Mae dangosyddion, targedau a lefelau ysgogyddion wedi cael eu nodi er mwyn asesu perfformiad polisiâu ac amcanion. Bydd yr ysgogyddion sydd wedi'u cynnwys yn y drefn monitro yn rhoi arwydd cynnar o berfformiad y cynllun ac o bosibl hyd a lled yr adolygiad o'r cynllun.
- 3.2 Fel cymorth gweledol wrth fonitro effeithiolrwydd polisiâu ac er mwyn rhoi trosolwg o berfformiad, mae dangosyddion allweddol a chanlyniadau'n cael eu dangos fel a ganlyn.

Arwyddocâd perfformiad	Disgrifiad
+	Mae'r targedau'n cael eu cyflawni.
?	Nid oes modd dod i unrhyw gasgliad ar hyn o bryd.
0	Nid yw'r targedau wedi cael eu cyflawni ond nid oes pryderon ynghylch gweithredu'r polisi / polisiâu.
-	Nid yw'r targedau'n cael eu cyflawni ac mae pryderon ynghylch gweithredu'r polisi / polisiâu.
Amh	Amherthnasol mwyach.

Gweithredoedd Monitro

Parhau i fonitro

Mae polisïau'r cynllun datblygu'n cael eu gweithredu'n effeithiol.

Angen hyfforddiant

Nid yw polisïau'r cynllun datblygu'n cael eu gweithredu fel y bwriadwyd ac mae angen hyfforddiant i swyddogion neu Aelodau.

Angen Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA)

Nid yw polisïau'r cynllun datblygu'n cael eu gweithredu'n ôl y bwriad ac mae angen canllawiau pellach, a pharatoi CCA ychwanegol o bosib.

Angen ymchwilio/gwaith ymchwil pellach

Nid yw polisïau'r cynllun datblygu'n cael eu gweithredu fel y bwriadwyd ac mae angen gwaith ymchwil a/neu ymchwilio pellach.

Angen adolygiad polisi

Nid yw polisïau'r cynllun datblygu'n cael eu gweithredu ac nid ydynt yn llwyddo i gyflawni; efallai y bydd angen adolygu'r polisi penodol.

Adolygu'r Cynllun

Nid yw polisïau'r cynllun datblygu'n cael eu gweithredu ac nid yw strategaeth y cynllun yn cael ei chyflawni, gan sbarduno adolygiad ffurfiol cyn yr adolygiad pedair blynedd statudol.

3.3 Sbardunwyd adolygiad y cynllun yn 2016 ar ôl y 3^{ydd} Adroddiad Monitro Blynyddol, felly efallai na fydd y camau monitro uchod yn berthnasol.

Tai

Cyfeirnod Monitro:		AMRH01		
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:		Newid yn y Boblogaeth		
Y Polisiau a Gaiff eu Monitro:		S01		
Lefel:		Lleol		
Pryd:		Bob 5 mlynedd		
Ffynhonnell:		Cyngor Sir Ceredigion (CSC) o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a data arall		
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Bydd newid yn y boblogaeth yn y sir dros gyfnod y CDLI yn cyd-fynd yn fras â'r newid a oedd wedi ei ddarogan ar sail yr	Niferoedd cyffredinol y boblogaeth; Y rhai sydd mewn addysg uwch ac nad ydynt mewn addysg uwch; Ymfudo cyfartalog net.	Gwneir dadansoddiad llawn o'r newid yn y boblogaeth gan gynnwys amcanestyniadau newydd bob pum mlynedd o gyfnod y cynllun. Caiff y newid yn y boblogaeth ei	Mae mesurau amrywiol o dwf yn y boblogaeth yn dangos tuedd ar y lawr yn gyffredinol o ran twf yn y boblogaeth ar gyfer Ceredigion o'i gymharu â'r	Gostyngiad amcanol yn y boblogaeth gyffredinol a gostyngiad cyfatebol yn angen aelwydydd.

<p>amcanestyniadau o'r boblogaeth.</p>		<p>asesu ynghyd â'r dystiolaeth sydd ar gael ynghylch y newid yn nifer yr aelwydydd, ac ystyrir yr wybodaeth ddemograffig hon yn ôl amcanion polisi'r CDLI i weld a oes angen cymryd camau neilltuol.</p>	<p>ffigurau a gafodd eu rhyddhau'n flaenorol.</p>	
<p>Dadansoddiad</p> <p>Mae'r prif amcanestyniad poblogaeth a tai diweddaraf yn seiliedig ar ddata 2018 yn awgrymu y bydd poblogaeth Ceredigion yn gostwng gan oddeutu 4,250 o bobl rhwng 2018 a 2037, o 72,992 i 68,745, gyda gostyngiad cyfatebol yn nifer yr aelwydydd o oddeutu 4,500. Mae'r amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2018 yn adlewyrchu gwrthdroad yn y duedd ddemograffig o'i gymharu â'r set yn seiliedig ar 2014, a awgrymodd dwf oddeutu 5,400 o bobl a 2,800 o aelwydydd rhwng 2017 a 2037, o 76,000 i 81,500. Yn nodedig, gwnaed newid i fethodoleg yr amcanestyniadau yn seiliedig ar 2018, mae ymfudo mewnol (DU) bellach wedi'i seilio ar gyfraddau ymfudo yn hytrach na niferoedd sefydlog, a allai fod wedi cyfrannu at ostyngiad bach yn y boblogaeth a ddangosir yn amcanestyniadau'r boblogaeth. Mae'r amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2018 yn adlewyrchu'r duedd ar i lawr yn ddiweddar yn y Fodd bynnag, mae'r gyfres ddiweddaraf o Amcangyfrifon Canol Blwyddyn yn awgrymu bod poblogaeth y sir wedi gostwng i 72,895</p>				

yn 2020 o'i uchafswm poblogaeth o 76,000 yn 2012. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i ostyngiad yn nifer y myfyrwyr mewn addysg uwch yn y sir.

Mae amcangyfrifon Llywodraeth Cymru o aelwydydd yn dangos dirywiad mwy graddol o'r uchafswm a welwyd yn 2012-13 o 31,700 i 31,200 yn 2019 sy'n adlewyrchu cynnydd graddol yn nifer yr aelwydydd person sengl a gostyngiad araf cyffredinol ym maint aelwydydd. Nid yw dirywiad bach yn y boblogaeth o reidrwydd yn arwain at lai o aelwydydd ond, wrth i'r boblogaeth heneiddio, mae'n debygol y bydd llai o gyd-fynd rhwng ei anghenion a'r mathau o anheddau sydd ar gael. Mae'r dehongliad o'r amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2018 yn awgrymu ei bod yn debygol y bydd angen is am dai, ac o ganlyniad galw is am anheddau newydd y byddai angen eu hystyried yn natblygiad y CDLI 2.

Gan ddefnyddio 2018 i 2033 fel y cyfnod sylfaen, dangosir effeithiau'r newid mewn niferoedd ar gyfer amcanestyniadau o'r boblogaeth yn y ffigur isod.

Cymharu'r prif amcanestyniadau ar gyfer blynyddoedd sylfaen gwahanol ar gyfer gweddill cyfnod y CDLI (2017-2022).

Blwyddyn sylfaen amcanestyniad o aelwydydd	Nifer yr aelwydydd yn 2018	Nifer yr aelwydydd yn 2033	Nifer yr aelwydydd ychwanegol
2011	32,422	33,898	1,476
2014	32,332	34,538	2,206
2018	31,190	30,719	471

Mae twf yn y boblogaeth yng Ngheredigion yn ganlyniad i fewnfudo net ac yn hynod o sensitif i ffactorau lleol, megis newidiadau yn nifer y myfyrwyr addysg uwch sy'n cofrestru a'r tueddiadau mudo. Yn y cyd-destun ariannol a gwleidyddol ansicr sydd ohoni, mae'n anodd iawn gwahaniaethu rhwng effeithiau newidiadau mewn methodoleg o ran cynhyrchu'r Amcangyfrifon Canol Blwyddyn a'r amcanestyniad poblogaeth or newidiadau yn y tueddiadau sylfaenol. Er enghraifft, mae'n debygol y bydd y pandemig covid-19 wedi effeithio ar batrymau lleol o ran poblogaeth a mudo oherwydd newidiadau mewn symudedd, arferion gweithio o bell a chynnydd yn y dymunoldeb i fyw mewn ardaloedd gwledig. Mae Llywodraeth Cymru yn tueddu i gyhoeddi eu hamcanestyniadau is-genedlaethol o ran y boblogaeth bob dwy flynedd, fodd bynnag, nid ydynt yn bwriadu cynhyrchu ar sail 2020 yn hydref 2021, gan fod disgwyl canlyniadau cyntaf Cyfrifiad 2021 yng ngwanwyn 2022. Bydd y rownd nesaf o amcanestyniadau is-genedlaethol y boblogaeth yn seiliedig ar 2021 a bydd yn defnyddio'r boblogaeth sylfaen wedi'i diweddarau o Gyfrifiad 2021. Mae'n bwysig nodi, er bod yr

amcanestyniadau'n seiliedig ar yr amcangyfrifon gorau o faint y boblogaeth a strwythur oedran ar yr adeg y cawsant eu gwneud, mae'r amcangyfrifon hyn yn tueddu i gronni gwallau po bellaf y cânt eu gwneud o'r Cyfrifiad blaenorol. Felly bydd canlyniadau'r Cyfrifiad yn 2022 yn rhoi darlun cliriach a yw'r dirywiad a ragwelir yn y boblogaeth yng Ngheredigion yn gywir ac yn unol â'r Amcangyfrifon Canol-Blwyddyn. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y cynhaliwyd cyfrifiad 2021 mewn cyfnod o argyfwng cenedlaethol pan oedd symudedd a gofynion newid tai yn effeithio ar nifer o ardaloedd yn enwedig ardaloedd arfordirol gwledig wrth i ni weld ffoi o ardaloedd trefol oherwydd arferion gwaith newidiol a gweithio o bell yn dod yn norm. Felly o safbwynt Ceredigion efallai y bydd cryn amser cyn y gallwn ddibynnu ar gywirdeb amcanestyniadau tai yn sylwi'n realistig ar arlliwiau ffactorau o'r fath.

Os yw'r patrwm hwn o leihad yn y boblogaeth yn batrwm real, efallai mai mentrau megis Tyfu Canolbarth Cymru fydd y dull gorau o wrthdroi'r patrwm hwnnw.

Casgliadau

Mae'n anodd iawn dadbwytho sut y bydd y newidiadau methodolegol yn amcangyfrifon ac amcanestyniadau'r boblogaeth, Brexit a'r coronafeirws yn effeithio ar niferoedd y boblogaeth yng Ngheredigion. Fodd bynnag, bydd y dirywiad sylweddol a ragwelir yn y boblogaeth a thwf aelwydydd a ddangosir yn amcangyfrifon ac amcanestyniadau diweddar y boblogaeth yn rhan annatod o ddatblygiad y CDLI 2 tra bo casglu tystiolaeth yn lleol ac yn rhanbarthol yn parhau i ddadbwytho'r ffactorau sy'n effeithio ar boblogaeth y sir.

Dadansoddiad o ddangosyddion Craidd a Lleol

Cyfeirnod Monitro:	AMRH02			
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:	Y Strategaeth Anheddu ledled y Sir			
Y Polisiau a Gaiff eu Monitro:	S01 – S04			
Lefel:	Lleol			
Pryd:	Yn flynyddol			
Ffynhonnell:	Cyngor Sir Ceredigion (CSC)			
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Unedau a gwblhawyd ac ymrwymadau ledled y sir erbyn diwedd cyfnod y cynllun:	O'r dyddiad mabwysiadu dylai cymhareb yr unedau a gwblhawyd a'r ymrwymadau ledled y sir gyfan fod yn dynesu at y rhaniad canrannol a geisir	O'r dyddiad mabwysiadu dylai cymhareb yr unedau a gwblhawyd a'r ymrwymadau ledled y sir gyfan fod yn dynesu at y rhaniad canrannol a geisir ledled y sir	O ddyddiad mabwysiadu'r cynllun (25 Ebrill 2013) cymhareb yr ymrwymadau ar draws y sir gyfan yw:	-
			<ul style="list-style-type: none"> • Canolfannau Gwasanaethau Trefol: 40% 	

<p>O leiaf 51% yn y Canolfannau Gwasanaethau Trefol; 24% yn y Canolfannau Gwasanaethau Gwledig; ac Uchafswm o 25% yn yr 'Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill' a dim mwy na 1522 o unedau ar y mwyaf.</p>	<p>ledled y sir erbyn diwedd cyfnod y cynllun.</p>	<p>erbyn diwedd cyfnod y cynllun.</p> <p>Os na fydd y rhaniad canrannol blynyddol yn symud tuag at yr hyn a geisir ledled y sir mewn unrhyw flwyddyn yng nghyfnod y cynllun, cynhelir ymchwiliad i'r rhesymau dros hynny. Os nad oes cyfiawnhad dros y rhesymau yna ystyrir cymryd camau fel bo angen.</p> <p>Oherwydd y cesglir gwybodaeth ar lefel y Grwpiau Aneddiadau bydd yn bosibl nodi ai eithriadau daearyddol (er enghraifft, os yw pob un o'r Grwpiau Aneddiadau yn symud tuag at</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Canolfannau Gwasanaethau Gwledig: 26% • Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill: 34% 	
			<p>O'r dyddiad mabwysiadu (25 Ebrill 2013) cymhareb yr unedau a gwblhawyd ar draws y sir gyfan yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Canolfannau Gwasanaethau Trefol: 41% • Canolfannau Gwasanaethau Gwledig: 16%; • Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill: 43% 	

		y balans a geisir heblaw am un neu ddau o eithriadau) sy'n peri nad yw'r balans yn cael ei gyflawni ledled y sir.	Sylwch: efallai nad yw canrannau yn rhoi cyfanswm oherwydd talgrynnu.	
<p>Dadansoddiad</p> <p>Strategaeth y CDLI yw ailffocysu twf i Ganolfannau Gwasanaethu a phwrpas y dangosydd hwn yw mesur effeithiolrwydd cyflenwi datblygiad yn unol â strategaeth aneddiadau. Mae canlyniadau 2021 yn dangos nad yw rhaniad canrannol yr ymrwymadau yn 40:26:34 yn gyson â'r targed a nodwyd o 51:24:25. Mae'r rhaniad canrannol wedi aros yn ei unfan am yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gan symud pwynt canran neu fwy rhwng pob math o anheddiad. O ran tai a gwblhawyd, mae'r gymhareb wedi aros yn weddol sefydlog. Mae niferoedd tai a gwblhawyd wedi lleihau ers dechrau cyfnod y cynllun sy'n adlewyrchu rhan o ddarlun cenedlaethol ehangach o lai o dai a gwblhawyd, sydd wedi'i waethygu ymhellach eleni gan gyfyngiadau COVID 19, gan na roddodd Grŵp Rheoli Aur Cyngor Sir Ceredigion ganiatâd i'r Tîm Ymchwil wneud hynny cynnal yr arolwg Tai a Gwblhawyd yn Flynyddol yn yr un fformat ag arfer.</p> <p>O'i fesur ers adeg mabwysiadu'r cynllun (a dechrau'r cynllun), mae rhaniad canrannol yr unedau a gwblhawyd (Trefol; Gwledig; Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill) wedi newid ychydig ond ni ddangosir unrhyw newid sylweddol yn y gymhareb.</p> <p>Mae'r tabl canlynol yn crynhoi perfformiad yn erbyn y dangosydd wedi'i fesur ers dechrau'r cynllun ac ers mabwysiadu'r cynllun ar gyfer ymrwymadau ac unedau a gwblhawyd.</p>				

Ymrwymiadau		
Adroddiad Monitro Blynyddol	Perfformiad wedi'i fesur ers dechrau'r cynllun (01/04/2007)	Perfformiad wedi'i fesur ers mabwysiadu'r cynllun (25/04/2013)
2014	42:15:43	40:30:30
2015	42:16:42	42:23:35
2016	44:18:39	50:25:25
2017	45:17:38	52:21:26
2018	44:18:38	47:24:29
2019	43:17:40	44:25:31
2020	41:18:41	41:24:35
2021	40:19:40	40:26:34
Cwblhawyd		
Adroddiad Monitro Blynyddol	Perfformiad wedi'i fesur ers dechrau'r cynllun (01/04/2007)	Perfformiad wedi'i fesur ers mabwysiadu'r cynllun (25/04/2013)

Dadansoddiad o ddangosyddion Craidd a Lleol

2014	43:13:43	43:13:44
2015	44:13:43	46:11:43
2016	43:15:43	41:18:41
2017	44:14:42	44:15:41
2018	43:14:43	42:16:42
2019	42:15:43	41:16:43
2020	42:15:43	41:16:43
2021	42:15:43	41:16:43

* Dangosir cymarebau perfformiad fel Canolfannau Gwasanaethau Trefol: Canolfannau Gwasanaethau Gwledig: Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill. Efallai nad yw canrannau yn rhoi cyfanswm oherwydd talgrynnu.

Casgliadau

Nid yw'r targed wedi cael ei gyflawni ar gyfer unedau a gwblhawyd neu ymrwymadau. Mae'r diwygiad o'r CDLI yn ystyried y Strategaeth Anheddu a bydd yn nodi ffyrdd o ddarparu tai mewn lleoliadau cynaliadwy.²

Gweithred

Ni chyrhaeddwyd y targed ar gyfer cwblhau neu ymrwymo. Mae adolygiad y CDLI yn ystyried y strategaeth aneddiadau a bydd yn nodi ffyrdd o ddarparu tai mewn lleoliadau cynaliadwy.

² Wedi'i fonitro yn unol â'r dangosydd (ers mabwysiadu'r cynllun) ac nid ers dechrau'r cynllun.

Dadansoddiad o ddangosyddion Craidd a Lleol

Cyfeirnod Monitro:	AMRH03			
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:	Grwpiau Aneddiadau'r Strategaeth Anheddu			
Y Polisiau a Gaiff eu Monitro:	S01 – S04			
Lefel:	Lleol			
Pryd:	Yn flynyddol			
Ffynhonnell:	Cyngor Sir Ceredigion (CSC)			
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Unedau a gwblhawyd ac ymrwymadau i adlewyrchu rhaniad canrannol pob un o'r Grwpiau Aneddiadau unigol fel y nodir yn Atodiad 2 o'r CDLI	O'r dyddiad mabwysiadu, yn y Grwpiau Aneddiadau unigol, dylai cymhareb yr unedau a gwblhawyd a'r ymrwymadau rhwng y Ganolfan Gwasanaethau a'r 'Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill' fod yn unol â'r gofynion a nodir	Os yw'r twf canrannol yn uwch na'r disgwyl yn yr 'Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill', gwrthodir rhagor o ddatblygu preswyl yn y Grŵp Aneddiadau hwnnw, ar gyfer yr 'Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill', nes bydd y caniatadau sy'n sefyll wedi darfod neu wedi cael eu diddymu a bydd yr ymrwymadau'n	Gweler Atodiad 5 (wedi'i gymryd o'r Ffigurau Monitro Misol)	-

erbyn diwedd cyfnod y cynllun.	yng nghyfrol 1 y CDLI, Atodiad 2 neu'n gweithio tuag atynt.	adlewyrchu neu'n gweithio tuag at y rhaniad canrannol a nodir yn Atodiad 2 o'r CDLI.		
--------------------------------	---	--	--	--

Dadansoddiad

Er bod y dangosydd yn ceisio mesur o adeg mabwysiadu'r cynllun, mae'r fframwaith monitro yn dibynnu ar ddata ers dechrau'r cynllun ac ni ellir ei fesur ers adeg mabwysiadu'r cynllun. Ar gyfer ymrwymadau o'r 22 o ganolfannau gwasanaethau, nid oedd 11 wedi sicrhau gwelliannau yn y rhaniad canrannol, roedd 6 wedi gwella, ac roedd 5 heb weld dim newid ers y cyfnod monitro blaenorol.

Roedd y rhai oedd heb wella yn cynnwys Aberteifi/Cardigan, Aberystwyth, Castell Newydd Emlyn (Adpar), Llanbedr Pont Steffan, Llandysul, Tregaron, Aberporth/Parcllyn, Bow Street, Ceinewydd/New Quay, Cenarth, Felin-fach/Ystrad Aeron, Llanilar. Fodd bynnag, o'r grwpiau hynny ar gyfer unedau a gwblhawyd roedd Aberystwyth, Castell Newydd Emlyn (Adpar), Llanbedr Pont Steffan, Cenarth, Llanilar wedi gweld gwelliant yn y rhaniad canrannol ers y cyfnod monitro diwethaf. Mae Aberteifi, Tregaron, Aber-porth/Parcllyn, Ceinewydd/New Quay, hefyd yn gweld gostyngiad yn y rhaniad cyfrannol ar gyfer unedau a gwblhawyd ers y cyfnod monitro blaenorol.

Mae'r canlyniadau'n dangos darlun amrywiol ar draws canolfannau gwasanaethau ers y cyfnod monitro cyntaf yn 2014. Ers hynny mae cyfanswm o 16 o grwpiau aneddiadau wedi gweld gwelliannau yn rhaniad canrannol yr ymrwymadau, ac mae 9 wedi gweld gwelliant yn rhaniad canrannol yr unedau a gwblhawyd. Ers mabwysiadu'r cynllun, o'r 22 o grwpiau aneddiadau unigol nid yw 1 (Llanybydder) wedi gweld naill ai welliant yn y rhaniad canrannol o ymrwymadau neu unedau a gwblhawyd. O ran Llanybydder

(anheddiad heb ei leoli yng Ngheredigion), ni ddylid monitro'r anheddiad hwn oherwydd mae'r anheddiad ei hun wedi'i leoli yn Sir Gaerfyrddin, ac nid oes gennym yr awdurdod dros faterion cynllunio yn yr ardal honno, ond rydym wedi'i gynnwys gan ei fod yn gweithredu fel Canolfan Gwasanaethau Gwledig ar gyfer rhai aneddiadau cyswllt yng Ngheredigion lle mae'r galw yn wan.

Casgliadau

Mae'r canlyniadau yn dangos darlun amrywiol gyda rhai grwpiau aneddiadau unigol yn symud tuag at y cydbwysedd gofynnol ac eraill yn symud i ffwrdd o'r cydbwysedd gofynnol a nodwyd yn Atodiad 2 o'r CDLI. Ers 2014, mae'r newid yn rhaniad canrannol yr ymrwymadau yn amrywio o +20.7% (Pontarfynach/Devils Bridge) i -17.4% (Tal-y-bont), ac mae'r newid yn rhaniad canrannol yr unedau a gwblhawyd yn amrywio o +27.7% (Felinfach) i -11.5% (Ceinewydd/New Quay a Llanon).

Argymhellir bod diwygio'r CDLI yn ystyried y Strategaeth Anheddu yn gyffredinol ac yn benodol penderfyniadau cais cynllunio wedi'u dirprwyo a heb eu dirprwyo yn ôl lleoliad (ac yn arbennig ar ôl mabwysiadu'r cynllun) a dosbarthiad gofodol yr angen am dwf a chyflenwi er mwyn deall yn well yr amrywiadau gofodol yn y cydbwysedd ar draws y sir. Bydd rhaid i'r adolygiad o'r Strategaeth Anheddu hefyd ystyried yn fwy manwl y patrymau twf sy'n unigryw i Geredigion a sut y maent wedi llunio patrymau naturiol datblygu, a sut y gall Cynllun Datblygu Lleol 2 gefnogi'r materion gwledig hyn yn y ffordd fwyaf cynaliadwy.

Gweithred

Ni chyrrhaeddwyd y targed ar gyfer cwblhau neu ymrwymo. Mae adolygiad y CDL llyn ystyried y strategaeth aneddiadau a bydd yn nodi ffyrdd o ddarparu tai mewn lleoliadau cynaliadwy.

Cyfeirnod Monitro:	AMRH04			
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:	Strategaeth Anheddu – Datblygu mewn 'Aneddiadau Cyswllt'			
Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro:	S01 – S04			
Lefel:	Lleol			
Pryd:	Yn flynyddol			
Ffynhonnell:	Cyngor Sir Ceredigion (CSC)			
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Ni fydd yr ymrwymïadau'n peri bod unrhyw un o'r Aneddiadau Cyswllt yn tyfu mwy na 12% o'i faint fel yr oedd ar 1 Ebrill 2007 (fel y'i nodir	O 1 Ebrill 2007, ar lefel Grwpiau Aneddiadau, twf yng nghyfanswm y stoc dai a ymrwymwyd yn yr Aneddiadau Cyswllt unigol.	Os cyrhaeddir y 12% ni chaniateir rhagor o ddatblygu onid oes cyfiawnhad dros hynny o dan Bolisi S04.	<ul style="list-style-type: none"> • 46 o Aneddiadau Cyswllt lle mae'r twf wedi bod yn uwch na 12% o ran ymrwymïadau • 8 Anheddiad Cyswllt sydd wedi cyrraedd y 	-

<p>yn Atodiad 5 i Gyfrol 1 o'r CDLI).</p>			<p>terfyn twf o 12% o ran ymrwymiau</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd 3 Anheddiad Cyswllt wedi cwmpo yn ôl i'r terfyn twf 12% <p>Gweler Atodiad 6 i gael y manylion llawn.</p>	
<p>Dadansoddiad</p> <p>O gyfanswm o 90 o Aneddiadau Cyswllt ar draws 22 o Grwpiau Aneddiadau mae 46 (51%) wedi cyrraedd neu'n uwch na'u terfyn twf o 12%. Mae'r ffigur hwn yn cymharu â 36 (40%) adeg mabwysiadu'r cynllun yn 2013. Ers Adroddiad Monitro Blynyddol y flwyddyn ddiwethaf mae 1 Anheddiad Cyswllt (Rhydyfelin, Penrhiwllan a Llanddewi Brefi) wedi cwmpo'n ôl o fewn eu terfyn o 12%.</p>				
<p>Casgliadau</p> <p>Mae 51% o Aneddiadau Cyswllt wedi cyrraedd neu'n uwch na'u terfyn twf o 12%. Nodir ar adeg mabwysiadu'r cynllun yn 2013 bod 40% o Aneddiadau Cyswllt eisoes wedi cyrraedd neu'n uwch na'u terfyn twf o ganlyniad i ganiatadau cynllunio wedi'u hetifeddu a wnaed o dan drefn gynllunio flaenorol. Ar gyfer pob Anheddiad Cyswllt sydd wedi cyrraedd neu'n uwch na'i dwf o 12% ni ddylid caniatáu unrhyw ddatblygu pellach oni bai bod hyn wedi'i gyfiawnhau o dan Bolisi S04.</p>				

Gweithred

Ar gyfer pob Anheddiad Cyswllt sydd wedi cyrraedd neu'n uwch na'i dwf o 12% ni ddylid caniatáu unrhyw ddatblygu pellach oni bai bod hyn wedi'i gyfiawnhau o dan Bolisi S04. Bydd diwygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol yn ystyried pam bod newid negyddol i ffwrdd o'r terfynau capasiti ar draws y sir, a'r dewisiadau eraill ar gyfer rheoli twf mewn aneddiadau gwledig sy'n galluogi'r anheddiad i fodloni ei anghenion gwledig penodol mewn modd cynaliadwy.

Cyfeirnod Monitro:	AMRH05			
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:	Strategaeth Anheddu – Natur y Datblygu yn y 'Lleoliadau Eraill'			
Y Polisiau a Gaiff eu Monitro:	S01 – S04			
Lefel:	Lleol			
Pryd:	Yn flynyddol			
Ffynhonnell:	Cyngor Sir Ceredigion (CSC)			
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Seilir ymrwymïadau ar angen clir am dai fforddiadwy mewn lleoliadau sy'n cydymffurfio â pharagraff 9.2.22 o Bolisi Cynllunio Cymru neu unedau o dan Nodyn Cyngor	O'r dyddiad mabwysiadu, y math o ddatblygu a ganiateir.	Lle bo datblygu'n digwydd nad yw'n fforddiadwy mewn lleoliadau sy'n cydymffurfio â pharagraff 9.2.22 o Bolisi Cynllunio Cymru neu unedau o dan Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 6, cynhelir ymchwiliad ynghylch y	Mae'r math o ddatblygu a ganiatawyd mewn lleoliadau eraill yn ystod y cyfnod monitro fel a ganlyn: • 5 uned sy'n cydymffurfio â TAN 6	-

<p>Technegol (TAN) 6 yn unig.</p>		<p>cyfiawnhad dros unedau o'r fath.</p> <p>Sicrhau y cyfyngir datblygu yn y dyfodol i'r hyn a ganiateir o dan bolisi S04 (Tai Fforddiadwy a TAN 6).</p>	<ul style="list-style-type: none"> • 5 uned sy'n cydymffurfio â pharagraff 9.2.22 (argraffiad 9) a 4.234 (argraffiad 10) o Bolisi Cynllunio Cymru • 2 uned cais nad ydynt yn cydymffurfio â Strategaeth y CDLI, TAN 6, neu Bolisi Cynllunio Cymru 9.2.22 	
<p>Dadansoddiad</p> <p>Cymeradwywyd 12 annedd mewn 'lleoliadau eraill' yn ystod y cyfnod monitro yn unol â'r CDLI. Roedd y rhain yn cynnwys ceisiadau sy'n cydymffurfio â TAN 6 (6), Polisi Cynllunio Cymru 9.2.22 (2). Nid oedd 2 uned a gafodd eu caniatáu yn cydymffurfio â'r darpariaethau a nodir yn y Polisi Cenedlaethol ar gyfer datblygiadau yng nghefn gwlad agored.</p> <p>Fodd bynnag, addasu'n ysgubor oedd y 2 uned hyn:</p>				
<p>Casgliadau</p>				

Cafodd 2 o unedau eu caniatáu oedd heb gydymffurfio â'r darpariaethau a nodir yn y Polisi Cenedlaethol ar gyfer datblygiad yng nghefn gwlad agored, mae hwn yn ostyngiad sylweddol yn y nifer a gymeradwywyd yn y cyfnod monitro blaenorol, hefyd mae'r rhaniad caniatadau mewn Canolfannau Gwasanaethu, aneddiadau Cyswllt a'r rheini mewn lleoliadau eraill wedi gwella.

Gweithred

Mae adolygiad y CDLI yn ystyried y strategaeth aneddiadau a bydd yn nodi ffyrdd o ddarparu tai mewn lleoliadau cynaliadwy.


Dadansoddiad o ddangosyddion Craidd a Lleol

Cyfeirnod Monitro:	AMRH06 (Dangosydd Statudol)			
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:	Tai a Gwblhawyd yn Flynyddol yn erbyn Cyfradd Adeiladu Flynyddol a Ragwelir			
Y Polisiau a Gaiff eu Monitro:	S01 – S04 ac LU05			
Lefel:	Craidd			
Pryd:	Yn flynyddol			
Ffynhonnell:	Gwybodaeth am Dai a Gwblhawyd yn Flynyddol wedi'i chyfuno â chronfa ddata safleoedd mawr a gweithdy rhanddeiliaid.			
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Y lefel flynyddol o dai a gwblhawyd sy'n cael ei monitro yn erbyn y Gyfradd Adeiladu Flynyddol a Ragwelir. Bydd nifer cronol y tai a gwblhawyd yn cael ei mesur yn erbyn y	Bydd nifer y tai a gwblhawyd yn cael ei mesur yn erbyn y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog a nodir yn y cynllun. Prif Ddangosydd Cyflenwi Tai: Gofyniad Tai Blynyddol	Lle mae diffyg nifer cronol o dai a gwblhawyd yn erbyn y Gofyniad Cyfartalog Blynyddol am 2 flynedd yn olynol (tai a gwblhawyd yn flynyddol, nid nifer yr Adroddiadau Monitro Blynyddol a gyhoeddir) dylid	Cymhariaeth Flynyddol o ran Tai a Gwblhawyd yn erbyn Gofyniad Blynyddol Cyfartalog 400 (Gofyniad Blynyddol Cyfartalog) – 283(Tai a	-

<p>gofyniad tai blynyddol cronol cyfartalog a nodir yn y cynllun.</p> <p>Gofyniad Tai = 6000</p> <p>$6000/15 = 400$</p>	<p>Cyfartalog (Gofyniad Tai / 15 = Gofyniad Cyfartalog Blynyddol)</p> <p>Rhaid cyflwyno hyn yn glir yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol o ran nifer ac o ran canran (plws/minws x %).</p>	<p>ystyried maint unrhyw ddiffyg a'i nodi yn y camau cwblhau/monitro o ran goblygiadau ar gyfer cyflenwi'r cartrefi/strategaeth lefel gofyniad. Gallai methu â chyflawni yn erbyn y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog ysgogi adolygiad cynnar.</p>	<p>Gwblhawyd yn Flynyddol = -117 (-29%)</p> <p>%Tai a Gwblhawyd yn Flynyddol o'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog = 71%</p> <p>Cymhariaeth Gronnol o ran Tai a Gwblhawyd yn Flynyddol yn erbyn Gofyniad Cyfartalog Blynyddol Cronol</p> <p>5200 (Gofyniad Cyfartalog Blynyddol Cronol) – 2707 (Nifer Cronnol o Dai a Gwblhawyd yn Flynyddol) = -2893 (-52%)</p> <p>% Nifer Cronnol o Dai a Gwblhawyd yn Flynyddol</p>	
--	---	--	---	--

Dadansoddiad o ddangosyddion Craidd a Lleol

											o'r Gofyniad Cyfartalog					
											Blynyddol Cronnol = 48%					
Dadansoddiad	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12	13	14	15	
Blynyddyn CDLI	2007-8	2008-9	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22	
Tai wedi'u cwblhau ar safle mawr mewn gwirionedd		79	90	68	109	41	44	75	67	128	68	51	59	138		
Tai wedi'u cwblhau ar safle bach mewn gwirionedd		121	151	95	129	230	85	87	58	88	112	53	25	145	60	
Safleoedd a neilltuwyd yn ystod y flwyddyn															60	
Nifer y tai y disgwylir iddynt cael eu cwblhau ar fanciau tir yn ystod y flwyddyn															7	
Nifer y tai y disgwylir iddynt gael eu cwblhau ar hap safleoedd mawr yn ystod y flwyddyn															49	
Nifer y tai y disgwylir iddynt cael eu cwblhau ar hapsafleoedd mawr yn ystod y flwyddyn															79	
Cyfanswm y tai wedi'u cwblhau	311	200	241	163	238	271	129	162	125	216	180	104	84	283		



Nodir nad yw'r safleoedd a gafodd eu cynnwys fel dyraniadau yn waeth neu'n fwy cyfyngedig yn gyffredinol, ond bod rhwystrau ariannol i ddatblygu a gwerthu tai ar y farchnad yn parhau i atal datblygu safleoedd mwy. Ystyriaeth bellach o'r methiant i gyflawni dyraniadau'r CDLI yn amserol fu'r tynhau sylweddol a welwyd yn y marchnadoedd ariannol o ran cyllid datblygu a chyllid morgais. Mae'n amlwg hefyd bod safleoedd yng Ngheredigion sy'n cael eu cyflawni fel arfer yn sylweddol llai na'r safleoedd a ddyrannwyd yn y cynllun cyfredol ac felly lle gall arbedion maint ddarparu safleoedd tai mwy mewn mannau eraill, nid yw'r math hwn o ddatblygiad yn bodoli yng Ngheredigion.

Ffactor arall sy'n cael effaith ar y gallu i gyflenwi tai yw'r ochr galw, a ysgogir yn bennaf gan dwf yn y boblogaeth a'r lleihad ym maint aelwydydd. Mae'r amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2018 yn adlewyrchu gwrthdroad yn y duedd ddemograffig o'i gymharu â thafllwybrau a ragwelwyd yr oedd y CDLI yn dibynnu arnynt. Yn syml, nid yw'r twf disgwylid yn rhagolygon 2008 wedi cael ei wireddu ar y gyfradd a ragwelwyd a chafodd rhagolygon diweddarach (2011) eu hategu gan lythyr Llywodraeth Cymru at Benaethiaid Cynllunio yn rhybuddio y dylid trin y data is hwn â gofal.

Casgliadau

Gan fod gwaith wedi dechrau ar adolygu'r CDLI, mae newidiadau yn y boblogaeth a phriodoldeb dyraniadau yn faterion i'w hystyried orau fel rhan o'r adolygiad a'r diwygiad o'r cynllun ynghyd â strategaeth dai, polisïau a dyraniadau'r CDLI ar draws Ceredigion yn sgil unrhyw ymchwil sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd ar y cyfenwad tai a'r galw am dai ar draws Cymru.

Gweithred

Parhau i fonitro cynnydd yn flynyddol wrth gydnabod y diffygion yn y set ddata y seiliwyd y cynllun arni a gweithio yn yr adolygiad i sicrhau y defnyddir methodoleg fwy cadarn ar gyfer rhagweld y galw am dai..

Cyfeirnod Monitro:		AMRH07(Dangosydd Statudol)		
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:		Cyflenwi Safleoedd Tai a Neilltuwyd		
Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro:		S01 – S04		
Lefel:		Craidd		
Pryd:		Yn flynyddol		
Ffynhonnell:		Gwybodaeth a gasglwyd ar gyfer AMR06		
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2007 – 31 Mawrth 2021)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
40% o gyfanswm yr anheddau y rhagwelir eu cyflenwi ar safleoedd a neilltuwyd i'w cwblhau erbyn 31 Mawrth 2017.	1. Maint y datblygiadau tai sy'n cael caniatâd cynllunio ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o ddyraniadau'r CDLI (unedau) fel a ganlyn:	Os na fydd y safleoedd a neilltuwyd wedi cael eu cyflawni yn unol â'r hyn a ddisgwylwyd, caiff ymchwiliad i'r achosion ei ysgogi. Bydd hynny'n cynnwys dadansoddiad o'r	Wedi'i ganiatáu ar safleoedd a neilltuwyd: Unedau: 639(19%) Wedi'i gwblhau ar safleoedd a neilltuwyd: Unedau: 221 (6.5%)	-

<p>100% o gyfanswm yr anheddau y rhagwelir eu cyflenwi ar safleoedd a neilltuwyd i'w cwblhau erbyn 31 Mawrth 2022.</p>	<ul style="list-style-type: none"> i. Ar 31 Mawrth 2015, 40% ii. Ar 31 Mawrth 2017, 60% iii. Ar 31 Mawrth 2019, 84% iv. Ar 31 Mawrth 2021, 100% <p>2. Faint o ddatblygiadau tai a gwblhawyd ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o ddyraniadau'r CDLI (unedau) fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> i. Ar 31 Mawrth 2015, 20% 	<p>berthynas rhwng caniatadau cynllunio a'r unedau a gwblhawyd.</p>		
--	--	---	--	--

Dadansoddiad o ddangosyddion Craidd a Lleol

	ii. Ar 31 Mawrth 2017, 40%			
	iii. Ar 31 Mawrth 2019, 64%			
	iv. Ar 31 Mawrth 2021, 88%			
Dadansoddiad <p>Mae canran yr unedau a ragwelwyd ar safleoedd a neilltuwyd wedi aros yr un fath eleni i 19%, ac er na chafodd y targedau eu cyflawni ar gyfer 2019 neu'n debygol o gael eu cyflawni ar gyfer 2022, mae'r cynnydd yn gam cadarnhaol i'r cyfeiriad cywir. Mae'r ffigur cwblhau wedi codi, gyda 3 safle wedi'u dyrannu yn cael eu cwblhau (datblygwyd y 3 gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Mae nifer isel y safleoedd a neilltuwyd a ddatblygwyd yn gyffredinol yn adlewyrchu cyflwr parhaus gweddol araf y farchnad dai, hyder isel yn y farchnad ynghyd â'r amser arweiniol gweddol hir ar gyfer safleoedd mwy a neilltuwyd, anawsterau parhaus gyda chyllid ar gyfer datblygu a'r ymrwymiad hirdymor dilynol i fuddsoddi cyn i'r datblygwr gael unrhyw enillion ariannol. Dim ond nifer cyfyngedig o adeiladwyr lleol sydd â'r gallu i fentro ymgymryd â datblygiad ar y raddfa a gynigir. Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn parhau i weithio gyda pherchnogion/datblygwyr safleoedd a neilltuwyd i'w hannog i baratoi'n gynnar ar gyfer datblygu safleoedd/paratoi'r tir ac ati lle bo angen, fodd bynnag, erys pryderon ynghylch maint y safleoedd a neilltuwyd.</p>				

Bydd rhaid i'r adolygiad o'r CDLI (a'r dystiolaeth gysylltiedig megis yr Asesiad Hyfywedd Strategol a'r Adolygiad o Safleoedd a Neilltuwyd sy'n cael eu dadansoddi ar hyn o bryd) ystyried y pryderon ynghylch y diwydiant adeiladu lleol a maint y safleoedd a neilltuwyd.

Casgliadau

Mae canran yr unedau a ragwelwyd (wedi'u caniatáu) wedi aros yr un fath â'r cyfnod monitro blaenorol, sef 19%.

Gweithred

Bydd diwygiad o'r CDLI yn ystyried cyflenwi safleoedd a neilltuwyd yn fwy manwl, gan gynnwys dadansoddi'r berthynas rhwng caniatadau cynllunio ac unedau a gwblhawyd a maint y safleoedd a neilltuwyd.

Dadansoddiad o ddangosyddion Craidd a Lleol

Cyfeirnod Monitro:	AMRH08 (Dangosydd Statudol)			
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:	Datblygu Tai mewn Lleoliadau Priodol			
Y Polisiau a Gaiff eu Monitro:	S01 – S03			
Lefel:	Craidd			
Pryd:	Yn flynyddol			
Ffynhonnell:	Gwybodaeth a gasglwyd ar gyfer AMR06			
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (24 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2021)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Bodloni 90-100% o'r angen am ddatblygu preswyl mewn Canolfannau Gwasanaethau Trefol a Gwledig ar safleoedd a neilltuwyd, heblaw am Aberystwyth lle dylai	1. Maint y datblygiadau tai a ganiateir ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o gyfanswm y datblygu a ganiateir yn y Canolfannau Gwasanaethau (unedau ar ôl mabwysiadu'r CDLI).	Os bydd y canrannau'n disgyn yn is na'r targed am 2 flynedd yn olynol mewn unrhyw Grŵp Aneddiadau penodol, cynhelir dadansoddiad o'r ysgogyddion posibl er mwyn deall y sefyllfa a chymryd	<ul style="list-style-type: none"> Wedi'i ganiatáu ar safleoedd a neilltuwyd: 541 o unedau fel canran o gyfanswm y nifer a ganiatawyd mewn Canolfannau Gwasanaethau (65%) 	-

<p>80-90% fod ar safleoedd a neilltuwyd, ar ôl mabwysiadu'r CDLI.</p>	<p>2. Maint y datblygiadau tai a gwblhawyd ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o gyfanswm y datblygu a gwblhawyd yn y Canolfannau Gwasanaethau (unedau ar ôl mabwysiadu'r CDLI).</p>	<p>camau lle bo'n briodol i wyrdroi'r duedd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Unedau wedi'u cwblhau ar safleoedd a neilltuwyd: 212 o unedau fel canran o'r cyfanswm a gwblhawyd mewn Canolfannau Gwasanaethau (29%) 	
<p>Dadansoddiad</p> <p>Mae hyn yn adlewyrchu'r amser a gymerir i safleoedd a neilltuwyd droi'n ganiatadau ac i ganiatadau droi'n safleoedd wedi'u cwblhau a'r effaith sy'n deillio o hynny. Gyda mwy o amser i ddatblygiadau fynd rhagddynt gan ei fod yn arferol i safleoedd gymryd amser i'w cwblhau, rhagwelir mwy o dwf yn y Canolfannau Gwasanaethau Trefol a Gwledig wrth i'r farchnad wella. Fodd bynnag, nid yw'r targed yn cael ei gyflawni ac mae rhai esboniadau ar gyfer hyn yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> Y nifer isel o unedau a gwblhawyd ar draws y sir gan gynnwys o fewn y Canolfannau Gwasanaethau; Nifer y safleoedd a neilltuwyd gyda chaniatâd cynllunio a gymeradwywyd cyn mabwysiadu'r CDLI; ac Arafu cyffredinol yn y diwydiant datblygu yn genedlaethol ynghyd â datblygiadau annisgwyl a llanw bwlch bach sy'n cael eu targedu gan ddatblygwyr lleol graddfa fach y mae eu model busnes yn golygu na allant ddatblygu safleoedd ar raddfa fawr / hirdymor. 				

Casgliadau

Er nad yw'r targed wedi cael ei gyflawni, mae symudiad cadarnhaol i'r cyfeiriad iawn i'w weld ers mabwysiadu'r cynllun ac ers y cyfnod monitro blaenorol.

Gweithred

Mae'r adolygiad o'r CDLI yn ystyried priodoldeb safleoedd presennol a neilltuwyd i lywio'r diwygiad o'r cynllun, ac yn arbennig chwilio am safleoedd i'w neilltuo yn y dyfodol sy'n cyfateb â model busnes datblygwyr sy'n gweithredu yng Ngheredigion

Cyfeirnod Monitro:	AMRH09			
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:	Datblygu Tai ar Dir a Ddatblygwyd o'r Blaen			
Y Polisiau a Gaiff eu Monitro:	S01 – S03			
Lefel:	Lleol			
Pryd:	Yn flynyddol			
Ffynhonnell:	Cyngor Sir Ceredigion (CSC)			
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
5% o'r holl ddatblygu preswyl a ganiateir ac a gwblheir i'w leoli ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (tir llwyd).	1. Maint y datblygu newydd (hectarau) a ganiateir ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (ailddatblygu tir llwyd a chyfaddasiadau) fel canran o'r holl ddatblygu a ganiateir.	Oni fydd o leiaf 4% o'r holl ddatblygu preswyl a ganiateir ac a gwblheir wedi ei gyflawni ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (tir llwyd) cynhelir ymchwiliad i achosion y diffyg er mwyn gweld a all yr Awdurdod Lleol	Caniatawyd: 2.06ha (9%). Cwblhawyd: 4.20ha (8%).	+

Dadansoddiad o ddangosyddion Craidd a Lleol

	2. Maint y datblygu newydd (hectarau) a gwblheir ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (ailddatblygu tir llwyd a chyfaddasiadau) fel canran o'r holl ddatblygu a gwblheir.	roi sylw i'r rhwystrau sy'n atal datblygu.		
Dadansoddiad Mae maint y datblygu a ganiateir ac a gwblheir ar dir llwyd yn uwch na'r targed o 4%.				
Casgliadau Mae'r targedau yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd ac nid oes unrhyw bryder ynghylch gweithredu'r polisiau.				
Gweithred				
Mae polisiau cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.				

Cyfeirnod Monitro:	AMRH10 (Dangosydd Statudol)			
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:	Tai Fforddiadwy			
Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro:	S05			
Lefel:	Craidd			
Pryd:	Yn flynyddol			
Ffynhonnell:	Cyngor Sir Ceredigion (CSC)			
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2007 – 31 Mawrth 2021)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
1,100 o dai fforddiadwy wedi eu cwblhau (70 y flwyddyn) erbyn 2022.	<p>1. Nifer net yr anheddau fforddiadwy ychwanegol ac anheddau'r farchnad gyffredinol a ganiatawyd ers (1 Ebrill) 2007.</p> <p>2. Nifer net yr anheddau fforddiadwy ychwanegol</p>	Cynhelir ymchwiliadau pellach ar y dangosydd hwn os bydd nifer y caniatadau sy'n sefyll/unedau o dai fforddiadwy a gwblhawyd dros gyfnod o 2 flynedd yn	<p>Net ychwanegol a ganiatawyd:</p> <p>Cartrefi Fforddiadwy: 860</p> <p>Cartrefi Marchnad Cyffredinol: 2333*</p> <p>Cyfanswm Cartrefi: 3193*</p>	0

	<p>ac anheddau'r farchnad gyffredinol a gwblhawyd ers (1 Ebrill) 2007.</p>	<p>disgyn o dan y lefel flynyddol sy'n ofynnol.</p> <p>Bydd dealltwriaeth o'r cyflenwad tai cyffredinol yn hanfodol i'r ymchwiliad hwn (gweler AMRH06 uchod).</p> <p>Efallai y bydd angen ymateb i'r targed hwn ar y cyd â'r Adran Dai a rhanddeiliaid eraill ym maes tai megis landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.</p>	<p>*roedd blynyddoedd cyn 2020 yn cynnwys caniatadau cyn 01/04/2007</p> <p>A gwblhawyd:</p> <p>Cartrefi Fforddiadwy: 640</p> <p>Cartrefi Marchnad Cyffredinol: 1901</p> <p>Cyfanswm Cartrefi: 2541</p>	
<p>Dadansoddiad</p> <p>Y gofyniad polisi ar gyfer tai fforddiadwy yw i 20% o'r holl unedau fod yn fforddiadwy. Mae'r canlyniadau yn gadarnhaol gyda mwy nag 20% o'r holl gartrefi sydd wedi'u caniatáu (860 o gartrefi (37%) ac wedi'u cwblhau (640 o gartrefi (34%)) yn gartrefi fforddiadwy ers i'r cynllun ddechrau. Mae'r targed o 1,100 o dai fforddiadwy wedi'u caniatáu a'u cwblhau yn fwy nag 20% o'r holl gartrefi.</p> <p>Mae'r gyfradd araf hon o gyflenwi tai fforddiadwy yn adlewyrchu'r gyfradd isel o gyflenwi tai marchnad gyffredinol a safleoedd a neilltuwyd yn gyffredinol. At hynny, mae nifer yr unedau a gwblheir y tu allan i reolaeth yr Awdurdod Cynllunio Lleol i ryw raddau</p>				

oherwydd effaith ffactorau allanol gan gynnwys diffyg galw gan y farchnad, y math o adeiladwyr sy'n gweithredu yn y sir, y cyllid masnachol cyfyngedig sydd ar gael i adeiladwyr bach, ac agwedd bwylllog y cwmnïau morgeisiau at brynwyr tai.

Casgliadau

Mae canran y tai fforddiadwy a ganiatawyd ac a gwblhawyd yn fwy nag 20% o'r holl gartrefi, ac mae hynny'n gadarnhaol, ac mae cyfradd cwblhau flynyddol tai fforddiadwy ar gyfartaledd, er ei bod yn is na'r targed o 70 y flwyddyn, wedi parhau'n sefydlog neu wedi cynyddu ers mabwysiadu'r cynllun. Mae hyn yn awgrymu na fydd y targed a nodwyd o 1,100 o dai fforddiadwy wedi'u cwblhau erbyn 2022 yn debygol o gael ei gyflawni, ond disgwylir cyflawni'r targed o 20% o'r holl dai a gwblheir yn dai fforddiadwy.

Gweithred

Bydd diwygio'r CDLI (a thystiolaeth gysylltiedig gan gynnwys yr Aseiad Hyfywedd Strategol wedi'i ddiweddarau) yn ystyried cyflenwi tai (gan gynnwys cyflenwi tai fforddiadwy). Gallai hyn ynghyd â'r newidiadau yn y gofyniad tai cyffredinol olygu y caiff y targed ar gyfer tai fforddiadwy ei ddiwygio yn CDLI2.

Dadansoddiad o ddangosyddion Craidd a Lleol

Cyfeirnod Monitro:	AMRH11			
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:	Tai Fforddiadwy			
Y Polisiau a Gaiff eu Monitro:	S05			
Lefel:	Lleol			
Pryd:	Yn flynyddol			
Ffynhonnell:	Cyngor Sir Ceredigion (CSC)			
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Ers mabwysiadu'r CDLI, mae o leiaf 20% o'r holl anheddau a ganiateir yn unedau fforddiadwy.	<ol style="list-style-type: none"> Canran y ceisiadau preswyl lle cyflwynir her dichonoldeb. Nifer y safleoedd lle cyflwynir her a hynny'n llwyddiannus i leihau nifer y tai fforddiadwy fel cyfran o nifer yr heriau. 	Os bydd mwy nag 20% o'r safleoedd a ganiateir yn methu â darparu'r tai fforddiadwy sy'n ofynnol mewn unrhyw flwyddyn neilltuol o gyfnod y cynllun, cynhelir ymchwiliad i'r rhesymau dros hynny.	9 o heriau hyfywedd wedi'u cyflwyno eleni, 100% yn llwyddiannus yn rhannol neu'n llwyr.	0

		<p>Os bydd yr holl safleoedd yn darparu 20% neu fwy o dai fforddiadwy mewn unrhyw flwyddyn neilltuol o gyfnod y cynllun cynhelir asesiad i weld a yw'r gofyniad am 20% o dai fforddiadwy'n rhy fach ac a ddylid ei godi.</p> <p>Gwneir hynny trwy gynnal ymarfer hyfywedd. Bydd yr ymarfer yn argymhell nifer hyfyw o dai fforddiadwy fel canran. Bydd angen i'r Prisiwr Dosbarth fwrw cyfrif hefyd o'r</p>	<p>37% o'r holl anheddau a ganiatawyd yn unedau fforddiadwy³.</p>	
--	--	---	--	--

³ Wedi'i fonitro yn unol â'r dangosydd (ers mabwysiadu) ac nid ers dechrau'r Cynllun.

		Gwerth Datblygu Gros canrannol cyfatebol.		
<p>Dadansoddiad</p> <p>Mae'r targed a nodwyd wedi cael ei gyflawni. Ers 2007, mae 37% o'r holl anheddau a ganiatawyd yn unedau fforddiadwy.</p> <p>Er gwaetha'r uchod, mae nifer o geisiadau ar gyfer datblygiadau preswyl yn parhau lle mae her hyfywedd yn cael ei chyflwyno. Nifer y safleoedd lle'r oedd yr her yn llwyddiannus oedd 9 sy'n cyfateb i 100% o'r holl heriau llwyddiannus.</p> <p>O'r 9 o heriau hyfywedd i'r polisi tai fforddiadwy S05, roedd 5 yn ymwneud â cheisiadau cyfaddasu, newid defnydd neu ailddatblygu/adfer, ac roedd 4 yn ymwneud â cheisiadau am adeiladau newydd. Cydnabyddir bod cyfaddasiadau, newid defnydd ac ailddatblygiadau yn gostus i'w cwblhau, ac felly nid yw'n syndod bod hyfywedd y cynlluniau hyn wedi'i gyfaddawdu. O ran adeiladau newydd mae hyn wedi gostwng eleni, ond yn parhau i fod yn bryder a'r rhesymau am hyn mae'n debyg yw graddfa barhaus yr anheddau mawr a gynigir sydd o ansawdd da ac sy'n gostus i'w datblygu, yr arafu cyffredinol yn y farchnad, a hyfywedd gwael mewn rhai mannau yn y sir</p> <p>Cyfiawnhawyd gofynion tai fforddiadwy Polisi S05 gan astudiaeth 2010 ynghylch hyfywedd economaidd darparu tai fforddiadwy. Er mwyn llywio'r diwygiad o'r CDLI, mae'r Cyngor wedi comisiynu diweddariad o Asesiad Hyfywedd 2010 sydd wedi ystyried yn fanwl hyfywedd safleoedd bach, gan gynnwys cyfaddasiadau a newid defnydd, ac mae tystiolaeth bellach yn cael ei chasglu i lywio polisiâu tai fforddiadwy Cynllun Datblygu Lleol 2 sy'n ystyried natur wledig unigryw Ceredigion a'r tuedd tuag at adeiladwyr lleol bach a hunan-adeiladu sy'n dominyddu'r tai a adeiledir yn yr ardal hon.</p>				

Casgliadau

Nid yw'r targed yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd gan fod 95% o'r holl ddatblygiadau tai wedi cael heriau hyfywedd, fodd bynnag nid oes unrhyw bryder ynghylch gweithredu polisiau'r CDLI oherwydd natur y math o ddatblygiadau sy'n cael eu herio.

Gweithred

Mae'r Asesiad Hyfywedd strategol wedi'i ddiweddarau yn ystyried y materion hyn, gan gynnwys cost ceisiadau cyfaddasu, ailddatblygu ac adfer ac mae'n gwneud argymhellion penodol a fydd yn llywio'r adolygiad polisi, gan gynnwys cyfeiriad penodol at drothwy ac os yw ceisiadau yn uwch na'r trothwy hwnnw bydd cyfraniad cartrefi fforddiadwy yn gymwys.

Dadansoddiad o ddangosyddion Craidd a Lleol

Cyfeirnod Monitro:	AMRH12			
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:	Mathau o Dai Fforddiadwy			
Y Polisiau a Gaiff eu Monitro:	S05			
Lefel:	Lleol			
Pryd:	Yn flynyddol			
Ffynhonnell:	Cyngor Sir Ceredigion (CSC)			
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2007 – 31 Mawrth 2021)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Ers dechrau cyfnod y CDLI: 9% o'r unedau fforddiadwy ar werth ar ostyngiad am 70% o'r gwerth marchnadol	Unedau a Gwblhawyd ac Ymrwymadau yn ôl eu math.	Os yw canrannau'r unedau a gwblhawyd a'r ymrwymadau ar gyfer: Unedau fforddiadwy ar werth ar ostyngiad am 70% o'r gwerth marchnadol yn disgyn o dan 8-10% o'r tai fforddiadwy a ganiatawyd.	Ers dechrau cyfnod y CDLI, roedd yr unedau a gwblhawyd ac ymrwymadau tai fforddiadwy yn ôl eu math fel a ganlyn: Ar werth ar ostyngiad 70%	0

<p>32% o'r unedau fforddiadwy ar werth ar ostyngiad am 50% o'r gwerth marchnadol (i'w gwerthu'n uniongyrchol i'r preswylwyr ac i'w darparu i landlordiaid i'w gosod ar renti canolradd)</p> <p>59% o'r unedau tai fforddiadwy ar gyfer rhenti cymdeithasol a ddarperir gan y sector preifat a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.</p>		<p>Unedau fforddiadwy ar werth ar ostyngiad am 50% o'r gwerth marchnadol yn disgyn o dan 28-35%.</p> <p>Unedau fforddiadwy a drawsgludir am 35% o'r gwerth marchnadol i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ar rent cymdeithasol yn disgyn o dan 53-66%.</p> <p>Efallai y bydd angen cyfyngu/hybu rhai mathau o ddatblygiadau preswyl er mwyn sicrhau bod y canrannau'n agosach at yr anghenion a nodwyd. Bydd yn rhaid cymryd camau o'r fath ar y cyd â'r Adran Dai a</p>	<p>Unedau a gwblhawyd: 217 (34% o'r holl dai fforddiadwy)</p> <p>Ymrwymadau: 380 (46% o'r holl dai fforddiadwy)</p> <p>Ar werth ar ostyngiad %au arall</p> <p>Unedau a gwblhawyd: 5 (1% o'r holl dai fforddiadwy)</p> <p>Ymrwymadau: 10 (2% o'r holl dai fforddiadwy)</p> <p>Ar werth ar ostyngiad 50% / Rhent Canolradd</p> <p>Unedau a gwblhawyd: 4 (1% o'r holl dai fforddiadwy)</p>	
---	--	---	---	--

		<p>rhanddeiliaid eraill ym maes tai, megis Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.</p>	<p>Ymrwymiadau: 7 (1% o'r holl dai fforddiadwy)</p> <p>Swm Cymudedig</p> <p>Unedau a gwblhawyd: 43- (7% o'r holl dai fforddiadwy)</p> <p>Ymrwymiadau: 95 (12% o'r holl dai fforddiadwy)</p> <p>Ar rent cymdeithasol (a drawsgludwyd i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig)</p> <p>Unedau a gwblhawyd: 21 (3% o'r holl dai fforddiadwy)</p>	
--	--	--	---	--

			<p>Ymrwymïadau: 24 (3% o'r holl dai fforddiadwy)</p> <p>Ar rent cymdeithasol (100% wedi'u comisiynu gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig):</p> <p>Unedau a gwblhawyd 383 (60% o'r holl dai fforddiadwy)</p> <p>Ymrwymïadau: 411 (53% o'r holl dai fforddiadwy)</p> <p>Arall (Cyfuniad o Gymysgedd Anhysbys):</p> <p>2 gais (tua 15 o unedau)</p> <p>Sylwch: Nid yw ffigurau 'eraill' wedi'u cynnwys yn y cyfrifiadau canrannol</p>	
--	--	--	--	--

			<p>oherwydd ni wyddys yr union nifer ar y cam amlinellol.</p> <p>Nid yw'r ffigurau yn cynnwys unrhyw ganiatadau sydd wedi dod i ben.</p>	
<p>Dadansoddiad</p> <p>Mae'r targed a nodwyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i gymhareb o'r mathau o dai fforddiadwy fod yn: 9% ar werth ar ostyngiad 70%:32% ar werth ar ostyngiad 50%:59% ar rent cymdeithasol ers dechrau cyfnod y cynllun. Perfformiad gwirioneddol yr ymrwymadau yw 46% ar werth ar ostyngiad 70%: 1% ar werth ar ostyngiad 50%, 2% ar werth ar ostyngiad Arall, 12% Symiau Gohiriedig: 53% Rhent Cymdeithasol ac unedau a gwblhawyd yw 37% ar werth ar ostyngiad 70%: 1% ar werth ar ostyngiad 50%, 1% ar werth ar ostyngiad Arall, 7% Symiau Gohiriedig, 64% Rhent Cymdeithasol.</p> <p>Ers mabwysiadu'r cynllun gwelwyd nifer o newidiadau sydd wedi golygu bod y rhaniad tenantiaeth a awgrymir wedi dyddio. Mae'r rhain yn cynnwys ffocws Llywodraeth Cymru ar Ddiwygio Lles a'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol wedi'i ddiweddarau (2020) a gynigodd gymysgedd gwahanol o anghenion yn lleol. At hynny, mae'r mwyafrif o'r tai fforddiadwy a gwblhawyd ac ymrwymadau wedi cael eu comisiynu gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac felly'n debygol o fod wedi elwa ar gymorth Grant Tai Cymdeithasol. Felly er nad yw rhaniad tenantiaeth y polisi yn cael ei gyflawni, y rheswm am hynny yw oherwydd bod y polisi wedi</p>				

dyddio. Mae'r dyddiad yn dangos bod y tai fforddiadwy sy'n cael eu cyflenwi gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn bodloni'r anghenion a nodwyd. Er mwyn sicrhau bod cartrefi fforddiadwy a adeiledir yn breifat hefyd yn ateb anghenion y darpar feddianwyr, mae datganiad anghenion tai wedi cael ei gynhyrchu sy'n amlinellu'r mathau o dystiolaeth y mae angen i ymgeiswyr ei chyflwyno i gefnogi cais cynllunio. Disgwylir y bydd ystyried sylfaen anghenion ymgeiswyr unigol ar gyfer tai fforddiadwy yn yr asesiad o unrhyw gais am dai fforddiadwy yn arwain at lai o ganiatadau tai fforddiadwy sy'n sefyll.

Dylid nodi ei bod yn bosibl nad yw datblygu unedau rhent canolradd yn dibynnu'n llwyr ar roi caniatadau newydd. Ceir mecanwaith o fewn y cytundeb adran 106 enghreifftiol diwygiedig sy'n caniatáu i berchennog tai fforddiadwy wneud cais i'r Cyngor i newid natur y tai fforddiadwy o eiddo ar werth ar ostyngiad i rent canolradd. Felly mae'n bosibl y gallai rhywfaint o'r stoc tai fforddiadwy (ar werth ar ostyngiad) sy'n bodoli droi'n unedau tai fforddiadwy ar gyfer rhent canolradd yn y dyfodol.

Casgliadau

Mae'r dosbarthiad cyffredinol o dai fforddiadwy yn foddhaol. Felly nid yw perfformiad y polisi o bryder mawr ar hyn o bryd. Dylai cyflenwi tenantiaethau canolradd gael ei fonitro'n agos yn y dyfodol. Mae tystiolaeth gan gynnwys yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (2020) ac yn y broses o gael ei ddiweddarau ac er nad yw'r rhaniad tenantiaeth arfaethedig a gynigir yn y polisi yn cael ei fodloni, nid yw'n bryder sylweddol oherwydd bod cyflenwi unedau gwirioneddol yn cyfateb yn agos â'r dystiolaeth o angen wedi'i diweddarau, mae'n fater i'w ystyried yn y diwygiad o'r CDLI.

Gweithred

Dadansoddiad o ddangosyddion Craidd a Lleol

Caiff rhaniad y ddeiliadaeth ei ddadansoddi'n ymhellach yn dilyn diweddariad Aseiad o'r Farchnad Dai Leol 2020 gan ddefnyddio model Llywodraeth Cymru.

Cyfeirnod Monitro:	AMRH13			
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:	Dwysedd Tai			
Y Polisiau a Gaiff eu Monitro:	LU06			
Lefel:	Lleol			
Pryd:	Yn flynyddol			
Ffynhonnell:	Cyngor Sir Ceredigion (CSC)			
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2007 – 31 Mawrth 2021)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Yn cydymffurfio â'r dwysedd neu'n uwch na'r dwysedd, yn unol â Rhestr y Safleoedd a Neilltuwyd neu Ddatganiad y Grŵp Aneddiadau.	Dwysedd cyfartalog datblygiadau tai a ganiateir ar safleoedd datblygu a neilltuwyd yn y cynllun.	Oni fydd safle'n cyflenwi dwysedd canllaw cynhelir ymchwiliad i weld a oes angen tir ychwanegol i gyflawni'r ddarpariaeth dai a ganiateir yn y Ganolfan Gwasanaethau dan sylw.	Dwysedd cyfartalog datblygiadau tai ar safleoedd a neilltuwyd: 19.59 uned fesul hectar.	0

<p>23 uned yr hectar yw dwysedd canllaw cyfartalog y CDLI ar safleoedd a neilltuwyd yn y CDLI.</p>		<p>s bydd safleoedd mewn Canolfan Gwasanaethau'n methu â chyflawni'r dwysedd canllaw'n rheolaidd, cynhelir ymchwiliad i weld a fydd angen newid dwysedd canllaw safleoedd y Ganolfan Gwasanaethau dan sylw.</p>		
<p>Dadansoddiad</p> <p>Mae'r caniatadau hyd yma yn dangos bod:</p> <p>6 caniatâd yn uwch na'r dwysedd a argymhellir yn y CDLI</p> <p>7 caniatâd heb gydymffurfio â dwysedd a argymhellir yn y CDLI.</p> <p>Mae'r mwyafrif o'r ceisiadau yn ymwneud â rhan o safle a neilltuwyd yn unig ac felly er bod rhai yn uwch neu'n is na'r dwysedd uned cyfartalog a nodwyd gan y CDLI, ar y cyfan y dwysedd cyfartalog yw tua 19.59 o unedau fesul hectar. Roedd y ceisiadau hyn yn cynrychioli rhan o safle cyfan a neilltuwyd yn unig ac wedi'u cyfiawnhau fel rhai priodol ym mhob achos.</p>				
<p>Casgliadau</p>				

Ystyrir bod dwysedd cyfartalog datblygiadau preswyl ar safleoedd tai a neilltuwyd (19.59 o anheddau fesul hectar) yn gyson yn fras â dwysedd canllaw cyfartalog y CDLI ar gyfer safleoedd a neilltuwyd (23.60 o anheddau fesul hectar). Nid oes unrhyw bryderon ar hyn o bryd ynghylch gweithredu'r polisi hwn.

Gweithred

Mae polisiâu cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

Dadansoddiad o ddangosyddion Craidd a Lleol

Cyfeirnod Monitro:	AMRH14			
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:	Cyflenwi Tai			
Y Polisiau a Gaiff eu Monitro:	LU05			
Lefel:	Lleol			
Pryd:	Yn flynyddol			
Ffynhonnell:	Cyngor Sir Ceredigion (CSC)			
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2021)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Gostyngiad o flwyddyn i flwyddyn yn y gymhareb rhwng caniatadau preswyl sy'n sefyll ac unedau a gwblhawyd, o gymhareb ddechreuol o 6.5 o ganiatadau	Y gymhareb rhwng caniatadau a roddir ac unedau a gwblhawyd ar gyfer datblygiadau preswyl "Y gymhareb rhwng caniatadau unedau preswyl sy'n sefyll ac unedau preswyl a gwblhawyd."	Oni fydd y gymhareb rhwng y caniatadau preswyl sy'n sefyll a'r unedau a gwblhawyd mewn Grŵp Aneddiadau yn gostwng o flwyddyn i flwyddyn, bydd angen cynyddu'r defnydd o ganiatadau byrrach, dyddiadau cwblhau gorfodol	Y gymhareb rhwng caniatadau preswyl sy'n sefyll ac unedau preswyl a gwblhawyd yn 2021: 6 o ganiatadau sy'n sefyll i bob 1 uned a gwblhawyd.	+

<p>sy'n sefyll i bob 1 uned a gwblhawyd.</p>		<p>a hysbysiadau cwblhau. Os yw amseroedd adeiladu hir yn arwydd o ddiffyg galw, efallai y bydd angen lleihau nifer y caniatadau a roddir, oherwydd dylai caniatadau fodoli i ddiwallu'r anghenion cyfredol.</p>		
<p>Dadansoddiad</p> <p>Y gymhareb gyfartalog ar draws y sir yw 6 o ganiatadau sy'n sefyll i bob 1 uned a gwblhawyd, mae hwn yn ostyngiad sylweddol ar y blynyddoedd blaenorol ac mae'n dangos y galw parhaus am eiddo newydd yn lleol y mae llawer ohono i'w weld yn y farchnad dai fywiog. Fodd bynnag, flwyddyn ar ôl blwyddyn mae'r ffigur yn parhau i fod yn amrywiol iawn ac nid yn ddangosydd gwirioneddol ddefnyddiol. Mae'r unedau a gwblhawyd hefyd wedi'u cymhlethu gan ffactorau allanol y tu allan i reolaeth yr Awdurdod Cynllunio Lleol gan gynnwys gofynion cyllido, diffyg adeiladwyr ar raddfa fawr, y cyllid masnachol cyfyngedig sydd ar gael i adeiladwyr bach, ac agwedd bwylllog y cwmnïau morgeisiau at brynwyr tai, er enghraifft. Mae ffigur eleni o 6 o ganiatadau yn cymharu â 20.5 (2020) (COVID-19 yn effeithio ar gasglu data), 9.5 (2019), 14 (2018), 8.5 (2017), 7.1 (2016), 12.3 (2015) a 9.3 (2014). Mae'r gymhareb hon wedi symud yn ôl mewn cyfeiriad cadarnhaol y flwyddyn hon, ond nid yw'r targed wedi cael ei gyflawni.</p>				

Mae'r Cyngor wedi gwneud gwaith ymchwil ar ganiatadau sy'n sefyll ac wedi ystyried cyfleoedd ar gyfer cyhoeddi hysbysiadau cwblhau. Ers mabwysiadu'r cynllun mae'r awdurdod wedi bod yn cyhoeddi caniatadau byr mewn ymateb i'r mater hwn, fodd bynnag, mae'r Cyngor hefyd yn gweithredu polisi LU05 y CDLI yn llymach mewn perthynas â chaniatadau byr ac amodau dyddiad cwblhau a allai fod yn rheswm y tu ôl i'r gwelliant sylweddol yn y gymhareb y flwyddyn hon o'i gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf.

Casgliadau

Cyflawnwyd, am y tro cyntaf, y gymhareb gychwynnol o 6.5 o ganiatadau sydd heb eu gweithredu i 1 uned a gwblhawyd.

Gweithred

Dylid parhau i ystyried cymryd camau trwy reoli caniatadau ac ystyriaeth fwy manwl yn ystod y diwygiad o'r cynllun, os nad yw'r duedd yn parhau.

Cyfeirnod Monitro:	AMRH15			
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:	Rhychwant y Tai			
Y Polisiau a Gaiff eu Monitro:	LU02			
Lefel:	Lleol			
Pryd:	Yn flynyddol			
Ffynhonnell:	Cyngor Sir Ceredigion (CSC)			
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (25 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2021)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Cymysgedd o fathau o dai ac ystafelloedd gwely yn unol ag adroddiad cyfredol Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yng Ngheredigion.	Nifer y caniatadau llawn neu ganiatâd i faterion a gadwyd yn ôl ar sail y mathau o dai a nifer yr ystafelloedd gwely ers mabwysiadu. Nifer yr unedau a gwblhawyd yn ôl y mathau o	Os yw'r ffigurau cyfunedig yn wahanol i'r canrannau a bennir yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol. Cymerir camau ar y cyd ag Adran Dai'r Cyngor, a gellid canolbwyntio ar gyflenwi mwy	Gweler Atodiad 7	0

	dai a nifer yr ystafelloedd gwely ers mabwysiadu.	o'r math o annedd y mae ei angen.		
<p>Dadansoddiad</p> <p>Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (2020, sy'n dal i fod yn seiliedig ar amcanestyniadau 2014 y boblogaeth) diweddaraf sydd newydd ei gyhoeddi yn diweddar fersiwn 2016 a gafodd ei ystyried yn yr Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol. Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (2020) yn nodi, o ran gofynion ystafell wely, mai'r angen mwyaf am dai marchnad yw eiddo 3 ystafell wely, ond yr angen mwyaf am dai fforddiadwy yw eiddo 2 ystafell wely. Mae'r Bartneriaeth Tai Strategol yn ystyried anghenion tai ac er y bu cynnydd yn y ddarpariaeth o anheddau 1 a 2 ystafell wely yn y blynyddoedd diwethaf yn unol â'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (2008), mae effaith diwygiadau lles heb ei gwireddu'n llawn eto, ond wrth i amser fynd yn ei flaen mae Swyddogion Cynllunio yn negodi mwy o gymysgedd a ddylai hyn weithio trwy'r system dros y blynyddoedd nesaf.</p> <p>Mae Swyddogion Cynllunio yn parhau i gydweithio â'r Swyddog Tai Fforddiadwy a'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i sicrhau bod y math o dai marchnadol a thai fforddiadwy ar safleoedd yn cyfateb ag anghenion y gymuned leol.</p> <p>Lansiwyd cofrestr tai gyffredin newydd yng Ngheredigion ar 1 Mehefin 2016. Mae dadansoddiad diweddar o'r gofrestr yn dangos bod angen sylweddol am eiddo 1 a 2 ystafell wely. Mae angen diweddariad o Asesiad 2020 o'r Farchnad Dai Leol yn 2021 (gan ddefnyddio amcanestyniadau 2018 y boblogaeth), fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn datblygu model Asesiad o'r Farchnad Dai Leol i'w ddefnyddio gan Awdurdodau Lleol a ddylai fod ar gael ym mis Rhagfyr 2021. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud bod unrhyw ddiweddariadau yn defnyddio'r model newydd.</p>				

Casgliadau

Nid yw'r targed yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd, fodd bynnag, nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. O ran maint anheddau, mae Polisi LU02 yn parhau i gael ei ystyried yn addas i'r pwrpas.

Gweithred

Bydd angen am lety ar gyfer pobl oedrannus yn cael ei ystyried yn y diwygiad o'r CDLI a allai arwain at newid/ychwanegu at Bolisi LU02 neu LU04 er mwyn rhoi sylw i'r broblem o boblogaeth sy'n heneiddio a phwysleisio'r angen am lety addas fel rhan o'r cymysgedd o dai ar safleoedd tai.

Yr Economi

Cyfeirnod Monitro: AMRE01				
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro: Cyflenwad Tir Cyflogaeth				
Y Polisiau a Gaiff eu Monitro: S01 – S04 ac LU13				
Lefel: Lleol				
Pryd: Yn flynyddol				
Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion (CSC)				
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Dim colledion net o ran tir cyflogaeth / arwynebedd llawr onid yw'n unol â Pholisi LU13.	Cyflenwad/datblygiad net y tir economaidd (hectarau/metrau sgwâr).	Os oes colled net o 1 safle neu ddarn o dir o fewn dosbarth defnydd B1, B2 neu B8 nad yw'n unol â Pholisi LU13 cynhelir ymchwiliad i'r achosion.	Newid yn yr arwynebedd llawr a ddefnyddir ar gyfer cyflogaeth (B1, B2 a B8), sef: +0 ha.	+

		<p>Gall nifer o ffactorau effeithio ar y tir cyflogaeth a neilltuir sy'n cael ei ddatblygu, ac oherwydd hynny cymerir camau sy'n ymwneud â'r dangosydd ar y cyd ag Adran Datblygu Economaidd y Cyngor ac Adran Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru.</p>		
<p>Dadansoddiad</p> <p>Cafodd +0.1 ha o ddatblygiadau dosbarth B1, B2 a B8 ei ganiatáu yn ystod y cyfnod monitro. Mae'r ffigur hwn yn cymharu â +0.1ha (2020), +0.2 (2019), +1.7 (2018), +0.57 (2017), +0.14 (2016), +1.94ha (2015) a +0.14ha (2014).</p>				
<p>Casgliadau</p> <p>Mae'r targed yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd ac nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithredu'r polisiau.</p>				
<p>Gweithred</p>				
<p>Mae polisiau cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.</p>				

Cyfeirnod Monitro:	AMRE02 (Dangosydd Statudol)			
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:	Cyflenwi'r Safleoedd Economaidd a Neilltuwyd			
Y Polisiau a Gaiff eu Monitro:	S01 – S04 ac LU13			
Lefel:	Craidd			
Pryd:	Yn flynyddol			
Ffynhonnell:	Cyngor Sir Ceredigion (CSC)			
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2007 – 31 Mawrth 2021)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Dylai 66% o'r tir a neilltuwyd fod wedi cael caniatâd neu wedi cael ei gwblhau ar adeg mabwysiadu'r CDLI.	1. Maint y datblygu economaidd a ganiatawyd ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o ddyraniadau'r CDLI (hectarau).	Os na fydd y safleoedd a neilltuwyd wedi cael eu cyflawni yn unol â'r hyn a ddisgwyliwyd, caiff ymchwiliad i'r achosion ei ysgogi.	Caniatawyd: 81% (108.06Ha) Cwblhawyd 58% (87.14ha).	0
Dylai 83% o'r safleoedd a neilltuwyd	2. Maint y datblygu economaidd a	Oherwydd bod nifer o ffactorau'n gallu effeithio ar y		

Dadansoddiad o ddangosyddion Craidd a Lleol

<p>fod wedi cael caniatâd neu wedi cael eu cwblhau erbyn 2017.</p> <p>Dylai 100% o'r safleoedd a neilltuwyd fod wedi cael caniatâd neu wedi cael eu cwblhau erbyn 2022.</p>	<p>gwblhawyd ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o ddyraniadau'r CDLI (hectarau).</p>	<p>tir cyflogaeth a neilltuir sy'n cael ei ddatblygu, cymerir camau sy'n ymwneud â'r dangosydd blynyddol ar y cyd ag Adran Datblygu Economaidd y Cyngor ac Adran Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru.</p>		
<p>Dadansoddiad</p> <p>Ni chyflawnwyd y targed o 83% o safleoedd a neilltuwyd i'w caniatáu neu eu cwblhau erbyn 2017. Mae'r cynllun yn symud tuag at ei gyfnod hwyrach bellach lle y dylai 100% o safleoedd a neilltuwyd gael eu caniatáu neu eu cwblhau erbyn 2022, fodd bynnag mae 81% wedi cael eu caniatáu a 61% eu cwblhau erbyn diwedd y cyfnod monitro. Nodir na chafodd un caniatâd ei roi yn 2019 ar gyfer Safle Cyflogaeth a Neilltuwyd er bod unedau wedi'u cwblhau ar Safleoedd Cyflogaeth a Neilltuwyd nad oeddent ar rannau o'r safle heb eu datblygu o'r blaen. Nodir y cafodd y rhan fwyaf o'r unedau a gwblhawyd a gofnodwyd eu cwblhau cyn mabwysiadu'r CDLI gan fod llawer o'r safleoedd cyflogaeth a neilltuwyd yn y CDLI wedi cael eu nodi ac er mwyn caniatáu ar gyfer aiddatblygu cydlynus a/neu symleiddio eu defnyddiau presennol.</p>				

Wrth i'r cynllun symud tuag at y targed a nodwyd ar gyfer 2022 nid oes unrhyw bryderon ynghylch lefel y datblygiadau cyflogaeth yn gyffredinol sydd wedi gweld arafu cyffredinol yn yr economi dros y blynyddoedd diwethaf, gan felly cefnogi lleihad tebygol yn y gofyniad cyffredinol am dir cyflogaeth. Mae'r Cyngor wedi cynnal adolygiad mewnol o dir cyflogaeth ac mae'n gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol ar Aseiad Mwy Nag Anghenion Cyflogaeth Lleol sy'n ymchwilio i'r rhesymau dros ddiffyg datblygu rhai safleoedd cyflogaeth a neilltuwyd, ac yn ystyried y galw am safleoedd a neilltuwyd yn y dyfodol yng Ngheredigion. Bydd y dystiolaeth newydd hon yn llywio'r CDLI newydd.

Casgliadau

Nid yw targed 2017 wedi cael ei gyflawni, ac mae'n rhy gynnar i gadarnhau a gaiff targed 2022 ei gyflawni neu beidio, fodd bynnag nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithredu'r polisïau. Bydd yr adolygiad o'r CDLI yn ystyried y sylfaen dystiolaeth economaidd wedi'i diweddarau sy'n cael ei pharatoi ac yn ystyried anghenion tir cyflogaeth yn y dyfodol, ac adolygu'r safleoedd cyflogaeth a neilltuwyd.

Gweithred

Mae polisïau cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

Dadansoddiad o ddangosyddion Craidd a Lleol

Cyfeirnod Monitro:	AMRE03			
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:	Datblygu Economaidd mewn Lleoliadau Addas			
Y Polisiau a Gaiff eu Monitro:	S01 – S04			
Lefel:	Lleol			
Pryd:	Yn flynyddol			
Ffynhonnell:	Cyngor Sir Ceredigion (CSC)			
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2007 – 31 Mawrth 2021)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Hyd at 40% o'r datblygu economaidd i'w leoli ar safleoedd a neilltuwyd.	1. Maint y datblygu economaidd a ganiatawyd ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o'r holl ddatblygu a ganiatawyd (hectarau ac unedau).	Os methir â lleoli 35% neu lai o'r holl ddatblygu economaidd a ganiatawyd neu a gwblhawyd ar safleoedd a neilltuwyd am 2 flynedd yn olynol cynhelir dadansoddiad o achosion y diffyg er mwyn gweld a allai'r Awdurdod Lleol	Dim caniatadau/unedau a gwblhawyd ar rannau heb eu datblygu o'r safleoedd neilltuwyd yn 2020. Caniatawyd: Unedau: 50% (50 o unedau).	+

	<p>2. Maint y datblygu economaidd a gwblhawyd ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o'r holl ddatblygu a gwblhawyd (hectarau ac unedau).</p>	<p>fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau.</p> <p>Oherwydd bod nifer o ffactorau'n gallu effeithio ar y tir cyflogaeth a neilltuir sy'n cael ei ddatblygu, cymerir camau sy'n ymwneud â'r dangosydd blynyddol ar y cyd ag Adran Datblygu Economaidd y Cyngor ac Adran Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru.</p>	<p>Hectarau: 43% (7.53ha). (nid yw'r ffigurau yn ystyried caniatadau sydd wedi dod i ben a gafodd eu caniatáu yn ystod y cyfnod).</p> <p>Cwblhawyd: Unedau: 50% (45 o unedau) Hectarau: 43% (7.00ha)</p>	
<p>Dadansoddiad</p> <p>Yn ôl Safleoedd Cyflogaeth ac Anghenion Safle a Chynllun Gweithredu Rhanbarth Canolbarth Cymru Ebrill 2020 (Grŵp B.E. ar gyfer Parc Cenedlaethol Powys, Ceredigion a Bannau Brycheiniog), yr anghenion tir a argymhellir ar gyfer Ceredigion i 2040 ar gyfer defnydd B1, B2/8 yw -8.53ha, fodd bynnag, er y rhagwelir y bydd niferoedd cyffredinol cyflogaeth yn lleihau, rhagwelir y bydd rhai sectorau'n cynyddu dros y cyfnod a ragwelir ac efallai na fydd yn syml addasu arwynebedd llawr o sectorau sy'n dirywio i</p>				

ddiwallu anghenion y sectorau twf. Gan gymryd y twf mewn sectorau eraill, y cynnydd yn yr angen fyddai 1.99ha. Mae'r targed o 40% o ddatblygu economaidd i'w leoli ar safleoedd a neilltuwyd yn parhau i gael ei gyflawni, gyda 49% o'r unedau wedi'u caniatáu a 52% wedi'u cwblhau ar safleoedd a neilltuwyd, gan awgrymu felly bod safleoedd a neilltuwyd y CDLI yn gweithredu fel y dymunir ar hyn o bryd.

Casgliadau

Mae maint y tir cyflogaeth a neilltuwyd yn ddigonol ar gyfer cyfnod y cynllun. Mae'r targedau'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd ac nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithredu'r polisïau.

Gweithred

Mae polisïau cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

Cyfeirnod Monitro:	AMRE04			
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:	Datblygu Economaidd ar Dir a Ddatblygwyd o'r Blaen			
Y Polisiau a Gaiff eu Monitro:	S01 – S04, LU11, LU12 ac LU13			
Lefel:	Lleol			
Pryd:	Yn flynyddol			
Ffynhonnell:	Cyngor Sir Ceredigion (CSC)			
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2007 – 31 Mawrth 2021)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
30% o'r holl ddatblygu economaidd a ganiatawyd ac a gwblhawyd i'w leoli ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (tir llwyd).	1. Maint y datblygu newydd (hectarau) a ganiatawyd ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (ailddatblygu tir llwyd a chyfaddasiadau) fel canran o'r holl ddatblygu a ganiateir.	Oni chaiff o leiaf 30% o'r holl ddatblygu economaidd a ganiatawyd ac a gwblhawyd ei leoli ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (tir llwyd) cynhelir dadansoddiad i achosion y diffyg er mwyn gweld a all yr	Caniatawyd: 58% (9.521ha) Cwblhawyd: 58% (9.42ha)	+

Dadansoddiad o ddangosyddion Craidd a Lleol

	<p>2. Maint y datblygu newydd (hectarau) a gwblhawyd ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (ailddatblygu tir llwyd a chyfaddasiadau) fel canran o'r holl ddatblygu a gwblhawyd.</p>	<p>Awdurdod Lleol fynd i'r afael â'r rhwystrau.</p>		
<p>Dadansoddiad</p> <p>Gan mai sir wledig yw Ceredigion ac nid oes llawer o dir llwyd ar gael i'w ddatblygu mae'n anochel y bydd tir glas yn cyfrannu at gyfran fawr o'r holl dir y gellir ei ddatblygu. Mae mwy na 30% o'r holl ddatblygu economaidd a ganiatawyd ac a gwblhawyd wedi bod ar dir llwyd ers dechrau'r broses CDLI, gyda 58% wedi'i ganiatáu (9.52ha) a 58% (9.42ha) wedi'i gwblhau. Felly mae'r targed wedi cael ei gyflawni ac nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithredu polisiau'r CDLI.</p>				
<p>Casgliadau</p> <p>Mae'r dangosydd yn cael ei gyflawni. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithredu polisiau'r CDLI.</p>				
<p>Gweithred</p>				
<p>Mae polisiau cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.</p>				

Cyfeirnod Monitro:	AMRE05 (Dangosydd Statudol)			
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:	Canol Trefi			
Y Polisiau a Gaiff eu Monitro:	S01 – S04, LU12, LU13, LU18, LU19, LU20, LU21 ac LU22			
Lefel:	Craidd			
Pryd:	Yn flynyddol			
Ffynhonnell:	Cyngor Sir Ceredigion (CSC)			
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Lleoli o leiaf 80% o'r holl ddatblygiadau swyddfeydd, manwerthu a hamdden mawr (datblygiadau dros 800 o fetrau sgwâr gros) yng nghanol trefi.	Maint y datblygiadau mawr (datblygiadau dros 800 m sg gros) swyddfeydd, manwerthu a hamdden a ganiatawyd o fewn a'r tu allan i ffiniau sefydledig canol trefi a dosbarth.	Os bydd llai na 70% o ddatblygiadau mawr (o ran swyddfeydd, manwerthu a hamdden) yn digwydd yng nghanol trefi am 2 flynedd yn olynol, cynhelir ymchwiliad i'r rhesymau ac a oes angen i'r Awdurdod Lleol fynd ati i ddileu'r rhwystrau, naill ai	O fewn canol trefi Unedau: 0% (0 uned) Arwynebedd: 0% (0 m sg) Y tu allan i ffiniau sefydledig canol trefi a dosbarth Unedau: 0% (0 o unedau)	0

Dadansoddiad o ddangosyddion Craidd a Lleol

		drwy'r CDLI neu ddulliau eraill, er mwyn i'r safle gael ei ddatblygu.	Arwynebedd: 0% (0 m sg)	
Dadansoddiad Cafodd 0 ceisiadau eu caniatáu o fewn neu tu allan i ffiniau'r dref.				
Casgliadau Er nad yw'r targed wedi cael ei gyflawni, nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithredu'r polisïau.				
Gweithred				
Mae polisïau cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.				

Cyfeirnod Monitro:	AMRE06			
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:	Bywiogrwydd y Canolfannau Gwasanaethau Gwledig			
Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro:	S01 – S04, LU12, LU13, LU18, LU19, LU20, LU21 ac LU22			
Lefel:	Lleol			
Pryd:	Yn flynyddol			
Ffynhonnell:	Cyngor Sir Ceredigion (CSC)			
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2020)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Nifer sefydlog neu gynyddol o gyfleusterau mewn Canolfan Gwasanaethau.	Sawl un o'r 6 chyfleuster allweddol (siop fwyd, swyddfa bost, gorsaf betrol, tafarn, neuadd bentref, ysgol gynradd) sydd yn y Ganolfan	Os collir un o'r 6 chyfleuster allweddol mewn Canolfan Gwasanaethau cynhelir ymchwiliad i'r rhesymau dros hynny. Fodd bynnag, gan fod nifer o ffactorau'n gallu effeithio ar ddarparu'r cyfleusterau, byddai angen ystyried unrhyw golledion net yn y cyd-destun ehangach.	Gweler Atodiad 8 ar gyfer gwybodaeth 2019. Oherwydd Pandemig COVID-19 ni roddwyd awdurdodiad i'r arolwg amwynderau gael ei gynnal yn 2020.	+

	Gwasanaethau Wledig.			
<p>Dadansoddiad</p> <p>Mae'r canlyniadau ynghylch nifer y cyfleusterau allweddol mewn Canolfannau Gwasanaethau Gwledig ers mabwysiadu'r cynllun wedi bod yn weddol gyson. Er y nodir y bu mân amrywiad yn nifer rhai o'r mathau o gyfleusterau, mae dadansoddiad manwl wedi nodi mân gangymeriadau yn nosbarthiadau'r arolwg ac adrodd hanesyddol.</p> <p>At hynny, mae peth pryder bod y ffigurau monitro a pherfformiad ychydig yn dwyllodrus, er enghraifft, ble mae cyfleusterau allweddol wedi'u lleoli y tu allan i derfynau aneddiadau diffiniedig, e.e. ym Mhontarfynach a Bow Street, nid yw'r data a ddefnyddir i fesur perfformiad yn adlewyrchu'n hollol y newidiadau i ddefnyddiau ers i'r arolwg amwynderau gael ei sefydlu. Er mwyn rheoli'r cywiriadau hyn a datblygu protocol mwy cadarn ar gyfer adrodd, cynhelir adolygiad o gyfleusterau allweddol a'i ddefnyddio i lywio'r adolygiad o'r Canolfannau Gwasanaethau a'r Strategaeth Anheddu gyffredinol fel rhan o'r adolygiad a'r diwygiad o'r CDLI.</p> <p>Ni fu unrhyw newid mawr yn y nifer a'r mathau o gyfleusterau mewn Canolfannau Gwasanaethau Gwledig dros y blynyddoedd diwethaf. Bydd bywiogrwydd Canolfannau Gwasanaethau Gwledig yn gyffredinol yn cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad a'r diwygiad o'r CDLI. O ran gwasanaethau a chyfleusterau mewn Canolfannau Gwasanaethau, gan mai ers mis Ebrill 2013 yn unig y mae'r CDLI wedi bod yn sail ar gyfer gwneud penderfyniadau, mae'n rhy gynnar i ddweud eto a yw'r strategaeth hon yn cael effaith ar eu cadw neu eu gwella.</p>				

O ganlyniad i Covid nid yw'r arolwg wedi'i gwblhau, ond mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod arferion manwerthu wedi newid yn lleol gyda rhagor o bobl yn gweithio gartref ac yn ymweld â chyfleusterau lleol, felly dylai canlyniadau'r flwyddyn nesaf roi gwybod pa mor wir yw hyn. Mae nifer o siopau a chaffis pentrefol newydd wedi agor yn ystod y 18 mis diwethaf a gobeithiwn y bydd y duedd hon yn parhau ac y byddwn yn ei hadrodd yn ffurfiol y flwyddyn nesaf.

Casgliadau

Ni fu llawer o newid o ran darparu cyfleusterau allweddol yn y Canolfannau Gwasanaethau Gwledig ers mabwysiadu'r cynllun, felly nid oes unrhyw bryderon mawr ynghylch gweithredu polisïau'r CDLI.

Gweithred

Mae polisïau cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

Dadansoddiad o ddangosyddion Craidd a Lleol

Cyfeirnod Monitro:	AMRE07			
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:	Ffryntiadau Manwerthu			
Y Polisiau a Gaiff eu Monitro:	S01 – S02, LU19 ac LU21			
Lefel:	Lleol			
Pryd:	Yn flynyddol			
Ffynhonnell:	Cyngor Sir Ceredigion (CSC)			
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Defnydd manwerthu sefydlog neu gynyddol ar Brif Ffryntiadau Manwerthu yn Aberystwyth ac Aberteifi. Defnydd manwerthu sefydlog neu gynyddol	Defnydd manwerthu sefydlog neu gynyddol ar Brif Ffryntiadau Manwerthu yn Aberystwyth ac Aberteifi. Defnydd manwerthu sefydlog neu gynyddol ar Ffryntiadau Manwerthu	Os bydd y lefelau'n disgyn o dan y trothwyon a nodir ym Mholisi LU21 am 2 flynedd yn olynol, cynhelir dadansoddiad er mwyn deall y sefyllfa a chymryd camau fel bo'n briodol i gyfyngu ar golledion pellach.	Prif Ffryntiadau Manwerthu (mae 75% A1 yn ofynnol o dan y polisi): Aberteifi	+

<p>ar Ffrytiadau Manwerthu Eilaidd yn Aberystwyth ac Aberteifi.</p>	<p>Eilaidd yn Aberystwyth ac Aberteifi.</p>		<p>P0201 Gorllewin y Stryd Fawr: 72.0%</p> <p>P0202 Dwyrain y Stryd Fawr: 76.9%</p> <p>Cyfun: 74.5%</p> <p>Aberystwyth:</p> <p>P0301 Gogledd y Stryd Fawr: 70%</p> <p>P0302 De'r Stryd Fawr: 85.7%</p> <p>P0303 Gogledd Sgwâr Owain Glyndwr: 42.9%</p> <p>P0304 De Sgwâr Owain Glyndwr: 81.8%</p>	
---	---	--	--	--

			<p>P0305 Dwyrain Heol y Wig: 57.1%</p> <p>P0306 Gorllewin Heol y Wig: 85.7%</p> <p>P0307 Gorllewin y Ffynnon Haearn: 62.5%</p> <p>P0308 Gorllewin Ffordd y Môr: 100%</p> <p>P0309 Dwyrain Ffordd y Môr: 75%</p> <p>Cyfun: 74.8%</p> <p>Ffryntiadau Manwerthu Eilaidd (mae 50% A1 yn ofynnol o dan y polisi):</p> <p>Aberteifi</p> <p>S0201 Gorllewin y Stryd Fawr: 35.7%</p>	
--	--	--	--	--

			<p>S0202 Dwyrain y Stryd Fawr: 91.7%</p> <p>S0205 Cwrt y Priordy: 91.7%</p> <p>S0206 Gogledd Stryd y Priordy: 50%</p> <p>S0207 De Stryd y Priordy: 57.1%</p> <p>S0209 Pendre: 69.2%</p> <p>Cyfun: 72%</p> <p>Aberystwyth</p> <p>S0301 Dwyrain y Ffynnon Haearn: 68.8%</p> <p>S0302 Ffordd y Môr/Lôn Cambria: 29.4%</p>	
--	--	--	---	--

Dadansoddiad o ddangosyddion Craidd a Lleol

			<p>S0303 De Ffordd y Môr: 57.1%</p> <p>S0305 Dwyrain Heol y Wig: 45.5%</p> <p>S0307 Gorllewin Heol y Wig: 40%</p> <p>S0308 Gorllewin Stryd y Bont: 76.9%</p> <p>S0309 Dwyrain Stryd y Bont: 83.3%</p> <p>Cyfun: 55.2%</p>	
<p>Dadansoddiad</p> <p>Mae'r prif ffryntiadau a'r ffryntiadau eilaidd cyfun yn Aberteifi a'r ffryntiadau eilaidd cyfun yn Aberystwyth yn cyflawni'r targedau polisi gofynnol o 75% (prif) a 50% (eilaid). Mae'r prif ffryntiad yn Aberystwyth ac Aberteifi dros 74% ac yn agos iawn at y targed 75%.</p>				

Yn Aberystwyth mae canran defnyddiau manwerthu yn y prif ffryntiadau yn amrywio rhwng 100% i 57.1% a rhwng 76.9% i 29.4% yn y ffryntiadau eilaidd. Yn Aberteifi, mae canran defnyddiau manwerthu yn 72% mewn un ffryntiad, ac yn 76.9% yn yr ardaloedd prif ffryntiad manwerthu eraill, ond mae ffryntiadau eilaidd yn amrywio rhwng 91.7% a 35.7%.

Dylid nodi hefyd bod y dangosydd (a fabwysiadwyd) yn monitro perfformiad defnyddiau A1 yn unig. Mae Polisi LU21 yn diffinio manwerthu fel dosbarth A ac nid A1 yn benodol, ac mae'r polisi yn cael ei gymhwyso felly. Os ydych yn ystyried defnyddiau dosbarth A (ac nid A1) byddai prif ffryntiadau a ffryntiadau eilradd yn Aberystwyth ac Aberteifi o fewn y gofyniad gormodedd o 75% a 50% yn rhwydd.

Wrth ystyried defnyddiau dosbarth A (gan gynnwys dosbarthiadau defnydd A1, A2 ac A3), mae'r prif ffryntiadau yn Aberystwyth yn amrywio o 87.5 – 100% (95.5% cyfun) ac yn Aberteifi 96 – 100% (98% cyfun), a'r ffryntiadau eilradd yn Aberystwyth yn amrywio o 84.6 – 100% (92% cyfun) ac yn Aberteifi yn amrywio o 71.4 – 100% (96% wedi'i gyfuno). Mae'r darlun hwn yn dangos bod pob ffryntiad yn uwch na'r targedau polisi gofynnol.

Fel rhan o'r adolygiad o'r cynllun, rhoddir ystyriaeth i'r ffryntiadau hyn ac a ydynt yn briodol a/neu a yw'r targedau yn realistig, a/neu a fyddai mesur gwahanol yn dangos perfformiad prif ffryntiadau a ffryntiadau eilaidd orau, yn enwedig o ystyried natur newidiol stryd fawr Prydain lle mae defnyddiau hamdden ac adloniant yn ysgogydd pwysig o dwf economaidd fel ffryntiadau lle siop manwerthu A1.

Casgliadau

Effeithiwyd yn sylweddol ar fanwerthu gan bandemig Covid 19 a bu pryder lleol sylweddol ynghylch cau cadwyni rhyngwladol ar y stryd fawr, ond mae'n braf gweld bod nifer o fusnesau wedi agor yn ystod y pandemig ac mae cyfraddau'r siopau gwag ledled y

wlad yn parhau'n sefydlog gan fynd yn groes i'r duedd genedlaethol. O ystyried fod Polisi LU21 yn diffinio manwerthu fel dosbarth A ac nid A1 yn benodol ac mae'r Polisi yn cael ei gymhwyso felly, nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithredu'r polisïau.

Gweithred

Mae polisïau cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

Ansawdd Bywyd

Cyfeirnod Monitro:		AMRQ01		
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:		Colli Mannau Agored a Chyfleusterau		
Y Polisiau a Gaiff eu Monitro:		LU22		
Lefel:		Lleol		
Pryd:		Yn flynyddol		
Ffynhonnell:		Cyngor Sir Ceredigion (CSC)		
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Dim colledion net o fannau agored a chyfleusterau hamdden i ddatblygiadau ar safleoedd annisgwyl a	Maint y mannau agored a chyfleusterau hamdden a gollir i ddatblygiadau (hectarau ac unedau) ar safleoedd annisgwyl a safleoedd heb eu neilltuo.	Os bydd colledion net o fannau agored a chyfleusterau neu ardaloedd hamdden, cynhelir ymchwiliad i'r rhesymau dros hynny.	Dim colled net o fannau agored anffurfiol.	+

Dadansoddiad o ddangosyddion Craidd a Lleol

thir oedd heb ei neilltuo.				
Dadansoddiad Ni chofnodwyd bod unrhyw fannau agored wedi'u colli yn ystod y cyfnod monitro sy'n awgrymu bod Polisi LU22 yn cael ei weithredu'n llwyddiannus.				
Casgliadau Mae'r targed yn cael ei gyflawni ac felly nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithredu'r polisi ar hyn o bryd.				
Gweithred				
Mae polisïau cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.				

Cyfeirnod Monitro:	AMRQ02			
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:	Colli Safleoedd Tir Glas			
Y Polisiau a Gaiff eu Monitro:	S02 – S04			
Lefel:	Lleol			
Pryd:	Yn flynyddol			
Ffynhonnell:	Cyngor Sir Ceredigion (CSC)			
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2007 – 31 Mawrth 2020)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Dim mwy na: 75% o ddatblygu preswyl 70% o ddatblygu economaidd a 15% o bob math arall o ddatblygu	Ers dechrau cyfnod y cynllun, maint y tir glas a gollir i ddatblygiadau (hectarau) ar safleoedd annisgwyl neu	Os caniateir neu os cwblheir mwy o ddatblygiadau ar dir glas na'r trothwyon uchod, cynhelir dadansoddiad i achosion y gormodedd er mwyn gweld a all yr Awdurdod Lleol roi sylw i'r mater.	Datblygu Preswyl (Targed 75%) Caniatawyd: 217.35ha (81%) Cwblhawyd: 179.35ha (80%)	0

Dadansoddiad o ddangosyddion Craidd a Lleol

<p>Wedi'i ganiatáu a'i gwblhau ar dir sydd heb ei neilltuo i'w lleoli ar dir maes glas.</p>	<p>safleoedd heb eu neilltuo.</p>		<p>Datblygu Economaidd (Targed 70%)</p> <p>Caniatawyd: 6.34ha (23%)</p> <p>Cwblhawyd: 5.32ha (46%)</p> <p>Pob math arall o ddatblygu (Targed 15%)</p> <p>Caniatawyd: 59.97ha (65%)</p> <p>Cwblhawyd: 43.69ha (72%)</p>	
<p>Dadansoddiad</p> <p>Gan mai sir wledig yw Ceredigion ac nid oes llawer o dir llwyd ar gael i'w ddatblygu, mae'n anochel y bydd tir glas yn cyfrannu at gyfran fawr o'r holl dir y gellir ei ddatblygu, a lluniwyd targedau'r dangosydd i adlewyrchu hyn.</p> <p>Nid yw'r trothwy o 75% a osodwyd ar gyfer datblygu preswyl wedi cael ei gyflawni ar gyfer datblygu a ganiatawyd neu ddatblygu a gwblhawyd, ac mae 80% o'r unedau a gwblhawyd wedi'u lleoli ar dir glas. Yr anhawster gyda'r dangosydd hwn yw nad oes gan yr Awdurdod Lleol unrhyw reolaeth dros y caniatadau cynllunio ar ôl iddynt gael eu rhoi. Byddai llawer o'r caniatadau sydd wrthi'n cael</p>				

eu cwblhau wedi cael eu rhoi cyn mabwysiadu'r CDLI, ac felly cyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol allu dylanwadu ar leoliad datblygiad sy'n ffafrio safleoedd tir llwyd.

Cyflawnwyd y targedau ar gyfer caniatadau datblygu economaidd hefyd, gyda 23% o'r datblygu a ganiatwyd, fodd bynnag cafodd 46% o'r datblygu economaidd ei gwblhau ar dir glas.

Mae'r targed ar gyfer datblygu arall wedi cael ei ragori ond yn wyneb y budd cymunedol/economaidd a wireddwyd mewn perthynas â 'datblygu arall' ni ystyrir ei fod yn achos o bryder.

I grynhoi, mae'r rhan fwyaf o'r targedau a nodwyd ar gyfer y dangosydd hwn yn cael eu cyflawni. Ni ystyrir bod y targedau datblygu nad ydynt yn cael eu cyflawni yn achos o bryder.

Casgliadau

Nid yw'r targedau ar gyfer caniatadau preswyl ac eraill yn cael eu cyflawni. Mae caniatadau ar gyfer datblygu economaidd wedi cyflawni'r targed. Er gwaethaf hyn, mae dadansoddiad o'r datblygiadau eraill yn awgrymu eu bod yn briodol o ran eu graddfa a'u lleoliadau, ac felly nid oes unrhyw bryderon ar hyn o bryd ynghylch gweithredu polisiau'r CDLI.

Gweithred

Bydd y Cyngor yn parhau i ganolbwyntio'n bennaf ar y ceisiadau a dderbynnir a sut y maent yn trosi'n ganiatadau y gellir eu cyflawni yn hytrach nag unedau a gwblhawyd sydd y tu allan i reolaeth yr Awdurdod Cynllunio Lleol i raddau helaeth, ac wedi'u caniatáu'n bennaf o dan gyfres wahanol o bolisiau cynllunio i'r rhai a nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol.

<p>Cyfeirnod Monitro: AMRQ03</p> <p>Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro: Ennill Mannau Agored</p> <p>Y Polisiau a Gaiff eu Monitro: LU24</p> <p>Lefel: Lleol Yn flynyddol</p> <p>Pryd: Cyngor Sir Ceredigion (CSC)</p> <p>Ffynhonnell:</p>				
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Darparu mannau agored yn unol â Pholisi LU24.	Ceisiadau cynllunio perthnasol yn unol â Pholisi LU24.	Os bydd llai nag 85% o safleoedd yn cyflenwi'r mannau agored sy'n ofynnol o dan Bolisi LU24, cynhelir ymchwiliad i weld beth yw'r rhwystrau i gyflenwi'r safleoedd hyn.	Mae 65% o'r ceisiadau cynllunio perthnasol wedi bodloni'r gofynion o ran darparu mannau agored yn unol â Pholisi LU24.	-

Dadansoddiad

Derbyniwyd 17 chais cynllunio perthnasol yn ystod y cyfnod monitro. Roedd 11 cais yn cynnwys darparu man agored yn unol â Pholisi LU24 ac roedd 6 heb gynnwys y ddarpariaeth honno. Roedd dadansoddiad o'r 6 cais oedd heb gydymffurfio â'r Polisi yn dangos bod:

- 1 cais yw datblygu safle tir llwyd yn fflatiau mewn lleoliad yng nghanol tref.
- 1 cais heb gydymffurfio oherwydd bod ceisiadau amlinellol wedi cael eu cymeradwyo yn erbyn argymhelliad swyddog y Pwyllgor Cynllunio. Roedd heb gynnwys man agored cymunol/cyhoeddus, dim ond gerddi preifat, a chafodd ei gymeradwyo gan y pwyllgor fel y'i cyflwynwyd.
- Roedd 3 cais am safleoedd â 4 annedd
- Roedd 1 cais am dai gofal ychwanegol

Casgliadau

Roedd 65% (11) o geisiadau cynllunio wedi darparu manau agored yn unol â Pholisi LU24. Er nad yw'r targed yn cael ei gyflawni nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. Bydd rhaid i'r adolygiad o'r CDLI ystyried darparu manau agored yn gyffredinol a'r gofynion polisi.

Gweithred

Dim pryderon oherwydd natur wledig y Sir. Parhau i'w fonitro.

Cyfeirnod Monitro:	AMRQ04			
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:	Yr Amgylchedd a Bioamrywiaeth Leol			
Y Polisiau a Gaiff eu Monitro:	DM15, DM20 a DM22			
Lefel:	Lleol			
Pryd:	Yn flynyddol			
Ffynhonnell:	Cyngor Sir Ceredigion (CSC) a Chyfoeth Naturiol Cymru.			
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Peidio â chaniatáu mwy na 5% o ddatblygiadau lle tybir y byddai effeithiau hirdymor gweddilliol sylweddol ar yr amgylchedd a bioamrywiaeth leol.	Canran y datblygiadau a ganiateir lle tybir y bydd effeithiau hirdymor gweddilliol sylweddol ar: <ul style="list-style-type: none"> Warchodfeydd Natur Lleol, Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur a 	Os tybir y bydd mwy na 10% o'r datblygiadau a ganiateir yn cael effaith hirdymor weddilliol sylweddol ar yr uchod, cynhelir dadansoddiad o achosion y gormodedd er mwyn gweld a	1.88% o ddatblygiadau a ganiateir lle y rhagwelir y bydd effeithiau hirdymor gweddilliol sylweddol ar yr amgylchedd a bioamrywiaeth leol.	0

	<p>chynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth;</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cysylltedd ecolegol; • Coed, gwrychoedd a choetiroedd â gwerth gweledol, ecolegol, hanesyddol, diwylliannol neu amwynder; neu • Wasanaethau ecosystemau a phrosesau naturiol. 	<p>all yr Awdurdod Lleol fynd i'r afael â'r mater.</p>		
<p>Dadansoddiad</p> <p>O'r 713 o geisiadau a ganiatawyd yn ystod y cyfnod monitro (heblaw arddangos arwyddion ond gan gynnwys ceisiadau i amrywio a dileu amodau), cymeradwywyd 13 cais (1.82%) er gwaetha'r effeithiau sylweddol pendant y gwyddys amdanynt.</p> <p>Gofynnwyd am amodau ar gyfer 237 o geisiadau (33.24%). Cafodd 14 o geisiadau (1.88%) eu caniatáu heb gynnwys naill ai rai neu'r holl amodau ecoleg a argymhellwyd, ac felly cawsant eu caniatáu hefyd er nad oedd yr effeithiau posibl yn hysbys. Ni</p>				

chafodd amodau yn atal gwaith yn ystod tymor bridio adar, ac oedd yn gofyn am lefelau isel o olau allanol i ganiatáu ystlumod i barhau i fedru defnyddio'r safle, eu cynnwys.

Mae ceisiadau a gafodd eu caniatáu heb amodau ecoleg angenrheidiol yn cynnwys ceisiadau lle na ymgynghorwyd â'r ecolegydd, lle na ystyriwyd gwneud iawn am golli nythod adar, ac atal gwaith yn ystod y tymor bridio adar.

Er mwyn cyrraedd ein targed ar gyfer 2021/22 cynigir fel a ganlyn:

- Cyfathrebu â'r Swyddogion Rheoli Datblygu i drafod y canlyniadau monitro a thynnu sylw at bwysigrwydd corffori amodau ecoleg fel y bo angen;
- Mae'r ecolegydd yn parhau i fonitro bob chwarter er mwyn nodi unrhyw dueddiadau yn gynnar a chyfyngu cyfleoedd ar gyfer methu â chydymffurfio â'r targed a nodwyd.
- Mae'r ecolegydd yn monitro pob cais a ddilyswyd er mwyn sicrhau yr ystyrir ecoleg pan fydd angen.

Casgliadau

Mae'r targed o 5% wedi'i gyrraedd eleni, fodd bynnag, bu gwelliant ers y flwyddyn flaenorol.

Gweithred

Mae polisiau cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

Dadansoddiad o ddangosyddion Craidd a Lleol

Cyfeirnod Monitro:	AMRQ05			
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:	Gwelliannau Amgylcheddol			
Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro:	DM14, DM15, DM20 a DM22			
Lefel:	Lleol			
Pryd:	Yn flynyddol			
Ffynhonnell:	Cyngor Sir Ceredigion (CSC) a Chyfoeth Naturiol Cymru.			
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Bydd o leiaf 85% o'r datblygu a ganiateir yn cynnwys gwelliannau amgylcheddol yn unol â gofynion Polisiâu DM14, DM15, DM20 a DM22.	Canran y ceisiadau lle mae gwelliannau sy'n ymwneud â'r isod: <ul style="list-style-type: none"> Bioamrywiaeth (gan gynnwys Gwarchodfeydd Natur Lleol, Safleoedd o 	Os yw llai nag 80% o'r datblygiadau a ganiateir yn ymgorffori rhyw fath o welliant lle bo hynny'n ofynnol o dan bolisi, yna cynhelir dadansoddiad i'r achosion er mwyn gweld a all yr	Bydd 84.82% o'r datblygu a ganiateir yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gwelliannau amgylcheddol yn unol â gofynion Polisiâu DM14, DM15, DM20 a DM22.	0

	<p>Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur a chynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth);</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cysylltedd ecolegol; • Coed, gwrychoedd a choetiroedd; neu • Wasanaethau ecosystemau a phrosesau naturiol. <p>fel bo'n ofynnol yn unol â Pholisïau DM14, DM15, DM20 a DM22.</p>	<p>Awdurdod Lleol fynd i'r afael â'r mater.</p>		
<p>Dadansoddiad</p>				

Roedd yn ofynnol i 224 (31.42%) o'r holl geisiadau cynllunio a gafodd eu caniatáu yn ystod y cyfnod monitro gynnwys gwelliant amgylcheddol.

O'r 224 o geisiadau hyn, cafodd 179 (79.91%) o geisiadau eu caniatáu yn ddarostyngedig i amodau gwella amgylcheddol perthnasol, ac roedd 11 (4.91%) o geisiadau pellach yn cynnwys gwelliannau amgylcheddol ar y cynlluniau cymeradwy. Nid oedd gwelliannau amgylcheddol yn ofynnol ar gyfer pob cais e.e. amrywio neu ddileu amodau, neu os nad oedd amgylchedd addas gan y safle neu'r datblygiad ar gyfer gwelliannau.

Bydd monitro chwarterol yn 2020-2021 a chyfathrebu pellach â swyddogion ac asiantau yn sicrhau bod y targed yn cael ei gyrraedd, a'i ragori os oes modd, dros y cyfnod hwn. Bydd yr ecolegydd yn annog swyddogion, asiantau ac ymgeiswyr i gynnwys gwelliannau amgylcheddol ar gynlluniau er mwyn atal gorfod cynnwys gwelliannau fel amod. Caiff yr amod ei aralleirio fel amod cydymffurfio

Casgliadau

Nid yw'r targed wedi cael ei gyflawni, er mae wedi gwella yn sylweddol ers y cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol diwethaf.

Gweithred

Nid oes angen gweithredu, parhau i fonitro.

Cyfeirnod Monitro:	AMRQ06
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:	Seilwaith
Y Polisiau a Gaiff eu Monitro:	DM12
Lefel:	Lleol
Pryd:	Yn flynyddol
Ffynhonnell:	Cyngor Sir Ceredigion (CSC)

Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Nifer y Canolfannau Gwasanaethau a gyfyngir gan faterion sy'n ymwneud â seilwaith (trin carthion a'r cyflenwad dŵr)	Nifer y Canolfannau Gwasanaethau a gyfyngir gan faterion sy'n ymwneud â seilwaith (trin carthion a'r cyflenwad dŵr)	Os nodir materion seilwaith na ellir eu datrys yn ystod cyfnod y cynllun, cynhelir ymchwiliad i'r atebion posibl. Gall nifer o ffactorau effeithio ar ddarparu'r seilwaith trin carthion a'r cyflenwad dŵr. Felly, os na chaiff y ddarpariaeth seilwaith ei	Mae trafodaethau â Dŵr Cymru / Welsh Water yn mynd rhagddynt ynghylch sicrhau cyllid trwy raglen y Cynllun Rheoli Asedau. Mae 3 Chanolfan Gwasanaethau (2 safle gwaith trin gwastraff dŵr)	+

		<p>gwella, bydd angen cymryd camau ar y cyd â darparwyr gwasanaethau cyfleustodau. Gallai hynny gynnwys yr isod:</p> <p>Penderfynu a fyddai modd ei gynnwys yn rownd nesaf y Cynllun Rheoli Asedau er mwyn sicrhau cyflenwad safleoedd;</p> <p>Sicrwydd y gellir mynd i'r afael â phroblemau yn y Cynllun Rheoli Asedau cyfredol;</p> <p>Os oes problemau gyda safleoedd lle dibynnir ar gyfraniadau datblygwyr, archwilio'r posibiladau (Cynllun Rheoli Asedau, safleoedd eraill ac ati); ac</p>	<p>wedi'u cyfyngu'n rhannol gan faterion sy'n ymwneud â seilwaith:</p> <p>Aberaeron (Llwyncelyn yn unig)</p> <p>Llan-non</p> <p>Llanrhystud</p>	
--	--	---	---	--

		<p>Os nad yw'n bosibl datrys materion sy'n ymwneud â chapasiti, dylid ystyried yr opsiynau ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion datblygu yn y dyfodol yn y Ganolfan Gwasanaethau neilltuol honno.</p>		
<p>Dadansoddiad</p> <p>Mae trafodaethau â DCWW yn parhau. Mae Dŵr Cymru yn y broses o gyflawni eu AMP7 (2020-2025), nid oes unrhyw newid yn y lleihad yn y materion seilwaith sy'n sefyll y flwyddyn hon. Dim ond 3 Chanolfan Gwasanaethau sydd wedi'u cyfyngu'n rhannol o'i gymharu â'r un 3 yn 2018 a 2017, 4 yn 2016, 5 yn 2015, a 9 yn 2014. O'r 3 Chanolfan Gwasanaethau a gafodd eu cyfyngu'n rhannol, nodir y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nid oes unrhyw gapasiti gan Waith Trin Dŵr Gwastraff Llwynceilyn i ddarparu ar gyfer twf pellach yn Llwynceilyn (heblaw datblygiadau gyda chaniatadau sy'n bodoli) • Nid oes unrhyw gapasiti gan Waith Trin Dŵr Gwastraff Llanrhystud i ddarparu ar gyfer y twf a gynigir yn Llan-non a Llanrhystud (heblaw datblygiadau gyda chaniatadau sy'n bodoli) <p>Mae'r ddau Waith Trin Dŵr Gwastraff a nodwyd uchod yn cael eu hystyried ar gyfer buddsoddiad AMP7 (2020-2025), ond mae lefel y buddsoddiad y gall Dŵr Cymru ei gefnogi mewn unrhyw gyfnod Cynllun Rheoli Asedau penodol i gynyddu galluedd Gwaith Trin</p>				

Dŵr Gwastraff yn gyfyngedig felly mae'n rhaid i'r gyllideb sydd ar gael cael ei blaenoriaethu'n ofalus i sicrhau bod arian cwsmeriaid yn cael ei fuddsoddi yn y ffordd fwyaf priodol. Mae cyflawni'r rhaglen Cynllun Rheoli Asedau 7 yn gyfnewidiol ac nid oes penderfyniadau terfynol wedi'u gwneud ynglŷn â'r Gwaith Trin Dŵr Gwastraff i fuddsoddi ynddynt, ond o ran buddsoddiad yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff Ceredigion, mae Dŵr Cymru ar hyn o bryd yn disgwyl cyflawni cynllun yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff Tregaron yn y Cyfnod Cynllun Rheoli Asedau 7.

Cyn y buddsoddiad rheoleiddiol a gynlluniwyd, gall safleoedd gael eu datblygu yn y tymor byr os yw datblygwyr yn cyllido'r gwelliannau eu hunain.

Casgliadau

Mae'r ymgysylltu â DC/WW yn gadarnhaol. Ers dechrau cyfnod y cynllun mae nifer y canolfannau gwasanaethau a gyfyngir yn rhannol wedi lleihau o 9 i 3.

Gweithred

Bydd yr adolygiad o'r CDLI, fel rhan o'r broses safleoedd ymgeisiol yn ystyried unrhyw faterion seilwaith penodol i'r safle. Bydd hyn yn sicrhau bod modd cyflawni unrhyw ddyraniadau sydd i'w datblygu yn y CDLI newydd.

Cyfeirnod Monitro:		AMRQ07		
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:		Lleihau Perygl Llifogydd		
Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro:		Polisi Cenedlaethol a DM11		
Lefel:		Lleol		
Pryd:		Yn flynyddol		
Ffynhonnell:		Cyngor Sir Ceredigion (CSC)		
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Dim caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau nad ydynt yn bodloni profion TAN 15.	Canran y datblygiadau a ganiatawyd yn ardaloedd gorlifdir C1 a C2 nad ydynt yn bodloni profion TAN 15.	1 datblygiad wedi'i ganiatáu yn ardaloedd gorlifdir C1 a C2 nad ydynt yn bodloni profion TAN 15. Os yw unrhyw geisiadau cynllunio ar gyfer datblygu nad ydynt yn bodloni profion TAN 15 wedi cael eu	Roedd 13 o geisiadau a gafodd eu cymeradwyo ym mharth C1 wedi bodloni profion TAN15. Roedd 2 o geisiadau a gafodd eu cymeradwyo ym mharth C2 wedi bodloni profion TAN15.	0

		caniatáu, cânt eu dadansoddi er mwyn penderfynu sut y gwnaethpwyd y penderfyniad i'w cymeradwyo.		
Dadansoddiad				
Roedd pob un o'r 15 chais a ganiatawyd yn cwrdd â'r prawf TAN 15.				
Casgliadau				
Mae'r penderfyniadau wedi cael eu seilio ar wybodaeth a gafwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru a lle'n briodol mae amodau wedi cael eu gosod i sicrhau diogelwch preswylwyr. Mae hyn yn dangos bod TAN 15 a Pholisi DM11 wedi cael eu hystyried a bod y ceisiadau yn cydymffurfio â nhw. Felly nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithredu'r polisi ar hyn o bryd.				
Gweithred				
Mae polisiau gweithred datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.				

Cyfeirnod Monitro:		AMRQ08		
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:		Capasiti MW gosodedig yn Ardal Chwilio Strategol (SSA) D (bydd y dangosydd monitro yn cael ei newid y flwyddyn fonitro nesaf i adlewyrchu darpariaethau Cymru'r Dyfodol)		
Y Polisiau a Gaiff eu Monitro:		Polisi Cenedlaethol a DM11		
Lefel:		Lleol		
Pryd:		Yn flynyddol		
Ffynhonnell:		Cyngor Sir Ceredigion (CSC)		
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Mae'r capasiti MW gosodedig o ran datblygiadau ynni adnewyddadwy yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru yn	Y capasiti MW gosodedig ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy a gymeradwyir yn Ardal Chwilio Strategol (SSA) D.	Cymerir camau parthed y targed hwn ar y cyd â Llywodraeth Cymru gydag adroddiad blynyddol.	Ni ddaeth unrhyw gais i law.	?

Ardal Chwilio Strategol (SSA) D ⁴ .				
<p>Dadansoddiad</p> <p>Er mwyn cysylltu i'r Grid Cenedlaethol mae'r datblygiad fferm wynt newydd yn SSA D yn gofyn am osod llinellau pŵer newydd ac mae'n rhaid lleoli'r llinellau newydd hyn o fewn yr Awdurdod Lleol cyfagos, Powys. Dechreuodd ymchwiliad cyhoeddus ar y cyd i ddatblygiadau ffermydd gwynt ym Mhowys ym Mai 2013. Ym Medi 2015 gwrthododd Adran yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd roi caniatâd cynllunio ar gyfer pedwar cais am ffermydd gwynt mawr a fyddai wedi ategu prosiectau cysylltiad arfaethedig. Mae dyfodol y ceisiadau cynllunio hyn yn parhau'n aneglur ac mae rhai yn destun apêl ar hyn o bryd. O ganlyniad mae'r prosiectau cysylltiad arfaethedig wedi'u gohirio ym Mhowys ac mae'r rhain yn ofynnol er mwyn i unrhyw ddatblygiad ynni adnewyddadwy ddechrau yn SSA D.</p> <p>Mae cyhoeddi Cymru'r Dyfodol y Cynllun Cenedlaethol 2040 yn nodi ardaloedd blaenoriaeth gwynt ledled Cymru y mae nifer ohonynt yng Ngheredigion neu'r cyffiniau, ond erys ansicrwydd ynghylch y gallu i gysylltu â'r grid, rydym yn aros am geisiadau sydd ar ddod ar gyfer ardaloedd o'r fath i ddeall gofynion capasiti a seilwaith yn well.</p>				

⁴ Fel y nodwyd yng nghyhoeddiad Llywodraeth Cymru TAN 8, Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy 2005, mae Ardal Chwilio Strategol D yn cwmpasu ardal ar bob ochr y ffin rhwng Ceredigion a Phowys, gan gynnwys rhan o ogledd-ddwyrain Ceredigion a ddangosir ar Gynigion y CDLI Mapiau 1 a 2.

Casgliadau

Nid oes modd cyflawni targed Llywodraeth Cymru ar gyfer capasiti MW o fewn Ardal Chwilio Strategol D heb gais(geisiadau) neu gymeradwyaeth(au) pellach. Mae'r sefyllfa hon y tu allan i reolaeth neu ddylanwad Awdurdod Lleol Ceredigion a'r CDLI. Bydd y sefyllfa yn parhau i gael ei monitro a rhoddir sylw i hyn trwy'r Adolygiad / Diwygiad o'r CDLI.

Gweithred

Nid oes angen gweithredu, bydd y dangosydd monitro yn cael ei newid y flwyddyn fonitro nesaf i adlewyrchu darpariaethau Cymru'r Dyfodol

Dadansoddiad o ddangosyddion Craidd a Lleol

Cyfeirnod Monitro:	AMRQ09			
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:	Gwastraff			
Y Polisiau a Gaiff eu Monitro:	LU31			
Lefel:	Lleol			
Pryd:	Yn flynyddol			
Ffynhonnell:	Cyngor Sir Ceredigion (CSC) a Chyfoeth Naturiol Cymru.			
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Sicrhau bod tir digonol ar gael ar gyfer unrhyw ofynion sy'n sefyll ar gyfer cyfleusterau rhanbarthol i reoli gwastraff i wasanaethu mwy nag	Maint y capasiti rheoli gwastraff a ganiatawyd fel canran o'r holl gapasiti sy'n ofynnol fel y'i nodir yn y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol.	Os bydd newid yn yr amgylchiadau sy'n arwain at newid yn arwynebedd y tir y mae ei angen ar gyfer unrhyw gyfleusterau rhanbarthol i wasanaethu mwy nag un ardal awdurdod lleol, neu os bydd newid sy'n arwain at ddileu'r angen hwnnw (e.e.	Mae 7.25ha o dir ar Ystad Ddiwydiannol Glanyrafon (Cyf Safle E0301) wedi'i neilltuo ar gyfer adfer adnoddau a chyfleusterau rheoli gwastraff i wasanaethu mwy nag un Awdurdod Lleol.	?

<p>un ardal awdurdod lleol.</p>		<p>pe câi'r cyfleusterau rhanbarthol y mae eu hangen i wasanaethu Partneriaeth Gwastraff Canolbarth Cymru eu lleoli y tu allan i Geredigion), cynhelir ymchwiliad ynghylch a ddylid lleihau'r arwynebedd tir a neilltuir ar gyfer gwastraff.</p>	<p>Hyd yma mae 0% o gapasiti'r safle wedi cael ei ddefnyddio ac mae 0% o'r capasiti rheoli gwastraff rhanbarthol a nodwyd yn y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol wedi cael ei leoli yng Ngheredigion.</p>	
<p>Dadansoddiad</p> <p>Mae'r cyfleuster treulio anaerobig 3.0MW gyda chapasiti o 48,500 tonnelli yn Stormy Down, Pen-y-bont ar Ogwr a weithredir gan Severn Trent Green Power (Bridgend Ltd), a agorodd yn Rhagfyr 2016, yn parhau i dderbyn y gwastraff bwyd a gesglir gan Central Wales Waste Partnership, gan gynnwys Cyngor Ceredigion. Mae'r gweithredwyr wedi cyflwyno cais cynllunio i gynyddu'r tunelledd a ganiateir i 95,000 tonnelli y flwyddyn.</p> <p>Mae Ceredigion yn anfon ei wastraff gweddilliol i LAS yn Llanbedr Pont Steffan ar hyn o bryd. Daw'r Contract i ben yn 2022 gydag opsiwn i ymestyn am 2 flynedd arall. Mae opsiynau cydweithio am yr hirdymor yn parhau i gael eu harchwilio.</p> <p>Roedd TAN 21: Gwastraff (2014) yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdod arweiniol o fewn pob un o dair ardal y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol i baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer yr ardal. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymgymryd â'r cyfrifoldeb ar</p>				

gyfer hyn, ac mae'r Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff diweddaraf ar gyfer De-orllewin Cymru yn cwmpasu'r cyfnod 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021. Mae'r adroddiad yn cadarnhau bod gan Ranbarth De-orllewin Cymru ddigon wagle tirlenwi i ateb y gofynion a osodir yn TAN 21, a bod darpariaeth ddigonol ar gyfer rheoli gwastraff gweddilliol a gwastraff bwyd ar hyn o bryd ac nid oes galw am gyfleusterau ychwanegol yng Ngheredigion.

Casgliadau

Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn manteisio ar waith cynllunio gwastraff a monitro ar y cyd i lywio'r adolygiad a'r diwygiad o'r cynllun.

Gweithred

Mae polisiau gweithred datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

Cyfeirnod Monitro:	AMRQ10 (Dangosydd Statudol).			
Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:	Agregau			
Y Polisiau a Gaiff eu Monitro:	LU27 ac LU30			
Lefel:	Craidd.			
Pryd:	Yn flynyddol.			
Ffynhonnell:	Arolygon ac Adroddiadau Blynyddol Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru			
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Maint yr agregau a gloddir o'r tir yn bennaf a ganiateir yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau fel canran o'r holl gapasiti sy'n ofynnol fel y'i nodir yn	Maint yr agregau a gloddir o'r tir yn bennaf a ganiateir yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau fel canran o'r holl gapasiti sy'n ofynnol fel y'i nodir yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau fel canran o'r holl gapasiti sy'n	Os yw cyfanswm lefel y cronfeydd wrth gefn a ganiateir, lefelau allbwn a ganiateir a'r lefelau allbwn gwirioneddol o safleoedd agregau yng Ngheredigion yn mynd yn ia na'r lefelau a osodwyd yn yr Adolygiad Cyntaf o'r Datganiad	Yn 2019 roedd gwerthiannau o agregau cerrig mâl yn 0.06Mt h.y. 22% o'r targed 0.272Mta y Datganiad Technegol Rhanbarthol. Y ffigur gwerthiant 10 mlynedd ar gyfartaledd ar gyfer 2010-	+

<p>y Datganiad Technegol Rhanbarthol.</p>	<p>angenrheidiol fel y'i nodir yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol.</p>	<p>Technegol Rhanbarthol, ysgogir ymchwiliad i'r sefyllfa i benderfynu'r rhesymau pam.</p> <p>Os mai cronfeydd wrth gefn annigonol a ganiateir yw'r broblem ystyrir a oes angen neilltuo mwy o dir a/neu ddynodi 'Ardaloedd a Ffafrir' ar gyfer echdynnu mwynau.</p> <p>Os mai cyfyngiadau ar lefelau allbwn a ganiateir yw'r broblem, ystyrir a oes lle i gefnogi ceisiadau i amrywio'r amodau sy'n cyfyngu ar y lefelau allbwn.</p> <p>Os mai'r lefelau allbwn gwirioneddol yw'r broblem, cynhelir ymchwiliad ynghylch</p>	<p>2019 oedd 0.15Mt h.y. 55% o'r targed 0.272Mta.</p> <p>Yn 2019 roedd gwerthiant tywod a graen yn Ne-orllewin Cymru yn 0.17Mt h.y. 55% o'r targed 0.31Mta. Y ffigur gwerthiant 10 mlynedd ar gyfartaledd ar gyfer 2010-2019 oedd 0.21Mt h.y. 67.7% o'r targed 0.31Mta.</p> <p>Fodd bynnag, ar draws grŵp yr awdurdod roedd capasiti safleoedd i gyflenwi (h.y. capasiti gweithredol a lefelau allbwn blynyddol) yn uwch na 100% o'r targed, ac yn parhau i fod felly.</p>	
---	--	--	--	--

		<p>a yw hynny'n adlewyrchu galw isel, ynteu a oes cyfyngiad ar lefel yr allbwn gan unrhyw beth y gellid mynd i'r afael ag ef drwy'r CDLI, neu'n adlewyrchiad syml o'r galw yn unig.</p>		
<p>Dadansoddiad</p> <p>Mae'r Ail Adolygiad o Ddatganiad Technegol Rhanbarthol Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru yn gosod dosraniad creigiau mâl o 0.272Mta ar gyfer Ceredigion tan ddiwedd cyfnod y cynllun a hefyd 10 mlynedd y tu hwnt i hynny (h.y. hyd at 2032), ac mae'n gosod dosraniad tywod a graean a gloddir o'r tir ar y cyd o 0.31Mta ar draws Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro i redeg tan ddiwedd cyfnod y cynllun a saith mlynedd y tu hwnt i hynny (h.y. hyd at 2029 ar gyfer Ceredigion) gyda'r angen am waith cydweithredol i gyflawnir targed dosraniad tywod a graean ar y cyd o 0.31Mta gyda Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro.</p> <p>Yn 2019 roedd gwerthiannau o agregau creigiau mâl yng Ngheredigion yn 0.06Mt, 95% o'r targed ar gyfer dosraniad o 0.272Mt. Mae'r ffigur gwerthiant 10 mlynedd ar gyfartaledd ar gyfer 2010-2019 hefyd yn is na'r ffigur dosrannu o 0.272Mta ar 0.15Mta. Mae ffigurau o'r atebion i arolwg blynyddol 2019 yn dangos bod gan Geredigion tua 5.41Mt o gronfeydd wrth gefn creigiau mâl ar</p>				

ddiwedd 2019, felly pe bai gwerthiannau cyfartalog yn parhau i fod ar y lefel gwerthiannau cyfartalog 10 mlynedd bresennol, byddai'r cronfeydd wrth gefn hyn yn para tan 2057. Mae hyn yn llawer hwy na'r gofyniad banc tir a nodwyd yn MTAN1.

Yn 2019 cyfanswm gwerthiannau tywod a graean a gloddir o'r tir ar draws yr isranbarth oedd 0.17Mt. Mae hyn yn 55% o'r targed dosraniad o 0.31Mta. Er nad oedd hyn yn agos i'r dosraniad ar y cyd o 0.31Mt ar gyfer cyn awdurdodau Dyfed, roedd yr holl alw am dywod a graean a gloddir o'r tir ar draws ardal gyfan y Gweithgor wedi'i gyflawni gan safleoedd a leolir o fewn cyn ardal Dyfed, ac roedd pob un o'r safleoedd hyn yn gweithredu'n dda o fewn eu capasiti gweithredol ac yn llawer is na'u lefelau allbwn blynyddol a ganiateir (sydd ar y cyd yn uwch na'r dosraniad blynyddol), gan awgrymu bod y diffyg unwaith eto yn fater o alw ac nid diffyg cyflenwad i ateb y galw. Ar draws cyn ardal Dyfed, mae mwy na digon o gapasiti i gynyddu allbynnau i'r 0.31Mta a ddosrannwyd ar y cyd pe bai'r galw byth yn codi i'r lefel honno, er pe byddai hyn yn digwydd byddai sefyllfa'r banc tir yn lleihau'n gyflymach, felly byddai'n rhaid monitro hyn yn ofalus. Mae gan Geredigion ei hun y capasiti (yn seiliedig ar uchafswm allbynnau a ganiateir a osodwyd gan amodau cynllunio) i gyfrannu 0.248Mta i'r dosraniad grŵp (h.y. 80% o darged y grŵp o, sef 0.31Mta). Mae'r ffigurau o Arolwg Blynyddol 2019 yn dangos bod gan ardal De-orllewin Cymru tau 1.99Mta o dywod a graean ar ddiwedd 2019, felly os yw gwerthiannau cyfartalog yn parhau ar eu lefel cyfartalog 10 blynedd o 0.21Mta, byddai'r adnoddau yn para tan 2030, sydd yn ddigonol ar gyfer cyflenwad o 7 mlynedd ar ddiwedd cyfnod y cynllun. Fodd bynnag, os yw safleoedd a neilltuwyd yn y CDLI yn chwareli Penparc a Phant yn cael eu datblygu, byddent yn ychwanegu tua 2 Mta i'r adnoddau a fyddai, ar y gyfradd gwerthiannau cyfartalog 10 blynedd bresennol o 0.21Mta, yn ychwanegu 9.5 o flynyddoedd at y banc tir. Mae'r tuedd mewn gwerthiannau yn awgrymu y bydd y gwerthiannau cyfartalog 10 mlynedd yn parhau i leihau dros gyfnod o amser, yn enwedig gan fod y diwydiant concriid yn cynyddu'r defnydd o ddeunyddiau eraill yn lle tywod a'r newid mewn cyflenwi yn un safle i gynhyrchu di-agregau.

Mae swyddogion yn cynrychioli awdurdodau Grŵp Cynllunio Mwynau De-orllewin Cymru yn cwrdd yn rheolaidd i drafod materion mwynau traws-ffiniol, gan gynnwys eu dosraniad a rennir. Mae'r Grŵp wedi ceisio cael gwybod gan y diwydiant mwynau a oes unrhyw adnoddau tywod a graen o fewn yr ardal a nodwyd fel rhai y gellid eu darparu yn y dyfodol, ond nid yw unrhyw safleoedd wedi cael eu cynnig hyd yma. Mae'r safleoedd ymgeisiol wedi cael eu cyflwyno i Gyngor Sir Penfro ac mae un safle ymgeisiol wedi cael ei gyflwyno i Gyngor Sir Ceredigion i'w hystyried yn eu Hadolygiadau o'r Cynllun Datblygu Lleol, ond nid yw'r asesiadau o addasrwydd y safleoedd wedi cael eu cwblhau eto.

Casgliadau

Mae safleoedd creigiau mât Ceredigion yn gallu bodloni'n rhwydd y dosraniad a osodwyd ar gyfer Ceredigion yn Adolygiad 1af y Datganiad Technegol Rhanbarthol, ac mae safleoedd tywod a graean Ceredigion (o'u cyfuno â'r safleoedd hynny a leolir mewn mannau eraill yn Ne-orllewin Cymru y tu allan i'r Parc Cenedlaethol) yn gallu bodloni'n rhwydd y dosraniad ar y cyd gofynnol mewn unrhyw flwyddyn. Mae'r awdurdod eisoes yn cyfrannu cyfran sylweddol o'r tywod a graean a gyflenwir o fewn De-orllewin Cymru, a dyma'r unig awdurdod o fewn y grŵp sydd â safleoedd ychwanegol wedi'u neilltuo yn ei Gynllun Datblygu Lleol.

Ar ddiwedd 2019 roedd cronfeydd wrth gefn a ganiateir Ceredigion o agregau creigiau mât a chronfeydd wrth gefn a neilltuir ac a ganiateir o agregau tywod a graean yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r lefelau sydd eu hangen i fodloni gofynion banc tir MTAN1. Felly nid oes angen newid y Polisiâu Mwynau yn y CDLI na neilltuo unrhyw safleoedd pellach ar gyfer tywod a graean a gloddir o'r tir er mwyn darparu'r banc tir gofynnol.

Gweithred

Mae polisiau gweithred datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

4. Canlyniadau Dangosyddion AAS/AG

Mae monitro'r CDLI hefyd yn cydymffurfio â'r gofynion i fonitro perfformiad y cynllun o ran cynaliadwyedd trwy'r Asesiad Amgylcheddol Strategol/Arfarniad o Gynaliadwyedd (AAS/AG). Mae Adran 5 yn cynnwys monitro'r Asesiad Amgylcheddol Strategol/Arfarniad o Gynaliadwyedd am y cyfnod 1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021. Mae dangosyddion wedi cael eu nodi i asesu perfformiad yr Amcanion Cynaliadwyedd. Bydd yr ysgogyddion sydd wedi'u cynnwys yn y drefn monitro yn rhoi arwydd cynnar o berfformiad y cynllun ac o bosibl hyd a lled yr adolygiad o'r cynllun.

Fel cymorth gweledol wrth fonitro effeithiolrwydd polisïau ac i roi trosolwg o berfformiad, mae dangosyddion allweddol a chanlyniadau'n cael eu dangos fel a ganlyn:

Arwyddocâd perfformiad	Disgrifiad
+	Mae'r targedau'n cael eu cyflawni.
?	Nid oes modd dod i unrhyw gasgliad ar hyn o bryd.
0	Nid yw'r targedau wedi cael eu cyflawni ond nid oes pryderon ynghylch gweithredu'r polisi / polisïau.
-	Nid yw'r targedau'n cael eu cyflawni ac mae pryderon ynghylch gweithredu'r polisi / polisïau.
Amh	Amherthnasol

- 4.1 Mae'r fframwaith monitro yn cynnwys cyfeiriadau at sefydliadau eraill a chynlluniau a strategaethau eraill a all fod â dylanwad rhagweithiol ar weithredu'r polisïau.
- 4.4 Mae'r broses fonitro yn dibynnu ar ystod eang o wybodaeth ystadegol. Mae rhai amgylchiadau wedi arwain at newidiadau i'r Fframwaith Monitro gwreiddiol. Mae manylion am unrhyw newidiadau i'w gweld yn Atodiad 1 o'r adroddiad.

Amcan Cynaliadwyedd:		1a Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr mewn datblygiadau cyfredol a newydd.		
Dangosydd	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Allyriadau blynyddol nwyon tŷ gwydr y fasedd (fesul sector).	Llywodraeth y DU https://www.gov.uk/government/statistics/uk-local-authority-and-regional-carbon-dioxide-emissions-national-statistics-2005-to-2019	Fel sydd ar gael	Cofnodwyd amcangyfrifon allyriadau ddiwethaf yn 2019 fel a ganlyn: Trydan Diwydiant: 11.8 CO ₂ (Kt) Nwy Diwydiant: 5.2 CO ₂ (Kt) Tanwyddau Eraill Diwydiant: 40.8 CO ₂ (Kt) Safleoedd Diwydiannol Mawr: -0.3 CO ₂ (Kt)	?

			<p>Amaethyddiaeth: 75.7 CO₂ (Kt)</p> <p>Trydan Masnachol: 21.9 CO₂ (Kt)</p> <p>Nwy Masnachol: 4.1CO₂</p> <p>Tanwyddau Masnachol Eraill: 1.5 CO₂ (Kt)</p> <p>Trydan y Sector Cyhoeddus: 5.0 CO₂ (Kt)</p> <p>Nwy'r Sector Cyhoeddus: 3.9 CO₂</p> <p>Tanwydd Arall y Sector Cyhoeddus: 0.8 CO₂ (Kt)</p> <p>Trydan Domestig: 37.1 CO₂ (Kt)</p> <p>Nwy Domestig: 20.9 CO₂ (Kt)</p>	
--	--	--	--	--

			<p>Tanwyddau Eraill</p> <p>Domestig: 93.3 CO₂ (Kt)</p> <p>Trafnidiaeth ar y Ffyrdd (Ffyrdd (Dosbarth) A): 75.5 CO₂ (Kt)</p> <p>Trafnidiaeth ar y Ffyrdd (Traffyrdd): _ CO₂ (Kt)</p> <p>Trafnidiaeth ar y Ffyrdd (Is-ffyrdd): 76.4 CO₂ (Kt)</p> <p>Rheilffyrdd Diesel: 2.2 CO₂ (Kt)</p> <p>Trafnidiaeth – Mathau Eraill: 1.9 CO₂ (Kt)</p> <p>Allyriadau net LULUCF: -6.9 CO₂ (Kt)</p> <p>Cyfanswm ar gyfer yr holl sectorau: 465.7 CO₂ (Kt)</p>	
--	--	--	--	--

<p>Ôl troed ecolegol byd-eang Ceredigion.</p>	<p>Llywodraeth Cymru http://gov.wales/docs/desh/publications/150724-ecological-footprint-of-wales-report-en.pdf</p>	<p>Fel sydd ar gael</p>	<p>Mae'r ffigurau diweddaraf o 2015 yn dangos y canlynol: Ôl troed ecolegol o 3.59 hectar byd-eang y pen (gha/c) (o'i gymharu ag ôl troed ecolegol Cymru o 3.28 (gha/c))</p>	<p>0</p>
<p>Capasiti MW gosodedig ynni adnewyddadwy a gymeradwyir.</p>	<p>Cyngor Sir Ceredigion</p>	<p>Yn flynyddol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • 0.1 MW wedi cael caniatâd cynllunio 2020 - 2021, mewn 1 cais • 1 cais biomas 0.5 mw • 0 pwmp daear/dŵr/gwres aer 0 MW • 0 pŵer hydro 0 mw • 0 solar 0 mw 	<p>?</p>

			• 0 gwynt 0 mw	
Y defnydd cyfartalog o'r canlynol: i. Trydan Domestig Cyffredin, ii. Trydan Domestig Economy 7, a iii. Nwy Domestig.	Ystadegau Cymdogaethau http://www.neighbourhood.statistics.gov.uk/dissemination/LeadTableView.do?a=7&b=6275335&c=ceredigion&d=13&q=6491410&i=1001x1003x1006&k=electricity&m=0&r=1&s=1490797074770&enc=1&domainId=8&dsFamilyId=2009&nsjs=true&nsck=false&nssvg=false&nswid=1366 https://www.gov.uk/government/statistical-data-sets/regional-and-local-authority-electricity-consumption-statistics	Fel sydd ar gael	Defnydd wedi'i gofnodi diwethaf yn 2019 fel a ganlyn: Defnydd o Drydan Domestig Cyffredin: 98.79 GWh Defnydd o Drydan Domestig Economy 7: 52.75 Gwh Defnydd o Nwy Domestig: 111.20 GWh Cyfanswm Defnydd o Drydan a Nwy Domestig: 262.74 Gwh	?

	https://www.gov.uk/government/statistical-data-sets/stacked-gas-consumption-statistics-data			
<p>Dadansoddiad</p> <p>Yn 2019 cyfanswm yr allyriadau tŷ gwydr blynyddol yng Ngheredigion oedd 465.7 CO₂ (Kt). Mae'r allyriadau a gofnodwyd diwethaf yn 2018 yn dangos cynnydd 000.2 yn yr allyriadau CO₂ (Kt) a ryddhawyd yng Ngheredigion.</p> <p>Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr fesul ffynhonnell a'r defnydd o ynni yng Ngheredigion ill dau yn rhoi darlun cymysg.</p> <p>Rhoddwyd un caniatâd ar gyfer datblygiad ynni adnewyddadwy ar gyfer y cyfnod monitro.</p> <p>Cofnodwyd ôl troed ecolegol Ceredigion ddiwethaf yn 2015 fel 3.59 (gha/c). Bydd natur wledig Ceredigion yn parhau i effeithio ar ei hól troed ecolegol oherwydd ei natur wledig a chyfuniad o drafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig a dibyniaeth fawr ar drafnidiaeth breifat i gyrraedd gwasanaethau. Mae mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus yn gyfyngedig ac felly mae mwy o ddibyniaeth ar drafnidiaeth breifat.</p>				
<p>Casgliadau</p> <p>Mae Ceredigion yn darparu lefel o ynni adnewyddadwy sy'n helpu Cymru i gyflawni ei tharged ynni adnewyddadwy cenedlaethol. Mae'r CDLI yn parhau i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr mewn datblygiadau sy'n bodoli a datblygiadau newydd.</p>				

Amcan Cynaliadwyedd: 1b Sicrhau mesurau digonol i addasu ar gyfer newid yn yr hinsawdd a lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd.				
Dangosydd	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Maint y datblygu preswyl newydd (unedau a chanran) a adeiledir i gyrraedd o leiaf Lefel 4 y Cod Cartrefi Cynaliadwy.	Cyngor Sir Ceredigion	Yn flynyddol	Ni ellir monitro'r dangosydd hwn mwyach.*	?
Maint y datblygiadau masnachol neu berthnasol eraill (unedau a chyfran) 1,000m ² / 1 hectar neu fwy sy'n cyrraedd safon ardderchog BREEAM.	Cyngor Sir Ceredigion	Yn flynyddol	Unedau: 0 Canran: 0%	?
Dadansoddiad				
Nid yw'r Cod ar gyfer Cartrefi Cynaliadwy Lefel 4 yn bodoli mwyach yn dilyn datganoli'r Rheoliadau Adeiladu i Lywodraeth Cymru.				

Ers 2014 nid yw safonau BREEAM yn gymwys mwyach i ddatblygiadau newydd. Er i ofynion BREEAM gael eu dileu mae rhai adeiladau (megis prosiectau sy'n elwa ar gyllid gan Lywodraeth Cymru) yn parhau i ddewis cyflawni'r safon hon. Ni chafwyd unrhyw ddatblygiadau perthnasol a gyflawnodd safon 'ardderchog' BREEAM yn ystod y cyfnod monitro.

Casgliadau

Er nad yw'r Cod ar gyfer Cartrefi Cynaliadwy Lefel 4 yn bodoli mwyach, mae'r elfennau sy'n ymwneud â sicrhau bod mesurau digonol i addasu i'r newid yn yr hinsawdd (trwy safonau dylunio adeiladau ynni effeithlon) yn ffurfio rhan o'r rheoliadau adeiladu bellach ac felly'n gymwys i bob datblygiad newydd. Er nad yw safonau BREEAM yn gymwys mwyach i rai datblygiadau newydd, mae rhai adeiladau yn ceisio cyflawni safonau ardderchog beth bynnag, a bydd y datblygiadau hyn yn parhau i gael eu dal gan y dangosydd hwn. Nid oes unrhyw bryderon ynghylch yr amcan cynaliadwyedd. Bydd diwygiad o'r CDLI yn ystyried dangosyddion newydd posibl i fesur cynaliadwyedd yn y tymor hwy.

Amcan Cynaliadwyedd:		1c Lleihau perygl llifogydd		
Dangosydd	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Maint y datblygu a ganiateir mewn ardaloedd gorlifdir C1 a C2 fel y'u diffinnir gan TAN 15.	Cyngor Sir Ceredigion	Yn flynyddol	Roedd 13 o geisiadau a gafodd eu cymeradwyo ym mharth C1 wedi bodloni profion TAN15. Roedd 2 o geisiadau a gafodd eu cymeradwyo ym mharth C2 wedi bodloni profion TAN15.	+
Maint y datblygu preswyl newydd (unedau) a ganiateir gyda Systemau Draenio Cynaliadwy.	Cyngor Sir Ceredigion	Yn flynyddol	Mae Corff Draenio Cynaliadwy wedi cael ei sefydlu yng Ngheredigion a bydd yn rheoli pob agwedd ar gymeradwyaeth dechnegol systemau	Amh

			draenio dŵr wyneb cynaliadwy. Felly nid oes angen i fframwaith monitro AAS/AG y CDLI gynnwys y dangosyddion hyn mwyach.	
Maint y datblygu masnachol newydd (unedau) dros 500m ² a ganiateir gyda Systemau Draenio Cynaliadwy.	Cyngor Sir Ceredigion	Yn flynyddol	Mae Corff Draenio Cynaliadwy wedi cael ei sefydlu yng Ngheredigion a bydd yn rheoli pob agwedd ar gymeradwyaeth dechnegol systemau draenio dŵr arwyneb cynaliadwy. Felly nid oes angen i fframwaith monitro AAS/AG y CDLI gynnwys y dangosyddion hyn mwyach.	Amh

Dadansoddiad

Ar 7 Ionawr 2019 cafodd gwasanaeth newydd ei gyflwyno gan Gyngor Sir Ceredigion i gyflenwi'r ddeddfwriaeth statudol a ddeddfwyd gan Lywodraeth Cymru o dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010.

Mae'r ddeddfwriaeth hon yn gymwys i'r HOLL ddatblygiadau newydd o fwy nag un tŷ neu pan fydd yr ardal adeiladu yn 100m² neu fwy.

Mae Corff Draenio Cynaliadwy wedi cael ei sefydlu yng Ngheredigion a bydd yn rheoli pob agwedd ar gymeradwyaeth dechnegol systemau draenio dŵr wyneb cynaliadwy. Felly nid oes angen i fframwaith monitro AAS/AG y CDLI gynnwys y dangosyddion hyn mwyach.

Casgliadau

Mae'r corff cymeradwyo draenio cynaliadwy wedi'i sefydlu a thrwy'r fframwaith rheoleiddio maent yn asesu'r ceisiadau perthnasol gan fod y dangosydd yn dangos bod pob cais mewn gorlifdir C1 neu C2 wedi cwrdd â phroffion Nodyn Cyngor Technegol 15 felly nid oes angen cymryd camau pellach ar hyn o bryd.

Amcan Cynaliadwyedd: 2a Lleihau halogiad a diogelu ansawdd a maint y pridd.				
Dangosydd	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Maint y datblygu newydd (hectarau) a ganiateir ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (ailddatblygu tir llwyd a chyfaddasiadau) fel canran o'r holl ddatblygu a ganiateir.	Cyngor Sir Ceredigion	Yn flynyddol	Ers dechrau cyfnod y CDLI, mae'r ganran ganlynol o'r ceisiadau a ganiatawyd wedi bod ar dir llwyd: 33% (118.20)	+
Maint y datblygu newydd (hectarau) a gwblheir ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (ailddatblygu tir llwyd a chyfaddasiadau) fel canran o'r holl ddatblygu a gwblheir.	Cyngor Sir Ceredigion	Yn flynyddol	Ers dechrau cyfnod y CDLI, mae'r ganran ganlynol o'r datblygiadau a gwblhawyd wedi bod ar dir llwyd: 25% (65.64ha)	+

Dwysedd cyfartalog datblygiadau tai a ganiateir ar safleoedd datblygu a neilltuwyd yn y cynllun.	Cyngor Sir Ceredigion (Dangosydd AMRH13)	Yn flynyddol	19.59 o unedau'r hecтар yw dwysedd cyfartalog datblygiadau tai a ganiatawyd ar safleoedd a neilltuwyd yn y CDLI.	?
<p>Dadansoddiad</p> <p>Gan mai sir wledig yw Ceredigion ac nid oes llawer o dir llwyd ar gael i'w ddatblygu, mae'n anochel y bydd tir glas yn cyfrannu cyfran fawr o'r holl dir y gellir ei ddatblygu. Fodd bynnag, mae canran o dir llwyd wedi cael ei ddatblygu bob blwyddyn ers mabwysiadu'r cynllun. Mae dangosydd AMRH09 yn gosod targed o 5% ar gyfer datblygiadau preswyl ar dir a ddatblygwyd o'r blaen. Mae'r dangosydd hwn yn dangos bod mwy na 20% o ddatblygiadau'n cael eu sicrhau a'u cyflenwi ar dir llwyd ar gyfer pob math o ddatblygiadau, ac mae hynny'n gadarnhaol. Mae dwysedd cyfartalog datblygiad ar safleoedd a neilltuwyd y CDLI yn gyson ar y cyfan â chanllawiau'r CDLI ar gyfer dwysedd safleoedd a neilltuwyd o 23 o unedau fesul hecтар.</p>				
<p>Casgliadau</p> <p>Er mai ychydig o ddatblygiadau lefel isel sydd ar dir llwyd, nid oes unrhyw bryderon ar hyn o bryd ynghylch gweithredu polisïau'r CDLI gan eu bod yn hybu datblygu tir llwyd lle bo'n briodol. Mae dwysedd cyfartalog datblygu ar safleoedd a neilltuwyd y CDLI yn is na'r dwysedd cyfartalog a argymhellir yn y CDLI, sef 23 o unedau fesul hecтар, fodd bynnag, mae hyn yn amrywio'n gyson ac wedi cael ei gyfiawnhau fesul achos. Mae'r CDLI yn parhau i leihau halogiad a diogelu ansawdd a maint y pridd.</p>				

Amcan Cynaliadwyedd:		2b Cynnal a gwella ansawdd yr aer ar draws Ceredigion.		
Dangosydd	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Lefelau llygryddion aer allweddol (e.e. NO ₂ , PM ₁₀ , bensen, oson).	Paratowyd a chyflwynwyd Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer Cyngor Sir Ceredigion 2019 yn 2020.	Yn flynyddol	<p>NO₂:</p> <p>Ni aethpwyd yn uwch na'r safon gymedrig flynyddol yn 2018 o 40µg/m³ mewn unrhyw un o'r lleoliadau monitro allweddol / achos gwaethaf ar ymyl y ffordd yng Ngheredigion.</p> <p>Mae crynadau o NO₂ yn parhau i gydymffurfio â'r Cyfarwydddeb Epil Ansawdd Aer Ewropeaidd Gyntaf.</p>	0

		<p>PM₁₀</p> <p>Ni wnaethpwyd unrhyw fonitro newydd o lygredd gronynnol yn 2019. Amcangyfrifwyd bod crynodiadau cefndir wedi'u modelu PM₁₀ yng Ngheredigion yn 2018 i fod yn llai nag 13µg/m³ fel cymedrig blynyddol. Felly hyd yn oed yn y lleoliadau achos gwaethaf, ar ymyl y ffordd a mannau poeth yng Ngheredigion rhagwelwyd eu bod yn llawer is na'r safon flynyddol PM₁₀ o 40 µg/m³</p>	
--	--	--	--

		<p>Bensen</p> <p>Lluniwyd safonau gorfodol (a dangosol hirdymor) ar gyfer bensen yng Ngheredigion yn 2018 yn yr holl leoliadau 'problemus' ac ymyl y ffordd sy'n berthnasol i gysylltiad cyhoeddus. Mae'r safon ddangosol fwy hirdymor o 3.25µg/m³ yn cael ei llunio hefyd gyda'r lleoliadau achosion gwaethaf ym mhrif drefi Ceredigion.</p> <p>Oson</p> <p>Mae'n debyg bod y safon 8 awr ddangosol ar gyfer oson wedi cael ei thorri</p>	
--	--	---	--

		<p>mewn nifer o leoliadau mewn pentrefi yng Ngheredigion yn 2018 (ac yn y blynyddoedd blaenorol, yn enwedig y rhai lle y cafwyd haf twym iawn).</p> <p>Gwelwyd cronriad eithriadol o uchel o oson yn Aberystwyth yn 2008. Hwn oedd yr achos mwyaf difrifol o oson a welwyd yng Ngheredigion hyd yma. Yn Nhachwedd 2015 roedd pluen oson yn effeithio ar y rhan fwyaf o Geredigion - gan gynnwys prif dref Aberystwyth lle'r oedd y crynodiad cymedrig</p>	
--	--	---	--

		<p>misol a fesurwyd yn fwy na'r safon 8 awr.</p> <p>Mae'r Llywodraeth yn derbyn bod safonau oson yn cael eu torri, ac y byddant yn parhau i gael eu torri, a bod yr achosion hyn yn digwydd yn amlach yn ne'r Deyrnas Unedig ac mewn ardaloedd gwledig yn hytrach na dinasoedd a threfi mawr.</p>	
<p>Dadansoddiad</p> <p>Roedd Adroddiad Monitro Blynyddol y flwyddyn ddiwethaf yn nodi lefelau tebyg o lygryddion aer â'r flwyddyn hon, gan gydymffurfio â phob safon ar wahân i oson (ond nid yw safonau oson wedi'u gynnwys yn y rheoliadau ar hyn o bryd). Ni aethpwyd yn uwch nag unrhyw lefelau cymedrig ar gyfer NO₂, PM₁₀ neu bensen.</p> <p>Oson yw'r unig lygrydd o'r rhai a gynhwysir yn y Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol a all fod yn fwy problemus mewn ardaloedd gwledig nag mewn ardaloedd trefol. Oherwydd bod goleuni'r haul yn ysgogi'r adweithiau sy'n cynhyrchu oson, deellir</p>			

pam y mae oson fel arfer yn fwy o broblem yn yr haf ac yn ne'r sir (yn hytrach nag yn y gogledd). Mae'r lefelau uchaf yn debygol o ddigwydd ar ddiwrnodau heulog, poeth ac mae'r lefelau'n codi yn ystod cyfnodau pan fydd llawer o fygdarth ceir yn cael ei gynhyrchu, a phan fydd yn gwasgaru'n araf. Hyn sy'n angenrheidiol er mwyn i'r adweithiau ffotocemegol rhagflaenol ddigwydd.

Casgliadau

Er bod torcyfraith yng nghanllaw'r safonau ar gyfer lefelau cyson wedi cael ei thorri, ni ystyrir bod hyn wedi cael ei achosi gan bolisïau'r CDLI. Mae'r Llywodraeth yn derbyn bod safonau oson yn cael eu torri, ac y byddant yn parhau i gael eu torri, a bod yr achosion hyn yn digwydd yn amlach yn ne'r Deyrnas Unedig ac mewn ardaloedd gwledig yn hytrach nag mewn dinasoedd a threfi mawr. Gallai cynhesu byd-eang waethygu'r broblem hon, gan gynyddu pryderon ynghylch llygredd oson o ran iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd.

Amcan Cynaliadwyedd:		2c Lleihau effeithiau gweddilliol defnydd tir ar ansawdd a maint adnoddau dŵr mewndirol ac arfordirol.		
Dangosydd	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Ansawdd dŵr ymdrochi.	Cyfoeth Naturiol Cymru http://environment.data.gov.uk/waters/profiles/index.html	Yn flynyddol	Mae gan 14 o draethau a gafodd eu monitro yn 2020 safonau ansawdd fel a ganlyn: 1. Aber-porth: Digonol 2. Aberystwyth – Gogledd: Ardderchog 3. Aberystwyth – De: Ardderchog 4. Y Borth: Ardderchog 5. Cilborth: Ardderchog 6. Clarach – De: Da	+

			<p>7. Llangrannog: Ardderchog</p> <p>8. Llanrhystud: Ardderchog</p> <p>9. Mwnt: Ardderchog</p> <p>10. Harbwr Ceinewydd: Ardderchog</p> <p>11. Ceinewydd – Gogledd: Da</p> <p>12. Ceinewydd Traeth Gwyn: Da</p> <p>13. Penbryn: Da</p> <p>14. Tre-saith: Ardderchog</p>	
Dadansoddiad				

Mae ansawdd dŵr yn cael ei brofi 20 gwaith yn ystod y tymor ymdrochi o 15 Mai i 30 Medi bob blwyddyn. Caiff y samplau hyn eu dadansoddi yn ôl y safonau a bennir yn y Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi Ewropeaidd. O'r 14 o draethau a aseswyd yn 2020 cafodd 9 eu dosbarthu yn 'Ardderchog', 4 yn 'Dda' ac 1 yn 'Ddigonol'.

Casgliadau

Bennir bod 92% o'r traethau a aseswyd yng Ngheredigion yn cyrraedd safonau gofynnol 'Ardderchog' neu 'Dda' y Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi Ewropeaidd. Mae polisïau'r CDLI yn helpu i gefnogi hyn trwy geisio sicrhau nad yw datblygiadau'n llygru cyrff dŵr.

Amcan Cynaliadwyedd:		3a Gwneud defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol.		
Dangosydd	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Cyfanswm tunelledd gwastraff trefol a pherfformiad yn ôl: Targedau Ailgylchu Awdurdodau Lleol (LART) h.y. y lefelau gofynnol i'w cyrraedd wrth baratoi ar gyfer aildddefnyddio neu ailgylchu/compostio (neu dreulio anaerobig) mewn perthynas â gwastraff trefol (fel canran). Y targed ar gyfer 2019/20 oedd 64%.	Dangosyddion Perfformiad Llywodraeth Cymru WMT10 (CSC).	Yn flynyddol	Cyfanswm gwastraff trefol ar gyfer 2019/20 oedd 33,384.681t. Er cymhariaeth yn 2018/19 roedd yn 34,262.55 2017/18 roedd yn 35995.37t 2016/17 roedd yn 38,115.07t 2015/16 roedd yn 35,202.76t	+

			Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20 cynhyrchodd yr awdurdod 71.63% o wastraff trefol wedi'i baratoi i'w aildddefnyddio, ei ailgylchu/gompostio (neu ei anfon ar gyfer treulio anaerobig), yn erbyn targed LART o 64%.	
<p>Perfformiad yn ôl targedau Lwfansau Tirlenwi h.y. terfynau lwfansau ar gyfer y tunelledd Gwastraff Trefol Pydradwy a anfonir i safleoedd tirlenwi.</p> <p>Mae'r lwfans targed a osodwyd ar gyfer yr awdurdod yn fwy cyfyngol</p>	<p>Llif Data Gwastraff</p> <p>i. Dangosyddion Perfformiad Llywodraeth Cymru WMT/0004a (CSC).</p>	Yn flynyddol	<p>Maint y Gwastraff Trefol Pydradwy a anfonwyd i safleoedd tirlenwi yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20 oedd 1305t Mae hyn yn cyfateb i 16% o'r lwfans sy'n cael ei ddefnyddio.</p>	+

<p>yn raddol dros amser. Gosodwyd ar y gyfradd ganlynol:</p> <p>9,656 tunnell ar gyfer 2016/17</p> <p>9,160 tunnell ar gyfer 2017/18</p> <p>8,661 tunnell ar gyfer 2018/19</p> <p>8,170 tunnell ar gyfer 2019/20</p>				
<p>Cyfanswm y gwastraff o gartrefi / gwastraff diwydiannol a masnachol a gaiff ei gynhyrchu / ailgylchu / anfon i safleoedd tirlenwi bob blwyddyn.</p>	<p>Holwr Data Manylion Trwyddedau Gwastraff Cyfoeth Naturiol Cymru</p> <p>Holwr Data Manylion Trwyddedau Gwastraff Cyfoeth Naturiol Cymru</p>	<p>Yn flynyddol</p>	<p>Y cyfanswm tunelli ar gyfer y flwyddyn galendr 2020 oedd 86565.3t, ac o hynny anfonwyd 6512.72t i safle tirlenwi (y cyfan y tu allan i'r sir).</p> <p>Adenillwyd 24116.82t ohono,</p> <p>trosglwyddwyd 4732.16t, llosgwyd 13306.24t ac</p>	<p>+</p>

		anfonwyd 37845.98t i'w drin.	
<p>Dadansoddiad (Dros dro)</p> <p>Mae'r awdurdod yn parhau i gyrraedd ei Dargedau Ailgylchu Awdurdod Lleol (LART) a thargedau *gwyro oddi wrth safleoedd tirlenwi.</p> <p>Ar hyn o bryd mae Ceredigion yn anfon ei wastraff gweddilliol i gyfleuster ynni o wastraff o dan contract i Ailgylchu LAS yn Llanbedr Pont Steffan hyd at 2022 tra ceisir ateb hirdymor.</p> <p>Mae'r holl wastraff bwyd sy'n cael ei wahanu yn y tarddle a gesglir gan Bartneriaeth Gwastraff Canol Gymru gan gynnwys Ceredigion yn cael ei anfon i gyfleuster treulio anaerobig y tu allan i'r sir, sy'n cyfrannu'n sylweddol at lwyddiant presennol yr awdurdod o ran cyflawni targedau LART a thargedau gwyro oddi wrth safleoedd tirlenwi.</p> <p>Er bod y cyngor yn parhau i gwrdd â thargedau ailgylchu/compostio mae'r awdurdod yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyflawni'r targedau mwy heriol yn y dyfodol, ac mae wedi ymrwymo i yrru rheoli gwastraff ymhellach i fyny'r hierarchaeth gwastraff yn unol â'r Strategaeth Genedlaethol a pholisïau Ewropeaidd. Er mwyn gwneud hyn, hyd yma mae'r awdurdod wedi dibynnu'n llwyddiannus ar (i) y safleoedd gwastraff sy'n bodoli o fewn Ceredigion, (ii) argaeledd dyraniad tir E0301 ar Ystâd Ddiwydiannol Glanyrafon a (iii) cyfleusterau graddfa ranbarthol a leolir y tu allan i Geredigion a (iv) unrhyw safleoedd newydd a allai gael eu datblygu o dan y polisïau gwastraff esgeulus sydd wedi'u cynnwys o fewn y CDLI.</p>			

Cyflwynodd yr awdurdod wasanaeth casglu gwastraff newydd wrth ymyl y ffordd yn ystod 2019. Roedd hyn yn darparu gwasanaethau ychwanegol ar gyfer gwydr a chynhyrchion hylendid amsugol, ac yn cyflwyno newidiadau i amllder casglu gwastraff gweddilliol. Bydd y newidiadau hyn yn helpu'r Awdurdod i barhau i berfformio o ran ailgylchu a dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi.

Mae gan y tir a neilltuwyd o dan E0301 y capasiti i ddiwallu unrhyw angen a ragwelir yn y dyfodol am gyfleuster adennill adnoddau neu drin gwastraff i wasanaethu ardal Partneriaeth Gwastraff Canol Cymru, neu fel arall i fod yn rhan o ateb ehangach mwy hirdymor ar gyfer gwastraff gweddilliol ar gyfer ardal Canol a Gorllewin Cymru. P'un a fydd safle E0301 byth yn cael ei ddewis fel safle gwastraff rhanbarthol neu beidio, dylai defnyddio safle E0301, neu argaeledd parhaus safle E0301, o'i ystyried ar y cyd ag unrhyw dir arall a allai fod ar gael ar gyfer cyfleusterau adennill adnoddau a gwastraff o dan bolisiau gwastraff esgeulus y CDLI, alluogi Ceredigion i ddarparu ar gyfer yr ystod lawn o seilwaith adennill adnoddau a gwastraff a allai fod ei angen, boed ar gyfer y gwastraff trefol mae'r awdurdod yn gyfrifol amdano neu wastraff masnachol a diwydiannol a reolir gan y sector preifat, sy'n ddigonol i gyflawni neu ragori ar yr holl dargedau gwastraff yn awr ac yn y dyfodol agos.

** Mae cyfanswm y gwastraff o gartrefi/diwydiannol a masnachol yn cynnwys gwastraff trefol.

Casgliadau

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw bryderon am effaith y CDLI ar allu Ceredigion i gadw o fewn y Targedau Lwfansau Tirlenwi, neu fod yn uwch na Thargedau Ailgylchu'r Awdurdod Lleol (LART).

Amcan Cynaliadwyedd: 3b Adeiladu a chynnal gwasanaethau a seilwaith amgylcheddol gyfeillgar o ansawdd uchel.				
Dangosydd	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Nifer y Canolfannau Gwasanaethau a gyfyngir gan faterion sy'n ymwneud â seilwaith (trin carthion a'r cyflenwad dŵr)	Cyngor Sir Ceredigion (Dangosydd AMRQ06)	Yn flynyddol	Mae 2 Ganolfan Gwasanaethau a gyfyngir gan faterion sy'n ymwneud â seilwaith (trin carthion a'r cyflenwad dŵr).	+
<p>Dadansoddiad</p> <p>Mae'r ymgysylltu â DCWW yn gadarnhaol ac yn parhau. Ers dechrau'r cyfnod y cynllun mae nifer y canolfannau gwasanaethau a gyfyngir yn rhannol wedi lleihau o 9 i 3. Cyfeiriwch at AMRQ06 uchod am ragor o fanylion.</p>				
<p>Casgliadau</p> <p>Mae'r ymgysylltu â DCWW yn gadarnhaol. Ers dechrau cyfnod y cynllun, mae nifer y canolfannau gwasanaethau a gyfyngir yn rhannol wedi lleihau o 9 i 3. Bydd yr adolygiad a'r diwygiad o'r CDLI, fel rhan o'r broses safleoedd ymgeisiol yn ystyried unrhyw</p>				

faterion seilwaith penodol i'r safle. Bydd hyn yn sicrhau bod modd cyflawni unrhyw ddyraniadau sydd i'w datblygu yn y CDLI newydd.

Amcan Cynaliadwyedd:		4a Gwerthfawrogi, gwarchod a gwella bioamrywiaeth.		
Dangosydd	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
<p>Canran y datblygiadau a ganiateir lle tybir y bydd effeithiau hirdymor gweddilliol sylweddol ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Warchodfeydd Natur Lleol, Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur a chynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth; • Cysylltedd ecolegol; • Coed, gwrychoedd a choetiroedd â gwerth gweledol, ecolegol, hanesyddol, diwylliannol neu amwynder; neu 	Cyngor Sir Ceredigion a Chyfoeth Naturiol Cymru.	Yn flynyddol	1.88% o ddatblygiadau a ganiateir lle y rhagwelir y bydd effeithiau hirdymor gweddilliol sylweddol ar yr amgylchedd a bioamrywiaeth leol	0

<ul style="list-style-type: none"> Wasanaethau ecosystemau a phrosesau naturiol. 				
<p>Canran y ceisiadau lle mae gwelliannau sy'n ymwneud â'r isod:</p> <ul style="list-style-type: none"> Bioamrywiaeth (gan gynnwys Gwarchodfeydd Natur Lleol, Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur a chynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth); Cysylltedd ecolegol; Coed, gwrychoedd a choetiroedd; neu Wasanaethau ecosystemau a phrosesau naturiol. 	Cyngor Sir Ceredigion a Chyfoeth Naturiol Cymru.	Yn flynyddol	Cafodd 84.82% o'r datblygu ei ganiatáu yn cynnwys gwelliannau amgylcheddol yn unol â gofynion Polisiâu DM14, DM15, DM20 a DM22.	?
Colli cynefin â blaenoriaeth (hectarau) oherwydd datblygu newydd.	Cyngor Sir Ceredigion.	Yn flynyddol	Mae 7% o geisiadau ar gyfer datblygu wedi arwain at golli cynefin â	0

			blaenoriaeth (oherwydd colli gwrychoedd).	
Colli safleoedd (hectarau) sy'n bodloni meini prawf Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur oherwydd datblygu newydd.	Cyngor Sir Ceredigion.	Yn flynyddol	Arweiniodd 7% o geisiadau at golli safleoedd sy'n bodloni meini prawf Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur (prysgoed).	0
<p>Dadansoddiad</p> <p>Cafodd 1.88% o ddatblygiadau eu caniatáu lle y rhagwelir y bydd effeithiau hirdymor gweddilliol sylweddol ar yr amgylchedd a bioamrywiaeth leol. Cafodd 84.82% o'r datblygiadau eu caniatáu yn cynnwys gwelliannau amgylcheddol yn unol â gofynion Polisiâu DM14, DM15, DM20 a DM22. Mae 52 o geisiadau ar gyfer datblygu wedi arwain at golli cynefin â blaenoriaeth (oherwydd colli gwrychoedd heb gynnwys amod sy'n ymwneud ag ailblannu neu drawsleoli'r gwrychoedd a gollwyd).</p> <p>Mae'r gwaith monitro yn dangos bod y dangosyddion yn cael eu bodloni i raddau helaeth, ac felly bod bioamrywiaeth yn cael ei gwerthfawrogi, ei gwarchod a'i gwella. Er hynny, nodwyd camau gweithredu i gefnogi gweithredu'r polisi ymhellach a gwella perfformiad ar gyfer y cyfnod monitro nesaf. I gael rhagor o wybodaeth cyfeiriwch at Ddangosyddion Q04 a Q05 y CDLI uchod.</p>				
<p>Casgliadau</p>				

Nid yw'r amcan wedi cael ei fodloni. Mae camau gweithredu wedi cael eu nodi er mwyn ceisio perfformiad gwell yn y dyfodol.

Amcan Cynaliadwyedd:		5a	Deall, gwerthfawrogi, gwarchod, gwella a dathlu tirwedd, amgylchedd hanesyddol, amrywiaeth a hynoded lleol, a threftadaeth hanesyddol a diwylliannol Ceredigion.	
Dangosydd	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Maint y datblygu (hectarau, unedau a chanran) a ganiatawyd ac a gwblhawyd o fewn Ardaloedd Tirwedd Arbennig.	Cyngor Sir Ceredigion.	Yn flynyddol.	<p>Nid yw'r arolwg unedau dibreswyl a gwblhawyd wedi'i gwblhau yn 2021 oherwydd COVID-19.</p> <p>Datblygu Preswyl a Ganiatawyd:</p> <p>Hectarau: 18.24 (79%)</p> <p>Unedau: 146 (58%)</p> <p>Datblygu Preswyl a Gwblhawyd:</p> <p>Hectarau: 4.81 (24%)</p> <p>Unedau: 55 (21%)</p>	+

			<p>Datblygu Amhreswyl a Ganiatawyd:</p> <p>Hectarau: 3.48 (28%)</p> <p>Unedau: 11 (24%)</p> <p>Datblygu Amhreswyl a Gwblhawyd:</p> <p>Hectarau: 0.75 (77%)</p> <p>Unedau: 4 (44%)</p>	
<p>Maint y datblygu (hectarau, unedau a chanran) a ganiatawyd ac a gwblhawyd mewn Ardal Agwedd Weledol a Synhwyrdd LANDMAP gydag arfarniad cyffredinol o werth Eithriadol a</p> <p>Swm y datblygiad (ha, unedau a chyfran) a ganiateir ac a gwblhawyd o fewn Ardal Agwedd LANDMAP</p>	Cyngor Sir Ceredigion.	Yn flynyddol.	<p>Ardal Agwedd LANDMAP gyda Gwerthusiad Cyffredinol yn Eithriadol</p> <p>Datblygu Preswyl a Ganiatawyd:</p> <p>Hectarau: 18.74 (81%)</p> <p>Unedau: 195 (77%)</p>	+

<p>Gweledol a Synhwyrdd gyda gwerthusiad cyffredinol o'r Eithriadol.</p>		<p>Datblygu Preswyl a Gwblhawyd: Hectarau: 13.19 (65%) Unedau: 221 (83%)</p> <p>Datblygu Amhreswyl a Ganiatawyd: Hectarau: 6.81 (54%) Unedau: 24 (53%)</p> <p>Datblygu Amhreswyl a Gwblhawyd: Hectarau: 0.81 (82%) Unedau: 7 (78%)</p> <p>Ardal Agwedd LANDMAP Gweledol a Synhwyrdd gyda gwerthusiad cyffredinol o'r Eithriadol</p>	
--	--	---	--

			<p>Datblygu Preswyl a Ganiatawyd:</p> <p>Hectarau: 0.25 (1%)</p> <p>Unedau: -1 (1%)</p> <p>Datblygu Preswyl a Gwblhawyd:</p> <p>Hectarau: 0.30 (1%)</p> <p>Unedau: -3 (1%)</p> <p>Datblygu Amhreswyl a Ganiatawyd:</p> <p>Hectarau: 6.87 (54%)</p> <p>Unedau: 17 (38%)</p> <p>Datblygu Amhreswyl a Gwblhawyd:</p> <p>Hectarau: 0.81 (82%)</p> <p>Unedau: 7 (78%)</p>	
--	--	--	--	--

Dadansoddiad

Mae gan Geredigion dirwedd gyfoethog ac amrywiol a werthfawrogir yn fawr. O ganlyniad, barnwyd bod oddeutu 45% o'i harwynebedd tir o ansawdd digon uchel i gael ei ddynodi fel rhan o Ardaloedd Tirwedd Arbennig, ac y mae tair ar ddeg o'r rhain. Hefyd dynodwyd bod oddeutu 15% o'i thir o werth Eithriadol yn ôl Pennod Fethodolegol Weledol a Synhwyraidd LANDMAP, sy'n golygu ei fod o bwysigrwydd cenedlaethol neu hyd yn oed rhyngwladol.

Dylid nodi nad yw'r dynodiadau Ardal Tirwedd Arbennig na'r arfarniadau eithriadol LANDMAP yn atal datblygu, o angenrheidrwydd, ac na fydd llawer o fathau o ddatblygu'n cael unrhyw effaith ar y dirwedd. Dylid hefyd nodi, lle ceir datblygu mewn Ardaloedd Tirwedd Arbennig a thirweddau eraill a werthfawrogir yn fawr, gellir defnyddio polisïau'r CDLI i fynnu ansawdd gwell o ran dylunio a thirweddu.

Casgliadau

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw bryderon am effeithiau'r CDLI ar dirweddau Ceredigion a werthfawrogir fwyaf.

Amcan Cynaliadwyedd:		6a Cynnal hunaniaeth ddiwylliannol benodol a sicrhau bod anghenion y ddemograffeg newidiol yn cael eu hadlewyrchu; a		
		6b Adeiladu cymunedau bywiog, diogel a chydlynol.		
Dangosydd	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Nifer y tai fforddiadwy (unedau a chanran) a ganiatawyd ac a gwblhawyd o dan bolisi cynllunio Cartrefi Fforddiadwy Cyngor Sir Ceredigion.	Cyngor Sir Ceredigion (AMRH10 ac AMRH11).	Yn flynyddol	Ers dechrau cyfnod cynllun y CDLI, ymrwymwyd i'r tai fforddiadwy canlynol: Caniatawyd: 860 (26%) Cwblhawyd: 640 (25%)	+
Nifer y 6 chyfleuster allweddol (siop fwyd, swyddfa bost, gorsaf betrol, tafarn, neuadd pentref, ysgol gynradd) mewn Canolfan Gwasanaethau.	Cyngor Sir Ceredigion (Dangosydd AMRE06).	Yn flynyddol	Gweler Atodiad 8 Gwybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael AMB 2019	+

<p>Nifer yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) yn y 30% mwyaf amddifad.</p>	<p>Llywodraeth Cymru https://statswales.wales.gov.uk</p>	<p>Fel sydd ar gael</p>	<p>Yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) (2019), nodwyd bod 3 o'r 46 LSOAs (6.5%) o fewn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig 30%, sef Aberystwyth Penparcau 1 (W01000515), Aberteifi/Cardigan – Rhyd-y-Fuwch (W01000510) ac Aberteifi/Cardigan – Teifi (W01000511). 2 o'r 46 LSOAs (4.3%) o fewn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig 20%, sef Aberteifi/Cardigan – Rhyd-y-Fuwch (W01000510) ac</p>	<p style="text-align: center;">?</p>
--	---	-------------------------	--	--------------------------------------

			<p>Aberteifi/Cardigan – Teifi (W01000511).</p> <p>1 o'r 46 LSOAs (2.2%) o fewn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig 10%, sef Aberteifi/Cardigan – Teifi (W01000511).</p>	
<p>Troseddau hysbysadwy a gofnodwyd gan yr heddlu yn ôl math.</p>	<p>Y Swyddfa Ystadegau Gwladol https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/recordedcrime dataatcommunitysafetypartnershiplocalauthoritylevel</p> <p>O ddefnydd 2020 https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/recordedcrime</p>	<p>Fel sydd ar gael</p>	<p>Mae'r ystadegau ar gyfer troseddau hysbysadwy ar gyfer 12 mis cyn Mawrth 2020 fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Trais gydag anaf (Troseddau): 528 • Trais heb anaf (yn cynnwys Aflonyddu ac Ymosod) (Troseddau): 862 	<p>?</p>

	<p>databycommunitysafetypartners hiparea</p> <p>Tabl C2</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Lladrad (Troseddau): 11 • Dwyn oddi ar y person (Troseddau): 10 • Difrod Troseddol a Llosgi Bwriadol (Troseddau): 557 • Byrgleriaeth o anedd (Troseddau): 144 • Byrgleriaeth heb fod o anedd (Troseddau): 59 • Troseddau Cerbyd (yn cynnwys Dwyn cerbydau a Dwyn o gerbydau) (Troseddau): 80 • Troseddau Cyffuriau (Troseddau): 313 	
--	--	--	---	--

			<ul style="list-style-type: none"> Troseddau Rhywiol (Troseddau): 194 	
<p>Dadansoddiad</p> <p>O ran tai fforddiadwy, mae'r ganran yn uwch na'r targed gofynnol o 20% ar gyfer ceisiadau a ganiatawyd ac a gwblhawyd. Gweler Dangosydd AMRH10 am ragor o fanylion.</p> <p>O ran gwasanaethau a chyfleusterau mewn Canolfannau Gwasanaethau, ni fu llawer o amrywiad yn nifer y gwasanaethau a chyfleusterau allweddol dros y blynyddoedd diwethaf, a gan mai ers mis Ebrill 2013 mae'r CDLI wedi bod yn sail ar gyfer gwneud penderfyniadau, mae'n rhy gynnar i ddweud a yw'r strategaeth hon yn cael effaith ar eu cadw neu eu gwella. Gweler Dangosydd AMRE06 am ragor o fanylion.</p> <p>O ran troseddau hysbysadwy a gofnodwyd gan yr heddlu yn ôl math, ni chafwyd unrhyw newidiadau sylweddol yn y nifer neu'r math o droseddau hysbysadwy ers mabwysiadu'r cynllun.</p>				
<p>Casgliadau</p> <p>Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn awgrymu bod canran y tai fforddiadwy a ganiatawyd ac a gwblhawyd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gynnal hunaniaeth ddiwylliannol benodol y sir mewn ffordd sy'n ymateb i amrywiaeth o anghenion trwy alluogi pobl leol y mae angen tai fforddiadwy arnynt i gael tai yn y sectorau tai preifat a chymdeithasol.</p> <p>Ni fu llawer o amrywiad ers mabwysiadu'r cynllun yn nifer y gwasanaethau a chyfleusterau allweddol yng Nghanolffannau Gwasanaethau Gwledig, yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is amddifad, a throseddau hysbysadwy.</p>				

Amcan Cynaliadwyedd:		7a Hyrwyddo a darparu cyfleoedd a gwasanaethau i gynnal cymunedau iach.		
Dangosydd	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Canran yr anheddau o fewn pellter cerdded/beicio cytunedig (400m) i wasanaethau iechyd allweddol.	Cyngor Sir Ceredigion.	Yn flynyddol	Canran yr anheddau o fewn pellter cerdded/beicio cytunedig (400m) i wasanaethau iechyd allweddol: 10.4%	?
Canran yr anheddau newydd sydd o fewn 300m i'r man gwyrdd naturiol agosaf.	Cyngor Sir Ceredigion.	Fel sydd ar gael	Nid oedd modd monitro'r dangosydd hwn eleni oherwydd nid oedd yr wybodaeth ar gael. Er hynny, nodwyd bod monitro blaenorol wedi nodi perthynas gadarnhaol.	Amh

Maint y cyfleusterau mannau agored newydd (hectarau) a ddarperir.	Cyngor Sir Ceredigion (Dangosydd AMRQ01 ac AMRQ03).	Yn flynyddol	Dim colled o fannau agored yn y sir.	+
<p>Dadansoddiad</p> <p>Mae llawer o'r ceisiadau a ddaeth i law yn ystod y cyfnod monitro hwn yn ymwneud â safleoedd y rhoddwyd caniatâd amlinellol iddynt eisoes o dan y Cynllun Datblygu Unedol, ac oherwydd hynny ni fu modd ei gwneud yn ofynnol i'r datblygiadau ddarparu mannau agored yn unol â Pholisi LU24.</p> <p>Cyfran yr anheddau sydd o fewn cyrraedd i brif wasanaethau iechyd yw 10.46%. Mae hyn oherwydd natur wledig y sir a dosbarthiad hanesyddol y boblogaeth.</p> <p>Oherwydd natur wledig Ceredigion, mae pob annedd o fewn 300 metr i fan gwyrdd naturiol yn ôl data Cyfoeth Naturiol Cymru ar 'fannau gwyrdd naturiol sydd o bosib yn hygyrch yn 2014'. Mae angen mireinio gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru am fannau gwyrdd naturiol er mwyn darparu ateb mwy manwl yng nghyfnodau'r cynllun yn y dyfodol.</p>				
<p>Casgliadau</p> <p>Mae'r CDLI yn parhau i hyrwyddo a darparu cyfleoedd a gwasanaethau i gynnal cymunedau iach.</p>				

Amcanion Cynaliadwyedd:		8a Hyrwyddo, datblygu a gwella cyfleoedd ar gyfer twristiaeth gynaliadwy ac amgylcheddol gyfeillgar, cyfleusterau hamdden a difyrrwch yng Ngheredigion.		
Dangosydd	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Diwrnodau twristiaeth a nifer y twristiaid yn ôl i. Llety â Gwasanaeth, ii. Llety Heb Wasanaeth, iii. Aros gyda ffrindiau neu berthnasoedd ac iv. Ymwelwyr Dydd	Cyngor Sir Ceredigion http://www.discoverceredigion.co.uk/English/footer/tradepartner/site/tourismreportstatistics/Pages/default.aspx	Fel sydd ar gael	Mae'r wybodaeth isod ar gyfer y flwyddyn galendr 2019 a hon yw'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael. Cyfanswm o 1,366,000 o ymwelwyr sy'n aros gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • 187,000 o bobl yn aros mewn llety â gwasanaeth 	0

		<ul style="list-style-type: none"> • 1,066,000 o bobl yn aros mewn llety heb wasanaeth • 113,000 o bobl yn aros gyda ffrindiau neu berthnasau • 1.58 miliwn o ymwelwyr dydd. 	
<p>Dadansoddiad</p> <p>Ni chafwyd unrhyw newidiadau mawr yng nghyfanswm nifer yr ymwelwyr neu'r mathau o ymwelwyr yn y blynyddoedd diwethaf, ac ychydig o gynnydd yn nifer y twristiaid a'r effaith economaidd. Mae nifer yr ymwelwyr sy'n aros a ddim yn aros wedi newid ychydig dros y 10 mlynedd ddiwethaf, ond mae'r ffigurau a nodir yma wedi bod yn gyson ar y cyfan. Fodd bynnag, mae lefelau'r budd economaidd a ddaw trwy ymweliadau gan dwristiaid yn parhau i godi'n raddol. Fodd bynnag, oherwydd cyfnodau clo pandemig Covid 19 a'r duedd ddilynol i gael gwyliau gartref rydym yn rhagweld y bydd y canlyniadau'n amrywio'n sylweddol pan fydd data 2020/2021 ar gael i'w adrodd yn y cyfnod monitro nesaf</p>			
<p>Casgliadau</p>			

Er y bu gostyngiad amlwg yn nifer yr ymwelwyr sy'n aros, nid yw hyn i'w weld yn unigryw i Geredigion. Ystyrir bod y gyfres o bolisiâu twristiaeth yn y CDLI yn cefnogi'r amcan, ac mae'r CDLI yn parhau i hyrwyddo, datblygu a gwella cyfleoedd ar gyfer twristiaeth gynaliadwy ac amgylchedd cyfeillgar, cyfleusterau hamdden a difyrrwch yng Ngheredigion.

Amcanion Cynaliadwyedd: 9a Cynyddu cyfleoedd i adeiladu sylfaen addysg a sgiliau Ceredigion.				
Dangosydd	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Nifer a % y bobl 16-64 oed sydd â chymwysterau NVQ.	https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/1946157390/report.aspx?town=ceredigion%20-%20tabquals#tabquals	Yn flynyddol lon-lon	<ul style="list-style-type: none"> NVQ4 ac uwch: 22,600 (48.7%) NVQ3 ac uwch: 31,600 (68%) NVQ2 ac uwch: 39,000 (83.8%) NVQ1 ac uwch: 42,500 (91.3%) Cymwysterau eraill: 1,800 (3.8%) Dim cymwysterau: 2,300 (4.9%) 	?

Canran y bobl 16-24 oed sydd o fewn trothwyau amser teithio 30, 60, 90 munud o 'Ddarparwyr Dysgu' drwy (i) cerdded (ii) trafndiaeth gyhoeddus a (iii) car.	Cyngor Sir Ceredigion.	2011-13 a 2021-23	Ni ddisgwylir iddo gael ei fonitro eleni.	Amh
<p>Dadansoddiad</p> <p>Mae strategaeth y CDLI yn parhau i hyrwyddo twf mewn lleoliadau cynaliadwy. Bydd newidiadau o ganlyniad i foderneiddio ysgolion yn cael eu hystyried yn yr Adolygiad o'r CDLI.</p> <p>Yng Ngheredigion mae'r nifer sy'n ennill cymwysterau NVQ wedi cynyddu. Mae cymwysterau eraill wedi gostwng ac mae dim cymhwyster wedi cynyddu. Wrth gymharu Ceredigion â'r cyfartaleddau i Gymru, mae gan boblogaeth Ceredigion y lefelau uchaf o gymwysterau NVQ a lefelau is o gymwysterau eraill. Yn ogystal, dim ond 4.9% o boblogaeth Ceredigion sydd â dim cymwysterau o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 7.7%.</p>				
<p>Casgliadau</p> <p>Nid oes unrhyw bryderon ynghylch strategaeth a pholisi'r CDLI mewn perthynas â'r amcan hwn.</p>				

Amcanion Cynaliadwyedd: 10a Hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg.				
Dangosydd	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Nifer a chanran y bobl 3 oed a hŷn sy'n dweud y gallant siarad Cymraeg yn ôl blwyddyn Cyfrifiad.	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol http://www.ons.gov.uk/ons/index.html	2011-13 a 2021-23	31 Mawrth 2011: <ul style="list-style-type: none">• Pawb 3 oed a hŷn: 73,847• Pobl a all siarad Cymraeg: 34,964• Pobl na allant siarad Cymraeg: 38,883• Canran y bobl sy'n dweud y gallant siarad Cymraeg: 47%	Amh
Canran y bobl 3 oed a hŷn sy'n dweud y gallant siarad Cymraeg yn	Llywodraeth Cymru https://statswales.wales.gov.uk/Catalogue/Welsh-	Yn flynyddol	31 Mawrth 2021, pobl 3 oed a hŷn:	?

<p>ôl amcangyfrifon Arolwg Poblogaeth Blynyddol.</p>	<p>Language/annualpopulationsurveyestimatesofpersonsaged3andoverwhosaytheycanspeakwelsh-by-localauthority-measure https://statswales.gov.wales/Catalogue/Welsh-Language/Annual-Population-Survey-Welsh-Language/annualpopulationsurveyestimatesofpersonsaged3andoverwhosaytheycanspeakwelsh-by-localauthority-measure</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Pawb 3 oed a hŷn: 74,100 • Pobl a all siarad Cymraeg: 46,100 • Pobl na allant siarad Cymraeg: 27,900 • Canran y bobl sy'n dweud y gallant siarad Cymraeg: 62.3% 	
<p>Nifer a chanran disgyblion Ceredigion sy'n siarad Cymraeg gartref.</p>	<p>Cyngor Sir Ceredigion Cyfrifiad Ysgolion Neu https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-</p>	<p>Yn flynyddol</p>	<p>Mae'r data ar gyfer blwyddyn academaidd 2018-2019:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn siarad Cymraeg gartref: 2911 (35%) 	<p>?</p>

	Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Welsh-Language/speakingwelshhomepupils5andover-by-localauthorityregion-category		<ul style="list-style-type: none"> • Ddim yn siarad Cymraeg gartref: 3385 (41%) • Amherthnasol (ni all siarad Cymraeg): 2075 (25%) • Dim gwybodaeth wedi'i darparu. 0 	
Nifer a chanran y disgyblion sy'n cael Asesiad Athro drwy gyfrwng y Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3.	Llywodraeth Cymru https://statswales.gov.wales (Dangosyddion Strategol Cenedlaethol)	Yn flynyddol	Data ar gyfer y flwyddyn 2020/2021: Aseswyd 500 o ddisgyblion yn Gymraeg o gyfanswm o 735 o ddisgyblion (68%)	?
<p>Dadansoddiad</p> <p>Mae amcangyfrifon yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a Chyfrifiad yr Ysgolion yn dangos bod nifer y siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion wedi cynyddu. Ym Mawrth 2021 roedd 62.3% o bobl yng Ngheredigion yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn yn cymharu i 57.3% (2019), 59.6% (2018), 58.6% (2017), 53% (2016), a 52.3% (2015 a 2014) a 54.3% (2013).</p>				

Mae data addysg o Gyfrifiad Ysgol Blynyddol Ceredigion a Dangosydd Strategol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn dangos na chafwyd unrhyw newid arwyddocaol yn nifer y plant sy'n siarad ac nad ydynt yn siarad Cymraeg yn y cartref neu sy'n cael asesiadau ysgol yn Gymraeg yn ystod y cyfnod monitro.

Mae polisi DM01 y CDLI yn ei gwneud hi'n ofynnol i effaith datblygu ar y Gymraeg a'r Gymuned gael ei hasesu mewn rhai achosion. Er mwyn cefnogi gweithredu'r polisi hwn mabwysiadwyd Canllawiau Cynllunio Atodol ar 23 Mehefin 2015. Yn dilyn mabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol mae'r Cyngor hefyd yn adrodd ar berfformiad gofynion Polisi DM01 ar gyfer Asesiad Effaith Ieithyddol yn Adroddiad Monitro'r Gymraeg blynyddol. Fodd bynnag, nid yw'r canllawiau hyn yn adlewyrchu'r TAN 20 diweddaraf o reidrwydd, a bydd rhaid eu newid yn unol â'r polisi newydd yn ystod y broses adolygu.

Casgliadau

Yn wyneb y cyfnod y bu'r CDLI yn weithredol, nid oes modd gwneud unrhyw gasgliadau ynghylch ei effaith ar y Gymraeg ar hyn o bryd, a chaiff ei effaith ar y Gymraeg ei ystyried orau yn dilyn y cyfrifiad nesaf. Mae cysylltu newid ieithyddol a chynllunio gofodol yn anodd iawn. Mae'r dystiolaeth uchod yn awgrymu na fu newid mawr yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion yn y blynyddoedd diwethaf.

Amcanion Cynaliadwyedd:		11a Lleihau'r angen i deithio a hyrwyddo dulliau cynaliadwy o deithio; a		
		11b Gwella hygyrchedd at wasanaethau i gymunedau, a chysylltedd er budd yr economi.		
Dangosydd	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Cyfran y cartrefi o fewn terfynau amser teithio 30, 60 a 90 munud o amwynderau, gan gynnwys archfarchnad, swyddfa bost a meddygfa a/neu ysbyty; trwy gerdded neu drwy ddefnyddio car neu drafnidiaeth gyhoeddus.	Cyngor Sir Ceredigion	Yn flynyddol	Archfarchnad <ul style="list-style-type: none"> • Car: <ul style="list-style-type: none"> • 30 munud: 98.87% • 60 munud: 0.07% • 90 munud: 0% • Mwy na 90 munud: 1.04% • Trafnidiaeth Gyhoeddus: <ul style="list-style-type: none"> • 30 munud: 70.54% • 60 munud: 5.41% 	?

			<ul style="list-style-type: none"> • 90 munud: 0.02% • Mwy na 90 munud: 24.01% • Cerdded: <ul style="list-style-type: none"> • 30 munud: 40.34% • 60 munud: 8.24% • 90 munud: 11.93% • Mwy na 90 munud: 39.30% Swyddfa Bost <ul style="list-style-type: none"> • Car: <ul style="list-style-type: none"> • 30 munud: 99.97% • 60 munud: 0% • 90 munud: 0% 	
--	--	--	---	--

			<ul style="list-style-type: none"> • Mwy na 90 munud: 0.01% • Trafnidiaeth Gyhoeddus: <ul style="list-style-type: none"> • 30 munud: 77.67% • 60 munud: 6.42% • 90 munud: 0.43 • Mwy na 90 munud: 15.49 • Cerdded: <ul style="list-style-type: none"> • 30 munud: 58.84% • 60 munud: 17.44% • 90 munud: 13.43% • Mwy na 90 munud: 10.26% 	
--	--	--	---	--

			<p>Meddygfa a/neu ysbyty</p> <ul style="list-style-type: none"> • Car: <ul style="list-style-type: none"> • 30 munud: 99.97% • 60 munud: 0% • 90 munud: 0% • Mwy na 90 munud: 0.03% • Trafnidiaeth Gyhoeddus: <ul style="list-style-type: none"> • 30 munud: 73.16% – Data 2017 • 60 munud: 9.79% – Data 2017 • 90 munud: 0.73% – Data 2017 	
--	--	--	---	--

			<ul style="list-style-type: none"> • Mwy na 90 munud: 16.32% – Data 2017 • Cerdded: <ul style="list-style-type: none"> • 30 munud: 46.79% • 60 munud: 12% • 90 munud: 14.5% • Mwy na 90 munud: 26.66% 	
Maint y traffig ar y ffyrdd.	http://gov.wales/docs/statistics/2016/161130-road-traffic-2015-en.pdf https://statswales.gov.wales/Catalogue/Transport/Roads/Road-Traffic/volumeofroadtraffic-by-localauthority-year?_ga=2.216523606.112274	Yn flynyddol	Cofnodwyd maint y traffig ddiwethaf yn 2020 fel a ganlyn: 0.67 biliwn o gilometrau cerbydau.	?

	4816.1568042032- 246819962.1561535796			
Prif ddull o deithio i'r gwaith.	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol http://www.ons.gov.uk/ons/index.html	2011-13 a 2021-23	31 Mawrth 2011: <ul style="list-style-type: none"> • Pob categori: Dull teithio i'r gwaith (amgen): 57,405 • Gweithio'n bennaf gartref neu o'r cartref: 6,780 (11.8%) • Trên tanddaearol, metro, tram, neu reilffordd ysgafn: 32 (0.1%) • Trên: 125 (0.2%) • Bws, bws mini neu goets: 910 (1.6%) • Tacsï: 98 (0.2%) 	Amh

			<ul style="list-style-type: none"> • Beic modur, moped neu sgwter: 148 (0.3%) • Gyrru car neu fan: 17,917 (31.2%) • Teithiwr mewn car neu fan: 1,652 (2.9%) • Beic: 361 (0.6%) • Cerdded: 4,266 (7.4%) • Dull arall o deithio i'r gwaith: 157 (0.3%) • Ddim mewn cyflogaeth: 24,959 (43.5%). 	
Nifer y ceir neu faniau i bob aelwyd.	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol http://www.ons.gov.uk/ons/index.html	2011-13 a 2021-23	31 Mawrth 2011: <ul style="list-style-type: none"> • Pob aelwyd: 31,562 	Amh

			<ul style="list-style-type: none"> • Aelwydydd heb unrhyw gar neu fan: 5,803 (18.4%) • Aelwydydd ag 1 car neu fan: 13,627 (43.2%) • Aelwydydd â 2 gar neu fan: 8,677 (27.5%) • Aelwydydd â 3 gar neu fan: 2,449 (7.8%) • Aelwydydd â 4 car neu fan neu fwy: 1,006 (3.2%) • Cyfanswm yr holl geir neu faniau: 42,905. 	
Dadansoddiad				

Nid oes modd canfod effaith datblygiadau preswyl newydd fel cyfran o'r stoc tai presennol ar draws y sir o flwyddyn i flwyddyn, ac yn achos peth o'r data nid yw'n hawdd dirnad y berthynas rhwng amserau teithio a datblygiadau preswyl. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd dadansoddi'r data dros gyfnod hwy yn cynnig rhyw arwydd ynghylch effeithiau'r CDLI.

O ran amserau teithio i gyfleusterau allweddol, mae'r canlyniadau'n parhau heb eu newid ryw lawer ers mabwysiadu'r cynllun. Mae'r ganran dros 90 munud o gyfleusterau allweddol ar drafnidiaeth gyhoeddus wedi cynyddu oherwydd newidiadau yn y rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus ac amllder gwasanaethau, fodd bynnag, mae'r mwyafrif yn parhau o fewn amser teithio 30 munud.

Casgliadau

Ni all yr Adroddiad Monitro Blynyddol ddod i unrhyw gasgliadau ynghylch effaith y CDLI ar hyn o bryd. Mae'n debygol y bydd y sefyllfa o 'ddim newid' o flwyddyn i flwyddyn yn parhau ac ni fydd modd nodi effeithiau sylweddol hyd nes y bydd mwy o ddatblygiad wedi digwydd. Dylai unrhyw newidiadau o bwys fod yn destun dadansoddiad o'r achosion posibl y tu hwnt i effaith y CDLI.

Amcanion Cynaliadwyedd: 12a Hybu economi fywiog ac amrywiol.				
Dangosydd	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Nifer a chanran y bobl economaidd weithgar mewn cyflogaeth.	NOMIS – Ystadegau Swyddogol y Farchnad Lafur https://www.nomisweb.co.uk/reports/imp/la/1946157390/report.aspx (gweld cyfres amser ar gyfer gwybodaeth Ebrill - Mawrth)	Yn flynyddol	Ebrill 2020 – Mawrth 2021: <ul style="list-style-type: none"> Economaidd Weithgar: 38,000 (76.7%) Mewn cyflogaeth: 36,400 (73.3%) Cyflogeion: 27,400 (56.8%) Hunangyflogedig: 8,700 (15.9%) Di-waith (ar sail model): 1,300 (3.4%). 	+
Tâl wythnosol gros cymedrig ar gyfer preswylwyr yng Ngheredigion.	NOMIS – Ystadegau Swyddogol y Farchnad Lafur	Yn flynyddol	2020:	?

	https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/1946157390/printable.aspx		<ul style="list-style-type: none"> • Gweithwyr amser llawn: £504.4 • Gweithwyr amser llawn gwryw: £488.6.0 • Gweithwyr amser llawn benyw: £514.1 	
Nifer y cyflogeion fesul sector economaidd bras.	<p>StatsCymru:</p> <p>https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Employment/Jobs/Whole-Workforce/workplaceemployment-by-welshlocalareas-year</p>	Yn flynyddol	<p>Cyflogaeth yn y gweithle fesul diwydiant 2019 fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota: 4,500 • Cynhyrchu: 1,700 • Adeiladu: 3,100 • Cyfanwerthu, manwerthu, cludiant, gwestai a bwyd: 10,600 	+

		<ul style="list-style-type: none"> • Gwybodaeth a chyfathrebu: 1,000 • Gweithgareddau ariannol ac yswiriant: 200 • Gweithgareddau eiddo tiriog: 500 • Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol; gweithgareddau gweinyddol a gwasanaethau cymorth: 2,700 • Gweinyddiaeth gyhoeddus, amddiffyn, addysg ac iechyd: 9,400 	
--	--	---	--

Canlyniadau Dangosyddion AAS/AG

			<ul style="list-style-type: none"> Gweithgareddau gwasanaeth eraill: 1,900 Pob diwydiant: 35,500 	
Maint y datblygu economaidd a ganiateir ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o ddyraniadau'r CDLI (hectarau ac unedau).	Cyngor Sir Ceredigion (Dangosydd AMRE03).	Yn flynyddol	Gweler canlyniadau dangosydd AMRE03	+
Maint y datblygu economaidd a gwblheir ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o ddyraniadau'r CDLI (hectarau ac unedau).	Cyngor Sir Ceredigion (Dangosydd AMRE03).	Yn flynyddol	Gweler canlyniadau dangosydd AMRE03	+
Canran yr adeiladau sy'n wag yng nghanol trefi Aberaeron, Aberystwyth, Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul a Thregaron.	Cyngor Sir Ceredigion.	Yn flynyddol	Cynhaliwyd yr arolwg yn Haf 2021: <ul style="list-style-type: none"> Aberaeron: 5.3% Aberteifi: 7.0% Aberystwyth: 9.70% 	0

			<ul style="list-style-type: none"> Llanbedr Pont Steffan: 15.7% Llandysul: 16.7% Tregaron: 10.34%. 	
Canran y defnyddiau manwerthu ar brif ffryntiadau manwerthu	Cyngor Sir Ceredigion (Dangosydd AMRE07).	Yn flynyddol	Gweler canlyniadau Dangosydd AMRE07	+
Canran y defnyddiau manwerthu ar ffryntiadau manwerthu eilaidd.	Cyngor Sir Ceredigion (Dangosydd AMRE07).	Yn flynyddol	Gweler canlyniadau Dangosydd AMRE07	+
Nifer yr ymwelwyr yn Aberystwyth.	Cyngor Sir Ceredigion.	Yn flynyddol	<p>Nifer diwethaf yr ymwelwyr a gofnodwyd ar ddydd Gwener 22 Tachwedd 2019, rhwng 10am a 5pm:</p> <ul style="list-style-type: none"> Y Stryd Fawr: 2316 Sgwâr Owain Glyndŵr: 2102 	?

		<ul style="list-style-type: none"> • Ffordd y Môr (Gogledd): 1691 • Ffordd y Môr (De): 1460 • Y Ffynnon Haearn: 1270 • Tŵr y Cloc – Stryd y Bont: 459 • Tŵr y Cloc – Y Stryd Fawr Uchaf: 489 • Promenâd (dau leoliad): 806 • Y Porth Bach: 398 • Heol y Wig: 683 • Cyfanswm: 11674 	
<p>Dadansoddiad</p> <p>Er i'r dirwasgiad economaidd achosi i'r nifer mewn cyflogaeth ostwng o 69.6% yn 2010 i 61.3% yn 2011/2012, bu cynnydd graddol ers hynny yn nifer y bobl mewn cyflogaeth. Mae'r cyfnod monitro hwn yn dangos cynnydd yng nghanran y bobl sy'n economaidd</p>			

weithgar mewn cyflogaeth o 77.5% (2019) i 77.6% (2020). Efallai bod cyfran y bobl sy'n economaidd weithgar mewn cyflogaeth yn ymddangos yn isel, gan fod yn is na chyfartaledd y DU (78.7%), ond yn uwch na chyfartaledd Cymru (75.2%) ond mae gan Geredigion boblogaeth gymharol uchel o fyfyrwyr, a gyfrannodd at ganran sylweddol o'r unigolion hynny ddim mewn cyflogaeth. Mae'n bwysig nodi bod pandemig Covid 19 wedi newid proffil cyflogaeth ledled y DU yn sylweddol gyda llawer o bobl yn ystod y cyfnod monitro ar ffyrlo a llawer o bobl eraill yn ddi-waith, mae'r ffigurau hyn yn gipolwg ar amser cythryblus a rhaid aros i weld sut maen nhw'n newid dros gyfnod yr adferiad sydd i ddod.

Nid yw'r tâl wythnosol gros ar gyfer gweithwyr amser llawn wedi amrywio'n fawr ers i'r CDLI gael ei fabwysiadu. At hynny, gan fod ffigurau Ceredigion yn deillio o ddata arolwg ar gyfer ardal fach, gall y newid flwyddyn ar ôl blwyddyn fod yn fwy o ganlyniad i amrywiadau'r sampl yn hytrach na thystiolaeth o newid go iawn mewn incwm. Er gwaethaf hynny, mae cyflogau yng Ngheredigion yn parhau i fod yn is na'r cyfartaledd i Gymru a'r DU, ac mae twf tybiedig hefyd yn is na chyfradd flynyddol gyfartalog chwyddiant ar gyfer y cyfnod hwn.

O ran datblygu'r safleoedd cyflogaeth a neilltuwyd yn y CDLI, erbyn hyn mae 50% o'u harwynebedd wedi'i ymrwymo ar gyfer datblygu, ac mae 50% o'r unedau wedi cael eu cwblhau. Cafodd y rhan fwyaf o'r unedau y cofnodwyd eu bod wedi'u hadeiladu eu cwblhau cyn mabwysiadu'r CDLI gan fod llawer o'r safleoedd cyflogaeth a neilltuwyd yn y CDLI wedi cael eu nodi er mwyn caniatáu ar gyfer ailddatblygu a/neu resymoli eu defnyddiau presennol mewn modd cydgysylltiedig. Mae hon yn sefyllfa foddhaol ar yr adeg hon yng nghyfnod y cynllun.

Mae cyfraddau siopau gwag yn amrywio'n fawr rhwng canol trefi. 10.7% yw cyfradd gyfartalog siopau gwag yng nghanol trefi Ceredigion. Mae'r ffigur hwn yn cymharu i 10.2% (2020), 9.7% (2019) yn 2019 roedd y cyfradd yn Nhregaron yn 3.3% (oherwydd y nifer fach o unedau fanwerthu yn Nhregaron mae unrhyw newid yn effeithio'n fawr ar y ganran). Mae hyn yn debyg i'r cyfartaledd

siopau gwag y Deyrnas Unedig a oedd, yn ôl y Local Data Company, yn 14.5% ym Mawrth 2020 ac 19.4% ar gyfartaledd yng Nghymru (Adroddiad Medi 2021 'Looking Beyond Lockdown' y Local Data Company). Felly, ac eithrio Llandysul (16.7%) mae canol trefi eraill Ceredigion yn perfformio'n well na'r cyfartaledd cenedlaethol Cymreig ac, yn gyffredinol mae'r sefyllfa yn gadarnhaol, yn enwedig gan fod gan Aberystwyth, sef canolfan siopa fwyaf Ceredigion o bell ffordd, gyfradd siopau gwag o 9.7% yn unig.

Mae prif ffryntiadau manwerthu a ffynonellau manwerthu eilaidd Ceredigion, sy'n bodoli yn Aberystwyth ac Aberteifi yn unig, hefyd yn rhoi darlun amrywiol. Yn Aberystwyth mae canran defnyddiau manwerthu yn y prif ffryntiadau yn amrywio o 100% i 57.1%, ac o 76.9% i 29.4% yn y ffryntiadau eilaidd. Yn Aberteifi, mae canran defnyddiau manwerthu yn y prif ffryntiadau yn amrywio rhwng 72% a 76% yn ei dwy ardal prif ffryntiadau manwerthu, ond mae ei ffryntiadau eilaidd yn amrywio rhwng 91.7% a 35.7%.

Dylid nodi hefyd bod y dangosydd yn monitro perfformiad defnyddiau A1 yn unig. Mae Polisi LU21 yn diffinio manwerthu fel dosbarth A ac nid A1 yn benodol, ac mae'r polisi yn cael ei gymhwyso felly. Os ydych yn ystyried defnyddiau dosbarth A (ac nid A1) byddai prif ffryntiadau a ffryntiadau eilradd yn Aberystwyth ac Aberteifi o fewn y gofyniad o 75% a 50%.

Wrth ystyried defnyddiau dosbarth A (gan gynnwys dosbarthiadau defnydd A1, A2 ac A3), mae'r prif ffryntiadau yn Aberystwyth yn amrywio o 87.5 – 100% (95.5% wedi'i gyfuno) ac yn Aberteifi 96 – 100% (98% wedi'i gyfuno), a'r ffryntiadau eilradd yn Aberystwyth yn amrywio o 84.6 – 100% (92% wedi'i gyfuno) ac yn Aberteifi yn amrywio o 71.4 – 100% (96% wedi'i gyfuno). Mae'r darlun hwn yn dangos bod lefel pob ffryntiad yn uwch na'r targedau polisi gofynnol.

Mae arolygon ymwelwyr wedi cael eu cynnal yn Aberystwyth bob blwyddyn ers 2019. Cyfanswm nifer y siopwyr a gofnodwyd yn 2019 oedd 11674 sydd yn uwch na 2018 (7681), er yn 2018 ni gafodd sawl lleoliad eu cyfri. Ond, mae'n gymharol â ffigurau 2017 (12351), 2016 (10144) a 2015 (9886).

Casgliadau

Mae yna arwyddion bod darlun cymysg o ran twf yn yr economi a'r farchnad swyddi yng Ngheredigion; mae hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried cyfnod cythryblus pandemig Covid. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i ddweud beth fydd y duedd hirdymor ac a oes cysylltiad achosol rhyngddo a gweithredu'r CDLI, sy'n annhebygol o ystyried y ffactorau allanol sy'n effeithio ar gyfraddau cyflogaeth, cyfraddau siopau gwag a nifer yr ymwelwyr. Er gwaethaf yr ansicrwydd hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y CDLI yn cael effaith negyddol ar yr economi leol ac felly, yng nghyd-destun yr AAS/AG, nid yw effaith gyffredinol y CDLI yn creu unrhyw bryderon ar hyn o bryd.

5. Casgliadau ac Argymhellion.

- 5.1 Roedd casgliadau'r trydydd Adroddiad Monitro Blynyddol yn 2016 wedi ysgogi adolygiad o'r cynllun. Paratowyd ac ymgynghorwyd ar Adroddiad Adolygu'r CDLI. Mae'r Adroddiad Adolygu yn amlinellu hyd a lled y newidiadau sy'n ofynnol i'w gwneud i'r CDLI a nodwyd yn niweddariadau'r Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol i'r sylfaen dystiolaeth a'r arolygon parhaus. Paratowyd a chyflwynwyd Cytundeb Cyflenwi a'i llofnodwyd gan Weinidogion Cymru. Mae'r ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffebrir a'r ddau alwad am safleoedd ymgeisiol wedi cael eu cwblhau hefyd.
- 5.2 O ran newidiadau cyd-destunol, deddfwriaeth, polisi ac amodau allanol newydd a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod monitro hwn, fel y nodwyd yn y drafodaeth a sawl dangosydd yr Adroddiad Monitro Blynyddol, mae newidiadau cyd-destunol polisi sylweddol wedi digwydd ers yr amser hwn; Gan gynnwys pandemig Covid 19 a'i newidiadau strwythurol ar y gweithle a manwerthu a'r sgil-efeithiau ar y farchnad dai a mewnfudo. Cyhoeddi canllawiau cynllunio dros dro o ran ffosffadau yn nalgylch Afon Teifi sydd i bob pwrpas yn gosod gwaharddiad ar ddatblygiad ar 45% o'r sir. A chyhoeddi Cymru'r Dyfodol y Cynllun Cenedlaethol 2040 a Pholisi Cynllunio Cymru diwygiedig. O gofio'r rhain, bydd angen cymryd agwedd hollol newydd tuag at y cynllun newydd ac felly ar hyn o bryd mae oedi wrth baratoi'r cynllun newydd a bydd angen cyflwyno Cytundeb Cyflenwi newydd. Yn y cyfamser mae'r cynllun presennol yn parhau i fod yn gydnaws â Chymru'r Dyfodol a Pholisi Cynllunio Cymru 11 ac mae ganddo lwfans sy'n weddill yn ddigonol o ystyried yr orddarpariaeth gychwynnol i barhau i gefnogi datblygiad lle mae'n dderbyniol ac nid oes ganddo ddyddiad marw ffurfiol.
- 5.3 O ran Dangosyddion yr Adroddiad Monitro Blynyddol, mae canlyniadau eleni yn dangos bod y cynllun yn perfformio'n llwyddiannus ar draws amrywiaeth o feysydd. O'r 32 o Ddangosyddion yr Adroddiad Monitro Blynyddol, mae 23 (72%) yn cyflawni'r targedau a nodwyd, neu os nad yw targedau yn cael eu cyflawni nid oes unrhyw bryderon ynghylch

gweithredu'r polisiau. Dim ond 8 (25%) gafodd eu nodi fel rhai o bryder, ac mae perfformiad y dangosyddion tai wedi'i grynhoi yn y tabl canlynol.

Dangosydd	Polisiau	Perfformiad	Sylwadau
AMRH02 – Y Strategaeth Anheddu ledled y Sir	S01, S02, S03, S04.	-	Mae'r symudiad yn llai na cadarnhaol tuag at y targedau a nodwyd ers mabwysiadu'r cynllun o'i gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf, er bod y gymhareb yn fras cyfateb â'r targed a nodwyd.
		-	Nid yw'r targed wedi cael ei gyflawni ar gyfer yr unedau a gwblhawyd sydd, o'i fesur ers mabwysiadu'r cynllun, yn 45:25:31. Dylai'r diwygiad o'r CDLI ystyried y Strategaeth Anheddu a pharhau i nodi ffyrdd o ddarparu tai mewn lleoliadau cynaliadwy.
AMRH03 – Grwpiau Aneddiadau'r Strategaeth Anheddu	S01, S02, S03, S04.	-	Mae'r canlyniadau yn dangos darlun amrywiol gyda rhai grwpiau aneddiadau unigol yn symud tuag at y cydbwysedd gofynnol ac eraill yn symud i ffwrdd o'r cydbwysedd gofynnol a nodwyd yn Atodiad 2 o'r CDLI. Argymhellir y dylai'r diwygiad o'r CDLI ystyried y Strategaeth Anheddu yn gyffredinol a phenderfyniadau cais cynllunio wedi'u dirprwyo a heb eu dirprwyo yn ôl lleoliad (ac yn benodol ar ôl cyfnod mabwysiadu'r

Dangosydd	Polisiau	Perfformiad	Sylwadau
			cynllun), a dosbarthiad gofodol yr angen am dwf a chyflenwi er mwyn deall yn well yr amrywiadau gofodol yn y cydbwysedd ar draws y sir.
AMRH04 – Strategaeth Anheddu – Datblygu mewn 'Aneddiadau Cyswllt'	S01, S04		Mae 46% o Aneddiadau Cyswllt wedi cyrraedd neu'n uwch na'u terfyn twf o 12%. Nodir ar adeg mabwysiadu'r cynllun yn 2013 bod 40% o Aneddiadau Cyswllt eisoes wedi cyrraedd neu'n uwch na'u terfyn twf o ganlyniad i gymeradwyaethau cynllunio wedi'u hetifeddu a wnaed o dan drefn gynllunio flaenorol. Ar gyfer pob Anheddiad Cyswllt sydd wedi cyrraedd neu'n uwch na'i dwf o 12% ni ddylid caniatáu unrhyw ddatblygu pellach oni bai bod hyn wedi'i gyfiawnhau o dan Bolisi S04. Dylai'r diwygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol ystyried pam bod newid negyddol i fwrdd o derfynau capasiti ar draws y sir.
AMRH05 – Strategaeth Anheddu – Natur y Datblygu yn y 'Lleoliadau Eraill'	S01, S04		Roedd y 21 o unedau mewn 'lleoliadau eraill' wedi eu cymeradwyo yn ystod y cyfnod monitro yn unol â'r CDLI a Pholisi Cenedlaethol. Cymeradwywyd 11 o unedau eraill y tu allan i'r hyn a ganiateir gan strategaeth y CDLI, TAN 6 a Pholisi Cynllunio Cymru 9.2.22. Fodd bynnag, roedd un yn annedd rheolwr a bydd un yn darparu swm

Dangosydd	Polisiau	Perfformiad	Sylwadau
			gohiriedig ar gyfer tai fforddiadwy a'r 9 oedd yn weddill yn addasiadau/adferiadau.
AMRH06 – Tai a gwblhawyd yn flynyddol yn erbyn cyfradd adeiladu flynyddol a ragwelir	S01, S02, S03, S04, LU05		Nid yw'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog wedi'i gyflawni, fodd bynnag, mae'r amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2018 yn adlewyrchu gwrthdroad yn y duedd ddemograffig o'i chymharu â thafllwybrau a ragwelwyd yr oedd y CDLI yn dibynnu arnynt. Yn syml iawn, nid yw'r twf a ragwelwyd gan ragolygon 2008 wedi digwydd ar y gyfradd a ragwelwyd ac roedd rhagolwg diweddarach (2011) â llythyr LIC at Benaethiaid Cynllunio i drin y data is hwn yn ofalus.
AMRH07 – Cyflenwi Safleoedd Tai a Neilltuwyd	S01, S02, S03, S04		Nid yw'r targedau a nodwyd ar gyfer 2019 (84% o ymrwymïadau ac 64% o unedau wedi'u cwblhau) wedi cael eu cyflawni. Mae canran yr unedau a ragwelwyd (caniatadau) ac unedau a gwblhawyd ar safleoedd a neilltuwyd wedi newid ers y cyfnod monitro blaenorol i 19% a 4%. Bydd rhaid i'r adolygiad o'r CDLI ystyried cyflenwi safleoedd a neilltuwyd yn fwy manwl.

Dangosydd	Polisiau	Perfformiad	Sylwadau
AMRH08 – Datblygu Tai mewn Lleoliadau Priodol	S01, S03	-	<p>Er nad yw'r targed wedi cael ei gyflawni, mae symudiad cadarnhaol i'r cyfeiriad iawn i'w weld ers mabwysiadu'r cynllun ac ers y cyfnod monitro blaenorol.</p> <p>Bydd rhaid i'r diwygiad o'r CDLI ystyried priodoldeb y safleoedd presennol a neilltuwyd i lywio'r cynllun newydd.</p>

Anheddiad Cyswllt Linked Settlement	Stoc tai Ebrill 07 Housing stock April 07	12% o stoc tai 2007 12% of 2007 housing stock	Caniatadau sy'n sefyll ar 30/04/2020 Outstanding Consents as of 30/04/2020	Unedau a gwblhawyd fel yn Ebrill 2020 Completions as of April 2020	Colledion o Stoc Tai 2007 o fis Ebrill 2020 Losses from 2007 Housing Stock as of April 2020	Ymrwymadau Commitments	Unedau sydd ar ôl Remaining Units
1 Aberarth	118	14	8	2	0	10	4
1 Ciliau Aeron	91	11	3	14	0	17	-6
1 Ffos-y-ffin	221	27	8	18	0	26	1
1 Pennant	71	9	5	6	0	11	-2
1 Cyfanswm/Total	501	60	24	40	0	64	-4
2 Ferwig	56	7	4	14	0	18	-11

Anheddiad Cyswllt Linked Settlement	Stoc tai Ebrill 07 Housing stock April 07	12% o stoc tai 2007 12% of 2007 housing stock	Caniatadau sy'n sefyll ar 30/04/2020 Outstanding Consents as of 30/04/2020	Unedau a gwblhawyd fel yn Ebrill 2020 Completions as of April 2020	Colledion o Stoc Tai 2007 o fis Ebrill 2020 Losses from 2007 Housing Stock as of April 2020	Ymrwymadau Commitments	Unedau sydd ar ôl Remaining Units
2 Gwbert	74	9	5	8	-1	12	-3
2 Llangoedmor	48	6	2	2	0	4	2
2 Llechryd	296	36	16	33	-1	48	-12
2 Penparc	226	27	14	9	0	23	4
2 Cyfanswm/Total	700	84	41	66	-2	105	-21
3 Blaenplwyf	78	9	0	6	0	6	3
3 Capel Bangor	155	19	2	6	0	8	11
3 Capel Seion	60	7	1	6	0	7	0
3 Commins Coch	178	21	0	4	-1	3	18
3 Goginan	89	11	2	0	0	2	9

Anheddiad Cyswllt Linked Settlement	Stoc tai Ebrill 07 Housing stock April 07	12% o stoc tai 2007 12% of 2007 housing stock	Caniatadau sy'n sefyll ar 30/04/2020 Outstanding Consents as of 30/04/2020	Unedau a gwblhawyd fel yn Ebrill 2020 Completions as of April 2020	Colledion o Stoc Tai 2007 o fis Ebrill 2020 Losses from 2007 Housing Stock as of April 2020	Ymrwymadau Commitments	Unedau sydd ar ôl Remaining Units
3 Llanfarian	173	21	22	17	0	39	-18
3 Llangorwen	60	7	0	0	0	0	7
3 Rhydyfelin	126	15	1	14	-1	14	1
3 Cyfanswm/Total	919	110	28	53	-2	79	31
4 Betws Ifan	35	4	1	6	0	7	-3
4 Beulah	78	9	1	12	0	13	-4
4 Brongest	33	4	1	4	0	5	-1
4 Bryngwyn	77	9	0	6	0	6	3
4 Cwm Cou	48	6	3	5	0	8	-2
4 Llandyfriog	57	7	1	0	0	1	6

Anheddiad Cyswllt Linked Settlement	Stoc tai Ebrill 07 Housing stock April 07	12% o stoc tai 2007 12% of 2007 housing stock	Caniatadau sy'n sefyll ar 30/04/2020 Outstanding Consents as of 30/04/2020	Unedau a gwblhawyd fel yn Ebrill 2020 Completions as of April 2020	Colledion o Stoc Tai 2007 o fis Ebrill 2020 Losses from 2007 Housing Stock as of April 2020	Ymrwymadau Commitments	Unedau sydd ar ôl Remaining Units
4 Cyfanswm/Total	328	39	7	33	0	40	-1
5 Betws Bledws	31	4	0	0	0	0	4
5 Cellan/Fishers							
5 Arms	81	10	0	7	0	7	3
5 Cwrtnewydd	79	9	0	8	0	8	1
5 Drefach	53	6	6	3	0	9	-3
5 Gorsgoch	33	4	0	7	-1	6	-2
5 Llangybi	57	7	0	2	0	2	5
5 Llanwnnen	85	10	15	10	0	25	-15
5 Llwyn-y-groes	29	3	0	0	0	0	3

Anheddiad Cyswllt Linked Settlement	Stoc tai Ebrill 07 Housing stock April 07	12% o stoc tai 2007 12% of 2007 housing stock	Caniatadau sy'n sefyll ar 30/04/2020 Outstanding Consents as of 30/04/2020	Unedau a gwblhawyd fel yn Ebrill 2020 Completions as of April 2020	Colledion o Stoc Tai 2007 o fis Ebrill 2020 Losses from 2007 Housing Stock as of April 2020	Ymrwymadau Commitments	Unedau sydd ar ôl Remaining Units
5 Silian	34	4	0	1	0	1	3
5 Cyfanswm/Total	482	58	21	38	-1	58	0
6 Aberbanc	35	4	13	15	0	28	-24
6 Capel Dewi (SOUTH)	47	6	0	2	0	2	4
6 Coed y Bryn	36	4	1	5	0	6	-2
6 Croes-lan	78	9	6	13	0	19	-10
6 Ffostrasol	74	9	2	12	0	14	-5
6 Henllan/Trebedw	95	11	16	2	0	18	-7
6 Horeb	27	3	4	3	0	7	-4

Anheddiad Cyswllt Linked Settlement	Stoc tai Ebrill 07 Housing stock April 07	12% o stoc tai 2007 12% of 2007 housing stock	Caniatadau sy'n sefyll ar 30/04/2020 Outstanding Consents as of 30/04/2020	Unedau a gwblhawyd fel yn Ebrill 2020 Completions as of April 2020	Colledion o Stoc Tai 2007 o fis Ebrill 2020 Losses from 2007 Housing Stock as of April 2020	Ymrwymadau Commitments	Unedau sydd ar ôl Remaining Units
6 Maesymeillion	29	3	2	4	0	6	-3
6 Penrhiwllan	109	13	3	10	0	13	0
6 Pentrellwyn	38	5	0	1	0	1	4
6 Pren-gwyn	31	4	0	5	-1	4	0
6 Rhydlewis / Hawen	69	8	4	5	0	9	-1
6 Rhydowen	52	6	0	6	0	6	0
6 Talgarreg	58	7	5	11	0	16	-9
6 Cyfanswm/Total	778	93	56	94	-1	149	-56
7 Bronnant	48	6	2	4	0	6	0

Anheddiad Cyswllt Linked Settlement	Stoc tai Ebrill 07 Housing stock April 07	12% o stoc tai 2007 12% of 2007 housing stock	Caniatadau sy'n sefyll ar 30/04/2020 Outstanding Consents as of 30/04/2020	Unedau a gwblhawyd fel yn Ebrill 2020 Completions as of April 2020	Colledion o Stoc Tai 2007 o fis Ebrill 2020 Losses from 2007 Housing Stock as of April 2020	Ymrwymadau Commitments	Unedau sydd ar ôl Remaining Units
7 Llanddewi Brefi	165	20	7	12	0	19	1
7 Llangeitho	64	8	5	0	0	5	3
7 Cyfanswm/Total	277	33	14	16	0	30	3
8 Blaenannerch	69	8	0	4	0	4	4
8 Blaenporth	97	12	8	1	0	9	3
8 Brynhoffnant	48	6	7	0	0	7	-1
8 Llangrannog	92	11	0	2	0	2	9
8 Pontgarreg	83	10	13	7	0	20	-10
8 Sarnau	56	7	8	12	0	20	-13
8 Tan-y-groes	76	9	2	9	0	11	-2

Anheddiad Cyswllt Linked Settlement	Stoc tai Ebrill 07 Housing stock April 07	12% o stoc tai 2007 12% of 2007 housing stock	Caniatadau sy'n sefyll ar 30/04/2020 Outstanding Consents as of 30/04/2020	Unedau a gwblhawyd fel yn Ebrill 2020 Completions as of April 2020	Colledion o Stoc Tai 2007 o fis Ebrill 2020 Losses from 2007 Housing Stock as of April 2020	Ymrwymadau Commitments	Unedau sydd ar ôl Remaining Units
8 Tresaith	93	11	4	9	0	13	-2
8 Cyfanswm/Total	614	74	42	44	0	86	-12
9 Llandre	184	22	7	18	0	25	-3
9 Cyfanswm/Total	184	22	7	18	0	25	-3
10 Caerwedros	61	7	1	7	0	8	-1
Cross Inn (Ceinewydd/New Quay)	112	13	6	34	0	40	-27
10 Maen-y-groes	59	7	0	3	0	3	4
10 Pentre'r Bryn	34	4	1	5	0	6	-2

Anheddiad Cyswllt Linked Settlement	Stoc tai Ebrill 07 Housing stock April 07	12% o stoc tai 2007 12% of 2007 housing stock	Caniatadau sy'n sefyll ar 30/04/2020 Outstanding Consents as of 30/04/2020	Unedau a gwblhawyd fel yn Ebrill 2020 Completions as of April 2020	Colledion o Stoc Tai 2007 o fis Ebrill 2020 Losses from 2007 Housing Stock as of April 2020	Ymrwymadau Commitments	Unedau sydd ar ôl Remaining Units
10 Plwmp	41	5	2	3	0	5	0
10 Cyfanswm/Total	307	37	10	52	0	62	-25
11 Llandygwydd	43	5	0	3	0	3	2
11 Cyfanswm/Total	43	5	0	3	0	3	2
12 Cilcennin	86	10	6	5	0	11	-1
12 Cribyn	104	12	0	17	0	17	-5
12 Dihewyd	56	7	0	7	0	7	0
12 Talsarn	43	5	6	0	0	6	-1
12 Cyfanswm/Total	289	35	12	29	0	41	-6

Anheddiad Cyswllt Linked Settlement	Stoc tai Ebrill 07 Housing stock April 07	12% o stoc tai 2007 12% of 2007 housing stock	Caniatadau sy'n sefyll ar 30/04/2020 Outstanding Consents as of 30/04/2020	Unedau a gwblhawyd fel yn Ebrill 2020 Completions as of April 2020	Colledion o Stoc Tai 2007 o fis Ebrill 2020 Losses from 2007 Housing Stock as of April 2020	Ymrwymadau Commitments	Unedau sydd ar ôl Remaining Units
Derwen							
13 Gam/Oakford	33	4	1	3	0	4	0
13 Gilfachreda	88	11	1	2	0	3	8
13 Mydroilyn	66	8	4	5	0	9	-1
13 Cyfanswm/Total	187	22	6	10	0	16	6
14 Cnwch Coch	31	4	0	1	0	1	3
14 Llanafan	82	10	2	7	0	9	1
Llanfihangel y							
14 Creuddyn	33	4	1	1	0	2	2
14 Lledrod	53	6	0	6	0	6	0

Anheddiad Cyswllt Linked Settlement	Stoc tai Ebrill 07 Housing stock April 07	12% o stoc tai 2007 12% of 2007 housing stock	Caniatadau sy'n sefyll ar 30/04/2020 Outstanding Consents as of 30/04/2020	Unedau a gwblhawyd fel yn Ebrill 2020 Completions as of April 2020	Colledion o Stoc Tai 2007 o fis Ebrill 2020 Losses from 2007 Housing Stock as of April 2020	Ymrwymadau Commitments	Unedau sydd ar ôl Remaining Units
14 Cyfanswm/Total	199	24	3	15	0	18	6
15 Bethania	39	5	0	3	0	3	2
15 Cross Inn (Llanon)	34	4	6	18	-1	23	-19
15 Nebo	37	4	10	5	0	15	-11
15 Cyfanswm/Total	110	13	16	26	-1	41	-28
16 Llangwyrfon	40	5	3	7	0	10	-5
16 Cyfanswm/Total	40	5	3	7	0	10	-5
17 Alltyblaca	60	7	1	6	0	7	0
17 Highmead	37	4	0	1	0	1	3

Anheddiad Cyswllt Linked Settlement	Stoc tai Ebrill 07 Housing stock April 07	12% o stoc tai 2007 12% of 2007 housing stock	Caniatadau sy'n sefyll ar 30/04/2020 Outstanding Consents as of 30/04/2020	Unedau a gwblhawyd fel yn Ebrill 2020 Completions as of April 2020	Colledion o Stoc Tai 2007 o fis Ebrill 2020 Losses from 2007 Housing Stock as of April 2020	Ymrwymadau Commitments	Unedau sydd ar ôl Remaining Units
17 Cyfanswm/Total	97	12	1	7	0	8	4
18 Cyfanswm/Total	0	0	0	0	0	0	0
19 Ponterwyd	82	10	14	21	0	35	-25
19 Cyfanswm/Total	82	10	14	21	0	35	-25
20 Pont-rhyd-y- groes	77	9	4	1	0	5	4
20 Ysbyty Ystwyth	58	7	3	6	0	9	-2
20 Ystrad Meurig	28	3	0	3	-1	2	1
20 Cyfanswm/Total	163	20	7	10	-1	16	4
21 Eglwysfach	37	4	0	2	0	2	2

Anheddiad Cyswllt Linked Settlement	Stoc tai Ebrill 07 Housing stock April 07	12% o stoc tai 2007 12% of 2007 housing stock	Caniatadau sy'n sefyll ar 30/04/2020 Outstanding Consents as of 30/04/2020	Unedau a gwblhawyd fel yn Ebrill 2020 Completions as of April 2020	Colledion o Stoc Tai 2007 o fis Ebrill 2020 Losses from 2007 Housing Stock as of April 2020	Ymrwymadau Commitments	Unedau sydd ar ôl Remaining Units
21 Tre Taliesin	110	13	2	6	0	8	5
21 Tre'r Ddol	68	8	9	0	0	9	-1
21 Cyfanswm/Total	215	26	11	8	0	19	7
22 Dôl-y-bont	32	4	2	0	0	2	2
22 Ynyslas	54	6	0	3	0	3	3
22 Cyfanswm/Total	86	10	2	3	0	5	5
Cyfanswm/Total	6601	792	325	593	-8	910	-118

Atodiad 7: AMRH15 Rhychwant o Dai – Perfformiad

Nifer y caniatadau llawn neu ganiatadau materion a gadwyd yn ôl fesul math o dai a nifer yr ystafelloedd gwely ers mabwysiadu'r cynllun (Ebrill 2013 – Mawrth 2021).

Math o dai - Fforddiadwy							
Nifer yr ystafelloedd gwely	Newid defnydd i Annedd	Newid defnydd i Fflat	Annedd	Fflat	Cyfanswm	%	Angen yn ôl % Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2020
Anhysbys	1	0	17	0	18	5%	Amh
1	12	5	28	17	62	17%	30%
2	10	1	74	37	122	33%	39%
3	0	1	113	1	115	31%	24%
4 neu ragor	2	0	54	0	56	15%	6%
Cyfanswm	25	7	286	55	373		100%

Nifer yr unedau a gwblhawyd yn ôl math o dai a nifer ystafelloedd gwely ers mabwysiadu'r cynllun (Ebrill 2013 – Mawrth 2020).

Math o dai - Marchnad	

Nifer yr ystafelloedd gwely	Newid defnydd i Annedd	Newid defnydd i Fflat	Annedd	Fflat	Cyfanswm	%	Angen yn ôl % Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2020
Anhysbys	0	0	72	0	72	8%	Amh
1	9	15	19	90	133	14%	8%
2	22	18	80	49	169	18%	25%
3	27	5	300	3	335	35%	41%
4 neu ragor	15	2	220	0	237	25%	25%
Cyfanswm	73	40	691	142	946	100%	100%

Nifer yr unedau a gwblhawyd yn ôl math o dai a nifer o ystafelloedd gwely ers ei fabwysiadu (Ebrill 2013 - Mawrth 2018).

Nid yw data ystafelloedd gwely ar gael o 2018 ymlaen

Math o dai - Fforddiadwy							
Nifer yr ystafelloedd gwely	Newid defnydd i Annedd	Newid defnydd i Fflat	Annedd	Fflat	Cyfanswm	%	Angen yn ôl % Asesiad o'r

							Farchnad Dai Leol 2020
1	12	21	20	64	117	32%	30%
2	9	2	66	38	115	31%	39%
3	0	1	100	1	102	28%	24%
4 neu ragor	0	0	35	0	35	9%	6%
Cyfanswm	21	24	221	103	369	100%	100%

Math o Dai - Marchnad							
Nifer yr ystafelloedd gwely	Newid defnydd i Annedd	Newid defnydd i Fflat	Annedd	Fflat	Cyfansw m	%	Angen yn ôl % Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2020
1	11	24	4	19	58	8%	30%
2	28	27	45	39	139	19%	39%
3	22	5	253	4	284	38%	24%
4 neu ragor	20	6	243	1	270	36%	6%

Cyfanswm	81	62	545	63	751	100%	100%
----------	----	----	-----	----	-----	------	------

Atodiad 8: AMRE06 Bywiogrwydd y Canolfannau Gwasanaethau Gwledig 2018/2019

Nid oedd modd cynnal yr arolwg yn 2019/2020/2021 o ganlyniad i gyfyngiadau Covid.

Rhif GA	Enw Anheddiad CGG	Siop Fwyd	Swyddfa Bost	Gorsaf Betrol	Tafarn/ Gwesty	Neuadd Bentref	Ysgol Gynradd
8	Aber-porth / Parclyn	2	2	0	3	3	1
9	Bow Street	2	1	1 (included but is just outside the monitoring boundary)	1	1	1
10	Ceinewydd	4	1	0	8	2	1
11	Cenarth	1	0	1	0	0	1
12	Felin-fach / Ystrad Aeron	2	1	1	2	1	1
13	Llanarth	1	0	1	1	2	1
14	Llanilar	1	0	0	1	1	1

15	Llan-non	2	1	1	2	1	1
16	Llanrhystud	2	1	1	1	2	1
18	Penrhyn-coch	2	1	1	1	3	1
19	Pontarfynach	0	0	0	0	0	1 (wedi ei gynnwys ond tu allan y ffin monitro)
20	Pontrhydfendigaid	1	1	0	2	2	1
21	Tal-y-bont	1	0	1	2	1	1
22	Y Borth	2	2	0	7	2	1

Maer' dudalen yn wag yn fwriadol

CYNGOR SIR CEREDIGION**Adroddiad i'r:** Cyngor**Dyddiad y cyfarfod:** 9^{fed} Rhagfyr 2021**Teitl:** Adroddiad Blynyddol am Sylwadau o Ganmoliaeth, Cwynion a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth – 2020/2021**Pwrpas yr adroddiad:** Rhoi trosolwg cynhwysfawr i'r Cyngor o'r Sylwadau o Ganmoliaeth, Cwynion a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth (gan gynnwys Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol) a gafodd yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn rhoi gwybodaeth am y cwynion a gyfeiriwyd at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystod 2020/2021. Mae copi o Lythyr Blynyddol yr Ombwdsmon at yr Awdurdod wedi'i gynnwys fel atodiad gyda'r adroddiad hwn.**Er:** Gwybodaeth**Portffolio'r Cabinet ac Aelod y Cabinet:** Y Cyngorydd Ellen ap Gwynn, Arweinydd**Cyflwyniad**

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth sy'n ymwneud â gwaith Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth y Cyngor rhwng 1af Ebrill 2020 a 31ain Mawrth 2021. Mae'r data a'r dadansoddiad wedi'u cynnwys yn **Atodiad 1**, sy'n cynnwys gwybodaeth benodol am nifer a math y sylwadau o ganmoliaeth a gafwyd, camau gwahanol y weithdrefn gwynion, perfformiad a chanlyniadau sy'n ymwneud â'r rhain a gwybodaeth am gydymffurfio â deddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. Ceir adran hefyd ar y cysylltiadau a gafwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystod y cyfnod adrodd. Mae Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon at y Cyngor wedi ei gynnwys fel **Atodiad 2**, sy'n rhoi manylion pellach ar waith yr Ombwdsmon ar gyfer Ceredigion, yn ogystal ag ar gyfer Cyngorau eraill ar draws Cymru.

Dyma'r ail adroddiad olynol lle na chafodd dim ymchwiliadau eu cychwyn nac unrhyw adroddiadau ffurfiol eu cyhoeddi gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â chwynion a wnaed yn erbyn y Cyngor.

Er bod gwelliannau wedi'u gwneud o gymharu â blynyddoedd blaenorol, mae'r adroddiad hwn hefyd yn tynnu sylw at yr heriau a wynebodd y Cyngor yn ystod anterth y pandemig, pan mae swyddogion wedi gorfod addasu i ffyrdd newydd o weithio i sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i gael eu darparu'n effeithiol. Yn ogystal, yn ystod y cyfnod o dan sylw yn yr adroddiad hwn, rhoddwyd pwysau sylweddol ar y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth, a gafodd effaith, yn anochel, ar ein gallu i weithredu yn unol â'r amserlenni a bennwyd a'r amserlenni statudol.

Trosolwg byr o'r ffigurau ar gyfer 2020 - 2021:

- **814** o Sylwadau o Ganmoliaeth wedi'u cael
- **435** o Ymholiadau wedi'u prosesu gan y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth
- **103** o Gwynion wedi'u cael (**61** yng Ngham 1 a **42** yng Ngham 2)

- 32 o 'Gysylltiadau' gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- 756 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol
- 4 Adolygiad Mewnol o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth / Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol

Pigion

- Fel y nodwyd uchod, dyma'r ail gyfnod adrodd olynol mewn dros ddegawd lle na chafwyd dim ymchwiliadau nac adroddiadau eu cyhoeddi gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
- Cafodd y Cyngor bron dwbl nifer y sylwadau o ganmoliaeth gan ddefnyddwyr gwasanaethau o gymharu â 2019 – 2020. Cafwyd y mwyafrif o'r rhain trwy Borth Ceredigion. Fodd bynnag, credir bod gwir nifer y sylwadau o ganmoliaeth yn debygol o fod yn llawer uwch ac felly mae angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod y rhain yn cael eu trosglwyddo i'r Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth i'w cofnodi.
- Cafodd y Cyngor lawer llai o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth/Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yn ystod y cyfnod adrodd hwn a llai o geisiadau am Adolygiad Mewnol o gymharu â'r llynedd. Fel arfer bydd ceisiadau ar gyfer Adolygiad Mewnol yn cael eu cyflwyno dim ond pan fydd y Cyngor yn gwrthod rhoi gwybodaeth (gan ddilyn yr eithriadau neu'r esemptiadau priodol). Felly mae hyn yn ategu ymrwymiad y Cyngor i fod yn agored a thryloyw yn unol â deddfwriaeth.
- Fodd bynnag, nodir bod perfformiad y Cyngor o ran amser ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn arbennig wedi gostwng yn sylweddol yn ystod 2020-2021. Gall hyn gael ei briodoli i sawl ffactor gan gynnwys diffyg gallu ar ran gwasanaethau i allu blaenoriaethu Rhyddid Gwybodaeth uwchlaw'r holl dasgau newydd eraill sy'n codi; methu â chael copïau caled o ddogfennau oherwydd bod staff yn gweithio o gartref; diffyg gallu o fewn y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth (sy'n ymgymryd â'r rhan fwyaf o'r gwaith gweinyddol sy'n gysylltiedig â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth; h.y. cofnodi, cydnabod a dosbarthu ceisiadau newydd a chyhoeddi'r holl ymatebion a dilyn unrhyw eithriadau/esemptiadau a neu olygiadau yn ôl yr angen).

Meysydd i ganolbwyntio arnynt

- Gwella cydymffurfiaeth â'r amserlenni a bennwyd mewn polisiau cwynion a Rhyddid Gwybodaeth/Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol
- Gwella'r system ar gyfer casglu sylwadau o ganmoliaeth a data ar y gwersi a ddysgwyd
- Parhau â dull agored, tryloyw sy'n canolbwyntio ar y dinesydd ar gyfer datrys pryderon

Oes Aseiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os nad oes, dywedwch pam: Nid yw'n ofynnol gan nad yw'r adroddiad hwn yn gysylltiedig â Pholisi newydd na newid mewn darpariaeth gwasanaethau.

Llesiant

Cenedlaethau'r

Dyfodol:

Crynodeb:

Hirdymor: Ddim yn berthnasol

Cydweithio: Ddim yn berthnasol

Cynnwys: Ddim yn berthnasol

Atal: Ddim yn berthnasol

Integreiddio: Ddim yn berthnasol

Argymhelliad:

Nodi cynnwys yr Adroddiad Blynyddol am Sylwadau o Ganmoliaeth, Cwynion a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth – 2020/2021 a Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon ar gyfer 2020-2021.

Tudalen 21

Rheswm dros y penderfyniad:	Rhoi gwybod i'r Cyngor am y gwaith sy'n cael ei wneud gan y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth
Trosolwg a Chraffu:	Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 27 ^{ain} Hydref 2021 a chytunwyd ar gynnwys yr adroddiad cyn iddo gael ei ystyried gan y Cyngor.
Fframwaith Polisi:	<ul style="list-style-type: none">• Polisi Pryderon a Chwynion (corfforaethol)• Polisi Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol• Gweithdrefnau cwyno ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion yng Nghymru (Cylchlythyr 011/2012)• Polisi Rhyddid Gwybodaeth• Polisi Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol
Blaenoriaethau Corfforaethol:	Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Mae'r gwasanaeth yn gweithredu o fewn y gyllideb.
Goblygiadau Cyfreithiol:	Ddim yn berthnasol
Goblygiadau staffio:	Dim
Goblygiadau eiddo / asedau:	Ddim yn berthnasol
Risg(iau):	Mae risg o ddifrod i enw da yn gysylltiedig â methu â dilyn polisiâu a deddfwriaeth yn effeithiol o ran cwynion a llywodraethu gwybodaeth.
Pwerau Statudol:	Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cynnwys sawl proses a lywodraethir gan ddeddfwriaeth: <ul style="list-style-type: none">- Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019;- Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000- Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004
Papurau Cefndir:	
Atodiadau:	Atodiad 1 Adroddiad Blynyddol ar gyfer Sylwadau o Ganmoliaeth, Cwynion a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth – 2020/2021 Atodiad 2 Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2020 – 2021.

Tudalen 22

**Swyddog Arweiniol
Corfforaethol:**

Alun Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer
Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd

Swyddog Adrodd:

Marie-Neige Hadfield, Rheolwr Cwynion a Rhyddid
Gwybodaeth

Dyddiad:

18^{fed} Tachwedd 2021

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Adroddiad Blynyddol am Ganmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth **1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021**

Cynnwys	Tudalen
1 Cyflwyniad	2 – 3
2 Y ganmoliaeth a gafwyd	4 – 5
3 Y cwynion a dderbyniwyd	6 – 9
4 Dysgu gwersi o'r cwynion	9 – 10
5 Y cwynion a wnaed i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	10 – 12
6 Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth	13 – 14
7 Crynodeb a chasgliadau:	15 – 16
8 Data cwynion	18 – 19

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am nifer y sylwadau o ganmoliaeth, y cwynion a'r ceisiadau a ddaeth i law'r Cyngor rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2020. Bydd yr **adran hon** yn rhoi trosolwg o'r modd y mae'r Cyngor yn rheoli canmoliaeth, cwynion a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Mae **adran 2** yn rhoi gwybodaeth am y ganmoliaeth a gafwyd ac mae **adran 3** yn dangos rhai o'r tueddiadau, themâu a pherfformiad o ran nifer, amserlenni a chanlyniadau'r cwynion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod adrodd. Mae **adran 4** yn amlinellu'r gwersi a ddysgwyd. Mae **adran 5** yn trafod pob achos a gyfeiriwyd at sylw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("yr Ombwdsmon"), ac mae **adran 6** yn ystyried ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth ac unrhyw achosion a gyfeiriwyd at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae **adran 7** yn rhoi crynodeb a chasgliadau o'r data a ddarparwyd yn yr adroddiad a rhoddir dadansoddiad o'r data cwynion yn **adran 8**.
- 1.2 Nid yw'r systemau cofnodi sydd yn eu lle ar gyfer canmoliaeth, cwynion a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth wedi cael eu cysoni eto â'r strwythurau gwasanaeth cyfredol ond dylai hyn gael sylw yn ystod y cyfnod adrodd nesaf. Pan fydd wedi ei gwblhau, dylai'r gallu monitro ac adrodd gael ei wella. Lle y bo'n bosibl, at ddibenion cynnal eglurder a chywirdeb, mae'r grwpiau gwasanaeth yn yr adroddiad hwn wedi cael eu diwygio er mwyn adlewyrchu'r strwythur sefydliadol presennol.
- 1.3 Mae'r Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth yn gweithio yn unol â thri pholisi cwynion gwahanol a dwy gangen o ddeddfwriaeth mynediad i wybodaeth:
 - Polisi Pryderon a Chwynion (corfforaethol)
 - Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014
 - Gweithdrefn Gwynion ar gyfer Cyrff Llywodraethu Ysgolion yng Nghymru (Cylchlythyr 011/2012)
 - Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
 - Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004
- 1.4 Er bod cyrff llywodraethu ysgolion yn gyfrifol am eu cwynion a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth eu hunain, mae'r Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth yn darparu cyngor a chymorth pan fo angen, ac weithiau bydd yn cynorthwyo gydag achosion mwy cymhleth os yw'r gweithdrefnau'n caniatáu hynny.
- 1.5 O ganlyniad i newidiadau diweddar mewn deddfwriaeth mae'r Polisi Pryderon a Chwynion (corfforaethol) wedi cael ei ddiwygio a'i gadarnhau gan bwyllgor y Cyngor o aelodau etholedig ar 23 Medi 2021. Fodd bynnag, cafodd yr holl gwynion corfforaethol a gafwyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn eu rheoli yn unol â'r polisi a weithredwyd ar 1 Ebrill 2015.
- 1.6 Yn dilyn ffurfio'r Awdurdod Safonau Cwynion (CSA) o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, mae'n ofynnol i holl awdurdodau cyhoeddus Cymru adrodd am eu cwynion i swyddfa'r Ombwdsmon bob chwarter.
- 1.7 Mae'r Cyngor wedi parhau i gydweithio'n gadarnhaol â'r Ombwdsmon, ac mae adran o'r adroddiad hwn yn rhoi dadansoddiad o holl waith yr Ombwdsmon. Mae hyn yn cynnwys canlyniadau swyddfa'r Ombwdsmon yn dilyn ei hasesiad o'r holl gwynion a wnaed iddi mewn perthynas â Chyngor Sir Ceredigion. Rhaid nodi mai hwn yw'r ail

gyfnod adrodd olynol lle na chychwynnwyd unrhyw ymchwiliadau gan swyddfa'r Ombwdsmon i gwynion am y Cyngor.

- 1.8 Mae datrys cwynion yn gynnar yn parhau i gael blaenoriaeth uchel o fewn y Cyngor a gwneir pob ymdrech i sicrhau canlyniadau boddhaol ar gyfer dinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth sy'n tynnu ein sylw at eu pryderon. Yn sgil yr ymdrechion parhaus a'r cydweithredu cadarnhaol rhwng staff a rheolwyr ar draws y Cyngor a'r Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth, mae'n llawer mwy effeithiol i ddatrys pryderon yn ystod y cam 'ymholiad', heb fod angen troi at y weithdrefn gwynion ffurfiol. Derbyniwyd cyfanswm o **435** o ymholiadau yn ystod y cyfnod adrodd hwn.
- 1.9 Mae cwynion sy'n cael eu hystyried o dan Gamau 1 a 2 o'r polisiau cwynion perthnasol yn parhau i gael eu rheoli yn unol â'r ethos sy'n sail i gwynion corfforaethol: '*Ymchwilio unwaith, ymchwilio'n dda*'. Cydnabyddir, yn arbennig mewn perthynas â chwynion Cam 2, y gall achosion cymhleth gymryd mwy o amser na'r hyn a nodir yn y polisi (hynny yw, 20 diwrnod gwaith); fodd bynnag, mewn amgylchiadau o'r fath, hysbysir yr achwynydd fel arfer am yr oedi a rhoddir diweddariadau ar statws y gŵyn. Mae gwybodaeth ynghylch perfformiad y Cyngor o ran cydymffurfio ag amserlenni wedi'i darparu o fewn yr adroddiad hwn, ond y flaenoriaeth o hyd yw sicrhau bod ymchwiliad cadarn ac ystyrlon yn cael ei gynnal – hyd yn oed os yw'n cymryd yn hwy na'r amserlenni a bennwyd.
- 1.10 Mae'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd yn gyfrifol am yr holl gwynion a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth o fewn y Cyngor, a bydd yn uwchgyfeirio materion o bryder i aelod(au) perthnasol o'r Grŵp Arweinyddiaeth. Yn ogystal â hyn, y Swyddog Arweiniol Corfforaethol yw Uwch Swyddog enwebedig y Cyngor ar gyfer swyddfeydd yr Ombwdsman a'r Comisiynydd Gwybodaeth ar gyfer cwynion a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth.
- 1.11 Mae Tîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth y Cyngor yn gyfrifol am gynllunio a darparu'r holl hyfforddiant cwynion yn ogystal â monitro'r holl gwynion a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Mae hyn yn cynnwys cydweithio â Swyddfa'r Ombwdsman a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth pan fydd achosion yn cael eu cyfeirio at eu sylw gan ddefnyddwyr gwasanaeth. Yn anffodus, oherwydd yr heriau sy'n gysylltiedig â'r pandemig, ni chafodd unrhyw hyfforddiant cwynion mewnol ei gynnal yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Fodd bynnag, roedd Awdurdod Safonau Cwynion yr Ombwdsmon wedi darparu Hyfforddiant Ymchwilio i Gwynion i'r mwyafrif o'r Rheolwyr Corfforaethol yn Chwefror 2021.
- 1.12 Fel y nodwyd uchod, roedd pandemig Covid-19 wedi creu heriau ychwanegol ar raddfa fyd-eang ac, ar lefel leol, cafodd blaenoriaethau a gwydnwch y Cyngor eu profi mwy nag erioed o'r blaen. Er gwaetha'r pwysau proffesiynol, ac yn wir y pwysau personol ychwanegol a wynebwyd gan staff y Cyngor yn ystod y pandemig, roedd swyddogion yn parhau wedi eu hymrwymo i sicrhau y byddai gwelliannau yn cael eu gwneud i'r gwasanaeth (o ganlyniad uniongyrchol i gwynion).

2. Y GANMOLIAETH A GAFWYD

2.1 Canmoliaeth

Mae'r holl sylwadau o ganmoliaeth a dderbynnir gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cofnodi a'u monitro'n rheolaidd, a dylid eu gweld fel cyfle i rannu arferion da lle bynnag y bo modd. Dylid ymateb i sylwadau o ganmoliaeth yn unigol a'u rhannu â'r bobl sy'n uniongyrchol gysylltiedig â nhw.

2.2 Ceir cyfle hefyd i rannu canmoliaeth yn ehangach o lawer o fewn y Cyngor pan fydd arferion gwaith cadarnhaol yn cael eu nodi y gellid eu mabwysiadu mewn meysydd eraill.

2.3 Mae'r tabl isod yn dangos nifer y sylwadau o ganmoliaeth a gofnodwyd gan bob Gwasanaeth yn ystod 2020/21.

Gwasanaeth	2020/21
Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd	3
Ysgolion a Diwylliant	11
Economi ac Adfywio	11
Cyllid a Chaffael	24
Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol	26
Cyswllt Cwsmeriaid	37
Porth Cynnal	72
Corfforaethol	117
Porth Gofal	169
Porth Cymorth Cynnar	344
Cyfanswm	814

2.4 Enghreifftiau o'r ganmoliaeth a gafwyd

“Hoffwn i ddweud diolch yn fawr iawn i CSC am y llwybr hyfryd sydd wedi cael ei greu ar hyd clwb golff Aberystwyth. Rwy' mor ddiolchgar ac rwy'n siŵr y caiff ei ddefnyddio a'i fwynhau gan bawb yn yr ardal” – Economi ac Adfywio

“Hoffwn i ganmol a diolch i wasanaeth a gweithwyr casglu sbwriel y Cyngor Sir. Trwy gydol y pandemig mae'r sbwriel wedi cael ei gasglu mewn pryd ac i safon wych. Diolch i chi gyd am eich gwaith gwych” – Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol

“Diolch yn fawr tîm Clic!! Pobl hyfryd. Da iawn chi. Rydych chi i gyd yn gwneud gwaith anhygoel”
– Cyswllt Cwsmeriaid

“Roedden ni am achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am y gofal arbennig rydych yn ei roi i'n ffrind agos. Rydym ni mor ddiolchgar eich bod wedi ystyried ffydd a theimladau a pharchu credoau. Rydym yn wirioneddol ddiolchgar am bopeth rydych chi'n ei wneud.”
Porth Gofal

“Roeddwn i am ddweud pa mor ddiolchgar ydw i am y cymorth parhaus, cefnogaeth ac empathi cyffredinol y mae ein Cyngor gwych yn eu rhoi i ni.” – Gwasanaeth Ysaolion

“Diolch i chi am eich cymorth a’ch cefnogaeth trwy gydol y broses hon.” – Polisi, Perfformiad a Diogelu’r Cyhoedd

“Diolch i chi am bopeth rydych chi’n ei wneud. Chi yw arwyr go iawn y sir hon, ac rydym yn gwerthfawrogi pob ymdrech rydych yn ei wneud i sicrhau bod y bobl sy’n fwyaf agored i niwed yn ddiogel.” – Porth Gofal (Cartref Preswyl)

“Roeddwn i am ddiolch i bawb yn y Cyngor sydd wedi gorfod dod i’r gwaith mewn cyfnod mor ofnadwy. Rwy’n meddwl eich bod chi i gyd yn wych ac yn angylion go iawn. Pawb o’r derbynyddion, gweithwyr swyddfa, gweithwyr casglu sbwriel, y rheolwyr a’r glanhawyr a phawb sy’n gweithio i gadw ein sir yn rhedeg mor dda â phosib mewn cyfnod mor anodd.” – Corfforaethol

“Hoffwn i ddiolch i chi am yr holl gymorth a gefais. Rwy’n teimlo’n ffodus iawn i weithio gyda chi. Diolch eto am eich cymorth parhaus, rwy’n hynod ddiolchgar.” – Porth Cynnal

“Diolch i chi, mae eich sylwadau a’ch cymorth, eich cyngor a’ch arweiniad wedi bod o help mawr ac wedi rhoi tawelwch meddwl i mi.” – Cyllid a Chaffael

“Rwy’n e-bostio i ddweud diolch yn fawr i chi am y ‘Seibiant mewn Bocs i Ofalwyr’ a gefais i heddiw. Diolch i chi eto, rwy’n wirioneddol deimlo y bydd hwn yn dod â theimlad o lawenydd i’r gofalwyr eraill a fydd yn derbyn eu bocsys nhw” – Porth Cymorth Cynnar


“Roeddwn i am ddweud pa mor ddiolchgar ydw i am y cymorth parhaus, cefnogaeth ac empathi cyffredinol y mae ein Cyngor gwych yn eu rhoi i ni.” – Gwasanaeth Ysaolion

- 2.5 Mae’r sylwadau o ganmoliaeth a gafwyd gan gartrefi gofal a chanolfannau dydd wedi eu cynnwys yn y system adrodd bresennol sydd wedi’i sefydlu ar draws Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor.
- 2.6 Bydd y broses ar gyfer casglu, cofnodi a monitro canmoliaeth yn cael ei hadolygu fel rhan o’r gwaith cyffredinol sy’n cael ei wneud i ddiweddarau’r polisi cwynion er mwyn adlewyrchu’r newidiadau i strwythur y Cyngor.

3. Y CWYNION A DDERBYNIWYD

3.1 Cyfanswm y cwynion a dderbyniwyd

Mae'r siart isod yn dangos cyfanswm y cwynion a dderbyniwyd yn ystod 2020/21 a gafodd eu prosesu yn unol â'r polisiau cwynion dau gam. Rhoddir cymhariaeth â'r blynyddoedd blaenorol. Nid yw hyn yn cynnwys nifer yr ymholiadau neu geisiadau am wasanaeth a dderbyniwyd gan y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth a gafodd eu cyfeirio at y gwasanaeth(au) perthnasol.



3.2 Nifer y cwynion a wnaed fesul cam


Mae'r tabl isod yn dangos nifer y cwynion a wnaed yn erbyn y Cyngor o dan bob cam o'r Polisi Cwynion dros y pum mlynedd diwethaf. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys cwynion a wnaed ynghylch y ddarpariaeth Gymraeg.

Blwyddyn	Cam 1	Cam 2	Cyfanswm
2016/17	149	49	198
2017/18	96	39	135
2018/19	92	40	133
2019/20	85	39	124
2020/21	61	42	103

3.3 Cwynion ynghylch y Gymraeg

Yn 2020/21 derbyniodd y Cyngor un gŵyn oedd yn ymwneud yn benodol â'r ddarpariaeth (neu'r diffyg darpariaeth) o wasanaethau Cymraeg ar draws y Cyngor. Cafodd y gŵyn hon ei derbyn a'i hystyried gan Gomisiynydd y Gymraeg. Cafodd un gŵyn arall ei derbyn oedd yn cynnwys elfen oedd yn ymwneud â darparu gwasanaethau yn Gymraeg, ond mae'r system adrodd a ddefnyddir yn y Cyngor yn categoreiddio prif elfen y gŵyn yn unig, sef darpariaeth gofal yn yr achos hwn.


3.4 Dangosir isod nifer y cwynion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod adrodd ynghyd â chymhariaeth â data'r blynnyddoedd blaenorol. Mae'r Cyngor wedi gweithredu'n llawn ei ofynion o dan Safonau'r Gymraeg.



3.5 Y deg Adran a gafodd y nifer fwyaf o gwynion yn 2020/21


Mae'r siart isod yn dangos y deg adran o'r Cyngor a gafodd y nifer fwyaf o gwynion yng Ngham 1. Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, trwy fynd ati i bennu'r meysydd lle mae'r nifer fwyaf o gwynion wedi cael eu derbyn, gellir adnabod tueddiadau o fewn yr awdurdod a'u cymharu ar lefel genedlaethol.

Y 10 adran a gafodd y nifer fwyaf o gwynion (Cam 1)



3.6 Canlyniadau'r Cwynion

Gweler isod y canlyniadau a gofnodwyd yn erbyn yr holl gwynion a wnaed yn ystod y cyfnod adrodd.




3.7 Amserlenni

Mae'n ofynnol i'r Cyngor ymateb i bob cwyn yn brydlon ac yn unol â'r amserlenni a bennwyd yn y polisi. Mae'r siartiau isod yn dangos perfformiad y Cyngor o ran bodloni amserlenni **Cam 1 (10 diwrnod gwaith)** a **Cham 2 (20 diwrnod gwaith)** o dan y polisi corfforaethol. Mae'n bwysig nodi bod rhywfaint o hyblygrwydd yn achos Cam 2, yn enwedig er mwyn sicrhau bod ymchwiliadau trylwyr a chadarn yn cael eu cynnal, a all gymryd mwy o amser i'w cwblhau.


3.8 Cam 1 – Derbyniwyd cyfanswm o 61 o gwynion Cam 1 yn ystod y cyfnod adrodd. O dan y polisi corfforaethol, dylai cwynion Cam 1 gael eu cwblhau o fewn **10 diwrnod gwaith** ac o dan weithdrefnau cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol dylai'r cwynion gael eu cwblhau o fewn **15 diwrnod gwaith** sy'n cynnwys y cynnig o gyfarfod / trafodaeth â'r rheolwr gwasanaeth perthnasol. Rhoddwyd sylw i gyfanswm o **28** o'r **45** o gwynion corfforaethol ar y cam hwn o fewn yr amserlenni a bennwyd.

Perfformiad amserlen Cam 1 (Polisi Corfforaethol)



3.9 Cam 2 – Derbyniwyd **42** o gwynion Cam 2. O'r rhain, roedd pedair yn ymwneud â gweithdrefn statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n caniatáu 25 diwrnod gwaith o'r 'Dyddiad Dechrau' yn hytrach na'r **20 diwrnod gwaith** a ganiateir o dan y Weithdrefn Pryderon a Chwynion Corfforaethol. Dangosir perfformiad mewn perthynas â'r polisi corfforaethol isod. Yn achos pedair cwyn y Gwasanaethau Cymdeithasol, mae **tair** yn parhau'n agored ar ddiwedd y cyfnod adrodd (h.y. cafodd yr achosion hyn eu cau ar ôl 31 Mawrth 2021) ac roedd yr **un** oedd yn weddill wedi cymryd yn hwy na'r amser a bennwyd i'w cau. Caniateir hyn ar yr amod bod Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi rhoi cymeradwyaeth ysgrifenedig ar gyfer estyniad.

Perfformiad amserlen Cam 2 (Polisi Corfforaethol)



4. DYSGU GWERSI O'R CWYNION

4.1 Mae'r tabl isod yn dangos sampl o'r gwersi a ddysgwyd o'r cwynion yn ystod 2020/21.

Maes Gwasanaeth	Cwyn	Gwersi a Ddysgwyd
Porth Gofal	Cwyn ynghylch gofal perthynas.	Cafodd dogfennau eu gwella o fewn y gwasanaeth i sicrhau bod yr iaith o ddewis yn cael ei chofnodi ac felly yn y dyfodol bydd Gweithwyr Cymdeithasol Cymraeg eu hiaith yn cael eu neilltuo ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth sy'n gofyn amdano. Cafodd staff eu hatgoffa hefyd i gyfathrebu â'r holl asiantaethau eraill wrth gydlynu gofal, rhyddhau'r claf a dilyn i fyny unrhyw achosion a gyfeiriwyd ar gyfer asesiad arbenigwyr a/neu ymyrraeth.

Porth Cynnal	Pryderon ynghylch darpariaeth gwasanaeth addas.	Cytunwyd y byddai'r pecyn gwybodaeth presennol yn cael ei ddatblygu ymhellach ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth i gynnwys manylion am yr amrywiaeth a'r mathau o asesiadau a gaiff eu cynnal. Rhoddir ystyriaeth hefyd i gyflwyno 'proses baru' ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau tai.
Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol	Mwy nag un adroddiad o fethu â chasglu gwastraff o un eiddo arbennig.	System gyfathrebu newydd wedi ei sefydlu rhwng y Goruchwyliwr a'r gyrrwyr i sicrhau bod y gwastraff o'r eiddo arbennig hwnnw yn cael ei gasglu.
Caffael ac Ymdrin â Chwynion	Cwyn ynghylch proses cyfweld caffael a'r amser a gymerir i ddelio â'r materion hyn.	Trefniadau caffael wedi cael eu newid i sicrhau nad yw'r materion hyn yn codi eto yn y dyfodol. Dulliau ymdrin â chwynion wedi cael sylw gan sicrhau bod digon o staff gan y gwasanaeth.

5. CWYNION A WNAED I OMBWDSMAN GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

- 5.1** Mae Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon ar gyfer 2020/2021 wedi'i atodi (wedi'i labelu Atodiad 2). Mae'r data o swyddfa'r Ombwdsmon yn gyson â chofnodion y Cyngor ei hun mewn perthynas â'r holl weithgarwch cwynion a gyfeiriwyd at yr Ombwdsmon yn ystod 2020/2021. Esbonnir holl weithgarwch yr Ombwdsmon yn fanylach isod.
- 5.2 Mae'r Ombwdsman yn disgwyl i achwynwyr fynd drwy holl weithdrefnau cwynion y Cyngor yn gyntaf cyn cysylltu â'i swyddfa i geisio ystyriaeth annibynnol o'u cŵyn. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau eithriadol mae disgrisiwn gan yr Ombwdsmon i gynnal ymchwiliad uniongyrchol. Fel arfer caiff cwynion sydd heb gael eu hystyried eto gan y Cyngor eu cofnodi gan Swyddfa'r Ombwdsmon fel cysylltiadau '*Cynamserol*' ac fel rheol caiff yr achos ei gyfeirio'n ôl i'r Cyngor i'w ymchwilio o dan ei weithdrefnau cwynion ei hun.
- 5.3 Fel mater o arfer, mae'r holl ymatebion ffurfiol a gyhoeddir yng Ngham 2 gweithdrefn gwynion y Cyngor (polisiâu corfforaethol a Gwasanaethau Cymdeithasol) yn cynnwys y cyngor y gall achwynwyr gyfeirio eu cwyn i'r Ombwdsmon os ydynt yn parhau'n anfodlon â'r canlyniad.
- 5.4 Mae rheolaeth gyfyngedig gan y Cyngor dros ddefnyddwyr gwasanaeth yn cysylltu â'r Ombwdsmon yn uniongyrchol, ac fel arfer caiff hyn sylw trwy godi ymwybyddiaeth staff (trwy hyfforddiant ymdrin â chwynion). Mae hyn yn cynnig modd i staff y Cyngor nodi yn gynnar yn y broses a ddylai'r weithdrefn gwynion gael ei chychwyn, ac yna gallant roi gwybod i'r defnyddiwr gwasanaeth sut y gallant gwyno.
- 5.5 Mae'n ddefnyddiol nodi bod yr Ombwdsmon yn darparu data ynghylch nifer y '*cysylltiadau*' a dderbyniwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn ogystal â nifer yr 'achosion a gafodd eu cau' yn ystod y cyfnod adrodd. Bydd y dull hwn yn esbonio unrhyw anghysonderau yn nifer yr achosion sy'n cael eu hadrodd arnynt (yn enwedig os yw rhai yn cael sylw dros amryw o gyfnodau adrodd).
- 5.6 Nifer y cwynion a wnaed i'r Ombwdsman yn 2020/21 fesul prif faes (fel y caiff ei gategoreiddio gan yr Ombwdsmon)**


Tudalen 33

Mae'r siart isod yn dangos nifer y cwynion a wnaed gan aelodau'r cyhoedd i'r Ombwdsmon yn unol â'r categorïau a ddarperir gan yr Ombwdsmon.

Maes	Nifer y cwynion i'r Ombwdsmon 2018/19	Nifer y cwynion i'r Ombwdsmon 2019/20	Nifer y cwynion i'r Ombwdsmon 2020/21
Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion	2	4	5
Amaethyddiaeth a Physgodfeydd	1	0	0
Gweinyddu Budd-daliadau	1	1	1
Gwasanaethau Cymdeithasol Plant	0	5	3
Cymunedau, cyfleusterau, adloniant a hamdden	1	1	0
Ymdrin â Chwynion	4	4	5
COVID-19	-	-	3
Addysg	0	1	0
Yr Amgylchedd ac Iechyd yr Amgylchedd	3	4	1
Trwyddedu	0	2	0
Cyllid a Threthi	0	2	2
Tai (gan gynnwys grantiau adnewyddu)	1	0	2
Cynllunio a Rheoli Adeiladu	6	6	8
Ffyrdd a Thrafnidiaeth	2	1	2
Cwynion am fwy nag un gwasanaeth	2	0	0
CYFANSWM	23	31	32

- 5.7 Mae perfformiad y Cyngor o ran ymdrin â chwynion wedi gwella'n sylweddol o'i gymharu â'r cyfnodau adrodd cynharach. Er bod y pandemig wedi cael effaith anochel ar arferion gwaith, mae'r strategaethau a gyflwynwyd yn y blynyddoedd blaenorol yn parhau i fod yn werthfawr o ran gwella perfformiad dulliau ymdrin â chwynion y Cyngor ei hun. Mae canoli'r gwasanaeth cwynion yn 2017 a chyflwyno *'Pecyn Cymorth yr Ombwdsmon'* wedi hynny yn 2018 wedi helpu i newid yr ymagwedd gyffredinol tuag at gwynion.
- 5.8 Derbyniodd yr Ombwdsmon 32 o gysylltiadau yn ystod 2020-2021, sef un achos yn fwy nag yn y flwyddyn flaenorol. Er gwaethaf hyn, nid yw'r Ombwdsmon wedi cynnal unrhyw ymchwiliadau i unrhyw un o'r achosion hyn. Fodd bynnag, am yr ail flwyddyn yn olynol cafodd pedwar Ateb Cyflym / Cytundeb Setlo eu gwneud er mwyn gallu datrys y gŵyn er boddhad yr Ombwdsmon. Caiff yr achosion hyn eu hesbonio yn fwy manwl isod.
- 5.9 Mae'r siart hwn yn darparu data sy'n cymharu canlyniadau'r holl achosion a gafodd eu cau gan yr Ombwdsman yn ystod y cyfnod dan sylw yn yr adroddiad hwn a'r ddwy flynedd flaenorol.

Canlyniadau achosion yr Ombwdsmon



5.10 Fel y nodwyd uchod, er na chafodd unrhyw ymchwiliadau neu adroddiadau ffurfiol eu cyhoeddi gan yr Ombwdsmon am yr ail gyfnod yn olynol, roedd **pedwar** achos yn gofyn am sylw ychwanegol yn dilyn asesiad gan Swyddfa'r Ombwdsmon. Cyfeirir at achosion o'r fath fel achosion 'Wedi'u datrys yn gyflym / yn wirfoddol', ac mae'r Cyngor yn cael cyfle i adolygu ei ddulliau o reoli'r achos a datrys materion heb fod angen i'r Ombwdsmon gychwyn ymchwiliad ffurfiol.

5.11 Crynodeb o achosion Wedi'u Datrys yn Gyflym / yn Wirfoddol

Gwasanaeth a Chyfeirnod	Crynodeb o'r Gŵyn	Camau Gweithredu a Gytunwyd
Porth Cynnal (202005090)	Cwyn ynghylch cael mynediad i offer a gwasanaethau.	Cytunodd y Cyngor i gynnal ailasesiad o anghenion yr unigolyn o fewn 8 wythnos iddynt gadarnhau'r lleoliad.
Ymdrin â Chwynion / Diogelu'r Cyhoedd (202002633)	Anhapus â'r ffordd y cafodd eu cwyn ei rheoli a bod y Cyngor heb uwchgyfeirio'r gŵyn yn unol â'r polisi.	Cytunodd y Cyngor i roi ymddiheuriad i'r achwynnydd am yr oedi a rhoi ymateb sylweddol o fewn amserlen benodol.
Ymdrin â Chwynion / Porth Cynnal (201907197)	Y Cyngor wedi methu â rhoi'r camau gweithredu a gytunwyd ar waith yn dilyn cwyn gynharach am ddarparu gofal cymdeithasol a chymorth. Roedd hyn wedi cael effaith arwyddocaol ar y defnyddiwr gwasanaeth oedd yn destun yr achos.	Cytunodd y Cyngor i gwblhau sawl cam gweithredu i sicrhau y byddai'r camau roedd wedi addo eu cyflawni yn cael eu cwblhau.
Ymdrin â Chwynion / Cynllunio (202000388)	Oedi wrth ymdrin â chwynion ac ymateb annigonol i'r gŵyn. Yn ogystal, roedd angen adolygu a datrys agweddau gorfodi cynllunio'r gŵyn.	Cytunodd y Cyngor i roi ymddiheuriad i'r achwynnydd am yr oedi, am fethu â rhoi sylw priodol i'w chwyn, ac am fethu â diweddau'r achwynnydd ar statws yr achos gorfodi. Yn ogystal, cytunodd y Cyngor i roi taliad amser a thrafferth o £50 am yr anghyfleustra o orfod mynd ar ôl ei chwyn.

6. CEISIADAU RHYDDID GWYBODAETH

- 6.1 Y Gwasanaeth Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd sy'n gyfrifol am oruchwyllo cydymffurfiaeth y Cyngor â Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004. Yn yr un modd â chanmoliaeth a chwynion, cafodd y gwasanaeth Rhyddid Gwybodaeth (a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol) ei ganoli hefyd ac mae'n ffurfio Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth y Cyngor.
- 6.2 Mae'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd yn gyfrifol am ymgymryd â'r holl Adolygiadau Mewnol sydd yn ei hanfod yn golygu'r dull cwyno ar gyfer ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. Yn dilyn y cam Adolygiad Mewnol, mae gan ymgeiswyr yr hawl i gyfeirio eu cais i'r Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth ar gyfer ystyriaeth bellach.
- 6.3 Gall ceisiadau am wybodaeth a dderbynnir o dan Ryddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol gael eu gwrthod am amryw o resymau ar yr amod bod esemptiadau neu eithriadau cyfreithlon sy'n atal datgelu gwybodaeth. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, mae'r Cyngor yn cyhoeddi Hysbysiad Gwrthod sy'n rhoi gwybodaeth glir i esbonio'r penderfyniad i beidio â datgelu'r wybodaeth y gofynnir amdani. Rhaid nodi yma bod Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yn ymwneud â'r wybodaeth a gofnodir ac a ddelir gan y Cyngor ac felly nid oes hawl i gael atebion i gwestiynau a fyddai'n golygu creu gwybodaeth neu gofnodion newydd.
- 6.4 Yn ystod y cyfnod adrodd hwn derbyniodd y Cyngor gyfanswm o **756** o geisiadau am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. O'r rhain, uwchgyfeiriwyd **pedwar** achos i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd am Adolygiad Mewnol. Cafodd yr Hysbysiadau Gwrthod sy'n datgan methu â datgelu eu gwrthdroi mewn un o'r pedwar achos Adolygiad Mewnol, a chafodd esboniad pellach ei roi mewn dau achos a chafodd yr esemptiad a gymhwyswyd ei gynnal yn yr achos olaf.
- 6.5 Dangosir isod nifer y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (ar y cyd) a dderbyniwyd yn ystod 2020/2021 o'i gymharu â data'r cyfnodau adrodd cynharach.

Gweithgarwch o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol



6.6 Mae'r siart isod yn dangos nifer y ceisiadau a dderbyniwyd gan bob gwasanaeth a pha ganran y mae hyn yn cyfateb iddi mewn perthynas â chyfanswm y ceisiadau a dderbyniwyd gan y Cyngor.


Gweithgarwch Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yn ôl Gwasanaeth

Gwasanaeth	Rhyddid Gwybodaeth		Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol	
	Nifer y Ceisiadau a Dderbyniwyd	% Cyfanswm y Ceisiadau a Dderbyniwyd	Nifer y Ceisiadau a Dderbyniwyd	% Cyfanswm y Ceisiadau a Dderbyniwyd
Ysgolion	28	4%	-	-
Cyllid a Chaffael	157	21%	-	-
Gwasanaethau Democrataidd	10	1%	-	-
Pobl a Threfniadaeth	44	6%	-	-
Porth Cymorth Cynnar	1	>1%	-	-
Porth Cynnal	64	8%	-	-
Porth Gofal	44	6%	1	20%
Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd	129	17%	3	60%
Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol	92	12%	-	-
Economi ac Adfywio	84	11%	1	20%
Cyswllt Cwsmeriaid	53	7%	-	-
Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu	8	1%	-	-
Mwy nag un Gwasanaeth	38	5%	-	-

6.7 Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb statudol i ymateb i bob cais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth o fewn 20 diwrnod gwaith. Yn 2020/21 cyfradd cydymffurfio'r Cyngor â'r amserlen hon oedd **66%**.

6.8 Derbyniwyd cyfanswm o **bedwar** cais am Adolygiad Mewnol yn 2020/21 a dangosir y cyfan wedi eu grwpio fesul gwasanaeth. Mae hyn yn lleihad o 43% o geisiadau ar gyfer Adolygiad Mewnol o'i gymharu â'r saith a dderbyniwyd yn 2019/20.

Ceisiadau am adolygiadau mewnol fesul gwasanaeth



- 6.9 Cafodd tri achos eu cyfeirio at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Roedd pob un o'r tri yn ymwneud ag oedi'r Cyngor wrth ddarparu gwybodaeth o fewn yr amserlen statudol. Nid oedd unrhyw un o'r achosion a gyfeiriwyd wedi arwain at ymchwiliad neu hysbysiad o benderfyniad yn cael ei gyhoeddi gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

7. CRYNODEB A CHASGLIADAU

- 7.1 Oherwydd pandemig y coronafeirws roedd y cyfnod adrodd cyfan yn wynebu heriau mawr i wasanaethau ar draws y Cyngor o ran gorfod ymdopi â chynnydd enfawr mewn llwythi gwaith nifer o'r gwasanaethau a hefyd yr angen i addasu'n gyflym i ffyrdd newydd o weithio. Felly mae gweld nifer y sylwadau o ganmoliaeth bron yn dyblu a lleihad o 17% yn nifer y cwynion yn llwyddiant mawr.
- 7.2 I grynhoi, prif gasgliadau'r adroddiad hwn yw:
- ❖ **814** o gwynion wedi'u derbyn
 - ❖ **435** o ymholiadau wedi'u prosesu gan y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth
 - ❖ **103** o gwynion wedi'u derbyn: **Cam 1 = 61** **Cam 2 = 42**
 - ❖ **32** o 'gysylltiadau' wedi'u derbyn trwy Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
 - ❖ **756** o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol wedi eu prosesu gan y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth
- 7.3 Fel yr amlinellir uchod, cafwyd bron dwywaith nifer y sylwadau o ganmoliaeth yn ystod y cyfnod adrodd hwn nag y derbyniwyd yn 2019/2020. Roedd nifer sylweddol o'r rhain yn ymwneud ag ymdrechion y Cyngor i ymateb i Covid-19 – o focsys bwyd yn cael eu dosbarthu i'r dinasyddion mwyaf agored i niwed a'r 'Pecynnau Gofal' a ddosbarthwyd i ofalwyr cofrestredig ar draws y sir.
- 7.4 Mae'r tri gwasanaeth a dderbyniodd y nifer fwyaf o gwynion Cam 1 yn y cyfnod adrodd hwn yn parhau heb eu newid, gyda Chasglu Sbwriel yn derbyn y rhan fwyaf, o'r cwynion, yna Treth y Cyngor a Budd-daliadau Tai, wedi ei ddilyn yn agos â'r Gwasanaeth Cynllunio. Yn ôl eu natur, mae'r gwasanaethau hyn yn tueddu i dderbyn nifer fawr o gwynion ac er y gall rhai cwynion fod yn anochel, mae'n galonogol gweld bod Swyddfa'r Ombwdsmon wedi cau 30% o'r holl achosion newydd a gafodd at ôl iddynt gael cyfle i ystyried ymdrechion y Cyngor i ddatrys y gŵyn yn y lle cyntaf.
- 7.5 Oherwydd absenoldeb staff a swyddi gwag o fewn y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth yn ystod y cyfnod adrodd cyfan, mae'n amlwg o'r data bod hyn wedi cael effaith ar allu'r Cyngor i weithredu yn unol â'r amserlen a rheoli achosion yn ôl y safonau y byddem yn eu disgwyl fel rheol. Cafodd hyn ei adlewyrchu mewn tri o'r pedwar Ateb Sydyn / Cytundeb Setlo a gynigiwyd gan Swyddfa'r Ombwdsmon, er bod hyn wedi cael sylw ers hynny gyda staff newydd wedi cael eu penodi i'r gwasanaeth.
- 7.6 Mae'n galonogol gweld llai o gwynion ar gyfer y cyfnod adrodd hwn. Fodd bynnag, cafodd dros hanner yr holl gwynion eu cadarnhau yn dilyn ymchwiliad. Mae hyn yn golygu, yn gyffredinol, bod y gŵyn wedi ei chyfiawnhau a bod y Cyngor wedi methu â darparu'r safon gwasanaeth y byddai'n ceisio ei darparu fel arfer.

- 7.7 Yn wyneb y ffaith bod 54% o'r holl gwynion wedi cael eu cadarnhau, nid oedd llawer o gapasiti ar ran y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth i gasglu mwy o dystiolaeth am y gwersi a ddysgwyd. Caiff hyn ei flaenoriaethu yn 2021-2022 yn enwedig nawr bod y nifer gan y gwasanaeth y nifer briodol o staff.
- 7.8 Nid oedd modd darparu hyfforddiant cwynion mewnol yn ystod y cyfnod adrodd hwn oherwydd yr heriau a nodwyd, felly bydd angen blaenoriaethu hyn yn y dyfodol – er y bydd yr hyfforddiant yn debygol o gael ei ddarparu mewn ffordd wahanol. Dylid nodi bod Pennaeth Awdurdod Safonau Cwynion newydd yr Ombwdsmon wedi darparu dwy sesiwn Hyfforddiant Ymchwilio i Gwynion i'r Rheolwyr Corfforaethol trwy Microsoft Teams yn Chwefror 2021, a oedd i'w weld yn hynod werthfawr. Bydd cyfleoedd hyfforddi pellach ar gael yn y dyfodol trwy'r Awdurdod Safonau Cwynion sy'n darparu'r hyfforddiant yn rhad ac am ddim. Bydd unrhyw sesiynau addas yn cael eu trefnu a'u cydlynu gan y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth maes o law.
- 7.9 Mae'n amlwg bod angen gwneud gwaith pellach mewn perthynas â gweithredu yn unol ag amserlenni Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth/Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. Mae nifer yr ymatebion Rhyddid Gwybodaeth/Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol a gyhoeddwyd o fewn yr amserlen 20 diwrnod gwaith wedi disgyn i'w lefel gydymffurfiaeth isaf ers cyn 2014. Credir bod hyn i'w briodoli i gyfuniad o ffactorau gan gynnwys diffyg capasiti ar ran gwasanaethau i allu blaenoriaethu ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth cyn eu holl dasgau newydd; methu â chael copïau caled o ddogfennau oherwydd bod staff yn gweithio o gartref; diffyg capasiti o fewn y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth (sy'n ymgymryd â'r rhan fwyaf o'r gwaith gweinyddol sy'n gysylltiedig â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth, h.y. cofnodi, cydnabod a dosbarthu ceisiadau newydd, a chyhoeddi'r holl ymatebion a chymhwyso unrhyw eithriadau/esempiadau a/neu olygiadau fel y bo angen).
- 7.10 Yn ystod 2020-2021 derbyniwyd llai o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol nag mewn unrhyw flwyddyn flaenorol (ers 2014) gyda chyfanswm o **756** o geisiadau. Llwyddodd y Gwasanaeth Cyllid a Chaffael i gynnal ei le fel y gwasanaeth sy'n derbyn y nifer fwyaf o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth fesul maes gwasanaeth (gan dderbyn cyfanswm o 157). Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd gafodd yr ail nifer fwyaf o geisiadau (**129**) a Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol oedd â'r trydydd nifer fwyaf o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth (**92**).
- 7.11 Fel y nodwyd ym mhwynt 7.9 (uchod) lleihaodd cydymffurfiaeth â'r amserlenni statudol ar gyfer ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth o 86% yn 2019-2020 i ddim ond 66% yn 2020-2021. Dyma fydd un o brif flaenoriaethau'r Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth yn y dyfodol, gyda pherfformiad ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn cael ei gynnwys fel mesur perfformiad ar gyfer 2021-2022.
- 7.12 Yn gyffredinol, mae'r adroddiad hwn yn gadarnhaol ac yn llwyddiant anhygoel yn wyneb y flwyddyn anodd y mae pawb wedi'i chael. Fodd bynnag, mae'n glir bod angen rhoi sylw i sawl maes er mwyn i ni allu bod yn hyderus bod y Cyngor yn gallu delio'n effeithiol â chwynion a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth, a gwneud hynny yn unol â pholisïau a deddfwriaeth. Yn ei dro, dylai hyn wella'r ffydd a'r hyder sydd gan ein dinasyddion yn ein gallu i gymryd eu pryderon o ddifrif a gweithredu'n dryloyw pan fyddant yn ceisio gwybodaeth gennym.

Marie-Neige Hadfield

Rheolwr Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth

1 Hydref 2021

8. DATA

EITEM 1: MANYLION Y CWYNIION FESUL GWASANAETH

Gwasanaethau ac Adrannau	Cam 1	Cam 2	CYFANSWM
Ysgolion			2
➤ Cynhwysiant	1	0	
➤ Anghenion Dysgu Ychwanegol	0	1	
Cyllid a Chaffael			19
➤ Treth y Cyngor a Budd-daliadau	9	2	
➤ Grantiau Busnes Covid-19	0	5	
➤ Dyledwyr	1	1	
➤ Caffael a Thaliadau	0	1	
Gwasanaethau Democrataidd			2
➤ Gwasanaethau Etholiadol	2	0	
Pobl a Threfniadaeth			1
➤ Cyflogres	1	0	
Porth Cymorth Cynnar	0	0	0
Porth Cynnal			13
➤ Llesiant Meddwl	3	1	
➤ Tîm Oedolion	1	0	
➤ Asesu Plant a Theuluoedd	1	1	
➤ Ansawdd a Gwella Gwasanaeth.	1	0	
➤ Amddiffyn Oedolion	1	2	
➤ Camu Mlaen	1	0	
➤ Y Tîm Cymunedol Anableddau Dysgu	1	0	
Porth Gofal			11
➤ Maethu	1	0	
➤ Gwasanaethau Uniongyrchol	2	0	
➤ Brysbennu Porth Gofal	3	0	
➤ Gwasanaethau Therapi Galwedigaethol	1	0	
➤ Digartrefedd / Tai (gan gynnwys Grant Cyfleusterau i'r Anabl, Eco Flex)	2	2	
Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd			8
➤ Diogelwch Bwyd	0	1	
➤ Rheoliadau Covid (gan gynnwys Profi Olrhain Diogelu)	2	1	
➤ Safonau Masnach	0	1	


Tudalen 40

Gwasanaethau ac Adrannau	Cam 1	Cam 2	CYFANSWM
➤ Iechyd yr Amgylchedd	1	1	
➤ Warden Cymunedol	1	0	
Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol			
➤ Cynnal a Chadw/Gwella Priffyrdd	1	1	16
➤ Goleuadau Stryd	0	1	
➤ Gwasanaethau Parcio	1	0	
➤ Casglu Gwastraff a Safleoedd Gwastraff Cartref	10	1	
➤ Mynwentydd	0	1	
Economi ac Adfywio			
➤ Arfordiroedd a Chefn Gwlad	1	0	27
➤ Cynllunio (gan gynnwys Gorfodi)	8	14	
➤ Cwyn yn erbyn staff	1	1	
➤ Gwasanaethau Eiddo	1	0	
➤ Covid-19 – Amrywiol	0	1	
Cyswllt Cwsmeriaid			
➤ Gwasanaethau Cwsmeriaid	1	0	1
Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu	0	0	0
Mwy nag un Gwasanaeth / Corfforaethol	1	2	3
CYFANSWM Y CWYNION A DDERBYNIWYD	61	42	103

EITEM 2: CANLYNIADAU CWYNION

Canlyniad	2020/21
> Cwyn heb ddim yn haeddu ymchwiliad	1
> Ymchwiliad / cwyn wedi ei hatal neu ei thynnu yn ôl	3
> Wedi'i gwrthod	37
> Cwyn wedi ei chadarnhau yn llwyr / yn rhannol	56
> Ar Agor / Yn Parhau	6
CYFANSWM	103

Gofynnwch Cyfathrebu
am:

 01656 641150

 cyfathrebu@ombwdsmon.cymru

Dyddiad: Medi 2021

Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn
Cyngor Sir Ceredigion

Trwy Ebst yn unig: ellen.apgwynn@ceredigion.gov.uk

Llythyrau Blynyddol 2020/21

Annwyl Gynghorydd ap Gwynn

Mae'n bleser gennyf ddarparu'r Llythyr Blynyddol (2020/21) i Gyngor Sir Ceredigion.

Mae'r llythyr hwn yn trafod gwybodaeth o flwyddyn a fu'n wahanol i unrhyw un arall yn y cof diweddar, ac felly efallai na fydd yn ddefnyddiol ar gyfer sefydlu tueddiadau neu batrymau. Fodd bynnag, bydd gwybodaeth a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ryfeddol hon yn dod â mewnwelediadau ar sut ymatebodd gwasanaethau cyhoeddus i alw digynsail a'r amgylchiadau anoddaf a fu.

Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, rydym wedi ymyrryd (cadarnhau, setlo neu ddatrys yn y cam cynnar) yn yr un gyfran o gwynion am gyrff cyhoeddus, sef 20%, o gymharu â 2019/20.

O ran cwynion newydd a dderbyniwyd yn ymwneud ag Awdurdodau Lleol, mae'r cyfanswm wedi gostwng o 12.5% o gymharu â'r llynedd. Mae hyn yn adlewyrchu'r gostyngiad yn y cwynion sy'n cael eu hadrodd arnynt gan Awdurdodau Lleol yn ystod pandemig Covid-19. Ymyrrodd fy swyddfa mewn cyfran debyg o'r achosion a gaewyd ag yn y flwyddyn flaenorol (13%).

Fodd bynnag, cyfeiriasom hefyd gyfran uwch o gwynion y Cod ymddygiad at Bwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru: 3.4% o'i gymharu â 2% yn y flwyddyn flaenorol. Daw'r gyfradd atgyfeirio uwch hon hefyd law yn llaw â chynnydd sylweddol yn nifer y cwynion y Cod Ymddygiad a dderbyniwyd.

Yn ystod 2020/21, er gwaethaf heriau a achoswyd gan y pandemig, cymerwyd camau breision gan fy swyddfa wrth wneud cynnydd â gwaith yn ymwneud â Safonau Cwynion ac Ymchwiliadau ar ei Liwt ei Hun. Lanswyd thema a chyfnod

Tudalen 1 o 9

ymgyngori'r Ymchwiliad ar ei Liwt ei Hun Ehangach cyntaf - i Aseidiadau Digartrefedd Awdurdodau Lleol - ym mis Medi 2020 a disgwylir yr adroddiad yn y misoedd nesaf. Cychwynnom hefyd 4 Ymchwiliad ar ei Liwt ei Hun estynedig, lle gwnaethom ymestyn cwmpas ein gwaith ar gŵyn sydd eisoes yn destun ymchwil.

Y llynedd, bwriodd fy swyddfa ymlaen hefyd â dau gyhoeddiad newydd - 'Ein Canfyddiadau' a'n Hadroddiad Cydraddoldeb cyntaf.

Bydd modd cyrchu 'Ein Canfyddiadau' trwy wefan OGCC a bydd yn disodli'r coflyfrau chwarterol. Bydd Ein Canfyddiadau yn cael ei ddiweddarau'n amlach, a bydd yn offer mwy defnyddiol wrth rannu canlyniadau ymchwiliadau. Mae ein Hadroddiad Cydraddoldeb cyntaf yn tynnu sylw at y gwaith a wnaed i wella cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac i sicrhau bod ein gwasanaeth ar gael i bobl o bob rhan o'r gymdeithas.

Yn ystod 2020/21, parhaodd Awdurdodau Lleol yng Nghymru i gyflwyno data i'r Awdurdod Safonau Cwynion (CSA) am y cwynion a ymdriniwyd ganddynt. Cawsant hefyd weithdrefn gwynion enghreifftiol a mynediad at 76 sesiwn hyfforddi rithwir.

Mae'r data a gyflwynwyd ar gyfer 2020/2021 yn dangos:

- Cofnodwyd bron i 12,000 o gwynion gan Awdurdodau Lleol
- Mae hyn yn cyfateb i 3.77 ar gyfer pob 1000 o drigolion.
- Cadarnhawyd bron i hanner (44%) y cwynion hynny.
- Ymchwiliwyd i oddeutu 75% ohonynt o fewn 20 diwrnod gwaith.
- Cyfeiriwyd oddeutu 9% (6.91%) o'r holl gwynion a gaewyd at OGCC.

Bydd y CSA yn cyhoeddi data i wefan OGCC am y tro cyntaf yn y flwyddyn i ddod, gan nodi cyflawniad allweddol yng nghynnydd y gwaith hwn. Rhoddwyd sesiynau hyfforddi i bron pob Awdurdod Lleol yng Nghymru, ac mae ein cynnig o hyfforddiant yn parhau i fod yn benagored a rhad ac am ddim.

Gweler ynghlwm grynodedd o'r cwynion o gamweinyddu/methiant gwasanaeth a dderbyniwyd mewn cysylltiad â'ch Cyngor.

Hefyd ynghlwm y mae crynodeb o'r cwynion y Cod Ymddygiad mewn cysylltiad ag aelodau'r Cyngor a'r Cyngorau Tref a Chymuned yn eich ardal.

Gofynnaf i'r Cyngor gymryd y camau canlynol:

- Cyflwyno fy Llythyr Blynyddol i'r Cabinet i gynorthwyo'r aelodau i graffu ar berfformiad cwynion y Cyngor ac unrhyw gamau i'w cymryd o ganlyniad.
- Ymgysylltu â'm gwaith Safonau Cwynion, rhoi hyfforddiant i'ch staff a darparu data cwynion.
- Rhoi gwybod imi am ganlyniad ystyriaethau a chamau gweithredu arfaethedig y cyngor yng nghyswllt y materion uchod erbyn 15 Tachwedd.

Mae'r ohebiaeth hon yn cael ei chopio i Brif Weithredwr eich Cyngor a'ch Swyddog Cyswllt. Yn olaf, bydd copi o'r holl Lythyrau Blyneddol yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan.

Yn gywir,



Nick Bennett
Yr Ombwdsmon

cc.Eifion Evans, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Ceredigion
Trwy ebost yn unig: Eifion.evans@ceredigion.gov.uk

Taflen Ffeithiau

Atodiad A - Cwynion a Gafwyd

Awdurdod Lleol	Cwynion a Gafwyd	Derbyniwyd fesul 1000 o drigolion
Cyngor Bwrfeitstref Sirol Blaenau Gwent	15	0.21
Cyngor Bwrfeitstref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	31	0.21
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	46	0.25
Cyngor Caerdydd	96	0.26
Cyngor Sir Gâr	27	0.14
Cyngor Sir Ceredigion	32	0.44
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	32	0.27
Cyngor Sir Ddinbych	32	0.33
Cyngor Sir y Fflint	59	0.38
Cyngor Gwynedd	30	0.24
Cyngor Sir Ynys Môn	18	0.26
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	15	0.25
Cyngor Bwrdeistref Sir Fynwy	20	0.21
Cyngor Castell-nedd Port Talbot	19	0.13
Cyngor Dinas Casnewydd	31	0.20
Cyngor Sir Penfro	28	0.22
Cyngor Sir Powys	38	0.29
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	40	0.17
Cyngor Abertawe	73	0.30
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	12	0.13
Cyngor Bro Morgannwg	39	0.29
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	43	0.32
Cyfanswm	776	0.25

* yn cynnwys 2 Rhentu Doeth Cymru

Atodiad B - Cwynion a Gafwyd yn ôl Pwnc

Cyngor Sir Ceredigion	Cwynion a Gafwyd	% rhannu
Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion	5	16%
Gweinyddu Budd-daliadau	1	3%
Gwasanaethau Cymdeithasol Plant	3	9%
Cyfleusterau Cymunedol. Adloniant a Hamdden	0	0%
Ymdrin â Chwynion	5	16%
Covid19	3	9%
Addysg	0	0%
Yr Amgylchedd ac Iechyd yr Amgylchedd	1	3%
Cyllid a Threthiant	2	6%
Tai	2	6%
Trwyddedu	0	0%
Cynllunio a Rheoli Adeiladu	8	25%
Ffyrdd a Thrafnidiaeth	2	6%
Amrywiol Eraill	0	0%
Cyfanswm	32	

Atodiad C - Canlyniadau Cwynion
 (* yn dynodi ymyrraeth)

	Tu hwnt i Awdurdodaeth	Cynamserol	Achosion eraill wedi'u cau ar ôl ystyriaeth gychwynol	Datrys yn Gynnar/Setliad Gwirfoddol*	Wedi rhoi'r gorau iddi	Adroddiadau Eraill – Ni Chadarnhawyd	Adroddiadau eraill a gadarnhawyd*	Adroddiadau er Budd y Cyhoedd*	Cyfanswm
Cyngor Sir Ceredigion	6	9	12	4	0	0	0	0	31
% Share	19%	29%	39%	13%	0%	0%	0%	0%	

Atodiad D - Achosion lle ymyrrodd OGCC

	Nifer yr ymyriadau	Nifer y cwynion a gaewyd	% o ymyriadau
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	1	17	6%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	2	30	7%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	3	45	7%
Cyngor Caerdydd	26	100	26%
Cyngor Caerdydd - Rhentu Doeth Cymru	0	2	0%
Cyngor Sir Caerfyrddin	6	29	21%
Cyngor Sir Ceredigion	4	31	13%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	5	31	16%
Cyngor Sir Ddinbych	2	31	6%
Cyngor Sir y Fflint	11	62	18%
Cyngor Gwynedd	5	27	19%
Cyngor Sir Ynys Môn	1	17	6%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	0	14	0%
Cyngor Sir Fynwy	1	19	5%
Cyngor Castell-nedd Port Talbot	1	17	6%
Cyngor Dinas Casnewydd	5	29	17%
Cyngor Sir Penfro	3	26	12%
Cyngor Sir Powys	4	47	9%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	2	43	5%
Cyngor Abertawe	9	67	13%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	0	11	0%
Cyngor Bro Morgannwg	5	38	13%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	6	48	13%
Cyfanswm	102	781	13%

Atodiad E - Cwynion Y Cod Ymddygiad

	Wedi rhoi'r gorau iddi	Dim tystiolaeth o dorri'r cod	Dim angen gweithredu	Cyfeiriwyd at y Panel Dyfarnu	Cyfeiriwyd at y Pwyllgor Safonau	Tynnwyd yn ôl	Cyfanswm
Cyngor Sir Ceredigion	0	2	0	0	0	0	2

Atodiad F - Cwynion Cod Ymddygiad Cynghorau Tref/Cyngor Cymuned

	Wedi rhoi'r gorau iddi	Dim tystiolaeth o dorri'r cod	Dim angen gweithredu	Cyfeiriwyd at y Panel Dyfarnu	Cyfeiriwyd at y Pwyllgor Safonau	Tynnwyd yn ôl	Cyfanswm
Cyngor Cymuned Llanfair Clydogau	0	1	0	0	0	0	1
Cyngor Cymuned Trefeurig	1	0	0	0	0	0	1

Taflen Wybodaeth

Mae Atodiad A yn dangos nifer y cwynion a dderbyniwyd gan OGCC ar gyfer pob Awdurdod Lleol yn 2020/2021. Caiff y cwynion hyn eu rhoi mewn cyd-destun yn seiliedig ar nifer y bobl y mae pob bwrdd iechyd yn eu gwasanaethu yn ôl pob sôn.

Mae Atodiad B yn dangos categori pob cwyn a dderbyniwyd, a pha gyfran o'r cwynion a dderbyniwyd sy'n cynrychioli ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

Mae Atodiad C yn dangos canlyniadau'r cwynion a gaeodd OGCC mewn cysylltiad â'r Awdurdod Lleol yn 2020/2021. Mae'r tabl hwn yn dangos y niferoedd, a'r gyfran y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

Mae Atodiad D yn dangos Cyfraddau Ymyrru ar gyfer pob Awdurdod Lleol yn 2020/2021. Mae ymyrraeth yn cael ei gategoreiddio naill ai gan gŵyn a gadarnhawyd (naill ai cadarnhawyd er budd y cyhoedd neu cadarnhawyd nid er budd y cyhoedd), penderfyniad cynnar, neu setliad gwirfoddol.

Mae Atodiad E yn dangos canlyniadau cwynion y Cod Ymddygiad a gaewyd gan OGCC mewn perthynas ag Awdurdod Lleol yn 2020 / 2021. Mae'r tabl hwn yn dangos y niferoedd, a'r gyfran y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

Mae Atodiad F yn dangos canlyniadau cwynion y Cod Ymddygiad a gaewyd gan OGCC mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chynghorau Cymuned yn ardal yr Awdurdod Lleol. Mae'r tabl hwn yn dangos y niferoedd, a'r gyfran y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned.

Maer' dudalen yn wag yn fwriadol

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	Cyngor
Dyddiad y cyfarfod:	9 Rhagfyr 2021
Teitl:	Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu 2020/2021
Pwrpas yr adroddiad:	Er mwyn rhoi gwybodaeth ar waith y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn ystod 2020/2021
Er:	Gwybodaeth
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	I'w gyflwyno gan y Cynghorydd Elizabeth Evans, Cadeirydd Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu 2020/21

Mae adroddiad blynyddol Trosolwg a Chraffu yn tynnu sylw at y materion allweddol a ystyriwyd gan y pum pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn ystod 2020/2021.

Mae dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol i gyhoeddi adroddiad blynyddol ynglŷn â gwaith y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Cyhoeddir yr Adroddiad Blynyddol ar y dudalen we ynghylch Trosolwg a Chraffu ar wefan y Cyngor.

	A gwblhawyd Aseiad Effaith Integredig? Os naddo, esboniwch pam	Naddo – nid yw'r adroddiad yn cyfeirio at newid i wasanaeth na pholisi.
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	Crynodeb: Hirdymor: Amherthnasol Integreiddio: Amherthnasol Cydweithio: Amherthnasol Cynnwys: Amherthnasol Atal: Amherthnasol	
Argymhelliad / Argymhellion:	Gofynnir i'r Cyngor nodi'r wybodaeth sydd yn yr adroddiad a maint y gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2020/2021.	
Rheswm dros y penderfyniad:	Er mwyn bodloni'r gofyniad statudol i gyhoeddi adroddiad blynyddol am y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu.	
Trosolwg a Chraffu:	Ystyriwyd gan y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar 01.12.2021	
Fframwaith Polisi:		
Blaenoriaethau Corfforaethol:	<ul style="list-style-type: none"> • Hybu'r Economi • Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl • Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd • Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol 	

Tudalen 52

Goblygiadau Ariannol:	Dim
Pwerau Statudol:	Deddf Llywodraeth Leol 2000 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011
Papurau Cefndir:	Dim
Atodiadau:	Atodiad A – Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion 2020/2021
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd
Swyddogion Adrodd:	Lisa Evans, Swyddog Safonau a Chraffu Dwynwen Jones, Swyddog Trosolwg a Chraffu
Dyddiad:	11 Hydref 2021



Cyngor Sir Ceredigion
Adroddiad Blynyddol
Trosolwg a Chraffu
2020/21



Cyflwyniad

BETH YW TROSOLWG A CHRAFFU?

Mae pwyllgorau craffu'n rhan o'r ffordd y mae llywodraeth leol yn gweithredu yng Nghymru. Ochr yn ochr â'r gofyniad i sefydlu gweithrediaeth sy'n gwneud penderfyniadau, mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 hefyd yn peri iddi fod yn ofynnol sefydlu un neu ragor o bwyllgorau craffu i ddwyn y penderfynwyr i gyfrif, i hybu gwelliannau, i weithredu fel llais y gymuned, ac i gynorthwyo â'r gwaith o lunio ac adolygu polisïau.

Mae'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus yn argymhell pedair prif egwyddor i gynorthwyo Aelodau i ymgymryd â gwaith craffu effeithiol:

- i. Herio'r rheini sy'n llunio polisïau ac yn gwneud penderfyniadau fel 'cyfaill beirniadol';
- ii. Sicrhau bod llais a phryderon y cyhoedd a chymunedau'n cael eu clywed;
- iii. Sicrhau mai 'llywodraethwyr annibynnol eu meddwl' sy'n arwain ac yn perchnogi'r broses graffu;
- iv. Sicrhau bod y broses yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn hybu gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus.

Mae'r *Canllawiau Statudol i Gynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru ar Drefniadau Gweithrediaeth a Threfniadau Amgen* (2006) yn nodi "bod pwyllgorau trosolwg a chraffu yn rhan hanfodol ac annatod o drefniadau gweithrediaeth".

Ym mis Ionawr 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bapur gwyn o'r enw *Diwygio Llywodraeth leol: cadernid ac adnewyddiad*. Roedd y papur gwyn yn gofyn am sylwadau ar gynigion i beri iddi fod yn orfodol gweithio ar sail ranbarthol i ddarparu gwasanaethau amrywiol, i fynd i'r afael â materion gweithlu, ac i fynd ati i ddiwygio'r drefn etholiadol. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi papur gwyrdd sy'n egluro ei dyheadau ac yn amlinellu datganiad o'i bwriad i gryfhau ac i rymuso llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'r cynigion hyn yn amlinellu dull o sicrhau y bydd modd i lywodraeth leol fynd ati yn y dyfodol "i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus cryfach, mwy cadarn a chynaliadwy, gydag atebolrwydd democrataidd yn graidd iddi".

Pan darodd y pandemig, ffocws Cyngor Sir Ceredigion oedd amddiffyn ei breswylwyr a pharhau i weithredu ei swyddogaethau allweddol. Yn ystod y cyfnod hwn rydym wedi dysgu craffu o bell, cynnal agwedd hyblyg tuag at ein rhaglenni blaen ac addasu i flaenoriaethau sy'n newid. Mae gweithio o bell wedi ein dysgu i symleiddio prosesau, cynnal ansawdd tra'n cynyddu ein hyblygrwydd a'n ystwythder. Ailddechreuodd Pwyllgorau Craffu eu rhaglenni gwaith o fis Medi 2020. Mae pwyllgorau wedi cyfarfod yn rheolaidd ac yn parhau gyda'r gwaith craffu a flaenoriaethir.

Tudalen 55

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn llawer byrrach na blynyddoedd blaenorol. Roedd hyn fel na wnaethom roi unrhyw faich gormodol ar ein Swyddogion a'n Partneriaid a oedd yn rhan o broses ymateb ac adfer Covid.

Mae'n wir dweud bod y pandemig wedi cael ac yn parhau i ael effaith ar fywydau pobl, ein cymunedau a'r modd y mae'r Cyngor yn darparu ei wasanaethau. Mae rheoli'r ymateb brys i'r pandemig, y Cyfnod Adferiad a'r normal newydd yn gyfnod hynod heriol i'r Cyngor a phob sefydliad sector cyhoeddus arall ledled Cymru wrth i ni barhau i wynebu heriau argyfwng Covid-19.. Mae hyn wedi golygu bod y Cyngor wedi gorfod newid ei ffordd o weithio oherwydd yr argyfwng iechyd byd-eang hwn.

GALW PENDERFYNIADAU I MEWN



Pan wneir penderfyniad gan y Cabinet, aelod o'r Cabinet neu un o bwylgorau'r Cabinet, neu pan wneir penderfyniad dan drefniadau ar y cyd, bydd y penderfyniad yn cael ei gyhoeddi, gan gynnwys drwy ddulliau electronig lle bo hynny'n bosibl, a bydd ar gael ym mhrif swyddfeydd y Cyngor cyn pen dau ddiwrnod gwaith ar ôl iddo gael ei wneud fel rheol. Bydd y sawl sy'n gyfrifol am gyhoeddi'r penderfyniad yn anfon copi o'r cofnodion at yr Aelodau cyn pen dau ddiwrnod gwaith. Bydd yr hysbysiad yn dangos dyddiad cyhoeddi'r penderfyniad ac yn nodi y bydd yn dod i rym, ac y gellir ei roi ar waith, ar ôl i bum diwrnod gwaith fynd heibio ar ôl cyhoeddi'r penderfyniad, oni bai fod tri aelod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu y mae ei gylch gorchwyl yn gysylltiedig â phenderfyniad y Cabinet (fel y nodir yn Erthygl 6 o Ran 2 o'r Cyfansoddiad) neu chwe Aelod Etholedig o'r Cyngor a Chadeirydd y Pwyllgor hwnnw, yn gwrthwynebu'r penderfyniad a'i alw i mewn. Ceir mwy o wybodaeth am y broses o alw penderfyniadau i mewn ar dudalen 211 o Gyfansoddiad y Cyngor. <https://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/ynghlyn-cyngor/cyfansoddiad-y-cyngor/>

Ni dderbyniodd Cyngor Sir Ceredigion unrhyw gais i alw mewn penderfyniadau yn ystod cyfnod yr adrodd hwn.

Y PWYLLGORAU

Ceir pum pwyllgor trosolwg a chraffu thematig:

Tudalen 56



- Cydlynu



- Cymunedau Ffyniannus



- Cymunedau sy'n Dysgu



- Cymunedau Iachach



- Adnoddau Corfforaethol

O dan adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, rhoddir pwerau adolygu a chraffu eang i'r pwyllgorau, ynghyd â'r gallu i lunio adroddiadau ac i wneud argymhellion o ran unrhyw fater sy'n berthnasol i'r ardal a'i thrigolion. Yn ôl y canllawiau, swyddogaethau'r cynghorwyr sy'n ymgymryd â gwaith trosolwg a chraffu yw:

- dal y weithrediaeth yn atebol am arfer swyddogaethau'r weithrediaeth yn effeithlon – yn arbennig perfformiad y weithrediaeth o'i fesur yn erbyn y safonau, yr amcanion a'r targedau a nodir yn y polisïau a'r cynlluniau y mae'n eu gweithredu;
- helpu i wella ac i ddatblygu polisïau'r cyngor drwy bwysu a mesur a ydynt yn cyrraedd yr amcanion a nodwyd, a yw'r polisïau hynny a'r ffordd y maent yn cael eu gweithredu yn adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau'r cymunedau lleol a thrwy gyflwyno adroddiadau ac argymhellion i'r weithrediaeth neu i'r cyngor llawn;
- adolygu materion sy'n effeithio ar ardal yr awdurdod neu ei thrigolion a chyflwyno adroddiadau arnynt;

Tudalen 57

- iv. edrych a yw'r systemau y mae'r weithrediaeth wedi'u sefydlu i gyflwyno'i swyddogaethau yn gadarn ac yn cael eu parchu'n iawn.

Yn ychwanegol at hyn, gallant adolygu sut y mae'r swyddogaethau anweithredol yn cael eu cyflawni a llunio adroddiadau am faterion o ddiddordeb lleol mwy cyffredinol. Gallent gyflysu hyn â phŵer yr awdurdod o dan Ran 1 o'r Ddeddf i hybu lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol drwy nodi meysydd y gallai'r weithrediaeth roi sylw iddynt gan ddefnyddio'r pŵer hwn.

Mae canllawiau Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn nodi bod gan swyddogaeth graffu unrhyw awdurdod rôl glir yn ei brosesau gwella, a hynny fel rhan o'i swyddogaeth i ddwyn penderfynwyr a llunwyr polisïau i gyfrif yn lleol, a'i swyddogaeth llunio polisïau. Dylai hyn gynnwys:

- i. craffu ar y prosesau y mae awdurdod wedi mynd trwyddynt wrth gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol i wella;
- ii. craffu ar addasrwydd y sefydliad i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol i wella;
- iii. craffu ar y prosesau y mae awdurdod wedi mynd trwyddynt wrth ddewis ei amcanion gwella, gan gynnwys adolygu lefel yr ymgysylltu â rhanddeiliaid;
- iv. craffu ar fonitro'r cynnydd wrth gyflenwi amcanion gwella'r awdurdod;
- v. hyrwyddo arloesi trwy herio'r drefn ac annog gwahanol ffyrdd o feddwl ac opsiynau cyflenwi.

O dan adran 35 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol sicrhau bod gan ei bwyllgorau trosolwg a chraffu bŵer i graffu ar y penderfyniadau a wneir gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ardal yr awdurdod lleol, neu'r camau a gymerir ganddo, pan fydd yn arfer ei swyddogaethau.

Yn ystod y flwyddyn adrodd flaenorol, bu aelodau'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu'n trin a thrafod materion a oedd yn ymwneud â chraffu ar waith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion (y Bwrdd).

I gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ac i sicrhau bod trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol ar waith ar gyfer y Bwrdd, cytunwyd y byddai Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion yn gyfrifol am gael trosolwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd.

Cytunodd Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion i ddefnyddio'r dull a ganlyn i gael trosolwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd.

- i. Adolygu'r penderfyniadau a wnaed neu'r camau a gymerwyd gan y Bwrdd, neu graffu arnynt, drwy wneud yr hyn a ganlyn:
 - Gweithredu fel ymgynghorai ffurfiol ar gyfer yr Asesiad o Lesiant Lleol
 - Gweithredu fel ymgynghorai ffurfiol ar gyfer y Cynllun Llesiant Lleol
 - Cael adroddiad cynnydd blynyddol y Bwrdd
 - Cael cofnodion y Bwrdd
 - Cael adroddiadau monitro perfformiad y Bwrdd.

- ii. Adolygu **trefniadau llywodraethu'r Bwrdd**, neu graffu arnynt, drwy wneud yr hyn a ganlyn:
 - Cael cylch gorchwyl y Bwrdd ar ôl pob un o gyfarfodydd gorfodol y Bwrdd (rhaid cynnal cyfarfod gorfodol o'r Bwrdd cyn pen 60 diwrnod ar ôl pob etholiad arferol i ethol cynghorwyr fan bellaf).
 - Gwahodd aelodau o'r Bwrdd i roi tystiolaeth o ran y modd y mae cydswyddogaethau'n cael eu harfer (ond dim ond o ran arfer y cydswyddogaethau a roddwyd iddynt fel aelod statudol o'r Bwrdd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol).
- iii. Llunio adroddiadau neu wneud argymhellion i'r Bwrdd o ran ei swyddogaethau neu ei drefniadau llywodraethu.
- iv. Cyfeirio materion at y pwyllgor trosolwg a chraffu thematig perthnasol i'w ystyried ymhellach fel y bo'n briodol.
- v. Cyflwyno argymhellion y pwyllgor(au) craffu i'r Cabinet, y Bwrdd a'r is-grŵp perthnasol.

Gall y pwyllgorau craffu gyflawni eu gwaith drwy un o'r ffyrdd a ganlyn:

- i. Ystyried pwnc yn ystod cyfarfod ffurfiol;
- ii. Sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ymchwilio i bwnc mewn mwy o fanylder;
- iii. Ystyried pwnc mewn ffrwd waith (gweler y manylion a geir yn adran y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu ar dudalen 52 isod);
- iv. Ymweld â safleoedd.

Bu'r pwyllgorau trosolwg a chraffu'n canolbwyntio ar y meysydd hynny lle y gallent ddylanwadu fwyaf ar y canlyniadau i bobl Ceredigion. O'r herwydd, aeth y pwyllgorau ati i adolygu pynciau amrywiol, ac mae rhai o'r adolygiadau hyn yn dal i fynd rhagddynt.

Mae aelodau'r pwyllgorau trosolwg a chraffu wedi gweithio'n galed i greu diwylliant lle mae tryloywder, cyfranogiad ac atebolrwydd yn cael eu croesawu a lle mae her yn cael ei hystyried yn rhan anhepgor a chadarnhaol o'r broses o wella canlyniadau. Mae'n dal i fod yn hanfodol bod y pwyllgorau trosolwg a chraffu'n parhau i gyfrannu'n gadarnhaol at y gwaith o gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor drwy eu rôl fel cyfaill beirniadol.

Hunanwerthuso'r pwyllgorau trosolwg a chraffu

Bob blwyddyn, cynhelir adolygiad o effeithiolrwydd y pwyllgorau trosolwg a chraffu. Gellir llenwi'r holiadur ar-lein neu ar bapur. O ran holiadur 2018/19, daeth 20 ymateb i law (allan o gyfanswm posibl o 42). Cytunodd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd y dylid lleihau nifer y cwestiynau yn holiadur 2019/20 i geisio cynyddu nifer yr ymatebion.

Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu

Cyfarfu'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu dair gwaith yn ystod blwyddyn fwrdeistrefol 2020/2021.



Ymhlith yr eitemau safonol a drafodir ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu y mae diweddariad am ddatblygiadau o ran y swyddogaeth graffu, a diweddariad gan y Cadeiryddion am waith eu pwyllgorau. Mae hyn yn rhoi ffocws clir i waith y pwyllgorau thematig.

Y prif faterion a drafodwyd

Rôl y Pwyllgor Cydlynu yw goruchwyllo holl flaenraglenni gwaith y pwyllgorau trosolwg a chraffu i sicrhau eu bod yn berthnasol, eu bod yn gydnaws â'r blaenoriaethau corfforaethol, a'u bod yn canolbwyntio ar feysydd allweddol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn sicrhau bod y blaenraglenni gwaith yn cael eu cydlynu i osgoi dyblygu, gan sicrhau eu bod yn realistig ac yn ymarferol o ystyried yr adnoddau sydd ar gael, a'u bod yn debygol o ychwanegu gwerth. Mae pob pwyllgor yn cytuno i ystyried ei flaenraglenni gwaith ei hunan.

Cyflwynodd y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol adroddiad am ymateb Cyngor Sir Ceredigion i Covid-19. Dywedodd y Prif Weithredwr wrth yr Aelodau mai blaenoriaeth Cyngor Sir Ceredigion - o'r cychwyn cyntaf - oedd diogelu'r trigolion a chadw'r nifer a fyddai'n dal y coronafeirws a nifer y marwolaethau ohono mor isel â phosib. Eglurwyd bod hwn wedi bod yn gyfnod heriol tu hwnt i bawb.

Dywedwyd bod Grŵp Rheoli Aur a oedd yn cynnwys Uwch-dîm Rheoli'r Cyngor wedi'i sefydlu ar unwaith; roedd y grŵp wedi cwrdd yn ddyddiol ers canol mis Mawrth i arwain ymateb y Cyngor i COVID-19. Ar 25 Mawrth 2020, rhoddodd Arweinydd a Dirprwy Arweinydd y Cyngor bwerau dirprwyedig dros dro i Brif Weithredwr a Grŵp Arweiniol y Cyngor i wneud penderfyniadau yn ymwneud ag ymateb y Cyngor i COVID-19. Gwnaed y penderfyniad i ddirprwyo awdurdod yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor. Mae'r pum Grŵp Arian canlynol yn cefnogi'r Grŵp Rheoli Aur ac maent yn adrodd yn wythnosol i'r Grŵp Rheoli Aur:

1. Olrhain Cysylltiadau a Phrofi

Tudalen 60

2. Addasiadau Economaidd
3. Ailagor Ysgolion
4. Marwolaethau Ychwanegol (rhoddwyd y gorau i'r grŵp hwn erbyn hyn)
5. Digartrefedd (rhoddwyd y gorau i'r grŵp hwn erbyn hyn)

Cyfarfu'r Prif Weithredwr a'r Arweinydd o leiaf unwaith yr wythnos gyda chynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghyd ag Arweinwyr a Phrif Weithredwyr eraill, yr Aelod Seneddol a'r Aelod o Senedd Cymru. Rhoddwyd sesiynau briffio rheolaidd i Aelodau'r Cabinet ac Arweinydd yr Wrthblaid.

Cyfeiriwyd at y camau gweithredu canlynol:

- Cael Ceredigion i lawr i'w phoblogaeth graidd gan weithio gyda'r sector twristiaeth a'r Prifysgolion i gau eu cyfleusterau;
- Cau drysau'r Cartrefi Gofal i ymwelwyr;
- Sefydlu Hwb Cyfarpar Diogelu Personol (PPE);
- Gweinyddu cymorth ar ffurf grantiau i fusnesau (dyrannwyd dros £28 miliwn yn ystod cyfnod y coronafeirws i fusnesau yng Ngheredigion);
- Y Tîm Diogelu'r Cyhoedd yn cefnogi busnesau er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion o ran cadw pellter cymdeithasol a'r rheoliadau newydd;
- Cysylltu dros y ffôn â'r rhai sy'n fregus yn feddygol a'r rhai sy'n cysgodi er mwyn sicrhau bod bwyd a meddyginiaeth yn cael eu cyflenwi;
- Darparu bocsys bwyd wythnosol gyda chynnyrch lleol i dros 950 o drigolion bregus, ac mae staff y Cyngor wedi cysylltu â dros 2,500 o unigolion yn rheolaidd (derbyniwyd 159 o negeseuon o ganmoliaeth parthed y bocsys bwyd a'r cyswllt rheolaidd). Yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru, daeth y cynllun bocsys bwyd i ben ar 16 Awst 2020;
- Darparu llety dros dro i'r digartref;
- Unigolion a grwpiau yn gwirfoddoli i gyflenwi bwyd a meddyginiaeth i'r rheini sy'n cysgodi;
- Darparu gofal plant i blant gweithwyr gwasanaethau rheng flaen;
- Nifer o staff ar draws holl ysgolion uwchradd y sir wedi bod yn cynhyrchu masgiau.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod system olrhain cysylltiadau wedi'i datblygu gan y Cyngor ddechrau mis Ebrill gan ddwyn ynghyd dîm o staff â sgiliau ym maes olrhain iechyd yr amgylchedd, diogelu data, adnoddau dynol a systemau data TGCh. Cafodd y system rheoli data ei llywio gan swyddogion Iechyd yr Amgylchedd oedd â phrofiad o olrhain achosion megis legionella a gwenwyn bwyd. Daeth y Cyngor wedyn yn rhan o'r cynllun cenedlaethol ar gyfer Profi, Orlhain a Diogelu.

O'r cychwyn cyntaf, bu Cyngor Sir Ceredigion yn cydweithio'n agos â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Heddlu Dyfed-Powys, Prifysgol Aberystwyth, busnesau a nifer o

Tudalen 61

grwpiau gwirfoddol ac elusennol er mwyn sicrhau bod cydweithio a chyfathrebu effeithiol yn digwydd.

Trafodwyd y cam addasu a chydnerthedd y Cyngor yn yr hirdymor. Diben y trydydd cyfnod oedd pennu strategaethau tymor canolig a hirdymor a fyddai'n nodi arferion gwaith newydd a allai barhau hyd at ddiwedd pandemig COVID-19.

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

Cododd Aelod o'r Pwyllgor bryder ynghylch bod rhai ardaloedd wedi'u rhoi dan gyfyngiadau lleol a bod trigolion yr ardaloedd hynny yn teithio i Geredigion i aros yn eu hail gartrefi, er mwyn osgoi eu cyfyngiadau lleol. Mynegwyd siom nad oedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi rheolau llymach ar waith. Mewn ymateb i'r pryder hwn, cadarnhawyd y bu trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ynghlŷn â'r mater hwn.

Mynegwyd pryder fod y boblogaeth hŷn yn ei chael hi'n anodd derbyn nad ydynt yn gallu defnyddio arian parod mwyach a bod yn rhaid iddynt ddefnyddio cardiau yn y rhan fwyaf o siopau, ac ati. Awgrymwyd y dylid darparu cymorth ac arweiniad i helpu'r henoed.

Cyflwynwyd trosolwg o amcanion a chyflawniadau Bwrdd Diogelu Plant ac Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru ar sail Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus 2011 gerbron y Pwyllgor.

Daeth Sian Howys, Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal i un o'r cyfarfodydd i gyflwyno Adroddiad Blynyddol 2018/2019 gan amlinellu'r cynnydd a wnaed ar sail y deilliannau a osodwyd gan CYSUR a CWMPAS ym mis Mawrth 2018 fel rhan o'r Cynllun Strategol Blynyddol ar y cyd.

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i nodi'r adroddiad er gwybodaeth, gan wneud hynny fel y Pwyllgor sy'n gyfrifol am faterion Diogelu.

Hefyd, cyflwynwyd Adroddiadau Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol CYSUR Chwarteri 2, 3 a 4 2019-20 gerbron y Pwyllgor.

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

Yn dilyn cwestiwn gan Aelod ynghylch capasiti'r staff, dywedwyd wrth y Pwyllgor nad oedd yn anodd recriwtio staff ar hyn o bryd gan fod cynnydd, yn ôl pob golwg, yn nifer y bobl ifanc a oedd yn dymuno dilyn gyrfa mewn Gwaith Cymdeithasol. Hefyd roedd y Cynllun Gwaith Cymdeithasol dan Hyfforddiant yn gweithio'n dda iawn yng Ngheredigion. Cadarnhawyd hefyd fod cyfathrebu parhaus rhwng y Bwrdd lechyd a'r Heddlu.

Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion ar gyfer 2019-20. Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Iunio a chyhoeddi adroddiadau blynyddol sy'n ymwneud â chyflawni eu Cynlluniau Llesiant. O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n ofynnol bod yr adroddiadau blynyddol yn cael eu craffu gan bwyllgorau Trosolwg a Chraffu'r

Byrddau yn lleol. Yn wahanol i'r asesiadau llesiant a'r cynlluniau llesiant, nid oes yn rhaid i'r Bwrdd aros am argymhellion y panel craffu cyn cymeradwyo adroddiadau blynyddol. Fodd bynnag, anogir y Bwrdd i ddefnyddio argymhellion y Pwyllgor Craffu wrth ddatblygu rhaglenni gwaith a'r chyflawni'r gwaith adrodd yn y dyfodol. Yn dilyn gohebiaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2020, cydnabuwyd effaith Covid-19 ar sefydliadau'r Bwrdd wrth i lawer ohonynt orfod cyfeirio staff i ymateb i faterion gweithredol a brys. O ganlyniad, roedd modd i aelodau'r Bwrdd ystyried dull 'ysgafnach' o gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2019-2020, gan gydnabod yr effaith sylweddol ar sefydliadau'r Bwrdd a chymunedau. Cyfeiriwyd at y chwe nod lles a gyflawnir gan y grwpiau prosiect a'r cynllunio at y dyfodol sydd bellach yn cael ei weld drwy lygaid Covid-19; roedd y grwpiau prosiect hynny a oedd wedi cwrdd dros y chwe mis diwethaf wedi bwrw golwg eto ar eu cynlluniau cyflawni gan gadw hyn mewn cof.

Cyfeiriwyd hefyd at y gwaith a wnaed gan Grŵp Prosiect 'Deall ein Cymunedau'. Roedd y ffaith bod grwpiau cymorth cymunedol wedi datblygu'n gyflym ar ddechrau cyfnod clo Covid-19 wedi dangos mor werthfawr oedd cael cymorth lleol iawn mewn ymateb i argyfwng. Trwy gofnodi'r cymorth hwn ar ffurf mapiau haenog, llwyddwyd i gael darlun daearyddol o'r sefydliadau a'r grwpiau cymorth cymunedol a oedd yn ymateb i Covid-19, gan gynnwys Banciau Bwyd, Cynghorau Cymuned a Thref, Cysylltwyr Cymunedol a Grwpiau Cymorth Lleol. Drwy'r gwaith hwn, roedd modd nodi'r meysydd lle'r oedd bylchau posib a gweithredu dulliau o gefnogi'r grwpiau hynny lle'r oedd y ddarpariaeth yn deneuach. Darparodd hyn sylfaen dda i Gynghorau Cymuned a Thref, ac eraill a oedd yn weithgar yn eu cymunedau fel y gallent ymgysylltu ymhellach â'u cymunedau yn y dyfodol.

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

Codwyd pryder ynghylch y ffaith nad oedd sefydliadau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn llwyr ystyried integreiddio eu gwasanaethau gan greu hybiau ar y cyd mewn un lleoliad. Rhannwyd y neges hon ag aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y cyfarfod nesaf.

Dymunai un o'r Cynghorwyr atgoffa aelodau'r Bwrdd i gynnwys Cynghorau Tref a Chymuned wrth ymgysylltu, yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig. Cytunwyd y byddai'r pwynt hwn yn cael ei godi yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cadarnhawyd bod croeso i Gynghorwyr arsylwi ar gyfarfodydd y Bwrdd.

Cytunwyd i dderbyn Adroddiad Blynyddol Cynllun Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion ar gyfer 2019-20 fel y'i cyflwynwyd.

Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu 2019/20 cyn iddo gael ei gyflwyno gerbron y Cyngor.

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

Gwnaeth y Cyngor nodi'r Adroddiad Blynyddol.

Tudalen 63

Yn ddiweddarach yn y flwyddyn fwrdeistrefol, ystyriwyd Adroddiad Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol Cyfun CYSUR/CWMPAS Chwarter 1 2020/21.

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

Dyma grynodeb o'r pwyntiau allweddol a ystyriwyd:

- *Roedd gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau yn ymwneud â phlant a arweiniodd at weithredu yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru o'i gymharu â'r chwarter blaenorol ond mae'r nifer yn parhau'n gyson â'r nifer ar yr adeg hon y llynedd.*
- *Y prif bryderon a arweiniai at gyflawni ymholiadau yn ymwneud â diogelwch plant oedd honiadau o gam-drin corfforol a cham-drin rhywiol.*
- *Roedd gwelliant sylweddol yng nghanran y cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol a gynhaliwyd o fewn yr amserlen angenrheidiol.*
- *Y prif ffactorau risg a gofnodwyd oedd cam-drin domestig, rhieni'n gwahanu, rhieni'n cam-drin sylweddau a rhieni ag anawsterau iechyd meddwl.*
- *Roedd naw plentyn yn llai ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, ond mae'r nifer hwn yn parhau o fewn yr ystod arferol.*
- *Roedd gostyngiad yn nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd yn ymwneud ag oedolion mewn perygl o'i gymharu â'r chwarter blaenorol a gostyngiad mawr mewn adroddiadau a dderbyniwyd o'i gymharu â'r un chwarter yn 2019. Mae cyfnod chwarter 1 yn cynnwys y cyfnod pan ddaeth y canllawiau llym i gadw pellter cymdeithasol i rym ac yn ystod y cyfnod hwn roedd gostyngiad sylweddol yn nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd gan y Gwasanaeth Diogelu Oedolion. Ar ddechrau'r ail chwarter, yn ystod misoedd Gorffennaf ac Awst, cafwyd cynnydd sylweddol yn yr adroddiadau a dderbyniwyd. Derbyniodd y tîm 123 o adroddiadau hyd at ddiwedd mis Awst.*
- *Yn Chwarter 1, rheolwyr cartrefi gofal, staff Gwasanaeth Tai yr Awdurdod Lleol a staff Gwaith Cymdeithasol fu prif ffynonellau'r adroddiadau yn ymwneud ag oedolion mewn perygl, gyda staff gwaith cymdeithasol a staff Gwasanaeth Tai yr Awdurdod Lleol yn adrodd am bryderon parthed sefyllfaoedd o gam-drin domestig neu bryderon am gam-drin o'r fath.*
- *Cam-drin emosiynol/seicolegol oedd y prif fath o gamdriniaeth yr adroddwyd amdano yn Chwarter 1 o safbwynt oedolion mewn perygl.*
- *Yn ystod y Chwarter hwn, roedd un ymchwiliad heddlu parhaus ar raddfa fawr ynghylch honiadau a wnaed yn erbyn staff mewn cartref gofal preswyl a oedd yn gofalu am bobl ag anableddau dysgu.*
- *Mae'r Tîm Diogelu Oedolion yn bwrw ymlaen â'r gwaith gyda Nick Andrews, Swyddog Ymchwilio a Datblygu Arferion ym Mhrifysgol Abertawe, er mwyn datblygu fframwaith Sicrhau Ansawdd a fydd yn ein galluogi i gasglu gwerthusiadau ystyrllon oddi wrth unigolion/ teuluoedd sydd wedi bod drwy'r broses Ddiogelu.*

Derbyniodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am Gofnod Penderfyniadau Grŵp Rheoli Aur COVID-19.

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

Mynegwyd pryder nad oedd Aelodau Lleol wastad yn cael gwybod am faterion a oedd yn effeithio ar eu hardal leol a gofynnwyd am i'r neges hon gael ei throsglwyddo i'r Grŵp Rheoli Aur i'w hatgoffa am bwysigrwydd cyfathrebu â'r Aelodau Lleol.

Mynegwyd pryder nad oedd modd cynnal ymweliadau safle yn y maes cynllunio ar yr adeg honno ac esboniwyd y rhesymau dros beidio â chaniatáu'r ymweliadau.

Mae'r Pwyllgor yn derbyn adroddiadau rheolaidd am fonitro defnydd yr Awdurdod o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA). Mae'r adroddiad yn rhoi sylw i weithgaredd RIPA, mesurau ar gyfer diogelu dulliau o drafod a chadw data, polisi a gweithdrefnau corfforaethol RIPA, polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA'r Cyngor, a hyfforddiant.

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

Cytunodd y Pwyllgor i:

- 1) nodi na fu unrhyw weithgaredd RIPA gan unrhyw un o wasanaethau'r Cyngor yn ystod y cyfnod rhwng 1 Awst 2019 a 30 Tachwedd 2020.*
- 2) nodi cynnwys y ddogfen ddrafft ddiwygiedig Polisi a Gweithdrefnau RIPA Corfforaethol.*

Mae cofnodion cyfarfodydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion yn cael eu hadrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor. Hefyd, mae'r aelodau'n ystyried adroddiadau Grwpiau Prosiect y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

Argymhellwyd y dylai cynrychiolydd o'r Cynghorau Tref / Cymuned fod ar y Bwrdd a chadarnhawyd bod cynrychiolydd o Un Llais Cymru yn Aelod o'r Bwrdd ar hyn o bryd. Argymhellodd Aelod arall y byddai'n fuddiol i Aelodau'r Pwyllgor pe byddai aelodau'r Grwpiau Prosiect unigol yn gallu mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sy'n mynd rhagddo. Aeth y Cadeirydd â'r cais hwn yn ôl i gyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Cytunodd yr Aelodau i dderbyn y cofnodion ac i dderbyn adroddiadau'r Grwpiau Prosiect.

Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2019-2020.

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

Cytunodd yr Aelodau i dderbyn a chadarnhau Adroddiad Monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020, fel y'i cyflwynwyd, ar yr amod y nodir ar dudalen 20 yr adroddiad fod lle chwarae Llandygydd yn eiddo i Tai Ceredigion.

Tudalen 65

Ystyriodd y Pwyllgor y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol cyn iddi ddod i rym. Esboniwyd diben y ddyletswydd i Aelodau'r Pwyllgor, sef cynnwys y cwestiynau arfaethedig am y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn Asesiadau Effaith Integredig y Cyngor. Gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Mae Adran 45 o Ddeddf Cymru 2017 yn datganoli pŵer i Weinidogion Cymru i weithredu'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol ar gyfer Llywodraeth Cymru.
- Mae hyn yn golygu rhoi Rhan 1, Adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ar waith.
- Mae Rhan 1, Adran 1 o Ddeddf 2010 yn gofyn bod cyrff cyhoeddus penodol, wrth wneud penderfyniadau strategol megis 'pennu blaenoriaethau a gosod amcanion', yn ystyried sut y gall eu penderfyniadau helpu i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.
- Yn fras, mae'r ddyletswydd yn ofyniad i gynnal asesiad o'r effaith ar dlodi.
- Cynigir bod testun a chwestiynau ychwanegol yn cael eu cynnwys yn y templed ar gyfer Asesiadau Effaith Integredig.

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i dderbyn a chadarnhau'r set arfaethedig o gwestiynau o ran y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol er mwyn eu cynnwys o fewn pecyn Asesu Effaith Integredig y Cyngor. Bu iddynt hefyd argymhell y dylid cynnal Gweithdy am y pwnc hwn i'r holl Aelodau yn y dyfodol agos.

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, yr adroddiad ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2021/2022 gan gynnwys y rhaglen gyfalaf tair blynedd. Nodwyd bod cyfanswm y setliad refeniw a ddyrannwyd i Geredigion yn adlewyrchu cynnydd o 2% o'i gymharu â 2020/21 sef y setliad isaf yng Nghymru. Roedd y setliad yn adlewyrchu ystod o symudiadau ail-ddosbarthu llai ffafriol yn ariannol gan gynnwys gostyngiad yn y ffigurau a ragwelir yn y boblogaeth yn ogystal â niferoedd disgyblion meithrin/ysgol gynradd.

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

Cafwyd trafodaeth ynghylch ailddyrrannu arbedion pe bai cyllid gwaelodol yn cael ei gyflwyno, a nodwyd y byddai'r Cabinet yn adolygu unrhyw welliannau a fyddai'n dod i'r amlwg. Nododd yr aelodau hefyd eu pryderon ynghylch y posibilrwydd o golli swyddi a'r effaith ar ddisgyblion ysgol os byddai'r fformiwla cyllido'n cael ei lleihau o ganlyniad i lai o ddisgyblion, a gofynasant am fwy o wybodaeth ynghylch cyd-brynu a'r rhaglen cyllid gyfalaf ar gyfer ffermydd sirol a oedd yn deillio o'r ddeddfwriaeth newydd ar Barthau Perygl Nitradau. Nodwyd hefyd, oherwydd COVID-19 a ffyrlo, fod hwn yn gyfnod hynod heriol i drigolion Ceredigion.

Daeth y drafodaeth i ben gydag esboniad pam oedd angen cynnydd o 3.5% yn Nhreth y Cyngor pan fo chwyddiant cyffredinol yn is na hyn a phan fo llawer o drigolion yn ei

Tudalen 66

chael hi'n anodd. Esboniwyd bod Treth Cyngor Band D y Cyngor yn is na chyfartaledd lefel Cymru gyfan a phan edrychid ar y pwysau manwl o ran costau yr oedd y Gwasanaethau yn eu hwynebu, fod y Cyngor fel rheol yn wynebu pwysau chwyddiant o 5% i 6% y flwyddyn, sef y lefel reolaidd ers sawl blwyddyn. Er bod elfen o hyn yn ymwneud â dyfarniad cyflog, roedd y rhan fwyaf yn ymwneud â phwysau ar wasanaeth rheng flaen (e.e. Gofal Cymdeithasol) a oedd wedi'i yrru'n rhannol gan y niferoedd ynghyd â ffactorau allanol fel y Cyflog Byw.

Er bod lefel chwyddiant rhwng 5% a 6% bob blwyddyn, nid oedd lefel y cyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn codi'n uwch na chwyddiant ac felly roedd mwy o faich ar y sawl oedd yn talu Treth y Cyngor. O ystyried y cefndir hwn, roedd y Cyngor yn dal i ddarparu ystod lawn o wasanaethau a oedd yn gyson naill ai'n cael eu hystyried yn Ardderchog, yn Dda lawn neu'n Dda ac roedd Archwilio Cymru wedi canmol y Cyngor am ei ddulliau gweithredu o ran rheolaeth ariannol a chydnerthedd ariannol cyffredinol.

Dywedwyd wrth yr aelodau i godi pryderon ynghylch meysydd gwasanaeth penodol yn y pwyllgorau Craffu perthnasol. Cytunwyd i nodi'r adroddiad.

Materion trosedd ac anhrefn

Daeth adrannau 19 ac 20 o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006, ynghyd â Rheoliadau Trosedd ac Anhrefn (Trosolwg a Chraffu) 2009, i rym ar 1 Hydref 2009.

Yn unol â'r ddeddfwriaeth hon, mae'n ofynnol i'r Cyngor sefydlu:

- 'pwyllgor craffu trosedd ac anhrefn' a fydd yn craffu ar waith Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion a'r cyrff sy'n aelodau ohoni mewn perthynas â'u swyddogaethau i ddiogelu'r gymuned,
- gweithdrefn a fydd yn sicrhau bod modd i'r pwyllgor trosolwg a chraffu, gan gynnwys y bartneriaeth a'r cyrff sy'n aelodau ohoni, fynd i'r afael â galwadau gan Gynghorwyr iddynt weithredu pan fyddant yn ymdrin â materion diogelwch cymunedol.

Bu i Bwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu'r Cyngor ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros faterion trosedd ac anhrefn.

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu

Gwnaeth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu gyfarfod 5 gwaith yn ystod y flwyddyn fwrdeistrefol 2020/2021.



Y prif faterion a drafodwyd

Cafodd y Flaenraglen Waith ei monitro a'i diweddarau ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor fel eitem sefydlog ar bob agenda.

Ystyriwyd y gefnogaeth i'r ysgolion yn ystod y cyfnod clo a thu hwnt gan y pwyllgor craffu. Rhoddodd y Prif Swyddog Addysg gyflwyniad power point i'r Aelodau er mwyn tynnu sylw at yr adroddiad yn fwy manwl a rhoi gwybodaeth a roddwyd i ysgolion yn ystod yr amser hwn. Cyflwynwyd y wybodaeth ganlydol:-

- Cefndir o ran Cau Ysgolion
- Hybiau gofal plant
- Cefnogi Dysgu
 - Gwefannau Teams i'w cefnogi
 - Cefnogaeth cyn 20fed Mawrth 2020
 - Cefnogi Teuluoedd
 - Tasgiau ar-lein
 - Dysgu o Bell
 - Clipiau Fideo
 - Hyfforddiant ar gyfer 'ffrydio byw'
 - Cymorthfeydd digidol
 - Dysgu cyfunol
 - Gwefan Dysgu o Bell
 - Cynllun Gweithredu Canllaw Dysgu-Tymor yr Haf (Pum thema)
 - Dysgu Carlam 'Dysgu Carlam Ceredigion'
 - Iechyd a Lles Emosiynol
 - Llythrennedd
 - 'Y Daith Darllen'
 - Rhifedd
 - Gwefan – adnodd ar gyfer disgyblion sy'n gorfod hunan-ynysu
- Cefnogi grwpiau penodol

Tudalen 68

- Tlodi Digidol
 - Cefnogi grwpiau penodol o ddisgyblion
 - Diogelu
 - Disgyblion yn cael Prydau Ysgol Am Ddim
 - Anghenion Dysgu Ychwanegol
 - Gweithio gyda gwasanaethau eraill
 - Gweithgareddau'r Haf
- Cefnogi ailagor Ysgolion
- Covid – Canllawiau ar ysgolion yn ailagor o fis Medi 2020
 - Asesiadau Risg
 - Cyfarpar Diogelu Personol
 - Cau ysgolion yn rhannol
 - Cyfathrebu

Mynychodd Ms Mair Hughes, Pennaeth Ysgol Penglais, Mr Owain Jones, Pennaeth, Ysgol Gyfun Aberaeron, Ms Nia Thomas, Pennaeth, Ysgol Gynradd Bro Sion Cwilt a Mr Eirwyn Griffiths, Pennaeth, Ysgol Gynradd Aber-porth i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor.

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

Codwyd y materion canlynol gan yr Aelodau ac aeth y Prif Swyddog Addysg i'r afael â hwy ynghyd â'r penaethiaid a oedd yn bresennol:

- *Pryder nad oedd disgyblion â rhieni di-Gymraeg yn gallu cynorthwyo eu Plant yn ystod y cyfnod clo gydag addysgu gartref ac felly wedi penderfynu mynd â'u plant allan o'r Ysgol Cyfrwng Cymraeg a'u cofrestru mewn ysgolion lle'r oedd Saesneg yn iaith yr ysgol. Mewn ymateb, nododd y Prif Swyddog Addysg nad oedd hwn yn batrwm ar hyn o bryd ac os oedd, byddai'r Gwasanaeth Addysg yn mynd i'r afael ag ef o ganlyniad. Roedd y Ganolfan Gymraeg hefyd wedi parhau i roi gwersi Cymraeg o bell i ddisgyblion yn ystod yr amser hwn.*
- *Bod y cyfathrebu yn ystod y cyfnod clo rhwng athrawon a disgyblion a'u rhieni trwy alwad ffôn wythnosol wedi bod yn hanfodol i gadarnhau lles yr holl ddisgyblion. Mewn rhai achosion, roedd wedi bod o fudd i berthnasoedd athrawon a rhieni.*
- *Hysbyswyd yr aelodau gan y Penaethiaid bod defnyddio'r systemau i gynorthwyo athrawon i addysgu trwy dechnoleg wedi annog athrawon i ehangu eu sgiliau TG, roedd hwn wedi bod yn gam cadarnhaol iawn i bob ysgol.*
- *Awgrymodd Aelod y gallai addysgu o bell gynorthwyo disgyblion ymhellach yn eu haddysg i godi eu safonau. Dywedodd y Prif Swyddog Addysg fod disgwyl i Weminarau gael eu cynnal ar ôl hanner tymor i gynorthwyo disgyblion gyda Bioleg, Cemeg a Ffiseg, gwerau tri chwarter awr oedd y rhain. Byddai hefyd yn cael ei recordio er mwyn i'r disgybl ailedrych ar y wers pe na bai'n glir ar bwnc penodol a drafodwyd. Awgrymwyd bod Aelodau Ffrwd Waith Safonau Gwaith Ysgol yn mynychu'r gweminarau hyn i weld y ffordd yr oedd y gwersi yn cael eu haddysgu ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yn unol â hynny. Dywedodd y Prif Swyddog y byddai'n gwirio a allai Cyngorwyr fod yn bresennol oherwydd materion diogelu, fodd bynnag, os nad oedd hyn yn bosibl, byddai recordiad y weminar ar gael iddynt.*

- *Oherwydd cyfnod y gaeaf a phosibilrwydd 'cynnydd sydyn' mewn achosion covid a fyddai digon o staff i gadw'r ysgolion ar agor, hefyd staff a oedd yn gorfod hunan-ynysu na allent fynychu ysgolion. Mewn ymateb, nododd y Prif Swyddog Addysg fod diogelwch y staff a'i ddisgyblion o'r pwys mwyaf ac os oedd staff a oedd yn ynysu yn iach, gallent gyfrannu at waith yr ysgol o bell. Roedd cynlluniau cadarn ar waith hefyd gan bob ysgol i fynd i'r afael â'r 'cynnydd sydyn' fodd bynnag, mae gan Benaethiaid y pwerau statudol i gau ysgol am resymau iechyd a diogelwch megis lefelau staffio annigonol.*
- *Yn dilyn y cyhoeddiad yn yr Alban na fyddai disgyblion yn sefyll arholiadau'r flwyddyn nesaf dywedwyd bod disgwyl i gyhoeddiad ar gyfer Cymru ym mis Tachwedd. Roedd disgwyl i gyfarfodydd gael eu cynnal gyda Llywodraeth Cymru i drafod arholiadau yng Nghymru. Byddai mewnbyn gan yr holl Brif Swyddogion Addysg a chynrychiolydd Penaethiaid o bob Sir yn cael ei ystyried.*
- *Byddai diweddariad ar effaith Covid yn ein hysgolion yn cael ei roi ym mhob cyfarfod yn y dyfodol*
- *Roedd nifer o ddisgyblion wedi dadgofrestru o'r ysgol er mwyn osgoi peidio â chael dirwyon am ddiffyg presenoldeb gan nad oedd y rhieni'n teimlo'n gyffyrddus â'u plant yn mynychu'r ysgol, er bod yr holl weithdrefnau diogelu ar waith. Hefyd roedd nifer o blant a oedd yn cael addysg gartref wedi cofrestru i fynychu'r ysgol cyn y cyfnod clo, roeddent i gyd wedi dychwelyd i'r ysgol.*

Ystyriwyd Cynnydd Blwyddyn 3 yr Aseiad Digonolrwydd Gofal Plant. Trafodwyd y naw argymhelliad a gafwyd yn yr adroddiad gan y Pwyllgor.

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

Gwnaeth y Pwyllgor argymhelliad i'r Cabinet y dylid anfon llythyr at Lywodraeth Cymru yn gofyn iddynt ystyried bod grantiau sy'n targedu'r ystod oedran 0-7 yn cael eu darparu trwy'r Grant Cynnal Refeniw ac nid cyllid grant (cynlluniau Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf), roedd hyn oherwydd yr anhawster wrth gynllunio ymlaen llaw ar gyfer y ddarpariaeth hon dros strategaeth 3 blynedd; hefyd bod yr arian hwn yn cael ei glustnodi fel darpariaeth gofal plant arall yng nghyllideb gofal plant y Grant Cynnal Refeniw. Dywedodd y Cabinet na allent gefnogi argymhelliad y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu gan fod y grant ar gyfer pedair sir ac na ellir ei roi yn y Grant Cynnal Refeniw.

Ystyriwyd y Polisi Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol. Dywedwyd bod y cludiant rhwng y Cartref a'r ysgol ar gyfer disgyblion â hawl yn yr Awdurdod Lleol yn cael ei drefnu gyda gweithredwyr cludiant lleol. Adolygwyd a mabwysiadwyd y Polisi Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol ym mis Medi 2016, pan gynhwyswyd cyflwyno tâl £390 y flwyddyn ar gyfer darpariaeth sedd sbâr ar gyfer disgyblion heb hawl. Ers cyflwyno'r tâl ym mis Medi 2018, cafwyd oddeutu £7,000 o incwm y flwyddyn.

Oherwydd y bwriad i gyflwyno Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus 2000, roedd angen diwygio'r polisi cludiant rhwng y cartref a'r ysgol a dileu'r cyfeiriad at y ddarpariaeth sedd sbâr a'r tâl amdani. Cafodd y broses o ran cyflwyno apêl pan wrthodwyd cludiant ei diweddarau hefyd a'i gwneud yn glir i adlewyrchu Cyfansoddiad yr Awdurdod Lleol o ran y panel apêl cludiant.

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

Cytunodd y Pwyllgor i argymhell i'r Cabinet gymeradwyo'r polisi.

Gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried y gyllideb ddrafft sy'n cael ei hargymell gan y Cabinet ar gyfer 2021/2022, ynghyd â Chynigion ar gyfer Lleihau Costau/Arbedion i'r Gyllideb 2021/22, a newidiadau arfaethedig i Ffioedd a Chostau'r Cyngor 2021/22 sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu.

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

Yn ystod trafodaethau, codwyd y pwyntiau canlynol:

- *Codwyd pryderon y byddai rhieni'n tynnu eu plant oddi ar gofrestr yr ysgol oherwydd eu pryderon ynghylch covid-19. Cadarnhawyd bod yr adran yn gweithio'n agos gydag ysgolion a rhieni i sicrhau bod plant yn parhau ar y gofrestr i gynnal cysylltiadau lles os yw rhieni'n dewis i'w plant beidio â dychwelyd i'r ysgol ar unwaith.*
- *Holodd yr aelodau a fyddai partneriaeth newydd ar ôl ERW yn cael ei ffurfio a fyddai angen cyllid. Dywedodd swyddogion nad oedd dim cynlluniau ffurfiol yn cael eu trafod ar hyn o bryd. Bydd papur ar Wella Ysgolion trwy Weithio Rhanbarthol: adolygiad o effaith ERW ar wella ysgolion a gwerth am arian yn cael ei ystyried gan y pwyllgor craffu yn y cyfarfod nesaf.*
- *Awgrymodd Aelod y dylid codi Treth y Cyngor i fynd i'r afael â'r pwysau o ran costau yng nghyllideb ddirprwyedig ysgolion.*
- *Cadarnhaodd swyddogion y byddai ymgynghoriad ar gau'r ffreuturiau yng Nghanolfan Rheidol a Phenmorfa.*
- *Awgrymwyd bod angen cynnal adolygiad o sut mae addysg yn cael ei darparu ledled y Sir gan gynnwys darpariaeth chweched dosbarth.*
- *Canmolodd yr Aelodau Wasanaethau Ysgolion am arolygiad diweddar Estyn.*

Yn dilyn ystyriaeth, cytunodd fwyafrif yr Aelodau i argymell bod y Cabinet yn:

- 1. CYMERADWYO cyllideb y meysydd gwasanaeth o fewn cylch gwaith y Pwyllgor fel uchod; a;*
- 2. CYMERADWYO'r Ffioedd a Chostau arfaethedig fel yr amlinellir yn Atodiad 2 yr adroddiad, (tudalennau 45-51 o 51)*
- 3. CYMERADWYO'r cynlluniau Cyfalaf perthnasol yn y Rhaglen Gyfalaf arfaethedig*

Ystyriwyd Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Ysgolion ar Wella Ysgolion trwy Weithio Rhanbarthol: adolygiad o effaith ERW ar wella ysgolion a gwerth am arian. Roedd yr adroddiad wedi'i gyflwyno er mwyn rhoi gwybod i'r pwyllgor am y Cyngor yn penderfynu'i safbwynt ar Gonsortiw ERW, yr angen i gydymffurfio â Chytundeb Cyfreithiol ERW, a'r hysbysiad tynnu'n ôl a gyhoeddwyd gan yr Arweinydd ar 17.3.2020 er mwyn cwblhau proses tynnu'n ôl o Gonsortiw ERW.

Cyflwynwyd y wybodaeth ganlynol a arweiniodd at y cytundeb i dynnu'n ôl o Gonsortiw ERW i'r Pwyllgor:-

- Cefndir
- Sefyllfa Bresennol
- Cefnogaeth Erw
- Gwerth am Arian
- Peryglon Tynnu'n Ôl

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Cabinet nodi:

Tudalen 71


(i) bod yr hysbysiad tynnu'n ôl a gyhoeddwyd gan yr Arweinydd ar 17.3.20 yn sefyll fel y'i cyflwynwyd,

(ii) yn cytuno y bydd y Cyngor yn tynnu'n ôl o Gonsortiw ERW ar 31ain Mawrth 2021; a

(iii) Os cytunwyd ar ii) uchod, bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Addysg/Swyddog Arweiniol Corfforaethol-Ysgolion a Diwylliant mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor ac Aelod y Cabinet, i gymryd yr holl gamau angenrheidiol ac, ymrwymo i'r holl gytundebau angenrheidiol, i gwblhau'r broses o dynnu'n ôl o ERW.

Ffrydiau gwaith

Mae'r ffrydiau gwaith yn cynnwys aelodau o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu ac mae'r Cadeirydd yn mynychu'r tri ac yn cyfrannu iddynt.



CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

Nid yw ffrydiau gwaith wedi cyfarfod yn ystod 2020/21 oherwydd effaith covid-19. Rhoddwyd adborth i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu o'r ffrydiau gwaith a gynhaliwyd yn ystod 2019/20.

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus

Gwnaeth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus gyfarfod 3 gwaith yn ystod y flwyddyn fwrdeistrefol 2020/2021.



Y prif faterion a drafodwyd:

Cafodd y Flaenraglen Waith ei monitro a'i diweddarau ym mhob un o gyfarfodydd rheolaidd y Pwyllgor fel eitem sefydlog ar bob agenda.

Adolygodd y Pwyllgor effaith Coronafeirws ar Economi Ceredigion. Fe wnaethant ystyried yr effaith hysbys ar hyn o bryd ar economi Ceredigion, y mesurau cymorth sydd wedi'u cyflwyno yng Ngheredigion a'r mesurau sy'n cael eu cynllunio a'u gweithredu ar hyn o bryd i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r economi.

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

Yn ystod y drafodaeth, codwyd sawl pwynt a oedd yn cynnwys y canlynol:

- i. Codwyd pryderon o ran ffigurau cynyddol diweithdra a phryder y rheini sy'n cael eu cyflogi ar hyn o bryd wrth i ffyrlo ddirwyn i ben. Bydd cau Canolfannau Gwaith yn y mwyafrif o drefi bach yn ei gwneud hi'n anodd i bobl mewn ardaloedd gwledig sydd wedi colli eu gwaith fforddio costau teithio i'w Canolfan Waith agosaf. Nodwyd, wrth i'r cynllun cadw swyddi ddod i rym, fod yr amodau'n wahanol i ffyrlo.*
- ii. Nodwyd y byddai gweithio gartref yn dod yn norm ac yn gyffredin yn y dyfodol felly ni fyddai angen i weithwyr o reidrwydd fyw yn yr ardal lle maent yn gweithio.*
- iii. Mae angen mwy o waith o ran hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth o ofalu fel proffesiwn medrus.*
- iv. Codwyd pryderon mewn perthynas â phlant sy'n byw mewn tlodi.*
- v. Nodwyd yr angen am welliannau i seilwaith y Sir ynghyd ag angen am strategaeth gref i gael buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru.*

Tudalen 73

- vi. Byddai'r angen am dai fforddiadwy yn y sir hyd yn oed yn fwy bellach gan fod prisiau tai wedi codi'n sylweddol dros yr ychydig fisoedd diwethaf.
- vii. Mae angen mawr hefyd am strategaeth i gynorthwyo trefi bach, gwledig.
- viii. Ymchwilir i'r strategaeth ar gyfer asedau'r Cyngor. Ceir cynnig defnyddio eiddo gwag i bobl sy'n dymuno cychwyn neu ehangu eu busnesau.
- ix. Nodwyd cysylltedd digidol fel maes pryder mewn sawl rhan o'r Sir.

Argymhellodd y Pwyllgor i'r Cabinet:

- Bod angen strategaeth i helpu trefi bach y Sir
- Bod angen mwy o waith i wella cysylltedd digidol
- Bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar helpu tlodi gwledig
- Bod mwy o gefnogaeth yn cael ei rhoi i bobl ifanc sefydlu busnesau yn ystod yr amseroedd hyn

Bod y Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad ar y gyllideb ddrafft sy'n cael ei hargymell gan y Cabinet ar gyfer 2021/2022, ynghyd â Chynigion ar gyfer Lleihau Costau/Arbedion i'r Gyllideb 2021/22, a newidiadau arfaethedig i Ffioedd a Chostau'r Cyngor 2021/22 sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus.

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

Yn ystod trafodaethau, codwyd y pwyntiau canlynol:

- Rhoddwyd esboniad na fyddai'r gwasanaeth bwcabws yn cael ei effeithio oherwydd llai o gyfraniad i bwcabws.
- Holodd yr aelodau ynghylch yr effaith y byddai Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 yn ei chael ar ein Ffermydd Sirol ac a fyddai'r Cyngor neu'r tenant yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb ariannol pe bai angen gwelliannau. Atebodd swyddogion drwy ddweud y byddai'n rhaid edrych ar bob les yn unigol.
- Rhoddwyd pwyslais ar roi cefnogaeth lle bo hynny'n bosibl i fusnesau newydd.
- Codwyd pryderon ynghylch nifer y materion gorfodi cynllunio ac a oedd un swyddog gorfodi cynllunio yn ddigon. Rhoddwyd esboniad bod swyddogion cynllunio bellach yn ymgymryd â rôl orfodi.
- Dylid ystyried opsiwn llogi Penmorfa fel canolfan gynadledda ar gyfer digwyddiadau;
- Opsiwn llogi lleoedd gwaith yn adeiladau ein swyddfeydd i bobl nad ydynt yn cael eu cyflogi gan y Cyngor;
- Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i ystyried system hybrid o fynychu cyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol lle bydd gan Gynghorwyr opsiwn mynychu o bell;
- Cynigiodd y Cynghorydd Evans fod y ffioedd arfaethedig a restrir ar dudalen 33 mewn perthynas ag arhosiad Dwy Awr Maes Parcio Ffordd y Gaer (cynnydd arfaethedig o £1.90 i £2) yn cael eu gostwng i £1.60; a bod parcio Diwrnod Cyfan yn Aberaeron (cynnydd arfaethedig o £3 i £3.10) yn cael ei gynyddu i £3.50.

Yn dilyn ystyriaeth, cytunodd fwyafrif yr Aelodau i argymhell bod y Cabinet yn:

1. CYMERADWYO cyllideb y meysydd gwasanaeth o fewn cylch gwaith y Pwyllgor fel uchod; a;

2. *CYMERADWYO'r Ffioedd a Chostau arfaethedig fel yr amlinellir yn Atodiad 3 yr adroddiad, (tudalennau 17-44 o 51) yn amodol ar ystyried yr argymhelliad a ganlyn:*
 - *Bod y ffioedd arfaethedig a restrir ar dudalen 33 mewn perthynas ag arhosiad Dwy Awr Maes Parcio Ffordd y Gaer (cynnydd arfaethedig o £1.90 i £2) yn cael eu gostwng i £1.60; a bod parcio Diwrnod Cyfan yn Aberaeron (cynnydd arfaethedig o £3 i £3.10) yn cael ei gynyddu i £3.50.*
3. *CYMERADWYO'r cynlluniau Cyfalaf perthnasol yn y Rhaglen Gyfalaf arfaethedig.*

Cymeradwyodd y Cabinet y newidiadau mewn Ffioedd a Chostau mewn perthynas ag arhosiad Dwy Awr Maes Parcio Ffordd y Gaer (cynnydd arfaethedig o £1.90 i £2) yn cael eu gostwng i £1.80; a bod parcio Diwrnod Cyfan yn Aberaeron (cynnydd arfaethedig o £3 i £3.10) yn cael ei gynyddu i £3.60.

Cafodd y Pwyllgor adroddiad ar yr ymateb i'r ymgynghoriad ar ddogfen Strategaeth Economaidd Ceredigion 'Hybu Economi Ceredigion - Strategaeth ar gyfer Gweithredu 2020-35' er mwyn i'r Pwyllgor adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Strategaeth ac ystyried argymhellion i'r Cabinet wrth iddo baratoi i fabwysiadu'r Strategaeth.

Pwrpas y strategaeth yw rhoi sail i ddull Cyngor Sir Ceredigion o weithredu a'i weithredoedd i gefnogi twf economi Ceredigion dros y 15 mlynedd nesaf. Bydd y cynllun yn fframwaith ar gyfer cefnogi economi Ceredigion - yn canolbwyntio ar y meysydd sydd o fewn dylanwad Cyngor Sir Ceredigion i wneud gwahaniaeth i'r economi – h.y. sut mae'n defnyddio ei asedau cyfalaf, asedau dynol ac asedau refeniw i gael effaith gadarnhaol ar yr economi yng Ngheredigion dros y cyfnod hwnnw o amser. Er bod ei ffocws ar y gweithgareddau sy'n cael eu rheoli gan y Cyngor Sir, bydd hefyd yn ymdrin â'i rôl allweddol mewn amrywiol bartneriaethau a fydd hefyd yn helpu i yrru economi Ceredigion. Bydd yn rhoi sail i weithredu ar lefel gwasanaeth a chynllunio busnes yn y dyfodol.

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Cabinet ystyried pryderon y Pwyllgor y bydd datblygu yn gyfyngedig mewn rhai ardaloedd yng Ngheredigion oherwydd penderfyniad Cyfoeth Naturiol Cymru o ran datblygiadau newydd ar hyd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol oherwydd y potensial i gynyddu lefelau ffosffad o fewn yr Ardal Cadwraeth Arbennig.

Dywedwyd am yr angen i ddatblygu Cynllun Gweithredu clefyd (Chalara) coed ynn wrth y Pwyllgor Craffu ar 5^{ed} Tachwedd 2019. Mae angen y Cynllun Gweithredu clefyd (Chalara) coed ynn er mwyn rhoi mecanwaith i'r Cyngor reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â chlefyd (Chalara) coed ynn, a thrwy hynny leihau effeithiau o ran iechyd a diogelwch, o safbwynt economaidd ac o safbwynt amgylcheddol ac osgoi'r risg o ddifrod i enw da'r Cyngor.

Nodwyd bod delio â chlefyd (Chalara) coed ynn yn flaenoriaeth iechyd a diogelwch sylweddol i'r cyngor. Mae trafodaethau o ran costau yn parhau gyda'r gwasanaeth cyllid ond nid yw'r costau'n rhan o bwysau cyllidebol hyd yn hyn. Nododd llawer o aelodau y dylid trafod costiadau o ran prynu'r peiriannau perthnasol sy'n angenrheidiol ac ymgymryd â'r gwaith yn fewnol ynghyd â defnyddio coed a dorrwyd ar dir sy'n eiddo

i'r cyngor at ddibenion biomas. Mae pren ynn yr effeithir arno yn mynd yn frau iawn felly nid yw'n addas ar gyfer y diwydiant gwaith coed.

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

Cytunodd y Pwyllgor i gymeradwyo'r cynllun gweithredu o ran clefyd (Chalara) coed ynn a sicrhau bod adnoddau, dynol ac ariannol, yn cael eu sicrhau ar gyfer ei weithredu a'i gyflawni'n llwyddiannus. Mae hyn er mwyn rhoi mecanwaith i'r Cyngor reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â chlefyd (Chalara) coed ynn, a thrwy hynny leihau effeithiau o ran iechyd a diogelwch, o safbwynt economaidd ac o safbwynt amgylcheddol ac osgoi'r risg o ddifrod i enw da'r Cyngor. Byddai'r Pwyllgor yn parhau i fonitro'r sefyllfa yn y Sir.

Cafodd y Pwyllgor adroddiad i'w hysbysu o'r data diweddaraf sydd ar gael mewn perthynas â Llety Gwyliau ac Ail Gartrefi ledled y sir er mwyn mynd ar drywydd y cynnig i'r Cyngor ac ymchwilio ymhellach i nifer, lledaeniad ac effaith ail gartrefi ar sir Ceredigion. Mae gan Geredigion gyfraddau is o berchnogaeth ail gartrefi a llety gwyliau (5.91%) na'n hawdurdodau arfordirol cyfagos Gwynedd 10.77% a Sir Benfro 9.15% ond mae gennym gyfraddau uwch o gymharu ag awdurdodau nad ydynt yn rhai arfordirol. Mae gan Geredigion y bedwaredd gyfradd uchaf o lety gwyliau a pherchnogaeth ail gartrefi awdurdodau lleol yng Nghymru.

CANLYNIAD A/NEU EFFAITH

Cytunodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus i gymeradwyo'r Cynnig a gynigiwyd i'r Cyngor:

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

- 1. ychwanegu cymal newydd i'r Ddeddf Gynllunio fel ei bod yn orfodol gwneud cais cynllunio cyn cael yr hawl i newid cartref preswyl yn gartref gwyliau neu'n llety gwyliau*
- 2. addasu fframwaith y polisi i ganiatáu pennu trothwyon o ran uchafswm niferoedd y cartrefi gwyliau mewn ardal benodol*
- 3. ei gwneud yn orfodol i berchnogion ail gartrefi ofyn am ganiatâd cynllunio cyn newid ail gartref yn fusnes gwyliau neu'n fusnes AirBnB*

Cytunodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus hefyd i argymhell i'r Cyngor y codir cynnydd 100% ar dreth y cyngor ar gartrefi gwyliau yn y sir.

Ystyriodd y Cyngor yr argymhellion ochr yn ochr â'r cynnig a phenderfynodd:

- 1. Cytuno ar y cynnig fel y nodwyd:*
- 2. nodi'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a'r Pwyllgor Iaith; a*
- 3. bod Swyddogion yn paratoi adroddiad i'w ystyried gan y Cyngor ynghylch argymhelliad y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus y codir cynnydd 100% ar y dreth y cyngor ar gartrefi gwyliau yn y Sir.*

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol

Cyfarfu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ddwywaith yn ystod blwyddyn fwrdeistrefol 2020/2021.



Y prif faterion a drafodwyd

Swyddogaeth y Pwyllgor hwn yw cyflawni holl swyddogaethau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn ymwneud â Gwasanaethau Corfforaethol (gan gynnwys adnoddau dynol, gwasanaethau cwsmeriaid, TGCh, rheoli'r trysorlys a gwasanaethau cyfreithiol), cynhwysiant/cyfle cyfartal, argyfyngau sifil, parhad busnes, rheoli ystadau a chofrestru sifil.



Cafodd Adroddiad Blynyddol y Cyngor ar Ganmoliaeth, Cwynion a'r Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a ddaeth i law yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2019 hyd 31 Mawrth 2020 ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 25 Tachwedd.

Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn i'r Pwyllgor gael trosolwg cynhwysfawr o'r ganmoliaeth, y cwynion a'r ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniodd yr Awdurdod yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn darparu gwybodaeth am gwynion a gafodd eu cyfeirio at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystod y cyfnod hwn.

Rhoddodd y Rheolwr Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth gyflwyniad cefndirol llawn gwybodaeth i'r Aelodau am y gwasanaeth a'r sefyllfa bresennol. Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Cyngor Llawn ar 10 Rhagfyr 2020 er gwybodaeth i'r Aelodau i gyd.

CANLYNIAD / EFFAITH

Canmolodd yr Aelodau'r adroddiad a'r gweithdrefnau effeithiol a oedd ar waith gan yr Awdurdod er mwyn ymdrin â chwynion. Dyma'r adroddiad cyntaf mewn bron i ddegawd lle na ddechreuodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ddim ymchwiliadau ac na chyflwynodd adroddiadau mewn perthynas â chwynion a wnaed yn erbyn y Cyngor. Sicrhawyd yr Aelodau hefyd fod y systemau angenrheidiol ar waith i gofnodi, dadansoddi ac adrodd yn ogystal ag i ddysgu gwersi o gwynion.

Roedd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol wedi bod yn monitro cwynion gan fod hynny'n eitem a gofnodwyd yn flaenorol ar Gofrestr Risg yr Awdurdod.

Yn yr un cyfarfod, ystyriodd Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol adroddiad diweddar ar Raglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru.



CANLYNIAD / EFFAITH

Mae'r tîm Dysgu a Datblygu, sy'n rhan o'r gwasanaeth Pobl a Threfniadaeth, yn gweithio gyda Chyngorau Sir Caerfyrddin a Phenfro i gyflwyno cais rhanbarthol i Ofal Cymdeithasol Cymru am grant Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru. Pwrpas y grant yw ariannu'r ddarpariaeth hyfforddiant ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol yn fewnol ac yn allanol. Mae meini prawf yn gysylltiedig â'r grant sy'n datgan sut y gellir defnyddio'r cyllid ac mae pob un o'r tri awdurdod yn derbyn swm penodedig.

Mae'r gwaith o lywodraethu a monitro'r grant yn cynnwys llunio'r adroddiadau rhanbarthol canlynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru:

- Cais am grant
- Adroddiad canol-blwyddyn
- Adroddiad diwedd blwyddyn

Caiff y rhain eu cymeradwyo a'u hawdurdodi gan y tri Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'u cyflwyno i Fwrdd Gweithlu Gorllewin Cymru. Mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn ymgymryd ag archwiliad blynyddol. Roedd yr archwiliadau blaenorol ar gyfer 18/19 a 19/20 ill dau yn "lân heb unrhyw amodau".

O gyfanswm gwariant y Rhaglen o £252,576 ar gyfer Awdurdod Lleol Ceredigion, defnyddiwyd £109,393 i gefnogi hyfforddiant, £38,730 ar gyfer cymwysterau ffurfiol a £104,453 ar gyflogau gan gynnwys hyfforddi swyddogion, gwaith gweinyddu a rheoli.

Ym Mawrth 2020, oherwydd Covid, cafodd pob hyfforddiant wyneb yn wyneb ei atal dros dro. Ar ôl hynny, ceisiwyd cael cymeradwyaeth y Drefn Reoli Aur i gymeradwyo'r hyfforddiant wyneb yn wyneb hanfodol ar godi a chario, sy'n angenrheidiol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol rheng flaen. Fe'i darparwyd yn ddiogel yn unol â'r gweithdrefnau a'r canllawiau ar Covid-19.

Datblygwyd nifer o raglenni e-ddysgu i gefnogi gweithwyr rheng flaen mewnol ac allanol a'r rhai a adleolwyd gan gynnwys 'Cyflwyniad i Ofal Cymdeithasol a Gofal Personol' ac 'Atal a Rheoli Heintiau'.

Roedd yr Aelodau yn falch iawn o ddeall bod y tîm dysgu a datblygu wedi derbyn adborth cadarnhaol gan ddarparwyr mewnol ac allanol ar y gefnogaeth y mae Cyngor Ceredigion wedi'i darparu i'r sector dros y cyfnod anodd hwn.

Cytunwyd y byddai'r Aelodau yn cael y diweddaraf am unrhyw gynnydd yn y dyfodol.

Yn yr un cyfarfod rhoddwyd ystyriaeth i'r Fframwaith Polisi Ardrethi Annomestig Drafft ar gyfer Rhyddhad Ardrethi Gorfodol, Dewisol a Chaledi, cyn gwneud argymhelliad i'r Cabinet.

CANLYNIAD / EFFAITH

Ym mis Tachwedd 2018, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru (yn sgil archwiliad o Gyfraniadau Terfynol Ardrethi Annomestig 2017/18) lythyr cymhwyso am nad oedd y Polisi Rhyddhad Ardrethi Dewisol wedi cael ei ddiweddararu ers mis Medi 2007. Cytunodd yr Aelodau fod y polisi diwygiedig yn fanylach a'i fod yn sicrhau fod y broses benderfynu'n eglur ac yn dryloyw i bawb. Yn dilyn trafodaeth, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i argymhell bod y Cabinet yn:

- *cymeradwyo'r Fframwaith drafft Polisi Ardrethi Annomestig ar gyfer Rhyddhad Ardrethi Gorfodol, Dewisol a Chaledi.*

Yn yr un cyfarfod cafodd yr Aelodau adroddiad ar effaith y pandemig ar wasanaethau TGCh y Cyngor, gan gynnwys Gwasanaeth Cwsmeriaid Clic.

CANLYNIAD / EFFAITH

Mae'r gwasanaeth TGCh a'r Gwasanaeth Cwsmeriaid ill dau wedi cynnal gwasanaeth llawn, a'r rhan fwyaf o'r staff yn gweithio o gartref. Rhestrir y meysydd gwaith isod:

Gwaith sy'n benodol i COVID

- Rhwydwaith Preifat Rhithwir (VPN) newydd
- Tracio ac Orlhain
- Gweinyddu Gofal Plant brys
- 2362 o Grantiau Busnes y Cyfnod Clo Cenedlaethol - £28,415,275
- Grantiau i Weithwyr Llawrydd
- Cyfnod Atal Byr – 1070 cais am £2,844,500 ar hyn o bryd
- Cardiau Gofalwyr
- Ceisiadau am Dalebau Prydau Ysgol am Ddim
- Cefnogi Gwarchod



Estynnodd Aelodau'r Pwyllgor eu llongyfarchiadau i'r tîm am eu cyfraniad gwerthfawr dros y 9 mis blaenorol ers i'r pandemig ddechrau ac yn enwedig eu gwaith pwysig o gefnogi adrannau a'r gymuned ehangach.

CANLYNIAD / EFFAITH

Yn ystod 2019/2020 sefydlwyd tri grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried rhai o brif feysydd gwaith y gwasanaeth, yn enwedig y rheini nad ymchwiliwyd iddynt ers cryn amser. Roedd yr Aelodau'n cytuno bod ystâd yr Awdurdod yn ased gwerthfawr, felly byddent yn chwilio am enghreifftiau o arferion da neu feysydd i'w gwella gan roi argymhellion i'r Cabinet pan fyddai'r gwaith wedi'i gwblhau.

Yn sgil y pandemig, bu'n rhaid rhoi'r maes gwaith hwn o'r neilltu am y tro. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae rhannau o'r gwaith hwn yn dal i fynd rhagddynt a byddwn yn cynnwys y casgliadau yn Adroddiad Blynyddol 2021/2022.

Cytunwyd ar enwau a phwrpas/meysydd gwaith y grwpiau gorchwyl a gorffen, sef:

Tudalen 79

1. Trafodion:

- Ystyried trefniadau presennol y gwasanaeth i sicrhau'r incwm mwyaf posibl pan fydd yn gwerthu ac yn prydlesu asedau;
- Ystyried y trefniadau presennol pan fydd yn prynu tir neu adeiladau, ac ystyried cadernid y broses/prosesau.
 - Gwaredu asedau (tir ac adeiladau)
 - Yr Ystâd Gorfforaethol
 - Prynu asedau

CANLYNIAD / EFFAITH

Mae'r grwpiau Gorchwyl a Gorffen wedi gwneud cyfanswm o 23 o awgrymiadau/argymhellion hyd yma, ac mae'r Aelod Cabinet a'r Swyddogion wedi derbyn llawer ohonynt a'u rhoi ar waith yn sgil cyfarfodydd y grwpiau gorchwyl a gorffen. Cyflwynir adroddiad i'r Cabinet maes o law pan fydd gwasanaethau'n aildddechrau ar ôl pandemig y coronafeirws.

Fel y soniwyd eisoes, mae gan y Grŵp Adnoddau, Ffermydd Sirol a Galwadau Newydd fwy o waith i'w wneud o hyd, yn enwedig o ran y ffermydd sirol, ar ôl i fesurau Covid-19 lacio digon.

Hefyd adroddwyd ar Gysylltedd Digidol i'r Pwyllgor. Cafodd yr Aelodau wybodaeth am fentrau a phrosiectau yr oedd y Cyngor yn gweithio arnynt i gynnal lefelau'r cysylltedd digidol ledled y Sir.

CANLYNIAD / EFFAITH

Cytunodd yr Aelodau eu bod yn deall yn well, yn dilyn y drafodaeth, y gwaith sy'n cael ei wneud gan y Cyngor o ran gwella cysylltedd digidol ar draws y sir. Cytunwyd y byddai rhagor o adroddiadau yn cael eu cyflwyno mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

Ar 19 Chwefror 2021, derbyniodd yr Aelodau adroddiad ar gyllideb ddrafft ar gyfer 2021/2022, fel a ganlyn:

- Ystyried y gyllideb a argymhellir gan y Cabinet ar gyfer 2021/22;
- Ystyried y cynigion ar gyfer lleihau costau/ gwneud arbedion i'r gyllideb 2021/2022;
- Ystyried y newidiadau a gynigir o ran Ffioedd a Chostau 2021/22.

CANLYNIAD / EFFAITH

Cododd yr Aelodau lawer o sylwadau/pryderon ac ymatebodd Aelodau Gweithredol a Swyddogion iddynt. Yn dilyn trafodaeth hir, gwnaed yr argymhellion canlynol i'r Cabinet:

- *Bod Aelodau'r Pwyllgor yn argymhell bod Arweinydd y Cyngor a'r Cabinet yn adolygu eu penderfyniad ar y sail y byddai unrhyw ddiwygiadau i'r Grant Cynnal Refeniw (RSG) dros dro yn cael eu hamsugno gan Gyllideb Refeniw Gorfforaethol y Grŵp Arweiniol; a*
- *Bod Aelodau'r Pwyllgor yn argymhell bod Arweinydd y Cyngor a'r Cabinet yn rhoi ystyriaeth bellach i ddyraniad unrhyw gynnydd posibl yn y Grant Cynnal Refeniw.*

Nododd a chytunodd y Weithrediaeth i hyn yng nghyfarfod y Cabinet ar 23 Chwefror 2021.

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach

Cyfarfu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach ar dri achlysur yn ystod 2020/2021.



Y prif faterion a drafodwyd

Daeth y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer gwasanaethau arbenigol Porth Cynnal i gyfarfodydd y Pwyllgor yn rheolaidd i gyflwyno Adroddiadau Rheoli Perfformiad chwarterol y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol sy'n cynnwys safonau cenedlaethol a lleol, a'r targedau a ddefnyddir i fesur canlyniadau plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal. Mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a yw hawliau dynol y plentyn/person ifanc wedi'u tramgwyddo mewn unrhyw ffordd ac, os felly, mae'n ystyried atgyfeirio'r achos at CAFCASS Cymru.

CANLYNIAD / EFFAITH

Cafodd pwysigrwydd y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol ei gydnabod, ac roedd yr Aelodau'n falch o gael sicrwydd bod anghenion plant sy'n derbyn gofal yn cael eu bodloni ac yn gwella'n barhaus. Bu i'r Aelodau longyfarch staff y gwasanaeth, a bu iddynt ddiolch iddynt am eu hymroddiad a'u gwaith caled.

Roedd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer gwasanaethau arbenigol Porth Cynnal wedi cyflwyno adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ar ôl i AGC ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gynnal arolygiad o Gyngor Sir Ceredigion a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda mewn perthynas â Chymorth Cynnar, Gofal a Chefnogeth a Threfniadau Trosglwyddo ar gyfer Plant Anabl.

CANLYNIAD / EFFAITH

Mae'r adroddiad yn nodi nifer o gryfderau o fewn y gwasanaeth ac mae hefyd yn cydnabod y gwaith trawsnewid sy'n mynd rhagddo i fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella a gynhwysir yn yr adroddiad. Datblygwyd Cynllun Gweithredu a gymeradwywyd gan y Grŵp Arweiniol i adeiladu ar gryfderau a sicrhau bod y meysydd lle mae angen gwella yn derbyn y sylw angenrheidiol.

Tudalen 81

Mae'r themâu gwella wedi'u grwpio fel a ganlyn:

- 1. Ansawdd Asesu, Cynllunio Gofal a Chofnodi;*
- 2. Comisiynu a Darparu Gwasanaethau;*
- 3. Goruchwyllo Rheoli: Cryfhau'r swyddogaethau Sicrwydd Ansawdd.*

Bydd cynnydd y Cynllun Gweithredu yn cael ei werthuso yn gyson trwy broses gwarantu ansawdd mewn Cyfarfodydd Rheolwyr Gwasanaeth a gan Grŵp Monitro sy'n cynnwys cynrychiolaeth ar draws Porth Ceredigion a Swyddogion Corfforaethol eraill perthnasol o'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd.

Mewn adroddiad i'r Cabinet ar 2 Rhagfyr 2020, cytunodd y Pwyllgor i argymhell y canlynol:

- Cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu, ar ôl ystyried y pwyntiau canlynol:*
 - mae'r adroddiad yn ystyried cryfderau a gwendidau 'lefel uchel'. Mae pwyslais ar wendidau a'r camau unioni. Mae Aelodau'r Pwyllgor yn argymhell bod y cynllun gweithredu hefyd yn rhoi pwyslais ar y cryfderau a nodwyd, er mwyn parhau i wella;*
 - mae angen adlewyrchu argyfwng presennol Covid-19 yn yr amserlen a nodir yn y cynllun gweithredu. Mynegwyd pryderon ynghylch a oes modd cyflawni'r amserlenni o ystyried y sefyllfa sydd ohoni;*
 - mae pwynt 1.1 ar dudalen 7 yr adroddiad yn nodi pryderon ynghylch adnoddau. Roedd hyn yn peri pryder i Aelodau'r Pwyllgor sy'n gofyn am adroddiad pellach ar y mater hwn a fydd yn cynnwys gwybodaeth am adnoddau ariannol a staffio;*
 - bod adroddiad ar gynnydd y Cynllun Gweithredu yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ymhen chwe mis.*

Cyflwynodd y Rheolwr Corfforaethol: Porth Cymorth Cynnar adroddiad ar gyflawniadau Uned y Gofalwyr a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y targedau a'r amcanion y cytunwyd arnynt ar gyfer 2019-2020.



Mae'r adroddiad yn nodi fod Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu'r gwasanaeth gorau posib gyda phwyslais ar ganlyniadau, er mwyn gwella bywydau Gofalwyr ac er mwyn parhau i wella cymorth, gwasanaethau a chydabyddiaeth Gofalwyr yng Ngheredigion. Mae'r Ddeddf yn darparu diffiniad newydd o ofalwr fel "person sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl". Mae hyn yn dileu'r gofyniad bod yn rhaid i ofalwyr ddarparu "swm sylweddol o ofal yn rheolaidd".

Cyflwynodd y Rheolwr Corfforaethol adroddiad ar 2019/20 gan adlewyrchu pedwaredd flwyddyn cyfnod pontio Llywodraeth Cymru rhwng Mesur Strategaethau Gwybodaeth ac Ymgynghori ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

CANLYNIAD / EFFAITH

Yn llythyr Llywodraeth Cymru, dyddiedig 14 Mawrth 2018, maen nhw'n nodi eu disgwyliad bod lechyd, Awdurdodau Lleol a'r Trydydd Sector yn cydweithio mewn partneriaeth i gefnogi gofalwyr o dan y Ddeddf a hynny drwy:

- *Helpu i fyw yn ogystal â gofalu – darparu cyfleoedd i ofalwr gael seibiannau rhesymol o'u rôl gofalu er mwyn iddynt allu parhau i ofalu a chael bywyd eu hunain y tu hwnt i ofalu;*
- *Adnabod a chydabod Gofalwyr – gwella cydnabyddiaeth Gofalwyr o'u rôl a sicrhau bod y cymorth angenrheidiol ar gael iddynt;*
- *Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth – bod Gofalwyr yn derbyn cyngor priodol ble bynnag a phryd bynnag y mae angen hynny arnynt.*

Mae Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru wedi derbyn yr adroddiad ac yn unol â chyfarwydddeb adrodd Llywodraeth Cymru, cyflwynwyd y ddogfen hon i Lywodraeth Cymru ac fe'i derbyniwyd.

Estynnodd y Cadeirydd ei ddiolch i'r Rheolwr Corfforaethol a thîm y Gofalwyr am barhau i wneud gwaith rhagorol. Ar ôl trafod, cytunodd y Pwyllgor i nodi adroddiad Adroddiad Blynyddol Uned y Gofalwyr i'r gwasanaethau cymdeithasol 2019-20.

Ar 18 Chwefror 2021, derbyniodd yr Aelodau adroddiad ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2021-22 er mwyn:

- Ystyried y gyllideb a oedd yn cael ei hargymell gan y Cabinet ar gyfer 2021/2022;
- Ystyried y cynigion ar gyfer Lleihau Costau/Arbedion i'r Gyllideb 2021/22, ac;
- Ystyried y newidiadau arfaethedig i Ffioedd a Chostau'r Cyngor 2021/22.

CANLYNIAD / EFFAITH

Yn dilyn ystyriaeth, cytunodd yr Aelodau i argymhell bod y Cabinet yn:

1. **CYMERADWYO** cyllidebau perthnasol y maes gwasanaeth o fewn cylch gwaith y Pwyllgor. Cyflwynwyd dau opsiwn o ran arbedion i Aelodau'r Pwyllgor i'w hystyried ar gyfer y Gwasanaeth Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd. Cytunodd mwyafrif Aelodau'r Pwyllgor i argymhell bod y Cabinet yn:
 - Cymeradwyo opsiwn b) lleihau'r wardeiniaid cymunedol o 2 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn i 1.6 cyfwerth ag amser llawn.
2. **CYMERADWYO'r** Ffioedd a Chostau arfaethedig fel yr amlinellir ym Mhapur C, Atodiad 1 papurau'r agenda, (tudalennau 1-14 o 51) yn amodol ar ystyried yr argymhelliad a ganlyn:
 - Bod y ffioedd arfaethedig a restrir ar dudalen 4 mewn perthynas â Sefydliadau Bridio Cŵn i gyd yn destun cynnydd o 6%, yn hytrach na'r codiadau canrannol arfaethedig sy'n amrywio o 4.9% i 5.1%.
3. **CYMERADWYO'r** cynlluniau Cyfalaf perthnasol yn y Rhaglen Gyfalaf arfaethedig.

Derbyniodd y Cabinet argymhelliad rhif 1, gwrthododd rif 4 a derbyniodd argymhelliad 3.

Rhoddodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd wybodaeth gefndir i adroddiad ar y diwygiadau i Reoliadau Mangreoedd Di-fwg (Cymru) 2007- y gofynion ychwanegol yn sgil yr ardaloedd awyr agored di-fwg newydd

a gyflwynwyd yn Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020. Mae angen awdurdodiad o dan y rheoliadau uchod ar y swyddogion Diogelu'r Cyhoedd er mwyn gorfodi'r ddeddfwriaeth ar ran yr Awdurdod.



CANLYNIAD / EFFAITH

Trafododd yr Aelodau'r wybodaeth yn helaeth, ac roedd y pwyntiau a godwyd yn cynnwys y canlynol:

- 1. Angen cynnwys gwaharddiad ar fêpio mewn ardaloedd dim ysmegu. Er nad yw hyn wedi'i gynnwys yn y rheoliadau ar hyn o bryd, nodwyd y gallai'r Pwyllgor argymhell gwahardd fêpio ar safleoedd a thir y Cyngor, fodd bynnag ni fyddai gan y Cyngor unrhyw bwerau gorfodi mewn perthynas â fêpio. Nodwyd nad yw Awdurdodau eraill yng Nghymru wedi cyflwyno gwaharddiad ar fêpio, ond gall Ceredigion fwrw ati os caiff hynny ei gymeradwyo.*
- 2. Mynegwyd pryderon ynglŷn â gyrwyr bysiau yn ysmegu mewn meysydd parcio wrth aros i ddisgyblion fynd ar eu bysiau. Byddai angen eglurder ynghylch a yw mannau parcio bysiau ar eiddo'r ysgol, ac os felly byddai'n ofynnol iddynt beidio ag ysmegu.*
- 3. Nodwyd bod arwyddion wedi'u prynu i'w harddangos ar safleoedd sy'n eiddo i Gyngor Sir Ceredigion.*
- 4. Cynigiwyd gweithdy i'r Cyngor gan fod y ddeddfwriaeth newydd yn effeithio ar bob ward.*
- 5. Nododd rhai aelodau y byddai'n anodd plismona'r gwaharddiad. Fodd bynnag, nodwyd bod cydymffurfiaeth wedi bod yn gadarnhaol ers i'r ddeddfwriaeth ar beidio ag ysmegu ddod i rym. Nodwyd nad oes adnoddau ychwanegol i roi'r ddeddfwriaeth newydd ar waith.*

Roedd yn ofynnol i aelodau'r pwyllgor wneud y canlynol:

- Ystyried cynnwys a goblygiadau'r adroddiad ac argymhell y cymerir camau i sicrhau bod pob un o leoliadau di-fwg yr Awdurdod Lleol yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol newydd;*
- Nodi'r gofynion gorfodi ychwanegol ar wasanaeth Diogelu'r Cyhoedd;*
- Argymhell cynnwys e-sigaréts yn rhan o'r gwaharddiad ar ysmegu mewn rhai (neu'r cyfan) o'r lleoliadau di-fwg y mae'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol amdanynt; ac argymhell unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020 yn cael eu gweithredu.*

Tudalen 84

Derbyniodd y Pwyllgor yr argymhellion hyn gydag awgrym y dylai'r Cyngor Llawn ystyried y canlynol:

- Y dylai unrhyw arwyddion di-fwg sy'n cael eu harddangos roi neges glir ei fod yn cynnwys pob math o ysmegu, gan gynnwys fêpio;
- Dylid darparu canllawiau clir i Gynghorau Cymuned a Thref a chyrff allanol sy'n prydlesu neu'n defnyddio eiddo a/neu dir sy'n eiddo i'r Cyngor; a
- Bod yr Awdurdod yn ymestyn y rheolau ysmegu ar holl safleoedd y Cyngor er mwyn cynnwys fêpio a hynny i hyrwyddo lles y cyhoedd ac i annog pobl ifanc i beidio ag ysmegu (Mynegwyd pryder fod gan fêpio wynt dymunol a bod hyn yn gallu denu pobl ifanc); a
- Bod angen i ni, fel Awdurdod, fod yn rhagweithiol wrth ystyried polisiau o'r fath er mwyn arwain drwy esiampl.

Yn dilyn pleidlais gan y Cyngor Llawn, **PENDERFYNWYD:**

1) nodi cynnwys a goblygiadau'r adroddiad a sicrhau bod pob un o leoliadau di-fwg yr Awdurdod Lleol yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol newydd.

2) gwneud penderfyniad polisi ynghylch cynnwys e-sigaréts yn rhan o'r gwaharddiad ar ysmegu mewn rhai (neu'r cyfan) o'r lleoliadau di-fwg y mae'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol amdanynt; a

3) dirprwyo dyletswyddau i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd i awdurdodi swyddogion Diogelu'r Cyhoedd i ymgymryd â gorfodi priodol yn unol â Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020



Mae Gweithgor Craffu Cyd-bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Canolbarth Cymru yn parhau i graffu ar waith Bwrdd Cyd-bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Canolbarth Cymru (Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd Canolbarth Cymru yn flaenorol). Canslwyd y cyfarfodydd yn ystod y cyfnod adrodd hwn, yn sgil pandemig Covid-19.

Fel rheol, cynhelir y cyfarfodydd y prynhawn ar ôl pob un o gyfarfodydd y Bwrdd a byddant yn ailddechrau ym mis Medi 2021. Adroddir arnynt yn y cyfnod adrodd nesaf. Mae'r Cadeirydd, Cyfarwyddwr a Rheolwr Rhaglen y Sir, a'r Cyfarwyddwyr Arweiniol yn mynd i'r cyfarfodydd hyn. Gweithgor Craffu ar y Cyd sy'n cynnwys aelodau o Gyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ceredigion (a Chyngor Sir Powys yn flaenorol) yw hwn. Daeth Cyngor Sir Powys â'i aelodaeth i ben ddiwedd 2019.

CANLYNIAD / EFFAITH

Mae hwn yn gyfle i bwysu a mesur swyddogaethau amrywiol, i graffu ar y penderfyniadau a wnaed, ac i ystyried a ellir mynd ati i wella gwasanaethau ac i wneud argymhellion i'r perwyl hwn. Cyfarfu'r Gweithgor bedair gwaith yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

Tudalen 86

Lisa Evans

Swyddog Safonau a Chraffu

Dwynwen Jones

Swyddog Trosolwg a Chraffu